

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

66/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:

22/10/2024

Gwerthusiad o Bartneriaeth Arloesi Ewrop Cymru: adroddiad terfynol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-519-2

Gwerthusiad o Bartneriaeth Arloesi Ewrop Cymru: adroddiad terfynol

Awdur: Ioan Teifi and Endaf Griffiths, Wavehill

Adroddiad Ymchwil Llawn: Teifi, I; Griffiths, E; (2024). *Gwerthusiad Partneriaeth Arloesi Ewrop Cymru: adroddiad terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 66/2024.

Ar gael fan yma: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-partneriaeth-arloesedd-ewropeaidd-yng-nghymru-adroddiad-terfynol>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: gwerthuso.ymchwil@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o ffigurau	3
1. Cyflwyniad.....	5
2. Methodoleg	7
3. Cefndir a chyd-destun	12
4. Asesiad o berfformiad cyflawni.....	10
5. Canlyniadau ar gyfer aelodau'r Grwpiau Gweithredol	31
6. Lledaenu canfyddiadau ac effeithiau ehangach	47
7. Cyflawniad yn erbyn themâu trawsbynciol ac amcanion trawsbynciol	60
8. Casgliadau ac argymhellion	64
Cyfeiriadau.....	71
Atodiad 1: Cwestiynau gwerthuso.....	71
Atodiad 2: Theori newid ar gyfer EIP Cymru.....	75
Atodiad 3: Cyflawniad EIP-AGRI yn Ewrop.....	77
Atodiad 4: Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol.....	93
Atodiad 5: Arolwg o ymgeiswyr aflwyddiannus	107
Atodiad 6: Canllaw trafod y tîm cyflawni	113
Atodiad 7: Arolwg Dilynol o Aelodau'r Grwpiau Gweithredol.....	118
Atodiad 8: Adolygiad cymharol o gyflawniad EIP-AGRI yn Lloegr	125
Atodiad 9: Proffil manwl aelodau'r Grwpiau Gweithredol	135
Atodiad 10: Trosolwg o'r prosiectau.....	146

Rhestr o dablau

Tabl 4.1: Cyflawniad yn erbyn targedau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol	10
Tabl 5.1: Twf yn Allbwn Safonol ffermwyr arweiniol, aelodau eraill y Grwpiau Gweithredol, a rhai nad ydynt yn aelodau o'r Grwpiau Gweithredol rhwng 2015 a 2021	42
Tabl 6.1: Adborth ar ddigwyddiadau lledaenu Cyswllt Ffermio, yn seiliedig ar 53 o ffurflenni a lanwyd gan unigolion a fu i saith digwyddiad rhwng diwedd 2021 a 2022 (mae pob sgôr yn gyfartaledd, yn seiliedig ar raddfa o 1 – lleiaf cadarnhaol i 6 – mwyaf cadarnhaol)	49
Tabl A1: Dadansoddiad o Grwpiau Gweithredol yn ôl thema.....	82
Tabl A2: Teipoleg ymagweddau Awdurdodau Rheoli at EIP-AGRI.....	84

Rhestr o ffigurau

Ffigur 3.1: 'Allwch chi ddisgrifio pam roeddech chi eisiau datblygu prosiect drwy EIP Cymru?'	5
Ffigur 3.2: Y themâu a restrwyd ar gyfer pob prosiect yn nata monitro EIP Cymru	6
Ffigur 4.1: 'A allwch ddweud wrthym sut y daethoch yn ymwybodol o'r cymorth?'	14
Ffigur 4.2: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r gosodiadau canlynol am y Grŵp Gweithredol? - Roedd y Grŵp Gweithredol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd'	25
Ffigur 5.1: 'Ar raddfa o 1–5, lle mae 1 yn 'Ddim yn sylweddol o gwbl' a 5 yn 'Sylweddol iawn', pa mor sylweddol fu'r effeithiau hyn ar eich busnes?'	39
Ffigur 5.2: Canlyniadau sy'n gysylltiedig â meithrin arloesedd: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno bod bod yn rhan o EIP Cymru wedi ...?'	43
Ffigur 5.3: Canlyniadau sy'n gysylltiedig â chydweithio: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno bod bod yn rhan o EIP Cymru wedi ...?'	44
Ffigur 6.1: 'I ba raddau ydych chi'n credu bod eich prosiect yn adnabyddus yn y sectorau amaethyddol/coedwigaeth yng Nghymru?'	57
Ffigur A1: Nifer y Grwpiau Gweithredol a oedd wedi'u rhestru yng nghronfa ddata EIP-AGRI ar 26 Gorffennaf 2021	80
Ffigur A2: Nifer y prosiectau a oedd wedi'u rhestru yng nghronfa ddata prosiectau EIP-AGRI ar 26 Gorffennaf 2021	81
Ffigur A3: Is-sector ymgeiswyr arweiniol EIP Cymru a phob fferm yng Nghymru	136
Ffigur A4: Lleoliad daearyddol ymgeiswyr arweiniol EIP Cymru, holl ffermwyr/coedwigwyr y Grwpiau Gweithredol, a holl ffermydd Cymru	137
Ffigur A5: Maint y fferm (ha) – cymhariaeth rhwng aelodau'r Grwpiau Gweithredol a'r cyfartaledd cenedlaethol	139
Ffigur A6: Bandiau trosiant aelodau'r Grwpiau Gweithredol (ffermwyr yn unig)	140
Ffigur A7: Model segmentu ar gyfer diwydiant amaethyddol Cymru Error! Bookmark not defined.	
Ffigur A8: 'Pa mor bwysig yw siarad â ffermwyr eraill fel ffynhonnell gwybodaeth a chynghor i chi'n bersonol?'	143
Ffigur A9: 'Faint o ddiddordeb sydd gennych mewn cael mynediad i wybodaeth neu gyngor am ffermio ar y Rhyngwrdd?'	143
Ffigur A10: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau canlynol?' ...	145

Geirfa

Acronym/Allweddair	Diffiniad
EIP	Partneriaeth Arloesi Ewrop
EIP-AGRI	Partneriaeth Arloesi Ewrop ar gyfer Cynhyrchiant a Chynaliadwyedd Amaethyddol
IBERS	Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
UE	Yr Undeb Ewropeaidd

1. Cyflwyniad

- 1.1 Lansiodd Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) Cymru ym mis Ionawr 2016 ac fe'i hariannwyd o dan y Partneriaeth Arloesi Ewrop ar gyfer Cynhyrchiant a Chynaliadwyedd Amaethyddol (EIP-AGRI), a lansiodd ei hun yn 2012. Mae ychydig llai na £2m ar gael gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (2014–2020) i gyflawni'r cynllun hwn. Cyflawnwyd EIP Cymru gan Fenter a Busnes ochr yn ochr â chymorth gan Gyswllt Ffermio, Broceriaid Arloesi, a'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth. Swyddogaeth EIP Cymru oedd hwyluso syniadau arloesol a newydd ar gyfer busnesau ffermio a choedwigaeth. Gwnaed hyn drwy ariannu 46 o brosiectau a gynhaliwyd gan Grwpiau Gweithredol yn cynnwys busnesau ffermio a choedwigaeth ochr yn ochr â phartneriaid o sectorau eraill.
- 1.2 Comisiynwyd y gwerthusiad hwn gan Lywodraeth Cymru i asesu gweithrediad ac effaith EIP Cymru. Yn benodol, roedd gan ein gwerthusiad ddeg amcan.
1. Asesu lefel yr ymgysylltu/gwasanaethau a ddarparwyd (gan gynnwys cyfansoddiad y sefydliadau a fu'n ymgysylltu â'r cynllun a'r prif lwybrau a ddefnyddiwyd gan aelodau'r Grŵp Gweithredol i ymgysylltu â'r cynllun).
 2. Archwilio effeithiolrwydd prosesau ymgeisio ac arfarnu'r prosiect.
 3. Asesu rôl y Brocer Arloesi o ran ansawdd, perthnasedd, hyblygrwydd a gwerth am arian.
 4. Asesu manteision menter dan arweiniad ffermwyr / sy'n gweithio fel grŵp.
 5. Cymharu'r fenter ag EIP-AGRI mewn rhanbarthau ac Aelod-wladwriaethau eraill a nodi'r hyn a ddysgwyd o'r ddarpariaeth mewn mannau eraill.
 6. Asesu pa mor arloesol yw prosiectau EIP Cymru a gynorthwywyd.
 7. Asesu a gwerthuso effaith gyffredinol prosiectau EIP Cymru ar aelodau'r Grwpiau Gweithredol a gymerodd ran ac ychwanegedd yr effeithiau.
 8. Asesu sut y mae canfyddiadau'r grŵp wedi'u lledaenu i'r cyhoedd ehangach sy'n defnyddio Cyswllt Ffermio.
 9. Asesu effeithiau ehangach sy'n ymwneud â'r defnydd o arferion y tu allan i grwpiau'r EIP.

10. Darparu argymhellion a gwersi a ddysgwyd ar gyfer cynlluniau partneriaeth arloesi yn y dyfodol.

1.3 Mae'r gwerthusiad wedi'i gyflawni dros dri cham. Y cyntaf o'r rhain oedd cwmpasu a datblygu'r Fframwaith Gwerthuso ac fe'i cynhaliwyd yn 2021. Amlinellodd y Fframwaith gyfres o gwestiynau gwerthuso, yn seiliedig ar yr amcanion a grybwyllwyd uchod, a ddefnyddiwyd i lywio'r gweithgarwch gwerthuso (gellir gweld y cwestiynau gwerthuso yn Atodiad 1). Yna gwnaethom lunio Adroddiad Interim cynhwysfawr ddiwedd 2022 (Cam 2)¹ a oedd yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r amcanion sydd wedi'u hamlinellu uchod, gan gynnwys asesiad o'r broses weithredu yn gystal ag ystyried yr effeithiau ar y pryd. Mae'r ddogfen gyfredol yn gweithredu fel yr adroddiad gwerthuso terfynol ac mae wedi adeiladu ar y canfyddiadau a amlinellwyd yn y Cam Interim. Mae llawer o'r adrannau cynnar, sy'n disgrifio proffil y busnesau a gynorthwywyd ac asesiad o berfformiad cyflawni, yn mynd ati'n unig i ddiweddarau'r canfyddiadau a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Interim. Mae'r adrannau olaf yn rhoi llawer mwy o fanylion am ganlyniadau ac effeithiau nag y gallem eu cynhyrchu yn y cam interim.

1.4 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr ymchwil.
- Mae Pennod 3 yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer y gwerthusiad hwn drwy roi trosolwg o'r cynllun yn ogystal â'r prosiectau a gynorthwywyd, ac yn disgrifio math ac addasrwydd y busnesau a fu'n ymwneud â'r cynllun a'r ffactorau a wnaeth eu hysgogi i gymryd rhan.
- Mae Pennod 4 yn asesu perfformiad y cyflawni trwy archwilio cyflawniadau yn erbyn y proffil cyflawni ac effeithiolrwydd pob cydran/rhan.
- Mae Pennod 5 yn archwilio'r effaith ar aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn ogystal ag ar y sector yn ehangach.
- Mae Pennod 6 yn ystyried y gwaith a wnaed i ledaenu'r canfyddiadau, effeithiolrwydd y dull gweithredu, ac enghreifftiau o lwyddiant.
- Mae Pennod 7 yn nodi'r cyfraniad a wnaed at amcanion y themâu trawsbynciol.
- Mae Pennod 8 yn cloi'r adroddiad â chyfres o argymhellion.

¹ Wavehill, '[Gwerthusiad o Bartneriaeth Arloesi Ewrop Cymru Cyfnod 2: Adroddiad Gwerthuso Interim](#)', Ionawr 2023

2. Methodoleg

2.1 Mae'r gwerthusiad hwn yn cyfuno methodolegau meintiol ac ansoddol, gan ddefnyddio dau fath o werthusiad sy'n defnyddio dulliau seiliedig ar theori – gwerthuso proses ar sail theori a gwerthuso effaith ar sail theori. Mae ein dull gweithredu hefyd yn gyson â chanllawiau Llyfrau Gwyrdd, Magenta ac Acwa Trysorlys EF.

Cam 1: Y fframwaith gwerthuso

2.2 Cyflawnwyd y cam cyntaf rhwng mis Mawrth 2021 a mis Ionawr 2022. Roedd yn bennaf yn defnyddio technegau gwerthuso ar sail theori i adolygu, profi a mireinio'r cysylltiad tybiedig (h.y. y theori / rhesymeg yr ymyriad) rhwng gweithgareddau a gyflawnwyd gan EIP Cymru a'r canlyniadau a'r effeithiau a ragwelir. Roedd y broses hon yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o'r ddogfennaeth graidd a llenyddiaeth ehangach, chwe chyfweiliad cwmpasu gyda staff rheoli a chyflawni allweddol, a sesiwn gweithdy Theori Newid. I gloi'r ymchwil, sefydlwyd model rhesymeg Theori Newid ar gyfer EIP Cymru (gweler Atodiad 2), a gyflawnodd swyddogaeth hollbwysig wrth gasglu ein dealltwriaeth o'r cynllun a nodi dangosyddion perfformiad yn ogystal â'r cysylltiadau achosol tybiedig rhwng gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau. Roedd y model hefyd yn nodi'r rhwystrau posibl i lwyddiant ac yn helpu i nodi'r 'galluogwyr' allweddol, h.y. yr hwyluswyr posibl i sicrhau llwyddiant.

2.3 Roedd y cam cwmpasu cychwynnol hefyd yn cynnwys adolygiad desg manwl o brosesau monitro'r cynllun, gan alluogi'r tîm gwerthuso i ddeall y mathau o ddata sy'n cael eu casglu'n fewnol gan swyddogion Llywodraeth Cymru a Menter a Busnes sy'n cyflawni cynllun EIP Cymru. Roedd hyn yn ein galluogi i nodi pa ddata oedd ei angen o waith maes yr ymchwil gwerthuso allanol, gan lywio ein proses o ddylunio'r offer ymchwil. Cafodd hyn i gyd ei gasglu mewn Fframwaith Gwerthuso a oedd, fel a lywiwyd gan y Theori Newid, yn amlinellu'r cwestiynau gwerthuso allweddol, y meini prawf dyfarnu i'w defnyddio i fynd i'r afael â'r cwestiynau hynny, a'r dangosyddion a'r data sydd eu hangen i ateb y cwestiynau dan sylw.

2.4 Yn olaf, roedd yr ymchwil ddesg yn cynnwys adolygiad ehangach o lenyddiaeth i ddarparu cymhariaeth i ddatgelu sut mae cynlluniau EIP-AGRI wedi eu cyflawni ledled yr UE (caiff hyn ei grynhoi ym Mhennod 3 ac mae'r adolygiad llawn i'w weld

yn Atodiad 3). Bwriad hyn oedd llywio'r asesiad o'r penderfyniadau dylunio a wnaed yng Nghymru, yr opsiynau eraill oedd ar gael ar gyfer cyflawni'r cynllun, a'r gwersi y gallwn eu dysgu o hyn wrth ddylunio ymyriadau yn y dyfodol.

Cam 2 a 3: Gwerthusiad interim a therfynol

- 2.5 Cynlluniwyd holiaduron yr arolwg gan y tîm gwerthuso er mwyn cynnal y gwaith maes gyda'r rhanddeiliaid perthnasol, a oedd yn ymwneud yn bennaf â chasglu adborth gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol.² Cawsom restr o fanylion cyswllt 239 o aelodau Grwpiau Gweithredol ym maes ffermio a choedwigaeth yn ystod Cam 2 (nid oedd y rhestr yn cynnwys unrhyw aelodau nad oeddent yn ymwneud â ffermio/coedwigaeth ar gyfer y cam interim). Cysylltwyd â phob cofnod ar y rhestr hyd at bum gwaith a chofnodwyd 84 o ymatebion fel rhan o'r don gyntaf (cyfradd ymateb o 35 %). Gwnaed hyn yn ystod y cyfnod rhwng canol mis Tachwedd 2021 a diwedd mis Ionawr 2022.
- 2.6 Cynhaliwyd ail 'don' o gyfweiliadau fel rhan o arolwg y Grwpiau Gweithredol ym mis Tachwedd 2022 hyd at fis Ionawr 2023, gan dargedu aelodau'r Grwpiau Gweithredol nad oeddent wedi cwblhau'r arolwg yn ystod y cam interim. Yn ogystal, rhoddwyd rhestr i ni o 73 o gysylltiadau ychwanegol nad ydynt yn ymwneud â ffermio/coedwigaeth. Cafwyd 48 o ymatebion pellach i arolwg ton 2, gan arwain at sampl cyffredinol o 132. Roedd hyn yn cynnwys 108 o fusnesau ffermio, pedwar busnes coedwigaeth, ac 20 o sefydliadau eraill. Bu'n anodd cyrraedd yr 20 sefydliad arall, gyda llawer heb ymateb i'r ymdrechion i gysylltu â hwy ac eraill yn nodi nad oedd ganddynt unrhyw gof o gymryd rhan yn y Grwpiau Gweithredol. Yn wir, gwnaeth naw o'r 44 o gysylltiadau y llwyddom i'w cyrraedd (20 %) ddewis peidio â chymryd rhan yn yr arolwg gan awgrymu nad oeddent wedi ymwneud â'r cynllun. Yn seiliedig ar y 312 o gysylltiadau a ddarparwyd i ni, mae'r sampl o 132 yn cynrychioli cyfradd ymateb o 42 %.
- 2.7 Er bod dull cyfrifiad wedi'i ddefnyddio (gan gysylltu â phob cyswllt hyd at bum gwaith yr un), gwnaethom adolygu'r ymatebion gan bob un o'r 46 prosiect ar ôl cysylltu â phob busnes. Ar ôl nodi prosiectau heb unrhyw gynrychiolaeth yn ein sampl, gwnaed ymdrechion pellach i gysylltu â'r aelodau penodol hynny o'r Grwpiau Gweithredol, gan arwain at gael adborth gan 42 o'r 46 prosiect (91 %).

² Mae arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol i'w weld yn Atodiad 4.

- 2.8 Fel arfer cawsom adborth gan un neu ddau o aelodau'r Grwpiau Gweithredol fesul prosiect. Fodd bynnag, roedd rhai prosiectau lle'r oedd nifer o aelodau'r Grwpiau Gweithredol wedi ymateb i'r arolwg, gan gynnwys un prosiect lle cafwyd 15 o ymatebion i'r arolwg. Gallai hyn fod wedi effeithio ar adborth yr arolwg sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, gan roi mwy o bwyslais ar brofiad y prosiectau penodol hynny.
- 2.9 Gwnaethpwyd rhai addasiadau i'r arolwg yn ystod Cam 2, gyda llai o bwyslais yn cael ei roi ar rai o'r cwestiynau ynghylch proses a mwy o bwyslais ar y cwestiynau ynghylch effaith. Am y rheswm hwn, mae'r 'sylfaen' (h.y. nifer yr ymatebwyr a atebodd bob cwestiwn) yn amrywio yn y data sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiad presennol. Yn ogystal, roedd rhai o gwestiynau'r arolwg wedi'u 'llwybro', h.y. roedd rhai o'r cwestiynau'n agored i ymgeiswyr arweiniol yn unig, sydd hefyd yn egluro pam fod sylfaen yr ymatebion yn amrywio yn yr adroddiad.
- 2.10 I ategu'r Arolwg o Aelodau'r Grwpiau Gweithredol, cynhaliwyd Arolwg Dilydol³ lle gwnaeth 38 o'r 84 o gysylltiadau a gwblhaodd yr arolwg i ddechrau yn ystod y cam interim (Cam 1) gytuno i gymryd rhan eto, sy'n cyfateb i gyfradd ymateb o 45 %. Pwrpas yr ymarfer hwn oedd casglu data hydredol, h.y. deall a oedd y newidiadau mewn arferion wedi'u cynnal, ac a oeddent wedi arwain at ganlyniadau pellach flwyddyn ar ôl y cyfweiliad cyntaf.

³ Gweler Atodiad 7.

- 2.11 Ochr yn ochr â'r arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol, gwnaethom gynnal arolwg o'r rhai 'nad oeddent yn fuddiolwyr' yn y cyfnod interim, h.y. busnesau a oedd wedi gwneud cais am brosiect neu wedi holi am brosiect ond nad oeddent wedi bwrw ymlaen ag ef.⁴ Cawsom 81 o gysylltiadau, a chafwyd 30 o ymatebion yn y pen draw – cyfradd ymateb o 37 %. Roedd y rhain wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a oedd wedi gwneud ceisiadau aflwyddiannus (15) a'r rhai a oedd wedi tynnu'n ôl o'r broses ymgeisio.
- 2.12 Cynhaliwyd dwy rownd o gyfweiliadau ansoddol gydag aelodau o'r tîm cyflawni ym Menter a Busnes a Chyswllt Ffermio, a chyfwelwyd hefyd â 10 Brocer Arloesi⁵ yn y cam interim, ynghyd â phum rhanddeiliad allanol. Bu hyn yn fodd i driongli'r canfyddiadau gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol. Roedd y cyfweiliadau â rhanddeiliaid allanol yn gyffredinol yn cynnwys trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol eraill yn y sector yng Nghymru, er i ni hefyd gyfweld â'r cyrff arweiniol a oedd yn ymwneud â chyflawni'r EIP-AGRI yn Lloegr er mwyn deall eu profiad a rhoi cyd-destun pellach i berfformiad y cyflawni yng Nghymru, gan ddefnyddio'r profiad yn Lloegr fel meincnod.
- 2.13 Yn ogystal â'r ymchwil sylfaenol, gwnaethom gynnal adolygiad o'r wybodaeth reoli, gan gynnwys asesiad o gyflawniad yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gwariant ariannol, adolygiad o ffurflenni cais a gwerthuso prosiectau unigol, ac adolygiad o ffurflenni adborth a lenwyd yn ystod digwyddiadau lledaenu Cyswllt Ffermio. Gwnaethom hefyd adolygu'r gwerthusiad o'r cynllun EIP-AGRI yn Lloegr a rannwyd gan y tîm; gwnaeth y cam hwn, ynghyd â'r drafodaeth rhanddeiliaid â'r tîm yn Lloegr, lywio adolygiad cymharol o EIP-Lloegr (gweler Atodiad 8).

⁴ Mae'r holiadur a ddefnyddiwyd i'w weld yn Atodiad 5.

⁵ Gweler Atodiad 6.

2.14 Yn olaf, rhesom lawer mwy o bwyslais ar asesu'r elfen ledaenu yn y cam gwerthuso terfynol. Fel rhan o hyn, gwnaethom gynnal dau ymweliad arsylwi yn nigwyddiadau Diwrnod Agored Cyswllt Ffermio a oedd yn canolbwyntio ar brosiectau EIP,⁶ lle y gwnaethom arsylwi'r sesiynau a chynnal cyfweiliadau ag 19 o'r sawl a oedd yn bresennol. Roedd y rhain yn bennaf yn cynnwys ffermwyr nad oeddent wedi ymwneud â gweithrediad EIP, a oedd yn bresennol i ddysgu am y prosiect. Roedd yn gyfle i ni archwilio boddhad y sawl oedd yn bresennol â'r digwyddiadau, yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu, a pha effaith y byddai'r profiad yn ei chael arnynt, os o gwbl, wrth symud ymlaen. Mae hyn yn rhoi data ansoddol i ni i ategu'r data meintiol a ddarparwyd trwy ffurflenni adborth y digwyddiadau.

⁶ Y ddau brosiect oedd: 1. Adeiladu Gardd Farchnad Ddi-balu Lwyddiannus; a 2. Rheoli Llyngyr Gwartheg ar Ffermydd Llaeth

3. Cefndir a chyd-destun

Trosolwg o EIP-AGRI

- 3.1 Lanswyd EIP-AGRI yn 2012 i gyfrannu at strategaeth Ewrop 2020 yr UE ar gyfer twf craff, cynaliadwy a chynhwysol,⁷ gyda 96 o gynlluniau'n cael eu cyflawni ar draws aelod-wladwriaethau'r UE. Nod trosfwaol EIP-AGRI oedd meithrin cystadleurwydd a chynaliadwyedd yn y sectorau ffermio a choedwigaeth trwy droi syniadau gan ffermwyr a choedwigwyr yn gamau arloesol. Rhoddodd y sefydliad fynediad i ffermwyr a choedwigwyr at gyllid y gellid ei ddefnyddio i gyflawni prosiectau a oedd yn profi technoleg neu syniad arloesol yn eu busnesau.
- 3.2 Darparwyd y cyllid i hwyluso Grwpiau Gweithredol yn cynnwys ffermwyr, cynghorwyr ac ymchwilwyr a ddaeth ynghyd mewn ffordd dargedig i gydweithredu ar gyd-brosiectau ymchwil. Rhoddodd Grwpiau Gweithredol aml-weithredwr gyfle i adeiladu pontydd rhwng ymchwil ac ymarfer a hwyluso llif syniadau i lefel fferm a choedwig. Y nod craidd oedd darparu mecanwaith i ddangos y syniadau hyn, a chreu'r cyfle drwy hynny i'r syniadau hyn ddod yn arfer cyffredin er mwyn meithrin datblygiad y diwydiant.
- 3.3 Roedd yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau sefydlu Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol. Roedd gan y rhain nifer o dasgau gorfodol ac, o'u defnyddio i'r eithaf, gallent chwarae rhan ffurfiol wrth gefnogi'r EIP-AGRI trwy bedwar prif faes gweithgarwch:
- Codi ymwybyddiaeth rhanddeiliaid perthnasol o EIP-AGRI, a'u cyfranogiad ynddo.
 - Hwyluso camau i chwilio am bartneriaid i'r Grwpiau Gweithredol.
 - Rhwydweithio ar gyfer cynghorwyr a gwasanaethau cymorth arloesi.
 - Casglu a lledaenu enghreifftiau o brosiectau'r Grwpiau Gweithredol.
- 3.4 Roedd lefel uchel o hyblygrwydd o ran sut roedd Awdurdodau Rheoli yn gweithredu eu cynlluniau EIP-AGRI. Cynhyrchodd y Comisiwn Ewropeaidd deipoleg gweithredu yn seiliedig ar y ddau newidyn canlynol⁸:

⁷ EIP-AGRI (2020) EIP-AGRI: [7 years of innovation in agriculture and forestry](#). Rhagfyr 2020.

⁸ Y Comisiwn Ewropeaidd (2016) [Evaluation study of the implementation of the European Innovation Partnership for Agricultural Productivity and Sustainability](#). Adroddiad Terfynol ar gyfer DG AGRI. Coffey, AND, SQW, Edater a SPEED. Tachwedd 2016

- cyllideb gyfartalog Grŵp Gweithredol (bach (<€100,000); canolig (€100,000–€300,000); mawr (>€300,000))
- pa mor rhagnodol yw proses ddethol Grwpiau Gweithredol (cyfyngol, h.y. mae'n rhaid i'r Grwpiau Gweithredol ddewis o blith meysydd ffocws wedi'u diffinio ymlaen llaw, o'r brig i'r gwaelod; ac agored, h.y. roedd y Grwpiau Gweithredol yn rhydd i ddewis eu themâu eu hunain, o'r gwaelod i fyny).

- 3.5 Mae Cymru yn ymddangos yn y grŵp bach ac agored, sy'n cwmpasu'r nifer lleiaf o Bartneriaethau Arloesi Ewrop. Yn wir, dim ond tri (gan gynnwys EIP Cymru) o'r 84 cynllun a gategoreiddiwyd yn astudiaeth werthuso'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n perthyn i'r grŵp hwn. Felly, roedd dyluniad y cynllun yng Nghymru (h.y. darparu cyfuniad o grantiau bach drwy ddull agored) yn gymharol anghyffredin o gymharu â chynlluniau eraill EIP eraill ar draws yr UE. Mae hyn yn bennaf am mai dim ond wyth cynllun arall oedd yn perthyn i'r categori darparu grantiau bach, gyda'r mwyafrif helaeth yn darparu grantiau a oedd yn fwy na €100,000 ar gyfartaledd. Roedd rhaniad mwy cyfartal ar draws aelod-wladwriaethau'r UE o ran pa mor rhagnodol oedd y cynlluniau, gydag EIP Cymru yn un o 41 o gynlluniau y gellid eu disgrifio fel rhai oedd yn rhydd i gynnig themâu (agored), tra bod 48 yn cael eu hystyried yn gyfyngol gan fod y themâu wedi'u diffinio ymlaen llaw.
- 3.6 Mae canllawiau ar raglennu ar gyfer arloesi yng nghyd-destun Partneriaethau Arloesi Ewrop yn esbonio'r rôl bwysig y gall swyddogaeth Broceriaid Arloesi ei chwarae wrth ddarganfod syniadau arloesol a hwyluso'r gwaith o sefydlu Grwpiau Gweithredol. Awgrymir bod y broceru yn cael y statws pwysig hwn yn bennaf trwy weithredu fel cyswllt rhwng ffermwyr, ymchwilwyr, cynghorwyr, a chyrrff anllywodraethol, ac ati. Roedd sawl opsiwn ar gyfer ariannu swyddogaeth Broceriaid Arloesi. Mewn rhai achosion, roedd y llywodraeth genedlaethol/ranbarthol yn gweithredu fel y Brocer Arloesi; mewn cynlluniau eraill, gwnaeth cyrrff cyhoeddus a Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol ymgymryd â'r rôl, a defnyddiwyd cynghorwyr allanol (h.y. yr un dull â'r hyn a fabwysiadwyd yng Nghymru) mewn sawl cynllun arall.
- 3.7 Roedd cynghorwyr allanol hefyd yn ymwneud â chyflawni Grwpiau Gweithredol, e.e. fel hwyluswyr, er na allent fod yn brif ymgeisydd. Ar draws aelod-wladwriaethau'r UE, nid oedd unrhyw batrwm gwirioneddol i'r defnydd o Froceriaid Arloesi. Archwiliodd y Comisiwn Ewropeaidd y defnydd o Froceriaid Arloesi mewn 84

Rhaglen Datblygu Gwledig, a gwnaeth 80 ohonynt ddarparu gwybodaeth. Dangosodd dadansoddiad y comisiwn fod Broceriaid Arloesi yn cael eu defnyddio mewn 51 o'r rhanbarthau (64 %). Lle na ddefnyddiwyd Broceriaid Arloesi, y rhesymeg fel arfer oedd bod y seilwaith presennol o amgylch arloesi yn ddigonol. Cymru oedd yr unig wlad yn y Deyrnas Unedig i ddefnyddio Broceriaid Arloesi allanol o ddechrau cyfnod y rhaglen.

- 3.8 Roedd Cymru yn un o wyth Awdurdod Rheoli a ddewisodd beidio â darparu rhwydweithio ar gyfer yr EIP-AGRI trwy eu Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol, gan fod hyn yn cael ei gynnal drwy Gyswllt Ffermio.
- 3.9 Mae EIP-AGRI yn nodi bod dros 60 % o'r Grwpiau Gweithredol yn gweithio ar ffyrdd arloesol o oresgyn heriau amgylcheddol a hinsawdd. Mae'r Grwpiau Gweithredol yn cwmpasu sbectrwm eang o is-sectorau a themâu o fewn amaethyddiaeth a choedwigaeth, a'r rhai mwyaf cyffredin yw cynhyrchu planhigion a garddwriaeth, a oedd yn ffocws i 31 %.

Y model cyflawni yng Nghymru

- 3.10 Yng Nghymru, roedd £1.8m ar gael ar ffurf cyllid grant uniongyrchol, 100 %, i gyflawni 46 o brosiectau dros gyfnod o saith mlynedd rhwng 1 Awst 2016 a 30 Mehefin 2023.
- 3.11 Mae'r cymorth yn cynnwys nid yn unig y cyllid ei hun (uchafswm o £40,000 wedi'i ddyrannu fesul prosiect), ond hefyd gwybodaeth a chynghor ar ddyluniad y prosiect drwy'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth (cydweithrediad rhwng Cyswllt Ffermio a Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth), cymorth â gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth trwy Gyswllt Ffermio, a staff ymroddedig (Broceriaid Arloesi allanol a staff a ddefnyddiwyd ym Menter a Busnes) i hwyluso'r Grwpiau Gweithredol trwy'r broses ymgeisio ac yn ystod oes y prosiect.
- 3.12 I fod yn gymwys, roedd yn rhaid i brosiectau ddangos eu bod yn arloesol⁹ ac yn ceisio mynd i'r afael â phroblemau ar y fferm ac yn cyd-fynd ag o leiaf un o feysydd

⁹ Mae arloesi yn aml yn cael ei ddisgrifio fel syniad newydd sy'n llwyddiannus yn ymarferol. Gall arloesi fod yn dechnolegol, ond hefyd yn annhechnolegol, trefniadaethol neu gymdeithasol. Gall arloesi fod yn seiliedig ar arferion newydd ond hefyd ar arferion traddodiadol mewn cyd-destun daearyddol neu amgylcheddol newydd. Gall y syniad newydd fod yn gynnyrch, arfer, gwasanaeth neu broses gynhyrchu newydd, neu'n ffordd newydd o drefnu pethau, ac ati. Dim ond os yw'n cael ei fabwysiadu'n eang ac yn profi ei ddefnyddioldeb yn ymarferol y mae syniad newydd yn troi'n arloesi. (Ffynhonnell: [Partneriaeth Arloesi Ewrop: canllawiau](#))

blaenoriaeth y Rhaglen Datblygu Gwledig¹⁰. Hefyd, roedd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos sut y byddai canlyniadau eu prosiect o fudd i'r sector amaethyddol a choedwigaeth yn ehangach. Roedd y cynllun yn agored i geisiadau gan ystod eang o fusnesau ac unigolion a oedd yn ymwneud ag amaethyddiaeth a/neu goedwigaeth, megis: ffermwyr, coedwigwyr, ymchwilwyr sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth neu fwyd, cynghorwyr amaethyddiaeth/coedwigaeth, busnesau amaethyddol, bwyd-amaeth a choedwigaeth sy'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi, a sefydliadau anllywodraethol. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i'r prif ymgeisydd fod yn ffermwr neu'n goedwigwr. Roedd y gweithgareddau a'r costau cymwys yn cynnwys y canlynol:

- amser arbenigwyr (e.e. ymgynghorwyr neu wyddonwyr) ar gyfer sefydlu prosiectau, gwneud mesuriadau, cydgrynhoi data ac ysgrifennu adroddiadau
- llogi offer arbenigol hanfodol i helpu i redeg y prosiect
- cydlynu'r prosiect
- cyfathrebu a lledaenu dulliau, gwersi a chanlyniadau'r prosiect
- cyngor technegol
- adrodd ar gerrig milltir y prosiect
- costau contractwyr ar gyfer llafur a defnyddio offer
- costau gweithredu a rhedeg (e.e. llogi ystafelloedd cyfarfod)
- costau uniongyrchol i gynnal unrhyw dreialon ffisegol penodol sydd eu hangen fel rhan o'r prosiect (e.e. offer arbenigol)
- nwyddau traul ar gyfer cynnal gweithgarwch treialon neu'r prosiect (e.e. hadau arbenigol)
- costau dadansoddi a samplu rhesymol (e.e. porthiant, pridd, gwaed a meinweoedd)
- costau teithio a chynhaliaeth rhesymol i alluogi arbenigwyr i ymweld â safleoedd y prosiect
- costau hyrwyddo cyfyngedig lle gellir eu cyfiawnhau.

3.13 Roedd Menter a Busnes yn gyfrifol am reoli a chyflawni'r cynllun ar lefel uchel, gan gynnwys monitro gweithgarwch y prosiectau a'r Broceriaid Arloesi yn rheolaidd, casglu canlyniadau, a helpu i gynllunio gwaith lledaenu. Roedd hyn yn cael ei

¹⁰ Mae meysydd blaenoriaeth y Rhaglen Datblygu Gwledig wedi'u rhestru yn yr adran 'Amcanion strategol' isod yn y bennod hon.

wneud gan dîm bach yn cynnwys Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth a Swyddog Prosiect. Roedd y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn darparu ymchwil ategol i ymgeiswyr ar eu syniadau ar gyfer prosiectau, a oedd yn rhan hanfodol o'r broses arfarnu. Roedd y Broceriaid Arloesi yn cynorthwyo ymgeiswyr drwy'r broses ymgeisio a byddent yn aml yn arwain ar ysgrifennu'r ceisiadau, er bod y prosiectau i fod yn seiliedig ar syniadau'r ffermwyr arweiniol. Roedd y Broceriaid Arloesi yn aml yn arwain y gwaith o ffurfio'r Grwpiau Gweithredol ac yn gyffredinol roedd ganddynt rôl hwyluso bwysig wrth gyflawni prosiectau er mwyn sicrhau y gellid eu cyflawni â thrylwyrdd gwyddonol digonol. Comisiynwyd cyfanswm o 13 o Broceriaid Arloesi i gynorthwyo prosiectau EIP o rai o'r prif ymgynghoriaethau busnes, amaethyddol ac amgylcheddol yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig, sef: [KITE Consulting](#), [Landsker Business Solutions](#), [ADAS](#), ac [AgriPlan](#). Er bod pob prosiect yn cael ei annog i ddefnyddio cymorth Broceriaid Arloesi, cyflawnwyd chwe phrosiect heb eu cyfranogiad.

- 3.14 Roedd rôl y Brocer Arloesi yn allweddol i gyflawni llawer o brosiectau, fel rydym yn ei nodi ym Mhennod 4, gan ddangos felly bwysigrwydd recriwtio ymgynghorwyr priodol i gyflawni'r rôl. Cafodd Broceriaid Arloesi eu caffael trwy Raglen Ymgynghorol Cyswllt Ffermio, lle'r oedd yn ofynnol i bartïon â diddordeb gyflwyno eu curriculum vitae (CV) i Fenter a Busnes. Wrth hysbysebu'r rôl, roedd Menter a Busnes yn galw am:

'Unigolion y mae eu sgiliau a'u profiad yn cyd-fynd â'r rhaglen EIP, gan gynnwys tystiolaeth o weithio gyda grwpiau a gwybodaeth am y sectorau y maent yn arbenigo ynddynt. Mae gweithio gyda grwpiau yn rôl bwysig i'r Brocer Arloesi ac mae angen iddynt allu dangos sgiliau rhwydweithio da a dyfeisgarwch i gael ddod i gyswllt ag aelodau addas o'r grŵp ar gyfer prosiectau EIP. Bydd enghreifftiau o brosiectau blaenorol sydd wedi cynnwys gwaith grŵp lle bu gan yr ymgeisydd rôl hwyluso gref yn ddefnyddiol i asesu profiad perthnasol blaenorol'.¹¹

- 3.15 Roedd yn ofynnol hefyd i ymgeiswyr ddarparu adroddiad a luniwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf i ddangos bod ganddynt ymagwedd drefnus a thrylwyr at ddylunio, cyflawni ac adrodd ar brosiectau. Roedd IBERS wedyn yn asesu eu ceisiadau, ac yn eu sgorio yn erbyn y meini prawf canlynol:

¹¹ Ffynhonnell: cyfieithwyd o ddogfen a rannwyd gan Fenter a Busnes, o'r enw 'The approval process for new Innovation Brokers'.

- pa mor ddarllenadwy ac eglur ydynt (20 %)
- cywirdeb gwybodaeth dechnegol (40 %)
- pa mor berthnasol a dichonol mae'r cyngor yn ymddangos (40 %).

3.16 Er mai pwrpas cynllun EIP Cymru oedd edrych ar syniadau newydd arloesol, (yn ogystal) nid oedd y cynllun yn cefnogi ymchwil sylfaenol. Y bwriad oedd adeiladu ar ganlyniadau ymchwil presennol i'w cymhwyso ar lefel ymarferol. Rydym yn deall nad oes unrhyw gymorth arall wedi'i dargedu ar gael sy'n annog ffermwyr a choedwigwyr yn benodol i roi cynnig ar ganlyniadau ymchwil ar lefel ymarferol heblaw drwy rwydwaith arddangos Cyswllt Ffermio (sy'n cael ei gyflawni ar sail un-i-un ac ar raddfa lawer llai). Roedd y dull gweithredu uchod yn sicrhau bod y ceisiadau a'r prosiectau'n seiliedig ar anghenion ffermwyr a choedwigwyr (yn hytrach na denu ceisiadau gan ymchwilwyr sydd â mynediad at ffrydiau ariannu eraill). Roedd hyn yn egwyddor allweddol o gynllun EIP Cymru. Cyflwynwyd nodweddion eraill i ddyluniad y cynllun hefyd i sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei chyflawni ar sail anghenion ffermwyr a choedwigwyr, gan gynnwys trothwy grantiau bach.¹² Roedd y cynllun EIP yn ceisio canfod cydbwysedd, h.y. canolbwyntio'n bennaf ar brosiectau ymarferol y gallai ffermwyr eu rhedeg eu hunain ac yn seiliedig ar eu hanghenion, gan hefyd sicrhau digon o drylwyredd gwyddonol i gynhyrchu gwersi y gellid eu cymhwyso ar draws y sector.

3.17 Roedd gan Gyswllt Ffermio rôl hollbwysig yn defnyddio ei rwydwaith (yn enwedig y Rhwydwaith Arddangos) i ledaenu canfyddiadau'r prosiectau ymchwil a chysylltu'r prosiectau â gweithgarwch trosglwyddo gwybodaeth arall ar draws y sectorau yng Nghymru. Bwriad hyn oedd sicrhau effaith sectoraidd ehangach trwy ledaenu'r hyn a ddysgwyd o'r prosiectau hyn a oedd yn gysylltiedig ag ychydig o fusnesau ffermio a choedwigaeth dethol i weddill y sectorau fel y gallai arferion newydd gael eu mabwysiadu'n ehangach.

3.18 Roedd pum prif gydran i brosiectau'r EIP, sydd wedi'u crynhoi isod:

1. Hwyluso'r defnydd o syniadau a thechnolegau newydd ar lefel fferm/coetir i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Gallai'r syniad fod ar wahanol ffurfiau – efallai fod cyfranogwyr yn gwybod am dechnoleg newydd a oedd wedi'i datblygu ond nad oedd ar gael yn eang ac y gellid ei defnyddio yn eu busnes; fel arall, efallai

¹² Y dybiaeth oedd y byddai ffermwyr/coedwigwyr yn fwy cyfforddus i wneud cais am y grantiau cymharol fach, tra byddai llai o gymhelliad i grwpiau ymchwil o ran ymgeisio.)

fod ganddynt anhawster nad oeddent yn gwybod sut i'w ddatrys ac wedi datblygu prosiect EIP i ddod o hyd i ateb. Rydym hefyd yn deall bod Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo'r cynllun i archwilio prosiectau penodol yn seiliedig ar amcanion strategol penodol.¹³

2. Dod â ffermwyr, coedwigwyr, ymchwilwyr, ymgynghorwyr, a busnesau amaeth o'r un anian ynghyd i weithio ar broblemau cyffredin (h.y. y Grwpiau Gweithredol). Roedd yn rhaid i'r Grwpiau Gweithredol gynnwys o leiaf ddau ffermwr/coedwigwr o fusnesau ar wahân, a oedd wedi'u lleoli yng Nghymru ac wedi cofrestru â Chyswllt Ffermio, ynghyd ag un aelod arall o sefydliad cysylltiedig, h.y. ymchwilydd, ymgynghorydd, neu fusnes amaeth.
3. Darparu gwybodaeth a chyngor i grwpiau ar eu syniadau ar gyfer prosiectau posibl trwy'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys cynnal adolygiad llenyddiaeth ar holl syniadau'r prosiectau i sicrhau eu bod yn briodol ac yn gymwys.
4. Hwyluso ymchwil, h.y. cymorth gan y Brocer Arloesi i gyflawni'r prosiect ymchwil ar y safle.
5. Cyfathrebu syniadau a chanlyniadau prosiectau gyda'r diwydiant ehangach i wella llif gwybodaeth a'r defnydd o dechnolegau newydd. Roedd hyn yn cynnwys adran benodol ar wefan Cyswllt Ffermio sy'n cynnal gwybodaeth am y grwpiau a chynnydd eu prosiectau ynghyd â diweddariadau yn gysylltiedig â'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn lledaenu'r canfyddiadau yn ehangach. Casglwyd y wybodaeth trwy allbynnau ymchwil amrywiol gan gynnwys adroddiadau terfynol, ffeithluniau, fideos, a chyhoeddiadau technegol, ac mae mynediad i'r cyfan ar gael ar y wefan.¹⁴ Darparodd Rhwydwaith Arddangos Cyswllt Ffermio blatfform i helpu i ledaenu canfyddiadau'r prosiectau, a gofynnwyd i rai o'r ffermwyr a gymerodd ran fod yn safleoedd ffocws, gan alluogi i'r lledaenu ddigwydd ar ffurf dilyniant a digwyddiadau agored yn ogystal â thrwy'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, defnyddiodd Cyswllt Ffermio'r wybodaeth o'r adroddiadau i ledaenu'r canfyddiadau i'r diwydiant ehangach drwy amrywiaeth o

¹³ Er bod EIP Cymru wedi bod yn agored yn gyffredinol, mae nifer fach o achosion lle mae prosiectau wedi'u rhagnodi, megis y ddau brosiect sy'n canolbwyntio ar Ryngrwyd Pethau (gweler EIP27 ac EIP40 yn Atodiad 8).

¹⁴ [Prosiectau EIP Cymru wedi'u Cymeradwyo | Busnes Cymru \(llyw.cymru\)](#)

fecanweithiau, gan gynnwys gwefan Cyswllt Ffermio, erthyglau technegol, a chyflwyniadau mewn cyfarfodydd a digwyddiadau.

- 3.19 Mae graffigyn gweledol o Theori Newid a model rhesymeg y cynllun i'w gweld yn Atodiad 2.

Proffil aelodau'r Grwpiau Gweithredol

- 3.20 Roedd cyfanswm o 43 o'r prosiectau a ariannwyd o dan EIP Cymru wedi'u harwain gan ffermwyr, ac roedd y tri arall wedi'u harwain gan fusnesau coedwigaeth. Mae cyfanswm o 317 o sefydliadau gwahanol wedi bod yn rhan o'r 46 Grŵp Gweithredol a oedd yn gyfrifol am gyflawni'r prosiectau, yn benodol:

- 237 o ddeiliaid fferm
- 36 o gynghorwyr
- 14 o sefydliadau ymchwil
- 11 o gyrff anllywodraethol
- 11 o fentrau bach a chanolig
- wyth corff cyhoeddus arall.

- 3.21 Mae'r ffaith bod ychydig yn llai na 25,000 o fusnesau fferm wedi'u cofnodi yn Arolwg Amaethyddol diweddaraf Cymru yn awgrymu bod tua 1 % o'r sector cyfan wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol ag EIP Cymru drwy fod yn aelodau o'r Grwpiau Gweithredol. Mae llawer o'r ffermwyr hyn wedi bod yn rhan o fwy nag un prosiect, ac roedd ffermwyr yn rhan o gyfanswm o 385 o gyfranogiadau.¹⁵
- 3.22 Gan mai busnesau fferm oedd y prif fath o sefydliad a oedd yn rhan o'r cynllun o bell ffordd, gan gyfrif am 75 % o holl aelodau'r Grwpiau Gweithredol a 93 % o arweinwyr prosiect, mae gweddill yr adran hon yn ystyried proffil y busnesau fferm a gymerodd ran (caiff proffil manylach ei gyflwyno yn Atodiad 9).

Proffil y busnesau fferm

- 3.23 Yn ôl y dadansoddiad ystadegol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru,¹⁶ roedd y busnesau fferm a gymerodd ran ym mhrosiectau EIP yn gyffredinol yn llawer mwy o ran maint o ran allbwn safonol (SO)¹⁷ a thirfas na'r ffermydd cyfartalog yng Nghymru. Mae'r data'n dangos, yn y cyfnod sy'n rhychwantu 2015-16 (h.y. cyn EIP), bod gan ffermwyr arweiniol, ar gyfartaledd, allbwn safonol o €322,000, a bod gan ffermwyr eraill a oedd yn aelodau o Grwpiau Gweithredol allbwn safonol o €399,000. Mewn cymhariaeth, dim ond €66,000 o allbwn safonol oedd gan weddill y sector ar gyfartaledd.¹⁸ O ran tirfas, roedd ffermwyr arweiniol yn gweithredu ffermydd a oedd yn cynnwys 219ha o dir ar gyfartaledd, ac roedd gan ffermwyr eraill y Grwpiau Gweithredol 237ha o dir; gellir cymharu hyn â chyfartaledd o ddim ond 66ha yn cael ei weithredu gan fusnesau ffermio eraill. Gyda'i gilydd, mae'r data ynghylch trosiant a'r data ynghylch tirfas yn awgrymu bod busnesau ffermio sy'n rhan o EIP Cymru sawl gwaith yn fwy na chyfartaledd y diwydiant.

¹⁵ Data a ddarparwyd i Wavehill ym mis Hydref 2021.

¹⁶ Roedd y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar ddata o [arolwg amaethyddiaeth a garddwriaeth fis Mehefin \(data Tachwedd 2022\)](#), lle nodwyd 32 o ffermwyr arweiniol (o'r 46 prosiect) a 201 o ffermwyr eraill y Grwpiau Gweithredol (gan ddefnyddio Rhifau Atgyfeirio Cwsmeriaid) a'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

¹⁷ Caiff allbwn safonol ei ddefnyddio fel procsi ar gyfer trosiant. Dyma werth ariannol cyfartalog yr allbwn amaethyddol ar bris gât y fferm, mewn ewro yr hectar neu y pen o dda byw. Caiff yr allbwn safonol ei ddefnyddio i ddsbarthu daliadau amaethyddol yn ôl math o ffermio a maint economaidd.

¹⁸ Roedd y dadansoddiad ystadegol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn categoreiddio ffermydd mewn ewros.

- 3.24 Efallai nad yw hyn yn syndod oherwydd nid yw'r cynllun wedi'i ddylunio ar gyfer mân-ddaliadau, nad oes ganddynt yn aml fuddiannau masnachol cryf (y mathau o sefydliadau sy'n rhan fawr o'r sector). Bwriad y cynllun yw helpu busnesau i wneud eu gweithrediadau yn fwy proffidiol. Felly, byddem yn disgwyl gweld busnesau mwy yn ceisio derbyn y cymorth. Fodd bynnag, efallai bod maint y gwahaniaeth yn awgrymu bod y cynllun wedi'i gyrchu i raddau helaeth gan fusnesau ffermio sy'n gweithredu ar ben arall y sbectwm – y grŵp bach o fusnesau blaengar, proffidiol sy'n aml yn ceisio arloesi ac sydd efallai eisoes yn rhan o rwydweithiau cymorth. Yn wir, hyd yn oed wrth eithrio'r holl ffermydd micro (nad ydynt fel arfer yn ymwneud â gwasanaethau cymorth) o'r dadansoddiad, mae'r data'n parhau i ddatgelu bod ymgeiswyr arweiniol EIP ac aelodau eraill y Grwpiau Gweithredol yn fwy na'r cyfartaledd cyn cyrchu'r cymorth (roedd ganddynt allbwn safonol cyfartalog o €333,000 a €434,000 yn y drefn honno, o gymharu ag allbwn safonol cyfartalog o ddim ond €158,000 wrth eithrio ffermydd micro).
- 3.25 Mae hyn yn gyson ag adborth gan y tîm cyflawni, a oedd yn cydnabod bod llawer o'r cyfranogwyr yn rhai a oedd wedi gwneud cais am grantiau Llywodraeth Cymru o'r blaen, er bod y tîm hefyd yn mynegi bod y ffermwyr hyn wedi dod â ffermwyr eraill i mewn – drwy ddull y Grŵp Gweithredol – na fyddent fel arfer, efallai, yn ymwneud â'r mathau hyn o gynlluniau nac yn mynd ati i arloesi. Yn yr un modd, prif nod y prosiectau hyn yw cynnal treialon cydgysylltiedig a chyhoeddi data a all ddarparu canlyniadau ystyrlon sy'n newid arferion ffermwyr eraill. Gyda hynny mewn golwg, mae ymgysylltu â'r 'mabwysiadwyr cynnar' yn ddull synhwyrol, h.y. ffermwyr sy'n gyfforddus â'r broses arloesi, fel y gellir cynnal treialon cadarn a lledaenu gwybodaeth well i'r sector ehangach.

3.26 Mae data arall o arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn atgyfnerthu'r syniad hwn bod y rhan fwyaf o'r ffermwyr sy'n cymryd rhan ymhlith yr un grŵp o ffermwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill, gyda 70 % (76/108) yn dweud eu bod wedi cael grantiau neu gymorth ariannol arall gan Lywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus eraill yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Nid yw hyn yn syndod o ystyried rôl Cyswllt Ffermio wrth roi cyhoedduswydd i'r cynllun. Roedd busnesau fel arfer wedi cael Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (33 %; 36 ymateb), Grant Busnes Fferm (27 %; 29 ymateb), neu Glastir (wyth %; naw ymateb), a chyfeiriwyd at amrywiaeth o grantiau eraill hefyd.

3.27 Yn ogystal â gwahaniaethau ym maint y busnesau, mae gwahaniaethau nodedig eraill yn ein dadansoddiad yn cynnwys y canlynol¹⁹:

- Llaeth yw'r is-sector mwyaf cyffredin, gyda 41 % o brosiectau EIP (19/46) yn cynnwys ffocws ar y sector llaeth er bod llaeth yn cyfrif am chwech % yn unig o amaethyddiaeth Cymru.
- Mae dosbarthiad daearyddol y ffermydd yn weddol debyg i'r hyn y gellid ei ddisgwyl, gan eu bod wedi'u crynhoi yn ardaloedd awdurdodau mwy gwledig Cymru ac yn dilyn patrwm tebyg i ddosbarthiad yr holl ffermydd ledled y wlad.
- Mae'r cynllun wedi ymgysylltu â mwy o ffermwyr iau na'r cyfartaledd yn y diwydiant. Er enghraifft, dangosodd adroddiad 'Agriculture in the United Kingdom 2020' fod 36 % o ffermwyr y Deyrnas Unedig yn 2016 yn 65 oed neu'n hŷn, ac mai'r oedran canolrifol oedd 60 oed.²⁰ Mewn cymhariaeth, dim ond saith % o ffermwyr EIP Cymru (16/239) oedd yn 65 oed neu'n hŷn ar adeg gwneud cais, a'r oedran canolrifol oedd 48.²¹

¹⁹ Noder nad oedd y data ar gael ar gyfer EIP46. Mae'r data hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o brosiectau EIP 1–45.

²⁰ Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, [Agriculture in the United Kingdom 2020, 2021](#)

²¹ Noder bod y data ar gyfer oedran ffermwyr mewn bandiau categori ehangach (e.e. 18-24, 25-40, 41-44 ac ati). Cyfrifwyd y cyfartaledd ar sail pwynt canol categori oedran pob ffermwr.

3.28 Er mwyn deall ymhellach broffil y busnesau fferm a gymerodd ran yng nghynllun EIP Cymru, roedd yr ymchwili hefyd yn defnyddio Model Segmentau Busnesau Fferm Llywodraeth Cymru, a luniwyd i archwilio agweddau a chanfyddiadau ar draws gwahanol grwpiau o ffermwyr er mwyn deall proffil y sector.²² I grynhoi, mae cymhariaeth o gyfranogwyr EIP Cymru â'r stoc cyffredinol o fusnes fferm yn datgelu bod cyfranogwyr yn fwy tebygol o:

- geisio dysgu sgiliau a gwybodaeth newydd i'w defnyddio mewn busnes
- cyrchu gwybodaeth/cyngor ar y rhynggrwyd
- defnyddio technoleg newydd ar eu fferm
- ceisio cyngor a gwybodaeth gan ffermwyr eraill
- ymdrechu am gynaliadwyedd amgylcheddol
- bod yn fwy masnachol eu meddwl.


3.29 Mae'r dadansoddiad yn dangos ymhellach bod EIP Cymru wedi bod yn fwy tebygol o ymgysylltu â busnesau sy'n fwy blaengar ac sy'n cael eu gyrru gan elw o ran eu hagweddau at arloesi. Mae'r dadansoddiad llawn i'w weld yn Atodiad 9.

Cymhellion i gael mynediad at gymorth

3.30 Yn ddiddorol, mae'n ymddangos mai'r arbenigedd a gynigiwyd gan y cynllun, yn hytrach na'r cymhelliad ariannol, oedd y prif ysgogiad ar gyfer cael cymorth gan EIP Cymru, gyda 75 % o ymgeiswyr (85/114) yn dewis hyn fel ysgogiad, o gymharu â dim ond 42 % (48 ymateb) a ddewisodd yr angen i cael gwared ar y risg o brofi syniad newydd. Mae hyn yn awgrymu bod busnesau yn bennaf eisiau cymorth i'w helpu i dreialu arferion newydd, yn hytrach na dim ond cael gafael ar gyllid a fyddai'n eu galluogi i wneud hynny eu hunain ; mae'n ymddangos bod y cymorth hwnnw a gynigwyd wedi bod yn allweddol. Yn ogystal, roedd y cyfle i weithio gyda sefydliadau eraill yn y sector hefyd yn sbardun pwysig i 32 % (37 ymateb) o aelodau'r Grwpiau Gweithredol, a nododd 16 % (18 ymateb) awydd i weithio gyda sefydliadau o sectorau eraill. Nodwn fod gwahaniaeth sylweddol rhwng y garfan o fuddiolwyr a'r garfan nad ydynt yn fuddiolwyr yn hynny o beth, er nad oes digon o ddata i egluro'r rheswm dros y gwahaniaethau hynny.

²² Lee-Woolf, C., Hughes, O., King, G., a Fell, D. (2014) Development of a segmentation model for the Welsh agricultural industry. Adroddiad gan Brook Lyndhurst ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Ffigur 3.1: 'Allwch chi ddisgrifio pam roeddech chi eisiau datblygu prosiect drwy EIP Cymru?'




Ffynhonnell: Arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=84) a'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr (n=30); cyfanswm o n=114

Trosolwg o gyflawniad y prosiectau

3.31 Caiff amlinelliad llawn o'r 46 o brosiectau a ariannwyd ei gyflwyno yn Atodiad 10 yr adroddiad hwn. Mae'n dangos yr amrywiaeth sylweddol yn y prosiectau a gefnogwyd, gan gynnwys cynhyrchu cynydau, iechyd anifeiliaid, maetheg, arferion rheoli gan gynnwys defnyddio technolegau newydd (e.e. chwynwyr robotig, ffotoneg, tracio GPS, a phroffion genomig), rheoli slyri, datblygu marchnad newydd, gwarchod rhag lladrata, a llawer mwy.

3.32 Amlinellwyd prif themâu'r prosiectau yng ngwybodaeth fonitro'r cynllun ac maent i'w gweld yn Ffigur 3.2 isod. Mae'r graffigyn yn dangos bod yr ystod o brosiectau yn cwmpasu bron pob rhan o'r diwydiant ffermio. Fel y gallem ddisgwyl, o ystyried cymaint y mae'n dominyddu mewn amaethyddiaeth yng Nghymru, mae'r sector cig coch yn thema mewn 48 % o brosiectau (22/46)²³, ac mae 41 % (19/46) yn cynnwys ffocws ar laeth. Mae'r siart hefyd yn dangos bod 24 % (11/46) o'r prosiectau'n cynnwys elfen a allai helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd megis trwy well cnwd, cynhyrchu mwy effeithlon a chynaliadwy, neu leihau llygredd slyri. Mae 37 % (17/46) yn cynnwys gwelliannau i arferion busnes, e.e. trwy gynhyrchu arbedion effeithlonrwydd, cynyddu perfformiad, cyfleoedd mewn cadwyni cyflenwi, neu asesu hyfywedd economaidd cyfleoedd marchnad newydd. Mae 28 % (13 o brosiectau) yn cynnwys ffocws ar fioamrywiaeth.

Ffigur 3.2: Y themâu a restrwyd ar gyfer pob prosiect yn nata monitro EIP Cymru



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro EIP Cymru (n=46)

3.33 Nid oedd llawer o amrywiaeth o ran maint y prosiectau. Mae'r data'n dangos y dyfarnwyd y swm mwyaf posibl i 11 o'r 46 o brosiectau, a dyfarnwyd o fewn pump %

²³ Roedd prosiectau fel arfer yn canolbwyntio ar fwy nag un thema ac roedd goryffwrdd penodol o fawr rhwng defaid a chig eidion. O'u cyfuno, dim ond 48% o brosiectau oedd yn canolbwyntio ar gig eidion a/neu ddefaid.

o'r swm llawn (h.y. o leiaf £38,000) i 31 arall. Dim ond pedwar prosiect a gafodd lai, gydag un yn derbyn ychydig dros £25,000, un arall ychydig dros £30,000, a dau yn cael o £36,000–£38,000.

Amcanion strategol

- 3.34 Roedd yn rhaid i'r ymgeiswyr arweiniol ddangos yn eu cais at ba rai o flaenoriaethau Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014–2020 yr oedd eu prosiect yn cyfrannu atynt. Dyma oedd eu hymateb:
- Roedd 45/46 (98 %) yn cyfrannu at Flaenoriaeth 1: Meithrin trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi mewn amaethyddiaeth ac ardaloedd gwledig.
 - Roedd 44 (96 %) yn cyfrannu at Flaenoriaeth 2: Gwella cystadleurwydd pob math o amaethyddiaeth a gwella hyfywedd ffermydd.
 - Roedd 32 (70 %) yn cyfrannu at Flaenoriaeth 3: Hyrwyddo trefniadaeth cadwyni bwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth.
 - Roedd 27 (59 %) yn cyfrannu at Flaenoriaeth 4: Adfer, cadw a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth.
 - Roedd 33 (72 %) yn cyfrannu at Flaenoriaeth 5: Hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi'r symudiad tuag at economi carbon isel sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth.
- 3.35 Mae hyn yn dangos sut y cyflawnodd y prosiectau yn erbyn nodau craidd y cynllun, h.y. gwneud busnesau ffermio a choedwigaeth yn fwy cystadleuol ac yn fwy proffidiol drwy arloesi, ac roedd y rhan fwyaf o geisiadau hefyd yn cynnwys elfen o greu buddion amgylcheddol.

3.36 At hynny, roedd y data monitro yn cynnwys gwybodaeth am synergeddau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Roedd 22 (48 %) o'r prosiectau yn cyd-fynd â'r nod o greu 'Cymru lewyrchus'.
- Roedd 11 (24 %) yn cyd-fynd â'r nod o greu 'Cymru gydnerth'.
- Roedd 9 (20 %) yn cyd-fynd â chreu 'Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang'.
- Roedd 7 (15 %) yn cyd-fynd â chreu 'Cymru iachach'.

Lefel arloesedd a'r gallu i gyflwyno ar raddfa fwy

3.37 Gofynnwyd cwestiwn i aelodau'r Grwpiau Gweithredol er mwyn pennu lefel arloesedd eu prosiect. Dywedodd traean o'r ymatebwyr (14/42) fod y prosiect yn seiliedig ar arfer newydd yn y sector, a dywedodd y ddau draean arall (28/42) ei fod yn arfer newydd yng Nghymru / yr ardal. Felly, bu'r prosiectau'n ymwneud yn bennaf â chymhwyso arferion o fannau eraill a phrofi sut maent yn gweithio ar ffermydd a safleoedd coedwigaeth Cymru. Mewn rhai achosion, er nad oedd y dechnoleg ei hun yn arloesol, roedd cymhwyso'r dechnoleg o dan yr amgylchiadau hynny yn newydd a defnyddiwyd y cynllun i brofi pa mor gost-effeithiol oedd y cymhwysiad hwnnw.

3.38 Pwysleisiodd y tîm cyflawni, y Broceriaid Arloesi a rhanddeiliaid allanol bwysigrwydd cael eglurder ynghylch yr hyn a olygir gan arloesi, ac roeddent yn ffafrio diffiniad ehangach, h.y. iddo fod yn newydd i'r busnesau sy'n rhan o'r Grŵp Gweithredu. Mae hyn, i ryw raddau, yn cael ei bennu gan y rheoliadau ariannu, nad oedd yn caniatáu ar gyfer buddsoddi mewn ymchwil sylfaenol; felly, ni ellid arloesi yn ei ystyr puraf. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i'r prosiectau ddangos nad oedd yr ymchwil wedi'i chymhwyso yng Nghymru o'r blaen.

3.39 Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid ac aelodau'r tîm cyflawni'n credu bod ystod briodol o brosiectau wedi'u dewis. Roeddent yn ceisio cael cydbwysedd drwy fuddsoddi mewn syniadau a oedd nid yn unig yn arloesol ond hefyd yn ymarferol ac yn gallu cael eu cyflwyno ar raddfa fwy. Mae'n ymddangos bod y ffaith eu bod wedi'u seilio'n bennaf ar syniadau ffermwyr wedi sicrhau eu bod yn gogwyddo mwy tuag at ochr ymarferol / modd eu cyflwyno ar raddfa fwy y sbectrwm, tra bod yna grŵp llai o brosiectau sydd efallai'n fwy anghonfensiynol. Er enghraifft, os ydym yn ystyried y prosiect 'EIP4 - Lleihau Gwrthfotigau mewn Defaid', mae'n enghraifft gref o brosiect ymarferol sy'n canolbwyntio ar leihau'r defnydd o wrthfotigau a, thrwy

hynny, leihau costau drwy archwilio dewisiadau eraill. Mae gan y prosiect y potensial i ddangos manteision clir y gellir eu cyflwyno ar raddfa fwy a'u mabwysiadu ymhellach gan ffermwyr defaid eraill. Ar y llaw arall, mae prosiect 'EIP42 - Planhigion Egsotig' yn archwilio'r cyfle i dyfwyr yng Nghymru arallgyfeirio trwy dyfu cnydau arbenigol. Efallai bod hyn yn fwy arloesol, er bod risg uwch na fyddai'n gweithio ac nid yw mor hawdd i'w gyflwyno ar raddfa fwy.

4. Asesiad o berfformiad cyflawni

Llwyddiannau yn erbyn proffil cyflawni

- 4.1 Ar y lefel fwyaf sylfaenol, mae EIP Cymru wedi bod yn llwyddiant, gyda'r cynllun yn rhagori ar bob un o dri tharged y Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol hyn yn ddangosyddion allbwn a ddefnyddiwyd i fesur llwyddiant y cynllun wrth gyflawni'r gweithgaredd a osodwyd. Ar y mesur hwnnw, mae'r cynllun wedi llwyddo i gyflawni pob un o'r 45 o brosiectau a gynhaliwyd gan y Grwpiau Gweithredol ynghyd ag un ychwanegol; at hynny, mae wedi rhagori ar y targedau ar gyfer nifer y sefydliadau a oedd yn ymwneud â Grwpiau Gweithredol a nifer y gweithrediadau a gefnogwyd. Mae hyn yn dangos maint y gweithgarwch a gyflawnwyd a llwyddiant y cynllun wrth gyflawni'r hyn yr oedd wedi bwriadu ei wneud.

Tabl 4.1: Cyflawniad yn erbyn targedau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol

	Targed	Cyflawnwyd	% a gyflawnwyd
Nifer gweithrediadau EIP a gefnogwyd	75	192	256%
Nifer grwpiau EIP a gefnogwyd	45	46	102%
Nifer a math y partneriaid yng ngrwpiau EIP	220	317	144%

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2023

- 4.2 Mae'r 46 dyfarniad grant yn dod i gyfanswm o £2,475,000 wedi'i ddyfarnu, gyda £2,173,171.35 wedi'i ei hawlio hyd at fis Ebrill 2023²⁴ (cyfwerth ag 88 % o'r cyfanswm a ddyfarnwyd). I gefnogi cydweithio a gweithgareddau'r prosiect, dyrannwyd Broceriaid Arloesi i bob prosiect am gost ychwanegol o tua £720,000. Yn unol â hynny, mae'r cynllun i raddau helaeth wedi gallu gweinyddu'r cyllid yn ôl y bwriad.

²⁴ Noder nad oedd y dyddiad cwblhau ariannol ar gyfer rhai prosiectau tan fis Mehefin 2023.

- 4.3 Yn ogystal â chyllid y grantiau, roedd costau'n gysylltiedig â gweinyddu'r cynllun. Mae'r rhain yn bennaf yn cynnwys rôl Menter a Busnes (amcangyfrifir bod hyn yn costio £600,000). Fe wnaeth Taliadau Gwledig Cymru werthuso nifer o gynigion cychwynnol EIP, a gafodd eu gwrthod i gyd, cyn defnyddio Menter a Busnes i gyflawni'r cynllun cyfan. Amcangyfrifir bod gweinyddiaeth y cynllun, o safbwynt Taliadau Gwledig Cymru, wedi costio £46,000.
- 4.4 Gyda'i gilydd, cyfanswm y costau ar gyfer cyflawni'r cynllun yw tua £3.5m, gyda'r grantiau'n cyfrif am 81 % (33 % o gyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig, 29 % o arian cyfatebol Llywodraeth Cymru, ac 20 % o gymorth cyflawni prosiect y Broceriaid Arloesi), a gweinyddiaeth Taliadau Gwledig Cymru a Menter a Busnes yn cyfrif am 18 %. Nodwn fod hyn yn cynrychioli'r amcangyfrif gorau ac nad yw'n cyfrif am rai o'r costau eraill (e.e. yr amser a ddarparwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth na'r digwyddiadau a drefnwyd gan Gyswllt Ffermio).

Tabl 4.2: Cyflawniad ariannol

Categori gwariant	Swm a wariwyd	Cyfran o gyfanswm y gwariant
Cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig (53% UE)	£1,151,780.82	33%
Arian cyfatebol Llywodraeth Cymru (47%)	£1,021,390.53	29%
Costau cyflawni'r Broceriaid Arloesi (heb gynnwys TAW)	£720,385.34 ²⁵	20%
Costau gweinyddol Menter a Busnes	£600,000	17%
Costau gweinyddol Taliadau Gwledig Cymru	£46,000	1%
Cyfanswm	£3,539,556.69	

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2023

²⁵ Mae'r ffigurau ar gyfer Ebrill 2015 i Fawrth 2022 wedi'u cadarnhau; fodd bynnag, rhagamcan yw'r ffigur ar gyfer Ebrill 2022 i Fawrth 2023, gan nad oedd y flwyddyn ariannol derfynol wedi'i hawlio eto ar adeg rhannu'r data.

- 4.5 Yn gyffredinol, mae pob grŵp o randdeiliaid a roddodd adborth fel rhan o'r gwerthusiad (h.y. y tîm cyflawni, aelodau'r Grwpiau Gweithredol a rhanddeiliaid allanol) wedi bod yn hapus iawn â'r ffordd y cafodd y cynllun ei gyflawni a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Soniodd aelodau'r tîm cyflawni am eu boddhad â'r amrywiaeth o wahanol gynlluniau peilot a gynhaliwyd a'u potensial i sicrhau newidiadau pwysig i'r sector:
- “Yr hyn sydd wedi ei gwneud yn wahanol i raglenni amaethyddol eraill oedd amrywiaeth a chwmpas y grwpiau... Fe wnaethom ni ymwneud â llawer o is-sectorau ac mae gan rai o'r prosiectau gyfle go iawn i drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio yn y sector yn y dyfodol” (Aelod o'r tîm cyflawni).
- 4.6 Dywedodd rhanddeiliaid eraill fod y prosiectau a gynorthwywyd wedi dangos eu gwerth, gyda thîm da iawn ym Menter a Busnes a wnaeth gyflawni'n effeithiol ac a oedd â “gwerthfawrogiad dwfn o'r materion dan sylw a diben yr EIP”.
- 4.7 Mae gweddill y bennod hon yn adeiladu ar y canfyddiadau a amlygwyd yn ystod y cam interim (y mae llawer ohonynt yn parhau i fod yn berthnasol) mewn perthynas â phob agwedd ar gyflawni a dylunio. Dechreuwn drwy asesu'r llwybrau i ymgysylltu cyn asesu effeithiolrwydd y prosesau ymgeisio ac arfarnu. Yna byddwn yn asesu rôl y Brocer Arloesi o ran ansawdd, perthnasedd, hyblygrwydd a gwerth am arian a ddarparwyd, ac yn ystyried yr egwyddorion sylfaenol o gyflawni menter dan arweiniad ffermwyr / sy'n gweithio fel grŵp. Yn olaf, darparwn gymhariaeth o'r cynllun yng Nghymru â chyflawniad yr EIP-AGRI yn Lloegr ac amlinellwn y gwersi allweddol a ddysgwyd wrth symud ymlaen.

Llwybrau i ymgysylltu

- 4.8 Cyswllt Ffermio oedd yn bennaf gyfrifol am hyrwyddo'r cynllun, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y data lle mai'r brif ffordd y daeth pobl yn ymwybodol o'r cynllun oedd drwy drafod gyda'u Swyddogion Datblygu a gyflogwyd gan Gyswllt Ffermio. Mae hyn yn gyson â sylwadau'r tîm cyflawni, a esboniodd eu bod yn defnyddio staff “allan yn y maes” sy'n siarad â ffermwyr yn rheolaidd ac a gyfarwyddwyd i gyfeirio at y cynllun pe bai materion/syniadau perthnasol yn codi mewn sgwrs.
- 4.9 Mae pwysigrwydd sianeli Cyswllt Ffermio (clywodd nifer fach am y cynllun drwy gyhoeddiadau Cyswllt Ffermio hefyd) yn esbonio pam mae'r cynllun wedi ymgysylltu'n bennaf â busnesau sy'n canolbwyntio mwy ar arloesi ac sy'n aml yn

cymryd rhan mewn cynlluniau gwahanol, fel y dangoswyd yn y bennod flaenorol. Yn ôl un o'r rhanddeiliaid: "Pe bai ffermwyr yn gwybod am fynd i ofyn i rywun yng Nghyswllt Ffermio sut [maent] yn cael [eu] syniadau wedi'u hariannu, yna byddent yn dod at EIP yn weddol gyflym." Fodd bynnag, aeth y rhanddeiliad ymlaen i ddweud y byddai ffermwyr nad oeddent yn gymaint o ran o'r rhwydweithiau wedi bod yn llawer llai tebygol o wybod am y cymorth a gallu cael gafael arno. Felly, roedd y dull marchnata rhagweithiol wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i aelodau Cyswllt Ffermio.²⁶

4.10 Daeth cyfran fawr o aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn ymwybodol o'r gefnogaeth ar lafar, o bosibl o ganlyniad i'r diddordeb a ddeilliodd o rai o'r prosiectau cynharach:


"Wrth i'r prosiectau ddechrau sefydlu, roedd yna effaith pelen eira. Roedd yna erthyglau ar y prosiectau [...] roedd pobl yn eu darllen a byddent yn cysylltu â ni – roedd gennym lawer o ffermwyr yn cysylltu â ni yn uniongyrchol ar ôl gweld yr erthyglau." (Aelod o'r tîm cyflawni).

4.11 Felly, er bod y marchnata rhagweithiol wedi'i dargedu'n bennaf at fusnesau a oedd eisoes wedi ymwneud â Chyswllt Ffermio, gallai'r cynllun hefyd fanteisio ar randdeiliaid allweddol eraill i godi ymwybyddiaeth mewn meysydd pellach. Eglurodd y tîm cyflawni y byddai aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn aml yn gwahodd cymdogion neu ffrindiau, a allai fod wedi gweithredu y tu allan i'r ecosystem gymorth yn draddodiadol, i ymuno â nhw fel cyd-aelodau o'r Grwp Gweithredol a bod "wynebau newydd" yn cymryd rhan yn y cynllun.

4.12 Roedd gan y Broceriaid Arloesi rôl bwysig o'r cychwyn cyntaf. Cawsant drwydded i amlygu cyfleoedd gan EIP Cymru i'w cleientiaid ac i gyfeirio lle bo angen. Awgrymodd dau randdeiliad fod hyn yn peri risg sef y gallai'r Broceriaid Arloesi "wthio" prosiectau yn eu blaen er eu budd masnachol eu hunain. Fodd bynnag, gwnaeth un o'r Broceriaid Arloesi wrthddadlau'r pwynt blaenorol drwy egluro bod y broses ymgeisio ac arfarnu gynhwysfawr wedi darparu'r gwiriadau a'r cydbwysedd priodol. Mae hwn yn sylw dilys, fel y byddwn yn dangos yn yr adran nesaf.

²⁶ Mae'n bwysig nodi bod cyfran fawr o fusnesau fferm yn aelodau o Cyswllt Ffermio, gyda 12,615 wedi'u cynorthwyo yn ystod y cyfnod hwn. Ffynhonnell: Gwefan Llywodraeth Cymru, '[Cefnogaeth Cyswllt Ffermio gwerth dros £22 miliwn ar gyfer ffermwyr Cymru](#)', Chwefror 2023.

Ffigur 4.1: 'A allwch ddweud wrthym sut y daethoch yn ymwybodol o'r cymorth?'



Ffynhonnell: Arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=129) a'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr (n=29); cyfanswm o n=158

4.13 I grynhoi, bu'r cynllun yn ymgysylltu'n bennaf ag aelodau'r Grŵp Gweithredol drwy gyfuniad o gyswllt uniongyrchol drwy sianeli Cyswllt Ffermio yn ogystal â'r diddordeb a grëwyd yn organig. Roedd hwn yn amlwg yn ddull effeithiol, a rhagorodd y cynllun ar ei dargedau o ran nifer y partneriaid a oedd yn rhan o'r Grwpiau Gweithredol. Er bod hyn wedi arwain at gefnogi grŵp o fusnesau ffermio a oedd yn fwy blaengar ac yn ymwneud â'r rhwydwaith cymorth (h.y. y rhai sydd fel arfer yn ymwneud â chynlluniau o'r fath, fel yr amlinellwyd yn y bennod flaenorol), roedd hefyd yn cyflawni ei ddiben o ddarparu cyfle addas i dreialu'r meysydd ymchwil. Yn ogystal, cyrhaeddodd y cynllun y tu hwnt i'r grŵp o ffermwyr/coedwigwyr sy'n aml yn dangos diddordeb (efallai oherwydd i'r diddordeb organig a grëwyd), gan fod 30 % (32/108) o'r busnesau ffermio wedi nodi nad oeddent wedi cael unrhyw gymorth ariannol yn y pum mlynedd diwethaf.

Proses ymgeisio ac arfarnu'r prosiectau

4.14 Roedd gwneud cais am gymorth gan y cynllun yn broses hir a oedd yn darparu craffu effeithiol a dull i sicrhau bod y meysydd ymchwil yn briodol (gan gynnwys trwy adolygiad llenyddiaeth dan arweiniad arbenigwyr gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth ar sail ymchwil a wnaed eisoes yn y maes). Disgrifiwyd y broses ymgeisio gan un o'r Broceriaid Arloesi fel proses "aedd fed a thryloyw iawn" a oedd yn caniatáu i'r prosiectau gael eu hasesu ar sail wyddonol a thechnegol gyda chyfle i wneud sylwadau ac addasiadau lle bo angen.

4.15 Yn yr un modd, byddai natur gynhwysfawr y broses wedi'i gwneud yn anodd iawn i ffermwyr a busnesau coedwigaeth ymgymryd â'r gwaith heb gymorth. Mae hyn yn amlwg ym mhrofiad EIP-Lloegr (gweler Atodiad 8), lle na ddarparwyd cymorth broceriaeth, ac o ganlyniad ni lwyddodd y cynllun i sicrhau'r ymgysylltiad arfaethedig gan y diwydiant. Yn wir, bu gostyngiad o 80 % yn Lloegr o'r cam cyntaf i'r ail gam lle cafodd y gofynion gwybodaeth, ynghyd â diffyg cymorth, yr effaith ddeuol o leihau'r diddordeb mewn datblygu cais llawn (gan fusnesau ffermio a choedwigaeth. yn arbennig) a gogwyddo gweithgarwch tuag at sefydliadau mwy.

- 4.16 Am y rheswm hwn, mae rôl y Broceriaid Arloesi wedi bod yn hanfodol wrth helpu neu hyd yn oed arwain y broses o ysgrifennu ceisiadau a chyllidebu, ac agweddau eraill ar y broses ymgeisio yng Nghymru. Roedd yr ymgeiswyr arweiniol a enwyd (ffermwyr) a ymatebodd i'n harolwg yn fodlon ar y cyfan â'r mynegiad o ddiddordeb a'r prosesau ymgeisio ac arfarnu, gyda 78 % (21/27) yn nodi eu bod naill ai'n 'fodlon iawn' neu 'rywfaint' yn fodlon; at hynny, pan oeddent yn egluro eu rhesymau, roedd sylwadau'r ymgeiswyr yn aml yn cyfeirio at gymorth y Broceriaid Arloesi a sut roeddent wedi ysgwyddo'r baich yn eu lle.
- 4.17 Yn wir, dywedodd 80 % o'r ymatebwyr (33/41) fod y Broceriaid Arloesi wedi darparu cymorth 'defnyddiol iawn' i fireinio syniadau'r prosiect a datblygu amlinelliad o'r prosiect a chais. Nododd llawer yn benodol yn eu sylwadau fod eu Broceriaid Arloesi wedi bod "wrth y llyw", fel y dywedodd rhywun, ar y broses honno.²⁷ Dywedodd dau ymatebydd hefyd na fyddent wedi gallu ymgymryd â'r broses eu hunain am nad oedd ganddynt yr amser. Yn ôl un Brocer Arloesi:
- "Dydw i ddim yn meddwl y byddai unrhyw un o'r prosiectau rydw i wedi bod yn gweithio arny'n nhw wedi'u cyflawni heb i rywun eu cynorthwyo. Roedd y broses ymgeisio yn canolbwyntio'n fawr ar gyllid yr UE. Roedd yn teimlo'n go glogyrnaidd. Roedd yn rhaid i chi ddweud y pethau iawn yn y lleoedd iawn" (Cyfweliad â Brocer Arloesi).
- 4.18 Y risg gyda dull gweithredu mor ddibynnol ar Froceriaid Arloesi yw bod y prosiectau'n cael eu siapio yn unol â'u gweledigaeth hwy ac yn seiliedig ar eu syniadau yn hytrach na rhai aelodau'r Grŵp Gweithredol. Yn yr un modd, mae yna gwestiwn o degwch. Nid yw pob Brocer Arloesi mor fedrus wrth ddatblygu ceisiadau ag eraill; felly, mae'n bosibl y byddai'r unigolion sydd â'r Broceriaid Arloesi mwy profiadol neu wybodus wedi bod â mantais o ran sicrhau buddsoddiad. Yn wir, amlygodd pedwar o'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn teimlo eu bod wedi'u siomi / bod angen rhagor o arbenigedd arnynt yn ystod y cam ymgeisio:
- "Mae'r broses yn anodd iawn. Nid oedd yn teimlo bod llawer o gymorth i wneud cais amdano. Fe wnaethom ni hyn ein hunain ac roedd yn anodd ac yn heriol

²⁷ Dim ond 13 a ymatebodd i'r cwestiwn dilynol hwn am ei fod wedi'i bennu gan y cymorth penodol a gawsant gan Froceriaid Arloesi. Hynny yw, dim ond yr ymatebwyr a oedd yn cofio cael cymorth gan Frocer Arloesi i fireinio syniadau'r prosiect a datblygu amlinelliad o'r prosiect a chais a atebodd y cwestiwn hwn.

gwneud hynny. Rwy'n meddwl y gallai'r broses gael ei symleiddio neu gallai fod cymorth ar gael, gan nad oedd dim." (Arolwg o'r rhai nad ydynt yn fuddiolwr).

- 4.19 Y pryder arall yw'r diffyg detholusrwydd yn y dull arfarnu a dethol. Eglurodd y tîm, er y gallent fod wedi cyflwyno ffenestri ariannu a sgorio ymgeiswyr yn erbyn ei gilydd i'w wneud yn fwy cystadleuol, eu bod yn teimlo nad oedd angen hyn, o ystyried eu bod eisoes yn sicrhau trawstoriad priodol o brosiectau, ac y byddai'n haws rheoli'r broses ar sail dreigl. Serch hynny, gallai proses fwy cystadleuol a sylfaen fawr o syniadau i ddewis o'u plith fod wedi codi ansawdd a chanlyniadau posibl y prosiectau hyd yn oed ymhellach. Awgrymodd un aelod o'r tîm cyflawni efallai y dylent fod wedi rhedeg tair ffenestr o gyfleoedd yn ystod y broses (yn hytrach na galwad agored), a fyddai "wedi caniatáu asesiad gwell o'r prosiectau ar sail rhaglen gyfan ac wedi caniatáu asesiad gwell o ymrwymadau cyllideb ac ati". Mae hyn yn rhywbeth y dylid ei ystyried ar gyfer cyflawni yn y dyfodol.
- 4.20 I grynhoi, roedd y broses ymgeisio ac arfarnu yn ei hanfod yn cynnwys dau brif amcan: 1. sicrhau prosiectau addas (h.y. rhai a oedd yn gallu dangos yr angen/cyfle a'r gallu i gyflawni gyda thrylwyredd gwyddonol digonol)
2. sicrhau bod y prosiectau'n gyson ag egwyddorion sylfaenol y cynllun (gan gynnwys dull o'r gwaelod i fyny / wedi'i arwain gan ffermwyr). Roedd y rhain, i ryw raddau, yn amcanion sy'n cystadlu, gyda'r angen i ddangos trylwyredd gwyddonol ac addasrwydd buddsoddiad, a oedd yn golygu bod angen cymorth i lywio'r manylion gofynnol, gan danseilio, o bosibl, yr uchelgais o gael dull gweithredu gwirioneddol o'r gwaelod i fyny. Fodd bynnag, roedd yr holl grwpiau rhanddeiliaid yn fodlon iawn ar y cyfan â'r cydbwysedd a gafwyd, ac mae'r dystiolaeth a gasglwyd ynghylch cyflawniad y cynllun yn Lloegr yn awgrymu mai dyma'r dull cywir.

Y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth

- 4.21 Cafodd yr agwedd hon o'r prosiect dderbyniad da gan ymgeiswyr, gyda naw o'r 18 ymgeisydd arweiniol a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol yn ein harolwg (50 %) yn nodi bod y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth wedi bod yn 'ddefnyddiol iawn', a phump arall (28 %) yn nodi y bu'n 'ddefnyddiol' (rhoddodd y pedwar arall ymateb niwtral). Esboniodd sawl ymatebydd fod yr adroddiadau adolygiad llenyddiaeth yn llawn gwybodaeth ac yn ateb pob cwestiwn oedd ganddynt.
- 4.22 Roedd y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn chwarae rhan bwysig i'w chwarae o ran llywio'r broses arfarnu a sicrhau bod y prosiectau'n seiliedig ar waith ymchwil presennol. Yn wir, roedd ei rôl sylfaenol yn mynd y tu hwnt i gynorthwyo aelodau'r Grwpiau Gweithredol a chyflawniad y prosiectau yn uniongyrchol; roedd yn darparu gwasanaeth dilysu hollbwysig ac yn cael ei gwerthfawrogi gan y tîm cyflawni craidd. Ar wahân i'r rôl ddilysu, mae'n ymddangos bod ei dylanwad ar siapio prosiectau a'u cyflawniad parhaus wedi bod yn fwy cymysg; nododd y Broceriaid Arloesi yn gyffredinol eu bod wedi defnyddio rhywfaint o'r wybodaeth yn y broses ymgeisio ond nad oeddent wedi'i defnyddio rhyw lawer wedi hynny:

Canfyddiadau cyffredinol o gymorth i gyflawni'r prosiectau

- 4.23 Ar y cyfan, roedd aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn fodlon iawn â'r cymorth a gafwyd i gyflawni'r prosiectau, gyda 84 % (110/131) yn nodi eu bod yn 'fodlon iawn' neu 'rywfaint' yn fodlon. Roedd ymgeiswyr arweiniol yn fwy bodlon nag aelodau eraill y Grwpiau Gweithredol, sydd efallai ddim yn syndod o ystyried bod y prosiectau'n cael eu treialu ar safleoedd yr ymgeiswyr arweiniol ac mai hwy sy'n debygol o gael y prif ymgysylltiad gan y tîm cymorth, er y gall y lefelau boddhad uchod fod yn dangos na fu aelodau eraill yn ymwneud cymaint â'r prosiectau.
- 4.24 Gan egluro'r rhesymau dros y sgorau uchel, cyfeiriodd 39 o'r 132 sylw (30 %) at y cyfathrebu a'r wybodaeth "ragorol" a ddarparwyd gan y tîm cymorth gan nodi eu bod yn ymatebol iawn i ymholiadau ac yn rhoi argymhellion. Roedd rôl y Broceriaid Arloesi wrth strwythuro'r treialon a threfnu'r prosiectau yn cael ei gwerthfawrogi'n arbennig. Amlygodd aelodau'r Grwpiau Gweithredol fod eu cyfarfodydd fel grŵp / gyda'r Broceriaid Arloesi wedi'u trefnu'n dda, bod y cyfathrebu'n glir drwyddo draw, bod eglurder o ran yr hyn a ddisgwylir ganddynt a sut y byddai'r treialon yn cael eu cynnal, e.e. o ran casglu samplau neu rannu data. Cyfeiriodd y sylwadau eto at y

modd yr oedd y staff cymorth wedi cymryd y baich oddi arnynt drwy helpu ac arwain ar y gwaith papur. Mae'r sylwadau hyn yn dangos pwysigrwydd y rôl hwyluso, lle'r oedd y tîm cymorth wedi cymryd llawer o'r cyfrifoldeb am gydlynu a chyflawni'r prosiectau:

“Cafodd popeth am y prosiect ei gyfathrebu'n glir ac yn effeithlon. Cawsom y wybodaeth yr oedd angen i ni ei gwybod ac ni chawsom ein gorlwytho â geirfa dechnegol. Roedd pob agwedd ar y prosiect wedi'i threfnu'n dda (o'r cyfarfodydd i'r profion i [...] gael y canlyniadau). (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

- 4.25 Er bod y sylwadau'n ymwneud yn bennaf â gwerth y cymorth hwyluso, siaradodd 20 o ymatebwyr (15 %) am werth yr arbenigedd sydd ar gael iddynt. Roedd hyn yn cwmpasu ystod eang o wahanol feysydd, gydag enghreifftiau o arbenigwyr yn rhoi cyngor ar faethiad defaid a mesurau ataliol i leihau salwch a heintiau anifeiliaid, a chyfeiriodd llawer at y cyngor defnyddiol a dderbyniwyd gan filfeddygon, e.e. o ran eu harferion sganio gwartheg.
- 4.26 Roedd busnesau a oedd wedi ymwneud â Menter a Busnes a'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn barhaus yn gyffredinol hefyd yn ystyried bod eu cymorth yn ddefnyddiol, gydag wyth o'r 16 (50 %) yn dweud, wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, ei fod yn 'ddefnyddiol iawn', a thri arall yn nodi ei fod 'rywfaint yn ddefnyddiol'.

Asesiad o rôl y Brocer Arloesi

- 4.27 Dim ond 61 % o aelodau'r Grwpiau Gweithredol (17/28) a ddywedodd eu bod wedi cael cymorth gan Frocer Arloesi. Mae data monitro Llywodraeth Cymru yn dangos bod 40 o'r 46 prosiect (87 %) yn cynnwys Brocer Arloesi. Gallai'r anghysondeb hwn gael ei esbonio naill ai gan rôl lai gweithredol Broceriaid Arloesi mewn rhai prosiectau (gan arwain at ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith aelodau'r Grŵp Gweithredol) neu ddiffyg ymgysylltiad neu ymwybyddiaeth gan aelodau'r Grŵp Gweithredol eu hunain. Fel arall, efallai bod y Broceriaid Arloesi wedi cysylltu'n bennaf â'r aelod arweiniol yn hytrach nag aelodau eraill y Grŵp Gweithredol mewn rhai prosiectau; gallai hyn hefyd esbonio'r anghysondeb mewn rhai achosion.
- 4.28 Roedd gan y Broceriaid Arloesi rôl bwysig o ran cynorthwyo neu arwain darpariaeth yn y rhan fwyaf o achosion. Er enghraifft, sefydlwyd mwyafrif y Grwpiau Gweithredol gan Froceriaid Arloesi, gydag 81 % o ymatebwyr i'r arolwg (30/37) yn dweud bod y cymorth a ddarparwyd ganddynt yn 'ddefnyddiol iawn' yn hynny o beth (e.e. mewn

un enghraifft roedd modd i'r Brocer Arloesi ddod o hyd i filfeddyg yn Nyfnaint sy'n arbenigo yn maes llaeth defaid i ddiwallu anghenion penodol iawn y prosiect). Ymhellach, ac fel y nodwyd eisoes, roedd y Grwpiau Gweithredol hefyd yn fodlon iawn ar y cyfan â'r cymorth i gyflawni eu ceisiadau.

- 4.29 Ymhellach, chwaraeodd y Broceriaid Arloesi rôl hollbwysig wrth drefnu'r gwaith o gyflawni'r prosiectau ymchwil, fel a nodwyd yn yr isadran flaenorol, ac roedd aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn hynod gadarnhaol am eu rôl (dywedodd 79 % (33 o ymatebwyr) ei bod yn 'ddefnyddiol iawn') . Wrth fyfyrir ar rôl y Brocer Arloesi wrth sicrhau bod y prosiectau ymchwil yn cael eu cyflawni â digon o drylwyredd gwyddonol, dywedodd un aelod o Grŵp Gweithredol:

“Oherwydd ei fod dros ddwy flynedd, roedd angen y strwythur i allu parhau â'r prosiect a sicrhau bod pawb ar yr un cyflymder er mwyn gallu gymharu â'n gilydd i weld sut y gellid monitro gwahanol ddulliau (trin â chalch, er enghraifft) a gallem i gyd ddysgu a datblygu o'r gwahanol ddulliau gweithredol sy'n cael eu defnyddio ar draws gwahanol aelodau'r grŵp.” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

- 4.30 Dywedodd aelodau'r Grwpiau Gweithredol ymhellach fod eu Broceriaid Arloesi yn meddu ar yr arbenigedd perthnasol i ddiwallu eu hanghenion wrth gyflawni'r prosiect, tra bod 70 % (31/44) yn 'cytuno'n gryf' ei bod yn bwysig cael Brocer Arloesi i helpu i gyflawni eu prosiect.
- 4.31 Roedd aelodau'r tîm cyflawni yn cytuno â'r asesiad hwn gan nodi bod y Broceriaid Arloesi wedi bod yn “broffesiynol iawn ac wedi'u cyflawni'n effeithiol iawn”. Wrth sôn am y gwerth am arian yn benodol, dywedodd un aelod o'r tîm cyflawni y gofynnwyd llawer i'r Broceriaid Arloesi, a oedd yn aml yn cael eu talu tua £12,000 i gyflawni eu prosiect dros gyfnod o dair blynedd, “nad oedd yn llawer am yr hyn a gyflawnwyd ganddynt”. Ar gyfartaledd, roedd y Brocer Arloesi yn costio tua £18,000 y prosiect.

4.32 I grynhoi, mae'r Broceriaid Arloesi wedi chwarae rhan hanfodol wrth gynorthwyo pob agwedd ar gyflawni, o'r gwaith cychwynnol i sefydlu Grwpiau Gweithredol a chyflwyno ceisiadau, i gyflawni'r treialon ymchwil. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae aelodau'r Grwpiau Gweithredol wedi bod yn hynod gadarnhaol ynghylch eu cyfranogiad. Yn yr un modd, nodwn fod Broceriaid Arloesi wedi'u recriwtio oherwydd eu galluoedd technegol lefel uchel, ond mewn gwirionedd roedd natur y rôl yn canolbwyntio llawer mwy ar hwyluso a rheoli prosiectau. Er bod yr arbenigedd a'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt yn bwysig mewn rhai prosiectau, ar y cyfan nid oedd yr elfennau hyn yn rhan berthnasol o'u mewnbwn, ac roedd mwy o angen am sgiliau rhyngpersonol a'r gallu i ddod â phobl ynghyd. Mae cydbwysedd y dystiolaeth yn awgrymu bod y Broceriaid Arloesi wedi darparu gwerth da am arian, er ei bod hefyd yn bosibl y gallai llawer o'r gweithgarwch hwyluso fod wedi'i gyflawni'n fwy cost-effeithiol ar lefel swyddogion prosiect is.

Cyflawni menter dan arweiniad ffermwyr / sy'n gweithio fel grŵp

4.33 Dyluniwyd y cynllun i gael ei gyflawni gan ffermwyr a choedwigwyr, ac yn seiliedig ar eu syniadau, drwy ddull o'r gwaelod i fyny. Am y rheswm hwn y gwnaed y penderfyniad i gyfyngu gwerth y grant i £40,000 – penderfyniad a gefnogwyd gan y mwyafrif helaeth o aelodau'r Grwpiau Gweithredol, gyda 79 % (97/123) yn dweud ei fod 'fwy neu lai'n iawn'. Ychydig iawn o gynlluniau EIP eraill a ddewisodd gael trothwy mor fach. Roedd EIP-Lloegr, er enghraifft, yn croesawu ceisiadau grant o hyd at £200,000, a golygodd hyn bod nifer o brosiectau'n cael eu harwain gan ymgynghorwyr mawr a chorfforaethau bwyd rhyngwladol. Nid dyma fu'r achos yng Nghymru, lle mae'n ymddangos bod y penderfyniad i gyfyngu ar derfyn cyllid y grant fel yma wedi bod yn effeithiol er mwyn cynorthwyo prosiectau yr oedd gan ffermwyr a choedwigwyr fwy o ddiddordeb ynddynt.

4.34 Amlygodd aelodau'r Grwpiau Gweithredol bwysigrwydd dull dan arweiniad ffermwyr o fynd i'r afael â'r cynlluniau hyn, gan nodi bod gwneud hynny'n helpu i sicrhau bod modd gweithredu'r nodau, ei fod "yn ei wneud yn fwy perthnasol i'r realiti masnachol ar lawr gwlad", a'u bod yn mewn gwell sefyllfa i wybod beth fyddai'n gweithio ar eu fferm. Yn ogystal, esboniodd ymatebwyr yr arolwg fod y dull gweithredu hwn wedi helpu i sicrhau effaith waddol, gan y byddai ffermwyr yn fwy tebygol o gynnal yr arferion, yn ogystal â'i fod wedi helpu i sicrhau cefnogaeth gan ffermwyr.

- 4.35 Ar y cyfan, nododd aelodau'r Grwpiau Gweithredol fod y prosiectau wedi'u seilio ar eu syniad hwy, gyda 39 % (49/125) yn cytuno'n 'gryf' a 31 % (39) yn cytuno 'rywfaint' â'r gosodiad hwn (cyfanswm o 70 %), a chwech % (saith ymateb) yn unig oedd yn anghytuno.
- 4.36 Roedd rhai eithriadau i hyn. Er enghraifft, amlygodd un Brocer Arloesi mai Llywodraeth Cymru a awgrymodd ddau o'u prosiectau ac mai eu rôl hwy oedd rheoli'r prosiectau ac ymgysylltu ag aelodau'r Grŵp Gweithredol, gan annog yr aelodau hynny i fod yn rhan o'r prosiectau dan sylw. Roedd y prosiectau hyn wedi'u hawgrymu oherwydd eu bod yn strategol eu natur ac yn archwilio technolegau a allai helpu ffermwyr i ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau'r arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol, lle dywedodd lleiafrif bach nad oedd y prosiectau'n seiliedig ar eu syniad hwy.
- 4.37 Wedi dweud hynny, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y cynllun wedi'i gyflawni i raddau helaeth gan ddefnyddio dull dan arweiniad ffermwyr ac o'r gwaelod i fyny o ran ffurfio syniadau. Mae'r dystiolaeth ychydig yn fwy cymysg o ran y gwaith go iawn o gyflawni'r prosiectau. Ar y cyfan, roedd aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn credu eu bod wedi arwain y gwaith cyflawni, gan fod 65 % (80/124) yn cytuno â'r gosodiad bod 'y prosiect wedi ei arwain gan y coedwigwyr / ffermwyr', tra bod naw % (11 ymateb) yn anghytuno. Fodd bynnag, mae tystiolaeth arall o'r arolwg yn awgrymu bod y Broceriaid Arloesi wedi chwarae rhan flaenllaw mewn llawer o'r prosiectau, fel a drafodwyd yn yr adran flaenorol. Mynegodd rhai o aelodau'r Grwpiau Gweithredol fod hyn yn wendid:
- “Ro'n i'n llawer rhy naïf am y peth... dylen ni fod wedi bod yn llawer mwy taer am y pethau roedden ni wir yn teimlo y dylid bod wedi eu gwneud ond fe wnaethon ni ildio i'r contractwr... Yr anfantais o gael rhywun i drefnu hyn ar eich rhan yw eich bod chi'n dueddol o adael iddyn nhw fwrw ymlaen â'r gwaith heb weld yn union beth oedd yn digwydd. Yn gyffredinol, mae'n fodel da ond rhywsut neu'i gilydd mae angen i'r bobl sy'n gwneud y gwaith ac y mae'r prosiect ar eu cyfer fod wedi buddsoddi gant %, nid dim ond rhoi'r cyfan yng ngofal y tîm rheoli” (arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).
- 4.38 Nododd y tîm cyflawni, er bod y dull o'r gwaelod i fyny yn gweithio yn y rhan fwyaf o achosion, eu bod wedi “dod ar draws rhai prosiectau a oedd yn cynnig syniadau cyffrous, ond nad oedd ganddynt y gallu a'r oruchwyliaeth i'w datblygu”, ac felly

byddai dull mwy o'r brig i'r bôn wedi helpu i symud y prosiectau hynny yn eu blaen. Yn ogystal, awgrymodd un arall efallai y dylai'r cynllun fod wedi cael strategaeth gyffredinol gydag efallai bedair neu bum thema allweddol yr oedd yn rhaid i'r prosiectau gyd-fynd â nhw. Yn ôl y cyfwelai, byddai hyn wedi caniatáu ar gyfer "ffocws gwell ar anghenion y sector yn hytrach na dymuniadau'r sector". Mae'r sylwadau hyn hefyd yn gyson â rhai sylwadau gan randdeiliaid allanol a ddisgrifiodd y cynllun fel un sydd ag "ymagwedd dameidiog" nad oedd bob amser yn strategol.

- 4.39 Gallwn ddysgu gwersi o'r ddarpariaeth mewn mannau eraill yn Ewrop ar hyn, lle, er bod cynlluniau wedi'u rhannu'n weddol gyfartal o ran dull gweithredu agored neu ragnodol, roedd llawer o'r cynlluniau y barnwyd bod ganddynt ddull agored serch hynny wedi nodi anghenion a chyfleoedd penodol neu sectorau i ganolbwyntio arnynt. Teimlai rhai aelodau o'r tîm cyflawni y gallai EIP Cymru fod wedi defnyddio dull tebyg: "Arloesi o safbwynt o'r gwaelod i fyny, ond gyda strategaeth gyffredinol" fel y'i disgrifiwyd gan un.


Ymgysylltu a chydweithio ymhlith aelodau'r Grwpiau Gweithredol

- 4.40 Unwaith eto mae'r dystiolaeth yn gymysg ynghylch maint y gweithgarwch cydweithredol sy'n digwydd o fewn y Grwpiau Gweithredol a lefel yr ymgysylltiad gan holl aelodau'r Grwpiau Gweithredol, sy'n ymddangos fel pe baent wedi amrywio o brosiect i brosiect.
- 4.41 Amlygodd y Broceriaid Arloesi a'r tîm cyflawni sawl enghraifft o gydweithio traws-sector da. Bu cydweithio cadarnhaol rhwng y ffermwr arweiniol ac academydd o Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym mhrosiect pori'r ucheldir (EIP21 – Gwyndynnydd yr ucheldir). Roedd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn ymwneud yn helaeth â'r prosiect Porfa i Beillwyr (EIP 3), ac roedd milfeddygon yn ymwneud yn agos â rhai o'r prosiectau iechyd anifeiliaid (lle y gwnaethant roi cyngor i ffermwyr ar y grŵp). Dim ond rhai o'r enghreifftiau a amlygwyd i ni yw'r rhain; mae enghreifftiau pellach i'w gweld yn y rhestr o brosiectau a amlinellir yn Atodiad 10.
- 4.42 Roedd enghreifftiau eraill lle na fu cymaint o gydweithio nac ymgysylltu gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol. Yn wir, disgrifiodd aelodau'r tîm cyflawni a'r Broceriaid Arloesi ddarlun amrywiol iawn:

“Aruthrol o amrywiol. Enghreifftiau da lle mae aelodau nad ydynt yn ffermwyr wedi bod yn rhagweithiol, e.e. cymryd rhan wirioneddol mewn trafod canlyniadau, gan [helpu] i nodi data, ac ati. Gydag eraill, ni fyddai rhai aelodau nad ydynt yn ffermwyr yn gwybod beth mae'r prosiect wedi'i wneud” (Cyfweliad â Brocer Arloesi).

- 4.43 Roedd hyn yn amlwg yn ein hymwneud â phobl nad ydynt yn ffermwyr naa choedwigwyr. Nodwn mai dim ond 73 o gysylltiadau nad oeddent yn ymwneud â ffermio/coedwigaeth oedd yna, tra bod 70 % o'r Grwpiau Gweithredol (32/46) yn cynnwys dim ond un sefydliad nad oedd yn ymwneud â ffermio/coedwigaeth. Wrth gynnal ein harolwg, nid oedd 20 % o'r rhai nad oeddent yn ffermwyr/coedwigwyr y gwnaethom gysylltu â nhw (9/44) yn gallu cofio eu prosiect neu'n awgrymu nad oeddent wedi bod yn rhan ohono. Mae hwn yn ganfyddiad pwysig ynddo'i hun, ac yn un sy'n dangos rhywfaint o ddiffyg ymgysylltu. Yn ogystal, disgrifiodd un o aelodau'r tîm cyflawni eu syndod pan “Siaradais ag ychydig o gyfranogwyr a ddwedodd wrthyf nad oedden nhw'n sylweddoli eu bod yn rhan o'r prosiect”. Nodwn ymhellach, fodd bynnag, fod y rhai nad oeddent yn ffermwyr/coedwigwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn ymwneud â gweithgarwch eu prosiect.
- 4.44 Yn ogystal, wrth ymateb i brif gwestiwn yr arolwg, mynegodd 84 % o aelodau'r Grwpiau Gweithredol (102/122) eu bod yn credu eu bod wedi gweithio'n dda gyda'u cyd-aelodau o'r Grŵp Gweithredol. Roedd hyn ychydig yn is ymhlith y rhai nad ydynt yn ffermwyr/coedwigwyr, er ei fod yn dal yn uchel, gyda 72 % (13/18) yn cytuno â'r gosodiad. At hynny, roedd 88 % (110/125) yn credu bod eu Grŵp Gweithredol yn cynrychioli cymysgedd priodol o arbenigedd, gyda chyfran debyg o'r rhai nad ydynt yn ffermwyr/coedwigwyr yn dweud yr un peth.

Ffigur 4.2: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r gosodiadau canlynol am y Grŵp Gweithredol? - Roedd y Grŵp Gweithredol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd'



Ffynhonnell: Arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=129) a'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr (n=29); cyfanswm o n=158

4.45 Roedd canfyddiadau eraill o'r arolwg, fodd bynnag, yn darparu tystiolaeth bellach o ddiffyg ymgysylltiad a gweithgarwch cydweithredol ymhlith rhai o'r prosiectau. Er enghraifft, dywedodd 51 % o'r rhai nad oeddent yn arwain (44/87) nad oeddent yn gyfarwydd 'o gwbl' â lefel cyllid y prosiect a sut y defnyddiwyd y cyllid.

4.46 Dywedodd sawl aelod o'r Grŵp Gweithredol y dylid ailystyried y diffyg digolledu am amser ffermwyr ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol:

“Rwy'n meddwl bod angen edrych yn eithaf gofalus ar y sail rydyn ni'n ymgysylltu â ffermwyr. O'r cychwyn cyntaf mae'n amlwg nad yw'r ffermwyr yn cael eu talu am eu hamser felly mae'r manteision iddyn nhw yng nghanlyniadau a chanfyddiadau'r prosiect ac mae angen gwneud hynny'n glir iawn iddyn nhw o'r cychwyn cyntaf. Mae angen i'r broblem hon fod yn broblem ddigon mawr ac mae angen i'r manteision fod yn ddigon mawr iddynt roi llawer o amser ac ymrwymiad, mae angen iddyn nhw ymgysylltu gryn dipyn. Mae canlyniadau'r rhain yn cael eu rhannu'n ehangach, nid yn unig er budd y ffermwyr dan sylw, felly a oes achos dros ddigolledu ffermwyr i ryw raddau?” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

4.47 Yn wir, yr effaith andwyol ar gapasiti aelodau'r Grwpiau Gweithredol oedd yr ail her a nodwyd amlaf pan ofynnwyd am hynny yn yr arolwg, yn ail i effeithiau andwyol yn gysylltiedig â'r coronafeirws (COVID-19). Cyfeiriodd dau ymatebydd yn benodol at rwystredigaeth yn sgil diffyg digolledu am eu hamser, a chyfeiriodd tri at ddiffyg ymgysylltiad gan aelodau eraill o'r Grŵp Gweithredol (gan gynnwys un a esboniodd nad oedd aelodau eraill yn ymgysylltu oherwydd yr ymrwymadau amser, heb gael eu had-dalu):

“Cael y ffermwyr i barhau i fod yn ymrwymedig i'r prosiect, gan iddynt ddechrau rhoi'r gorau iddi ar ôl blwyddyn o brosiect tair blynedd (oedd y brif her). Roedd ffermwyr eraill yn meddwl fy mod i'n wallgof yn gwneud y prosiect yma, gan na chefais fy nhalu am fy amser, neu'r tir a neilltuwyd ar ei gyfer, a dyna pam y gwnaethant ddechrau rhoi'r gorau iddi, gan nad oeddent am fuddsoddi eu hamser a'u llafur ynddo [...] heb unrhyw dâl am eu gwasanaethau.” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

4.48 Fodd bynnag, er bod y tîm a'r rhanddeiliaid yn meddwl y gallai'r diffyg digolledu yma am amser ffermwyr fod yn broblem, dim ond tri o'r 80 o sylwadau (pedwar %) gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol oedd yn ymwneud â hyn pan ofynnwyd iddynt am y prif heriau o ran cyflawni. Yn ogystal, pan ofynnwyd yn uniongyrchol iddynt am y gwelliannau y byddent am eu gweld, dim ond pedwar o 80 o sylwadau'r ymatebwyr a amlygodd yr angen i dalu ffermwyr am eu hamser. Mae hyn yn debygol o fod am eu bod wedi gallu defnyddio'r Broceriaid Arloesi ac agweddau eraill ar y seilwaith cymorth i dynnu llawer o'r pwysau cyflenwi oddi arnynt eu hunain. Gellid dadlau, gan fod y treialon yn cael eu cynnal ar eu ffermydd hwy a bod y cynllun fel arfer yn buddsoddi yn eu syniadau hwy, nad yw'n annheg disgwyl i aelodau'r Grwpiau Gweithredol fuddsoddi rhywfaint o'u hamser heb gael tâl amdano.

4.49 Yn ôl y tîm cyflawni, ni welwyd cydweithredu a chydgyssylltu rhwng y Grwpiau Gweithredol mewn unrhyw ystyr diriaethol, ac eithrio un digwyddiad arallgyfeirio a drefnwyd gan Gyswllt Ffermio. Mae hyn er i gynlluniau EIP gael eu hannog i hwyluso cydweithio o'r fath. Nododd un aelod o'r tîm cyflawni fod y prosiectau mor wahanol ac amrywiol fel ei bod weithiau'n anodd gweld y cysylltiadau rhwng y Grwpiau Gweithredol. Mae hyn eto'n dangos lle gallai fod wedi bod yn fuddiol cael cyfres o brosiectau â ffocws mwy strategol yn seiliedig ar themâu cyffredin.

- 4.50 I grynhoi, roedd y graddau y gellid disgrifio prosiectau fel rhai o'r brig i lawr neu o'r gwaelod i fyny yn amrywio o brosiect i brosiect, yn dibynnu ar ba mor rhagweithiol oedd aelodau'r Grwpiau Gweithredol a'r Broceriaid Arloesi a sut y daethant i fodolaeth. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau wedi'u cychwyn gan ffermwyr a choedwigwyr ac yn seiliedig ar eu hanghenion hwy, ond gyda chymorth helaeth gan y Broceriaid Arloesi i'w cyflawni. Mae hefyd yn bwysig ystyried a ddylai'r cynllun geisio dull gweithredu cwbl agored o'r gwaelod i fyny, dan arweiniad ffermwyr, neu a ddylai fod rhywfaint o gyfaddawdu i sicrhau bod y prosiectau'n cyflawni anghenion strategol dybryd (a fyddai'n golygu bod y cynllun yn debycach i'r dull cyflawni mewn mannau eraill yn Ewrop).
- 4.51 Nodwyd hefyd, er y cafwyd un enghraifft o brosiect EIP Cymru yn sicrhau cyllid ychwanegol i barhau â'u hymchwil, nid oedd unrhyw fecanwaith clir nac adnoddau pwrpasol i ehangu a phrif ffrydio'r prosiectau gorau. Mynegodd aelodau'r tîm cyflawni fod hyn yn wendid ac roeddent yn cefnogi'r syniad o gael adnodd pwrpasol, gyda'r cynllun bron yn cael ei ddefnyddio fel "cyllid sbarduno" i brofi nifer o wahanol brosiectau am gost gymharol isel gyda chronfa wedi'i chlustnodi i gyflwyno'r enghreifftiau gorau ar raddfa ehangach.
- 4.52 Mae'n ymddangos bod lefel yr ymgysylltu a chydweithio ymhlith aelodau'r Grŵp Gweithredol wedi amrywio'n sylweddol, gyda pheth tystiolaeth o ddiffyg ymgysylltu, yn enwedig ymhlith y rhai nad ydynt yn ffermwyr na choedwigwyr. Ceisiodd EIP Lloegr sicrhau ymgysylltiad trwy ei gwneud yn orfodol i holl aelodau'r Grŵp Gweithredol gytuno i gylch gorchwyl, a thrwy hynny sicrhau eglurder o ran eu rolau (nad yw'n ymddangos fel pe bai wedi bod yn wir bob amser yng Nghymru). Dylid ystyried hyn ar gyfer darpariaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Yn ogystal, dylai cynlluniau yn y dyfodol ystyried a ddylai busnesau ffermio a choedwigaeth nad ydynt yn rhai arweiniol gael eu digolledu am eu hamser.

Gwersi a ddysgwyd ar gyfer model cyflawni yn y dyfodol

- 4.53 Gydag EIP Cymru yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar rôl y Broceriaid Arloesi na llawer o gynlluniau EIP eraill yn Ewrop, roedd gan randdeiliaid ddiddordeb mewn deall a oedd y buddsoddiad mewn Broceriaid Arloesi yn briodol. Yn wir, roedd rhai rhanddeiliaid yn cwestiynu priodoldeb talu “ffi ymgynghorydd” am yr hyn a oedd yn bennaf yn rôl hwyluso, tra bod eraill yn cwestiynu'r egwyddor o wario cymaint o'r cyllid ar ymgynghoriaethau, gan nodi y byddai'n well i'r arian fynd yn uniongyrchol i'r ffermwyr a busnesau coedwigaeth sy'n ymwneud â phrosiectau EIP.
- 4.54 Tasg y cynllun oedd cydbwysu dyheadau ar gyfer dull dan arweiniad ffermwyr, yr angen i sicrhau trylwyredd gwyddonol, cynorthwyo'r prosiectau gorau a mwyaf addas, a sicrhau cost-effeithiolrwydd. Roedd tri opsiwn ar gael yn fras.
- Opsiwn 1: y status quo, lle byddai ymgynghorwyr allanol yn cael eu comisiynu fel Broceriaid Arloesi i ddarparu cymorth hwyluso i'r prosiectau, gyda Menter a Busnes yn gyfrifol am gydgyssylltu gweithgarwch ar lefel y cynllun (drwy'r Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth a'r Swyddog Prosiect).
 - Opsiwn 2: dim cymorth hwyluso, gan symleiddio'r prosesau cymaint â phosibl (o fewn cyfyngiadau cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig) a sefydliadau'n cael eu gadael i gyflawni'r broses gyfan eu hunain (fel ym model EIP Lloegr).
 - Opsiwn 3: cymorth hwyluso yn cael ei ddarparu gan dîm canolog a fyddai'n debygol o fod wedi bod yn llai profiadol ac yn cynnig llai o arbenigedd, er y byddai hefyd wedi bod yn llai costus; yn ei hanfod, byddai hyn wedi golygu sefydlu tîm o Swyddogion Prosiect i ddarparu'r cymorth hwyluso.
- 4.55 Nodwn fod sail dda i'r angen am gymorth hwyluso, ac y byddai aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn annhebygol iawn o fod wedi ymgysylltu ar y raddfa a wnaethant heb y cymorth. Mae hyn, i ryw raddau, yn arwydd o natur cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig, gyda'r gofynion gweinyddol helaeth sy'n gysylltiedig â'r rhaglen. Yn Lloegr, er bod eu dull 'dim cymorth hwyluso' yn ei gwneud yn ofynnol i Grwpiau Gweithredol a'u haelodau fod yn llawer mwy ymroddedig mewn amgylchedd 'llwyddo neu fethu', a allai fod wedi arwain at grwpiau mwy gwydn (nodwn fod rhai grwpiau wedi parhau'n dda er i'r cynllun ddod i ben), arweiniodd hefyd at danwariant sylweddol a diffyg ymgysylltu ymhlith busnesau ffermio a choedwigaeth, yn enwedig am fod llawer o'r gweithgarwch wedi'i gynnal gan sefydliadau mawr. Dim ond £1.85m o'r gyllideb o £5m yn Lloegr a ddyrannwyd yn llwyddiannus.

- 4.56 At hynny, mae'r cymorth hwyluso a ddarparwyd gan EIP Cymru wedi bod yn bwysicach o lawer na bod yn fecanwaith i ymgysylltu ag aelodau a lleddfu'r baich a fyddai wedi digwydd fel arall. Mae mewnbyn y Broceriaid Arloesi wedi gwella'r modd y cyflawnwyd y prosiectau, a defnyddiwyd eu harbenigedd a'u profiad i gyflawni'r treialon mewn modd strwythuredig, a thrwy hynny sicrhawyd y trylwyredd gwyddonol oedd ei angen i gadarnhau hygyrdedd canfyddiadau'r ymchwil. Yn unol â hynny, hyd yn oed os bydd rhywfaint o'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig ag arian y Rhaglen Datblygu Gwledig yn cael ei dynnu o ymyriadau yn y dyfodol, byddai achos cryf yn parhau dros gynnal rhyw fath o gymorth hwyluso.
- 4.57 Roedd aelodau'r Grwpiau Gweithredol o blaid hyn i raddau helaeth. Pan ofynnwyd am yr opsiwn yr oeddent yn ei ffafrio o ran sut y dylid cyflawni cynlluniau fel yr EIP yn y dyfodol, dewisodd 74 % (35/47) yr opsiwn o gadw strwythur tebyg (h.y. proses ymgeisio gynhwysfawr ond gyda chymorth sylweddol gan Froceriaid Arloesi), a dim ond 26 % (12 ymateb) a ddewisodd broses symlach, ysgafn gydag ychydig iawn o gymorth gan dîm canolog (ac felly rhoi mwy o gyfrifoldeb ar yr ymgeisydd arweiniol/aelodau'r Grŵp Gweithredol i gyflawni'r gwaith). Yn ogystal â disgrifio'r angen am gymorth ymarferol (i liniaru'r baich gweinyddol, y gellid mynd i'r afael ag ef hefyd, mewn egwyddor, drwy symleiddio'r broses), cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at bwysigrwydd cael cymorth proffesiynol i reoli'r cymhlethdod a sicrhau bod y prosiectau yn cael eu cyflawni yn ôl y bwriad, yn ogystal ag â hygyrdedd gwyddonol.

“Rwy'n meddwl ei fod yn gweithio'n eithaf da. Roedd yn hawdd iawn i mi ymrwymo iddo a chymerwyd gofal o'r holl bethau cymhleth angenrheidiol. Fy mhryder i fyddai pe bai ffermwyr yn gorfod ei wneud, fydden ni ddim yn cael y maen i'r wal, fel petai” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

“Yn bendant mae angen brocer arloesi i arwain a threfnu a dod â phobl o wahanol gefndiroedd ac arbenigeddau i mewn ond hefyd i roi adborth ar bryderon ymarferol y ffermwyr. Mae'r brocer arloesi yn sicrhau bod gan y prosiect yr hygyrdedd gwyddonol sydd ei angen tra hefyd yn sicrhau bod y ffermwyr yn cael budd ymarferol o'r prosiect ac yn dileu'r baich gweinyddol” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

“Chwaraeodd y brocer arloesi ran allweddol yn llwyddiant y prosiect hwn. Fe wnaethon nhw ddarparu'r cymorth gweinyddol sy'n helpu gweddill y grŵp

gweithredol i ganolbwyntio ar brif amcanion y prosiect. Ychydig iawn o brofiad oedd gan lawer o'r cyfranogwyr o'r math hwn o brosiect ac roedd y brocer arloesi yn darparu arweiniad a strwythur gwerthfawr" (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

- 4.58 Cyfeiriodd eraill at y ffaith bod y math o gymorth sydd ei angen yn amrywio yn ôl natur y prosiect, a bod rhai yn symlach i'w darparu nag eraill. Nodwyd hefyd bod rhai o aelodau ac arweinwyr y Grwpiau Gweithredol yn fwy profiadol nag eraill ar ymwneud â phrosiectau ymchwil a datblygu.
- 4.59 Gyda'i gilydd, er bod y data hyn yn dangos pwysigrwydd cadw cymorth hwyluso wrth gyflawni yn y dyfodol, gallai'r ffaith bod y prosiectau'n amrywio o ran pa mor gymhleth ydynt awgrymu achos dros fodel cyfunol sy'n rhedeg ar draws dau neu bob un o'r tri opsiwn sy'n cael eu disgrifio uchod. Er enghraifft, gallai cynllun yn y dyfodol nodi'n gyntaf a oes angen cymorth hwyluso o gwbl a, lle caiff yr angen hwnnw ei gadarnhau, asesu a all Swyddog Prosiect is ymgymryd â lefel y cymhlethdod neu a oes angen arbenigwr allanol. Efallai mai dyma fyddai'n rhoi'r cydbwysedd gorau rhwng sicrhau gwerth am arian, trylwyrredd gwyddonol, cynnal proses ymgeisio drylwyr i helpu i nodi'r prosiectau gorau, a chael dull gweithredu o'r gwaelod i fyny.

5. Canlyniadau ar gyfer aelodau'r Grwpiau Gweithredol

Darparu prosiectau llwyddiannus

- 5.1 Dywedodd cyfanswm o 59 % (77/130) o aelodau'r Grwpiau Gweithredol fod eu prosiectau wedi'u cwblhau ar adeg cynnal yr arolwg.²⁸ Yn yr achosion hynny lle'r oedd eu prosiectau wedi'u cwblhau, gofynnwyd nifer o gwestiynau dilynol am y canlyniadau. Roedd y mwyafrif helaeth o aelodau'r Grwpiau Gweithredol a oedd â phrosiectau wedi'u cwblhau naill ai'n 'cytuno'n gryf' (58 %, 40/69) neu'n 'cytuno rywffaint' (23 %, 16 ymateb) bod eu prosiect wedi bod yn llwyddiant (cyfanswm o 81 %, heb gynnwys y rhai a ddywedodd ei bod yn rhy gynnar i ddweud).
- 5.2 Ochr yn ochr â'r dadansoddiad hwn, gwnaethom hefyd archwilio llwyddiant canfyddiedig ar lefel prosiect er mwyn nodi faint o'r prosiectau yr ystyriwyd eu bod wedi bod yn llwyddiant. O'r 42 o brosiectau a gafodd sylw yn yr arolwg (h.y. lle rhoddodd o leiaf un aelod o'r Grŵp Gweithredol adborth), roedd yn ymddangos bod 33 (79 %) wedi'u cwblhau ar y pryd.²⁹ Cytunodd holl aelodau'r Grwpiau Gweithredol fod eu prosiect wedi bod yn llwyddiant mewn 65 % (20/31³⁰) o'r prosiectau a gwblhawyd ac roedd 26 % arall o brosiectau (8/31) yn cynnwys ymateb cymysg, h.y. lle'r oedd rhai yn cytuno bod eu prosiect wedi bod yn llwyddiant ac eraill yn anghytuno. Dim ond 10 % o brosiectau (3/31) oedd yn cynnwys barn unfrydol ymhlith aelodau'r Grŵp Gweithredol nad oedd eu prosiectau wedi bod yn llwyddiant. Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod mwyafrif helaeth y prosiectau'n cael eu hystyried yn llwyddiant.
- 5.3 Yn gyffredinol, dywedodd aelodau'r Grwpiau Gweithredol bod eu prosiectau wedi bod yn llwyddiant am eu bod wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol ac wedi cyflawni'r hyn yr oeddent wedi bwriadu ei wneud, e.e. "Yr amcan oedd lleihau'r gwrthfotigau ac fe wnaethom ni hynny ac mae gennym ni'r data i'w brofi". Yn wir, pan ofynnwyd iddynt, roedd 78 % o'r ymatebwyr (74/95) yn cytuno, i ryw raddau o leiaf, eu bod wedi cael y buddion yr oeddent yn gobeithio y byddai'r prosiectau'n eu

²⁸ Erbyn diwedd ton gyntaf yr arolwg ym mis Ionawr 2022, roedd hanner y prosiectau wedi'u cwblhau. Roedd hyn wedi cynyddu i 91% erbyn diwedd ail don yr arolwg ym mis Ionawr 2023, ac mae'r canlyniadau yn yr adran hon felly'n rhoi cymysgedd o'r ddwy linell amser hynny.

²⁹ Mae hyn ar y sail bod o leiaf un aelod o'r Grŵp Gweithredol wedi dweud bod eu prosiect wedi'i gwblhau. Sylwch fod gan 15 o brosiectau aelodau o'r Grŵp Gweithredol yn rhoi ymatebion cyferbyniol ynghylch a oedd eu prosiectau wedi'u cwblhau. Gallai hyn adlewyrchu'r diffyg ymgysylltu ac ymwybyddiaeth ymhlith rhai aelodau o statws y prosiect yr oeddent yn rhan ohono.

³⁰ Noder na wnaeth ymatebwyr o ddau brosiect roi ymateb i'r cwestiwn hwn.

cynhyrchu (gan eithrio'r rhai a ddywedodd ei bod yn rhy gynnar i ddweud). Nodwn fod 27 % o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn (35/130) wedi dweud ei bod yn rhy gynnar i ddweud, yn bennaf am nad oedd eu prosiectau wedi'u cwblhau ar adeg cynnal yr arolwg. Fodd bynnag, cafwyd nifer fach o sylwadau gan ymatebwyr â phrosiectau wedi'u cwblhau, efallai gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol nad oeddent wedi ymgysylltu cymaint, a oedd yn awgrymu nad oeddent wedi cael gwybod am y canlyniadau; felly, dylai'r cynllun sicrhau bod holl aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn cael eu hysbysu.

- 5.4 Yn ogystal â'r ymatebwyr a nododd lwyddiant oherwydd y canlyniadau cadarnhaol a gafwyd, gall y prosiectau sy'n dangos yn derfynol nad yw syniad yn gweithio hefyd gael eu disgrifio fel llwyddiannau. Er enghraifft, cyfeiriodd un aelod o'r tîm cyflawni at brosiect 'EIP6 – Cynhyrchu Sêr (Squill)', a dreialodd y broses o dyfu sêr ar ffermydd yng ngogledd Cymru a chanfod nad oedd hyn yn gweithio oherwydd bod argaeledd bylbiau had yn broblem er mwyn manteisio ar eu tyfu'n fasnachol. Mae'r canfyddiadau hyn yr un mor bwysig â chanfyddiadau'r prosiectau 'llwyddiannus' ac yr un mor hanfodol o ran ochr ledaenu'r cynllun i atal ffermwyr eraill rhag buddsoddi mewn pethau y dangoswyd eisoes eu bod yn anhyfyw. Yr unig achos lle y dylid ystyried prosiectau peilot fel y rhain yn 'fethiant' yw os ydynt yn methu â dangos yn derfynol bod y syniad sy'n cael ei dreialu yn gweithio neu nad yw'n gweithio (neu lle nad yw'r wybodaeth honno'n cyrraedd y sector ehangach ac felly nad yw'n ychwanegu at y sylfaen wybodaeth).

Newidiadau i arferion

- 5.5 Dywedodd ychydig dros hanner y cyfranogwyr (56 %, 62/110) eu bod wedi newid arferion yn eu busnes o ganlyniad i'r prosiect, ac roedd 23 % arall wedi ateb 'Ddim eto' (25 o ymatebion), gan awgrymu felly y gallent wneud hynny yn y dyfodol. O ystyried nad oedd llawer o'r prosiectau wedi'u cwblhau ar adeg cynnal yr arolwg a bod nifer o aelodau eraill y Grwpiau Gweithredol yn dal i aros am ganlyniadau eu prosiectau, gallwn gymryd yn ganiataol y bydd y ffigur o 56 % yn cynyddu ymhellach. Yn wir, nododd tua thraean o'r ymatebion gan sefydliadau a ddewisodd 'Na' mewn ymateb i'r cwestiwn eu bod naill ai heb gael y canlyniadau eto neu wedi cael gwybodaeth werthfawr a'u bod yn dal i ystyried sut i'w defnyddio: "Heb newid dim eto ond mae wedi rhoi syniad i mi o beth i'w wneud".

5.6 Gofynnwyd y cwestiwn hwn hefyd i aelodau'r Grwpiau Gweithredol a oedd wedi cwblhau eu prosiectau yn 'Ffurflen werthuso diwedd prosiect EIP Cymru'; ymhlith y 35 o ymatebion, dywedodd 24 (69 %) eu bod wedi gwneud newidiadau o ganlyniad i'r prosiect. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â gwella technegau ffermio (25 ymateb), gwelliannau iechyd anifeiliaid (12 ymateb), a defnyddio profion i lywio penderfyniadau (saith ymateb). Roedd y newidiadau penodol a wnaed yn amrywio'n sylweddol yn ôl thema'r prosiect yr oeddent yn ymwneud ag ef, a rhoddir rhai enghreifftiau isod.

“Tocio traed yn fwy rheolaidd, matiau rwber, tanciau dŵr newydd, mwy o ffocws ar sgorio emosiwn llaeth a chysur gofal” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

“Rydym bellach yn cynnal profion genomig ar yr holl loi yn rheolaidd” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

“Llai o ddefnydd o gemegau a phlaladdwyr sy'n gwneud y cynnyrch yn fwy deniadol i ddefnyddwyr ac yn arbed llawer o arian i'r fferm gan nad oes angen i ni brynu cemegau drud mwyach” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

“Rydym wedi datblygu dull mwy effeithiol o ran cost ac amser o baratoi Bedw Cymreig i'w prosesu” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

5.7 Mae hwn yn ganfyddiad allweddol sy'n datgelu bod y rhan fwyaf o'r ffermwyr a choedwigwyr sy'n ymwneud â'r cynllun wedi gwneud newidiadau diriaethol.

Buddion newidiadau

5.8 Roedd buddion y newidiadau a wnaed i arferion ffermio a choedwigaeth hefyd yn amrywio'n sylweddol yn unol â gweithgareddau penodol y prosiectau a gyflawnwyd. Mae enghreifftiau o weithgareddau o'r fath yn cynnwys lleihau'r defnydd o wrthfotigau, lleihau salwch a haint trwy brofion, a dangos budd ariannol profion genetig, e.e.:

“Darparodd [y prosiect] dystiolaeth glir o ba mor bwysig oedd iechyd y gadair a'n bod yn gor-odro a oedd yn arwain at fwy o heintiau ac yna'n lleihau ansawdd cynnyrch llaeth. Roedd hyn yn dangos bod profion syml yn nodi'r broblem yn gynnar ac y gellid ei thrin yn hawdd heb fod angen defnyddio gwrthfotigau ar raddfa fawr” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

“Dim ond os yw pob ffermwr mewn ardal yn gweithredu y gellir cael gwared ar y clafr fel clefyd. Mae'r grŵp wedi dangos bod prawf gwaed syml a throchi lle ceir canlyniadau positif yn lleihau lefelau'r clafr mewn praidd ond bydd angen mabwysiadu hynny ar draws holl ffermwyr y rhanbarth i gael gwared â'r broblem yn llwyr” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

5.9 Datgelwyd rhai themâu penodol gan adolygiad o'r sylwadau (129) a wnaed gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol ynghylch y buddion a gafodd eu sefydliad o ganlyniad i weithredu'r newidiadau. Yn ddelfrydol, byddem yn adrodd ar fuddion a nodwyd fel canran o nod y prosiect perthnasol, yn hytrach na chanran o gyfanswm y sylwadau (h.y. er mwyn nodi pa ganran o'r prosiectau hynny sy'n ceisio lleihau gwrthfotigau, er enghraifft, oedd yn llwyddiannus). Fodd bynnag, nid oedd hyn yn bosibl o'r data a oedd ar gael gan y byddai wedi galw am set glir o amcanion a chanlyniadau cyfatebol ar gyfer pob prosiect ar ffurf data pendant. Yn gyffredinol, mae'r data a gasglwyd ar hyn wedi bod ar ffurf naratif ac wedi'i godio fel rhan o'r dadansoddiad. Nid oedd hyn yn ddigon cadarn i ddadansoddi cyflawniad nodau penodol ar sail prosiect. Mae'r ffocws fan yma, felly, ar themâu cyffredinol y canlyniadau a adroddwyd gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol. Roedd nodau'r prosiectau'n amrywio'n sylweddol ac, o'r herwydd, dim ond i is-set o ymatebwyr y bydd y canlyniadau hyn wedi bod yn berthnasol. Mae'r themâu hyn fel a ganlyn:

- Dywedodd 21 (16 %) eu bod wedi gallu lleihau'r defnydd o wrthfotigau a meddyginiaethau eraill, tra hefyd yn lleihau salwch a haint, trwy gamau ataliol (e.e., profi, datblygu brechlynnau, a newidiadau i arferion magu sy'n arwain at welliannau mewn agweddau megis maeth a hylendid) ym mhrosiectau 'EIP4 - Lleihau Gwrthfotigau mewn Defaid', 'EIP35 - Iechyd y Gadair', 'EIP17 - Mynd i'r Afael â'r Clafr', 'EIP32 - MCF mewn Buail/Byfflo', 'EIP41 - Cloffni', a yn ogystal â phrosiectau 'EIP34 - Gwyndynnydd Llysieuol' ac 'EIP23 - Nifer yr wyau yn ysgarthion gwartheg'.

- Dywedodd 19 (15 %) eu bod wedi gallu gwella ansawdd eu da byw (e.e. magu pwysau, ffrwythlondeb, cyfraddau lloia ac ati) neu gynnyrch arall (e.e. cynnyrch uwch/llai o wastraff cnydau) drwy brofion cyffredinol, profion genetig, gwelliannau i arferion magu (yn arwain at welliannau yn ansawdd y pridd/maeth/hylendid ac ati), a chynhyrchu cnydau (e.e. defnyddio plaladdwyr naturiol). Cyflawnwyd y gwelliannau hyn trwy brosiectau 'EIP15 - Porthiant Dail ar gyfer Glaswelltir', 'EIP3 - Porfa i Beillwyr', 'EIP37 - Diagnosis Beichiogrwydd', 'EIP34 - Gwyndynnydd Llysieuol', 'EIP8 - Profion Genomig mewn Ffermio Llaeth', 'EIP16 - Elfennau Hybrin', 'EIP29 - IDPM Ffrwythau Meddal', 'EIP46 - Bio-ologsg', 'EIP27 - Slyri Lot', 'EIP19 - Cynhyrchu Cig Gafr', ac 'EIP33 - Pompiynau.
- Nododd 16 (12 %) fuddion ar gyfer cadwraeth a'r amgylchedd trwy brosiectau 'EIP3 – Porfa i Beillwyr' (h.y. cynyddu stociau gwenyn), 'EIP34 – Gwyndynnydd Llysieuol' (hefyd drwy gael effaith gadarnhaol ar beillwyr), 'EIP39 - Carbon Niwtral' (trwy nodi ffyrdd i leihau ôl troed carbon ffermwyr e.e. drwy leihau tocio gwrychoedd), 'EIP5 – Coedwigaeth Effaith Isel' (trwy ddefnyddio peiriannau llai eu heffaith), 'EIP18 – Orlhain Da Byw â GPS' (drwy nodi'r cynefin y mae gwartheg yn canolbwyntio arno a defnyddio'r wybodaeth i lywio cadwraeth), 'EIP29 - IDPM Ffrwythau Meddal' (trwy leihau'r defnydd o blaladdwyr), 'EIP1 - Rheoli Clwy Tatws' (trwy leihau'r defnydd o wrtaith sy'n seiliedig ar nitrogen), 'EIP30 - Cryptosporidiwm' (trwy lywio gwaith i atal halogiad nentydd ac afonydd), ac 'EIP27 - Slyri Lot' (trwy nodi arferion gorau i leihau llygredd sy'n gysylltiedig â slyri).
- Dywedodd tri (dau %) eu bod wedi gallu marchnata eu cynnyrch yn well trwy brosiectau 'EIP2 - Grŵp Eidion Mynyddoedd Cambria' ac 'EIP3 - Porfa i Beillwyr'.
- Dywedodd dau (dau %) eu bod wedi gallu datblygu a/neu werthu cynnyrch newydd o ganlyniad i brosiectau 'EIP38 - Sudd Bedw' ac 'EIP1 - Rheoli Clwy Tatws'.
- Dywedodd un (un %) eu bod wedi gallu datblygu eu cadwyn gyflenwi leol a thorri costau drwy brosiect 'EIP2 - Grŵp Eidion Mynyddoedd Cambria'.

5.10 Yn unol â hynny, y tri phrif ganlyniad i fusnesau yn sgil cymryd rhan yn EIP, o bell ffordd, yw gwelliannau i iechyd anifeiliaid ar eu ffermydd a gostyngiad mewn costau

cysylltiedig ag iechyd (a nodwyd gan 21 o ymatebwyr i'r arolwg ar draws saith prosiect); gwelliannau i gynnyrch busnesau (a nodwyd gan 19 o ymatebwyr ar draws 11 o brosiectau); a chanlyniadau amgylcheddol (a nodwyd gan 16 o ymatebwyr ar draws naw prosiect).

5.11 Roedd cyfanswm o 40 o'r sylwadau (31 %) gan ymatebwyr yn egluro ei bod yn rhy gynnar i fod wedi cael unrhyw ganlyniadau. Ac eithrio'r rheini, roedd 56 % o'r sylwadau (49/88) yn rhoi manylion am ganlyniadau diriaethol ar gyfer eu busnesau.

5.12 Mae rhai o'r prosiectau hyn yn ymddangos yn amlach nag eraill, gan awgrymu eu bod wedi bod yn arbennig o lwyddiannus. Er enghraifft, roedd y prosiect 'EIP3 - Porfa i Beillwyr' yn amlwg iawn yn yr ymatebion i'r arolwg, yn cynnwys buddion cadwraeth trwy gynyddu'r boblogaeth o weny yn lleol ynghyd â darparu gwelliannau ym maeth buchesi llaeth, a defnyddiwyd y datblygiad gan fusnesau fferm fel rhan o'u gweithgarwch marchnata:

“Cyflawnodd y prosiect holl nodau'r prosiect. Daethon ni o hyd i'r cymysgedd gorau o hadau blodau gwylt a oedd nid yn unig yn denu ac yn helpu gwenyn ond hefyd yn gwella maeth ein buches odro. Roedden ni hefyd yn gallu tynnu sylw at y ffaith bod gadael lleiniau o dir pori heb eu torri yn dal i allu cynyddu poblogaeth y gwenyn. Rydyn ni wedi defnyddio'r data o'r adroddiad yn ein gweithgarwch marchnata i fanwerthwyr, gan fod gennym ni brawf bod ein dull o gymorth i weny” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

5.13 Enghraifft arall o brosiect a gafodd sylw amlwg yn y canlyniadau a adroddwyd yw prosiect 'EIP4 - Lleihau Gwrthfotigau mewn Defaid'. Yn ôl un o aelodau'r Grŵp Gweithredol a gymerodd ran yn ein harolwg:

“Gwnaeth y prosiect ddarparu tystiolaeth glir bod atchwanegiadau maethol a mesurau hylendid syml yn lleihau'r defnydd o wrthfotigau yn ystod y tymor wyna. Defnyddiais galch i ddiheintio ardaloedd wyna, ac roedd hyn yn gost-effeithiol iawn. Lleihawyd y defnydd o wrthfotigau, sy'n arbed arian o ran talu am lai o feddyginiaeth a hefyd peidio â gorfod talu cymaint o filiau milfeddyg am driniaeth ac ymweliadau” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

5.14 Prosiect llwyddiannus arall oedd 'EIP8 - Profion Genomig mewn Ffermio Llaeth', gydag un aelod o'r Grŵp Gweithredol yn nodi fel a ganlyn:

“Roedd cynnal y profion genomig a mynd ar drywydd hynny wedyn a gweld yr anifeiliaid sy'n well yn genomig, a'u perfformiad gwell o gymharu â'r gweddill, wedi agor ein llygaid i'r posibilrwydd o wella geneteg y fuches a'r budd ariannol o hynny” (Arolwg i Aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

- 5.15 Yn olaf, mae 'EIP15: Porthiant Dail ar gyfer Glaswelltir' yn enghraifft dda arall, gydag un ymatebydd yn dweud ei fod wedi bod yn 'ddadlennol' oherwydd eu bod yn gallu defnyddio llawer llai o wrtaith ond gan gyflawni'r un faint o dyfiant.
- 5.16 Roedd ein dadansoddiad hefyd yn cynnwys yr ymatebion gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol nad ydynt yn ymwneud â ffermio/coedwigaeth. Roeddent yn llawer llai tebygol o nodi effeithiau diriaethol ar gyfer eu sefydliad. Mae hyn i'w ddisgwyl, o ystyried mai eu rôl hwy oedd darparu mewnbwn i brosiectau a oedd wedi'u hanelu at fod o fudd i fusnesau ffermio a choedwigaeth, a newid arferion y busnesau hynny. Am y rheswm hwn, dim ond 26 % (5/19) oedd yn 'cytuno'n gryf' bod y prosiect wedi creu buddion i'w sefydliad, gyda 26 % arall (pum ymateb) 'yn cytuno rywffaint'; gellir cymharu hyn (52 % gyda'i gilydd) â 78 % o'r sampl yn gyffredinol a oedd yn cytuno, i ryw raddau o leiaf, y bu buddion diriaethol i'w sefydliad. Lle nododd yr aelodau nad ydynt yn fusnesau ffermio/coedwigaeth eu bod wedi gweld buddion, roedd y rhain fel arfer yn ymwneud â chynorthwyo eu sefydliad i gyflawni ei genhadaeth, h.y. codi ymwybyddiaeth am faterion fel arferion cynllunio iechyd da, e.e.:

“Mae wedi bod yn brosiect llwyddiannus yn enwedig o ran codi proffil a phwysigrwydd iechyd y carnau mewn gwartheg godro a rhoi gwybodaeth i ffermwyr am y ffordd orau i atal cloffni mewn gwartheg godro” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

“Rwy'n meddwl ein bod wedi gwneud gwaith da yn codi ymwybyddiaeth o Gryptosporidiwm ac wedi brwydro yn erbyn rhai o'r mythau. Mae hefyd wedi dangos nad oes unrhyw offer ar gael a all atal nentydd ac afonydd rhag cael eu halogi, felly canfod, profi a thrin yn gynnar yw'r dulliau gorau” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

- 5.17 Yn olaf, mae'n bwysig nodi y bydd COVID-19 wedi cyfyngu ar rai o'r effeithiau a gynhyrchwyd gan y prosiectau. Dywedodd pum aelod o'r Grwpiau Gweithredol fod y

pandemig wedi eu hatal rhag cyflawni'r buddion a fwriadwyd, neu o leiaf wedi arafu'r broses, e.e.:


“Er bod y prosiect wedi caniatáu i ffermwyr ddefnyddio ffilm ffotodetholus am y tro cyntaf i weld a oedd yn cynyddu cynnyrch dail, achosodd COVID-19 broblemau wrth darfu ar amserlenni plannu a chynaeafu, a olygai nad oedd set mor gyflawn o ddata fel y bwriadwyd i'r prosiect ei gasglu i ddechrau” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

Effaith, cynaliadwyedd ac ychwanegedd

- 5.18 Fe wnaethom archwilio lefel effaith y newidiadau hyn ar y busnesau a chynaliadwyedd y canlyniadau a nodwyd uchod ar gyfer aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn fanylach yn ystod yr arolwg dilynol, a gynhaliwyd tua blwyddyn ar ôl iddynt gael eu cyfweld gyntaf. Yn gadarnhaol, dywedodd 93 % (13/14) o ymatebwyr yr arolwg dilynol fod newidiadau i'w harferion wedi'u cynnal ar ôl diwedd y prosiect, i ryw raddau o leiaf.³¹ Nodwn, fodd bynnag, fod hyn yn seiliedig ar ddim ond 14 o ymatebion, lle'r oedd y prosiectau wedi'u cwblhau ar adeg cynnal yr arolwg cychwynol. O'r herwydd, dylid trin canlyniadau'r cwestiwn hwn yn ofalus oherwydd maint bach y sampl.
- 5.19 Cafwyd ymateb mwy cymysg pan ofynnwyd i'r ymatebwyr am lefel yr effaith ar eu busnesau, gydag ychydig dros hanner (51 %, 19/37) yn dweud bod yr effeithiau yn sylweddol iawn neu rywfaint yn sylweddol (gweler Ffigur 5.1). Gan ddisgrifio'r rhesymau am hyn, cyfeiriodd ymatebwyr yn nodweddiadol at yr effaith ar eu cynhyrchiant, gostyngiad mewn costau, ac effaith o'r wybodaeth a gafwyd. Nid yw'r fath amrywioldeb yn syndod o ystyried bod y prosiectau yn treialu syniadau newydd gyda rhai, yn anochel, ddim yn gweithio, tra bydd eraill ond wedi'u dylunio i archwilio gwelliannau ymylol, a bydd rhai o aelodau'r Grwpiau Gweithredol a ymatebodd i'r cwestiwn hefyd wedi ymgysylltu llai ac felly'n llai tebygol o fod wedi gweld budd. Yn unol â hynny, roedd y gweithrediad bob amser yn debygol o greu effeithiau mwy ystyrlon i rai sefydliadau o nag eraill.

Darparwyd yr ymatebion canlynol: dewisodd chwech '5 – I raddau helaeth', dewisodd pump '4 – I raddau mawr', dewisodd dau '3 – Rhywfaint', ni ddewisodd yr un ohonynt '2 – Ychydig', ac dewisodd un '1 – Dim o gwbl'.

Ffigur 5.1: 'Ar raddfa o 1–5, lle mae 1 yn 'Ddim yn sylweddol o gwbl' a 5 yn 'Sylweddol iawn', pa mor sylweddol fu'r effeithiau hyn ar eich busnes?'



Ffynhonnell: Arolwg dilynol o aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=37)

5.20 Yn olaf, mae'r dystiolaeth (data hunan-gofnodedig aelodau'r Grwpiau Gweithredol ac adborth gan rai nad oeddent yn fuddiolwyr) yn awgrymu lefel uchel o ychwanegedd. Pan ofynnwyd iddynt beth fyddai wedi digwydd mewn sefyllfa wrthffeithiol (h.y. pe na baent wedi cael cymorth), dim ond saith % (4/60) o'r ymatebwyr oedd yn 'cytuno'n gryf' y byddent wedi newid yr arferion hyn beth bynnag, tra bod 17 % arall (10/60) yn 'cytuno rywfaint'. Roedd y rhan fwyaf (53 %, 32/60) yn anghytuno â'r gosodiad y byddent wedi newid yr arferion hyn beth bynnag, heb y cymorth. Cafwyd ymateb tebyg yn y ffurflenni gwerthuso diwedd prosiect, lle nododd dim ond un o 32 o ymatebwyr y byddent wedi rhoi'r newidiadau ar waith heb y cymorth; nododd y cyfranogwyr eraill naill ai'n bendant na fyddent wedi gwneud hynny (16) neu eu bod yn ansicr (15). Gan bwysu ar dystiolaeth gan y grŵp o fusnesau a ymgeisiodd neu a ddangosodd ddiddordeb i ddechrau ond nad wnaethant fwrw ymlaen â phrosiect drwy EIP Cymru (h.y. y rhai nad oeddent yn fuddiolwyr), dywedodd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr (23/26) nad oedd eu prosiect wedi mynd rhagddo heb gymorth EIP³², sy'n awgrym pellach o lefel uchel o ychwanegedd ar gyfer y math hwn o gynllun.

³² Mae hyn yn seiliedig ar y rhai a ddywedodd 'Naddo' i'r cwestiwn canlynol – 'A aeth eich prosiect yn ei flaen heb gymorth EIP?'

Asesiad o enillion economaidd

- 5.21 Isod, rydym yn darparu ein hasesiad o'r effaith a gynhyrchwyd ar gyfer aelodau'r Grŵp Gweithredol mewn termau economaidd, yn seiliedig ar eu hymateb i'r trywydd hwnnw o ymholi yn yr arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol. Mae'n bwysig pwysleisio mai asesiad petrus yw hwn sy'n seiliedig ar amcangyfrifon bras o'r enillion economaidd ar gyfer ymatebwyr a thybiaethau bras ynghylch cyffredinol i'r enillion hynny i'r garfan gyfan o fusnesau fferm a gynorthwywyd. Serch hynny, mae amcangyfrifon o'r fath yn rhoi rhai canfyddiadau dangosol ynghylch effaith economaidd uniongyrchol y gweithgarwch.
- 5.22 Dywedodd cyfanswm o 53 % o ymatebwyr (33/62)³³ eu bod wedi gallu cynhyrchu incwm newydd neu leihau costau o ganlyniad i'r prosiect.
- 5.23 Yna gofynnwyd i aelodau'r Grwpiau Gweithredol ddyfalu'r effaith economaidd flynyddol (trwy incwm blynyddol uwch neu arbedion cost) a gynhyrchwyd o roi'r arferion newydd ar waith a defnyddiwyd gwerth sero ar gyfer busnesau a ddywedodd na fu unrhyw effaith. Darparodd hyn 29 o gofnodion er mwyn asesu'r enillion economaidd, sef cyfanswm o £217,810. Roedd enillion unigol yn amrywio o gyn lleied â £400 i mor uchel â £50,000, er bod y mwyafrif yn y cannoedd i filoedd isel gyda chyfartaledd canolrifol o £2,500. Roedd y rhesymau dros ddarparu'r amcangyfrifon hyn wedi'u rhesymu'n dda, gan ganolbwyntio'n aml ar yr arbedion a gynhyrchwyd drwy leihau biliau gwrthfotigau neu feddyginiaethau eraill, neu'r enillion cynhyrchiant o welliannau i gynnyrch aelodau'r Grwpiau Gweithredol. Mae rhai o'r enghreifftiau i'w gweld isod.

“Llai o gostau gwrthfotigau a chostau'n ymwneud â gostyngiad enfawr mewn cloffni drwy dargedu'n fwy” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

“Byddwn i'n dweud bod cloffni eisoes wedi'i dorri 10 %, sydd fwy na thebyg yn arbed tua £10,000 i ni dros flwyddyn mewn triniaethau, biliau milfeddygon, ac ati.” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

“Fe welais i ostyngiad o 15 % mewn gwastraff cynydu yn ystod y cyfnod prawf” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

³³ Noder y gofynnwyd y cwestiwn hwn yn unig i'r aelodau hynny o'r Grwpiau Gweithredol a gadarnhaodd eu bod wedi newid rhai o'u harferion o ganlyniad i'w prosiect.

“Mae wedi lleihau rhai costau, gan ein bod yn profi am fwy o bethau cyn rhoi triniaeth. Rydym yn arbed tua £8 y pen dros y gaeaf, felly tua £3,000–£4,000 yn flynyddol” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

“Wrth ystyried cost profion genetig, rwy'n meddwl y bydden ni'n arbed £19 y fuwch, gan y byddai'r epil yn iachach, yn cynhyrchu mwy o laeth, ac yn fwy ffrwythlon” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

- 5.24 Os tybiwn fod y ffigur cyfartalog canolrifol yn gynrychioliadol o'r grŵp ehangach o ffermwyr a gynorthwywyd gan y gweithrediad (h.y. pob un o'r 237), fel swm gros, byddai hyn gyfwerth ag enillion economaidd o £582,500. Gyda'r newidiadau'n debygol o barhau i ddarparu enillion i fusnesau am flynyddoedd i ddod, a chyda mwy o werth yn debygol o ganlyniad i brosiectau nad oeddent wedi'u cwblhau adeg cynnal yr arolwg, gallai'r cynllun gynhyrchu enillion cadarnhaol ar fuddsoddiad o'r buddion i fuddiolwyr uniongyrchol yn unig. Gallwn dybio y bydd y buddion hefyd wedi mynd y tu hwnt i'r grŵp hwn o fuddiolwyr uniongyrchol, gyda llawer o weithgarwch yn canolbwyntio ar ledaenu'r hyn a ddysgwyd i'r sector ehangach, fel y byddwn yn ei drafod yn y bennod nesaf.
- 5.25 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad o Arolwg Amaethyddol Cymru i edrych ar newidiadau yn yr Allbwn Safonol (h.y. y procsi ar gyfer trosiant busnes fferm) o'r flwyddyn cyn lansio gweithrediad EIP (2015) hyd at y data diweddaraf sydd ar gael (2021) . Mae'r ffigurau ar gyfer aelodau'r Grwpiau Gweithredol i'w gweld yn Nhabl 5.1 (gan gynnwys set ar wahân o ffigurau ar gyfer ymgeiswyr arweiniol), wedi'u meincnodi yn erbyn gweddill y sector. Mae'r graffigyn yn dangos cynnydd llawer uwch mewn allbwn safonol ymhlith y rhai a fu'n ymwneud â gweithrediad EIP. Yn wir, cynyddodd cyfran ganrannol y ffermwyr a oedd yn aelodau o'r Grwpiau Gweithredol o gyfrif am 5.3 % o allbwn safonol y sector cyfan cyn y gweithrediad, i 6.9 % yn y data diweddaraf. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r gwahaniaeth yn adlewyrchu bod EIP wedi ymgysylltu â busnesau mwy blaengar a oedd o bosibl yn fwy tebygol o dyfu'n gyflymach beth bynnag. Yn yr un modd, mae gwahaniaeth o'r fath yn rhoi mwy o bwys i'r dystiolaeth bod EIP wedi hybu twf y busnesau fferm a fu'n cymryd rhan, gan ategu'r priodoliad hunan-gofnodedig o dwf a ddangosir uchod.

Tabl 5.1: Twf yn Allbwn Safonol ffermwyr arweiniol, aelodau eraill y Grwpiau Gweithredol, a rhai nad ydynt yn aelodau o'r Grwpiau Gweithredol rhwng 2015 a 2021


	Allbwn Safonol ar gyfartaledd (000)			Cyfran o gyfanswm Cymru		
	Ymgeisydd Arweiniol	Aelod arall o Grŵp Gweithredol	Rhai nad oeddent yn aelod o Grŵp Gweithredol	Ymgeisydd Arweiniol	Aelod arall o Grŵp Gweithredol	Rhai nad oeddent yn aelod o Grŵp Gweithredol
2015	322	399	66	0.6%	4.7%	94.7%
2021	409	555	74	0.7%	6.2%	93.1%
% twf	27%	39%	12%	12%	34%	-2%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Arolwg Amaethyddol Cymru

Meithrin arloesedd

5.26 Gofynnwyd ystod o gwestiynau i aelodau'r Grwpiau Gweithredol er mwyn mesur y canlyniadau sy'n gysylltiedig â meithrin arloesedd, fel sydd i'w weld yn Ffigur 5.2 isod, a oedd yn un o amcanion craidd y cynllun. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod y cymorth wedi eu gwneud yn fwy hyderus ynghylch treialu syniadau newydd (77 %, 85/111), wedi cynyddu eu dealltwriaeth o'r broses arloesi (76 %, 84 o ymatebion), ac wedi'u gwneud yn fwy tebygol o brofi syniadau newydd yn y dyfodol (80 %, 89 o ymatebion).

Ffigur 5.2: Canlyniadau sy'n gysylltiedig â meithrin arloesedd: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno bod bod yn rhan o EIP Cymru wedi ...?'



Ffynhonnell: Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=111)

5.27 Mae'r uchod yn ddangosyddion allweddol o lwyddiant o ran prif amcan y cynllun o feithrin arloesedd o fewn y sector. Yn wir, dywedodd saith o ymatebwyr eu bod eisoes wedi gwneud gwaith ymchwil dilynol ar ôl cwblhau eu prosiect. Amlygwyd hyn hefyd yng nghyfweliadau'r tîm cyflawni, lle y dywedwyd bod prosiect 'EIP7 - Chwynnwr Robotig' wedi llwyddo i sicrhau cyllid gan raglen Horizon Ewrop i fynd ati i ddatblygu'r prosiect ymhellach ar y cyd ag ADAS. Dywedodd un aelod o'r tîm cyflawni fod y cynllun wedi profi i bobl yn y sector nad oes angen i'r cysyniad o arloesi fod yn "frawychus".

5.28 Cyflwynwyd cwestiwn uniongyrchol gennym yn yr arolwg dilynol, gan ofyn i aelodau'r Grwpiau Gweithredol i ba raddau'r oedd cymryd rhan yn EIP wedi meithrin arloesedd yn eu busnes. Mewn ymateb, dywedodd 76 % (29/38) ei fod wedi gwneud hynny i ryw raddau o leiaf,³⁴ ac esboniodd yr ymatebwyr ei fod wedi eu hannog a'u hysbrydoli, ac wedi rhoi'r hyder a'r ddealltwriaeth iddynt ymgymryd ag arloesi pellach:


³⁴ Defnyddiwyd graddfa pum pwynt a chafwyd yr ymatebion a ganlyn: dewisodd 12 '5 – I raddau helaeth', dewisodd 11 '4 – I raddau mawr', dewisodd chwech '3 – Rhywfaint', dewisodd un '2 – Ychydig', a dewisodd wyth '1 – Dim o gwbl'.

“Mae darganfod bod y profion afu hyn ar gael wedi bod yn arloesol iawn a phe bai prosiectau eraill sy’n berthnasol i mi i’w cael yn y dyfodol byddwn yn sicr yn ystyried bod yn rhan ohonyn nhw” (Arolwg dilynol o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

Cydweithio

5.29 Mae Ffigur 5.3 yn dangos bod y rhan fwyaf o aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn credu bod y cynllun wedi eu galluogi i ddatblygu perthnasoedd newydd gyda ffermwyr a choedwigwyr eraill ac, i raddau ychydig yn llai, ag unigolion o sectorau eraill.

Ffigur 5.3: Canlyniadau sy’n gysylltiedig â chydweithio: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno bod bod yn rhan o EIP Cymru wedi ...?'



Ffynhonnell: Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=131)

5.30 Ymhellach, dywedodd 91 % o'r ymatebwyr (116/128) eu bod yn bwriadu parhau i gydweithio ag aelodau eraill y Grŵp Gweithredol yn y dyfodol. Roedd nifer o'r sylwadau yn amlygu effaith y cydweithio hyn a'r hyn a ddysgwyd:

“Rwy'n meddwl ei fod yn ardderchog – mae gennych chi wahanol agweddau a gwahanol bersonoliaethau yn y grŵp a gallwn ni i gyd ddysgu oddi wrth ein gilydd” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

“Roedd holl strwythur y rhaglen a'r ffaith bod arbenigwyr ar gael i fynd trwy bethau yn wych. Roedd y cyfarfodydd grŵp yn hynod fuddiol ac wedi agor fy llygaid i lawer mwy nag yr oeddwn yn meddwl y bydden nhw, a gweld pa ffrydiau eraill o arbenigedd sydd ar gael er mwyn cyfrif diadell yn llawn a'r lleiafswm trwy edrych ar bethau nad oeddwn wedi meddwl amdanynt o'r blaen, fel gwerthuso isafswm porthiant ar y fferm mewn ymateb i brofion gwaed – roedd prosiect yr EIP yn bendant yn beth gwerth chweil i'w wneud.” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

5.31 Archwiliwyd y pwnc uchod ymhellach yn yr arolwg dilynol, gyda 63 % o'r ymatebwyr (24/38) yn dweud eu bod wedi mynd ati i gydweithio'n ffurfiol neu'n anffurfiol drwy'r cynllun. Roedd hyn fel arfer yn cynnwys sgysiau anffurfiol ag aelodau eraill o'r Grwpiau Gweithredol yn ystod cyfarfodydd, rhannu syniadau, trafod canlyniadau, a chydweithio ynghylch casglu data ac ati. Disgrifiodd aelodau'r Grŵp Gweithredol mai prif fantais cydweithio oedd ei fod wedi ysgogi'r grwpiau trafod ac amlygodd rhai sut roeddent wedi parhau â'r perthnasoedd hyn flynyddoedd ar ôl i'w prosiect ddod i ben. Roedd rhai enghreifftiau hefyd o fentrau cydweithredol mwy ffurfiol:

“Rydyn ni wedi creu cwmni cydweithredol bach am fod angen llawer iawn o sudd bedw i wneud ychydig o surop bedw, felly roedd yn gwneud synnwyr economaidd a chynhyrchiol i dynnu pobl eraill sydd â diddordeb ynghyd. ...rydyn ni wedi dysgu'r broses gyda'n gilydd felly mae'n braf iawn gweld beth mae pobl eraill yn ei wneud mewn meysydd eraill” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

- 5.32 At ei gilydd, nododd 46 % o'r ymatebwyr (18/39) rywfaint o effaith o'r elfen gydweithio, gan nodi sut roedd wedi ysgogi deialog ac wedi codi ymwybyddiaeth o arferion da. Yn ogystal, dywedodd 73 % o'r ymatebwyr (27/37) ei fod wedi'u gwneud yn fwy tebygol o gydweithio yn y dyfodol, a dywedodd 70 % (26/37) ei fod wedi gwneud iddynt werthfawrogi gweithgarwch cydweithredol yn fwy.
- 5.33 Soniodd un o aelodau'r tîm cyflawni am sut roedd y rhwydweithio a'r cydweithio yn ymestyn y tu hwnt i'r prosiectau. Mewn cyfarfod Grŵp Gweithredol diweddar y buont ynddo, er enghraifft, roedd y ffermwyr yn trafod pethau eraill sy'n effeithio ar eu busnes y tu hwnt i gwmpas y prosiect, megis costau gwrtaith. Amlygwyd sut y byddent yn defnyddio ei gilydd fel seinfwrdd yn ystod y cyfarfodydd hyn ac yn cynnig cymorth rhwng cymheiriaid.
- 5.34 Yn olaf, mae Ffigur 5.3 hefyd yn datgelu'r budd i aelodau'r Grwpiau Gweithredol nad ydynt yn ymwneud â ffermio/coedwigaeth, gyda 60 % (12/20) yn nodi bod y prosiect wedi codi eu proffil a'u helpu i ddangos eu harbenigedd, i ryw raddau o leiaf. Fel y nodwyd yn flaenorol, roeddent yn gyffredinol yn cyfeirio at y cynnydd mewn ymwybyddiaeth o fesurau cynllunio iechyd amgylcheddol a blaengar fel y prif fanteision. Yn ogystal, roedd 55 % o'r garfan honno (11/20) hefyd yn cytuno, i ryw raddau, eu bod wedi elwa o ddatblygu perthnasoedd newydd â ffermwyr/coedwigwyr a sefydliadau o sectorau eraill.

6. Lledaenu canfyddiadau ac effeithiau ehangach

Cyflwyniad

- 6.1 Roedd lledaenu canfyddiadau yn elfen hollbwysig o'r cynllun oherwydd, hebddi, mae unrhyw effeithiau a gynhyrchir wedi'u cyfyngu i'r grŵp o ffermwyr a choedwigwyr sy'n cymryd rhan yn uniongyrchol. Trwy lledaenu gwybodaeth yn effeithiol, y gobaith oedd y byddai busnesau eraill yn dysgu am yr arferion newydd hyn a'u canlyniadau ac efallai y byddant yn penderfynu eu mabwysiadu, gan greu effaith ehangach ar draws y sector.
- 6.2 Roedd y lledaenu wedi'i seilio i raddau helaeth ar amryw sianeli Cyswllt Ffermio, fel y disgrifiwyd yn flaenorol yn yr adroddiad. Hyrwyddwyd y canfyddiadau trwy adroddiadau terfynol prosiectau'r EIP sydd i'w gweld ar y wefan, postiadau a fideos byr ar y cyfryngau cymdeithasol, ac erthyglau technegol yng nghylchgrawn deufisol Cyswllt Ffermio, gyda phob rhifyn yn cynnwys amlinelliad manwl o brosiect EIP penodol. Yn ogystal, mae cylchlythyr chwarterol EIP hefyd wedi'i ddsbarthu i bob busnes sydd wedi'i gofrestru gyda Chyswllt Ffermio, sy'n cynnwys prosiectau EIP. Ymhellach, hyrwyddwyd y prosiectau trwy ddiwrnodau agored gan ddefnyddio dull Rhwydwaith Arddangos Cyswllt Ffermio, sef y mecanwaith dwysaf a ddefnyddiwyd i annog mwy o bobl i gymryd rhan.

Adolygiad o ddata digwyddiadau diwrnod agored

- 6.3 Yn ôl y data a rannwyd â'r gwerthuswyr, cynhaliwyd 26 o ddigwyddiadau o'r fath hyd at ddiwedd 2022; roedd dau wedi'u cynnal yn 2018, tri yn 2019 ac yn 2020, 12 yn 2021 a chwech yn 2022.³⁵ Yn naturiol, cafodd pandemig COVID-19 effaith sylweddol ar hyn, gyda sawl digwyddiad yn cael eu cynnal ar-lein, a allai fod wedi effeithio ar yr ymgysylltiad. Mae'r data'n awgrymu y gallai'r ddarpariaeth ar-lein fod wedi sicrhau nifer uwch o gyfranogwyr, gyda 30, ar gyfartaledd, yn bresennol yn y digwyddiadau ar-lein o gymharu â chyfartaledd o 22 o bobl yn mynychu digwyddiadau eraill.³⁶ Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod ansawdd yr ymgysylltu

³⁵ Mae gwahanol fathau o ddata wedi'u derbyn ar gyfer y digwyddiadau hyn. Roedd yr 20 cyntaf, a gynhaliwyd hyd at ddiwedd 2021, yn cynnwys prif ffigurau a gwybodaeth sylfaenol yn ymwneud â phwnc, dyddiad, nifer oedd yn bresennol a sgôr cyfartalog wrth ymgysylltu. Roedd data ar gyfer tri o'r digwyddiadau hynny, a phedwar pellach a gynhaliwyd yn 2022, yn cynnwys data ffurflen werthuso fel sydd i'w weld yn Nhabl 6.1 (er nad oedd y pedwar a gynhaliwyd yn 2022 yn cynnwys prif ddata ynghylch nifer oedd yn bresennol). Cafwyd data ynghylch y ddau ddigwyddiad olaf a gynhaliwyd yn 2022 drwy ymchwil wreiddiol, h.y., wedi'i gasglu'n uniongyrchol gan ymchwilwyr Wavehill a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau.

³⁶ Noder nad yw hyn yn cynnwys ffigurau ar gyfer y digwyddiadau a gynhaliwyd yn 2022; gweler uchod.

wedi bod yn uwch mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb, a gafodd sgôr o 4.8/5 ar gyfartaledd o gymharu â 4.5/5 ar gyfer y digwyddiadau ar-lein.³⁷

- 6.4 Roedd cyfanswm o 486 o unigolion wedi mynychu'r digwyddiadau hyn, neu 24 fesul digwyddiad ar gyfartaledd. Roeddent yn amrywio o ddigwyddiadau bach, lle mai dim ond chwe chyfranogwr a aeth i ddigwyddiad technegol yn ymwneud â'r prosiect 'EIP22 - Defaid cynffondew', a 95 o gyfranogwyr a oedd yn bresennol mewn digwyddiad ar gyfer y prosiect 'EIP15 - Porthiant dail ar gyfer glaswelltir'.³⁸
- 6.5 Rhannwyd data ffurflenni gwerthuso ar gyfer 53 o gyfranogwyr ar draws saith digwyddiad a gynhaliwyd yn ystod diwedd 2021 a hyd at 2022.³⁹ Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am foddhad cyfranogwyr â'r gweithgaredd lledaenu, yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu (os o gwbl), a sut y byddai'r hyn a ddysgwyd yn effeithio ar eu harferion. Cyflwynir y canlyniadau yn Nhabl 6.1 isod ac maent yn dangos boddhad cyffredinol â'r digwyddiadau (cyfartaledd o 4.9 allan o 6 ar gyfer profiad cyffredinol a 5.6 ar gyfer gwybodaeth y siaradwr).

³⁷ Noder nad yw hyn yn cynnwys ffigurau ar gyfer y digwyddiadau a gynhaliwyd yn 2022; gweler uchod.

³⁸ Noder nad yw hyn yn cynnwys ffigurau ar gyfer y digwyddiadau a gynhaliwyd yn 2022; gweler uchod.

³⁹ Dim ond mewn detholiad o ddigwyddiadau y defnyddiwyd ffurflenni adborth gwerthuso gan Gyswllt Ffermio oherwydd yr anawsterau ymarferol o gasglu data o'r fath. Yn ogystal, ni wnaeth pob cyfranogwr lenwi'r ffurflenni. O'r herwydd, mae'r data hyn yn rhoi darlun anghyflawn o'r digwyddiadau.

Tabl 6.1: Adborth ar ddigwyddiadau lledaenu Cyswllt Ffermio, yn seiliedig ar 53 o ffurflenni a lanwyd gan unigolion a fu i saith digwyddiad rhwng diwedd 2021 a 2022 (mae pob sgôr yn gyfartaledd, yn seiliedig ar raddfa o 1 – lleiaf cadarnhaol i 6 – mwyaf cadarnhaol)

Prosiect EIP	Sgôr cyffredinol	Gwybodaeth y siaradwr am y pwnc	Gwell ymwybyddiaeth o'r pwnc	Wedi dysgu unrhyw beth newydd am y pwnc?		Yn bwriadu newid arferion?		
				Oedd	Nac oedd	Oedd	O bosib	Nac oedd
Cyffredinol	4.9	5.6	4.7	98%	2%	27%	54%	19%
EIP38 - Sudd bedw	4.6	6.0	4.8	100%	0%	20%	60%	20%
EIP24 - Coed ar Dir Rhedyn	5.4	5.1	4.9	100%	0%	14%	71%	14%
EIP20 - Mamogiaid Ilaeth	5.6	5.8	5	100%	0%	20%	60%	20%
EIP33 - Pompiynau	6.0	6.0	6.0	100%	0%	75%	25%	0%
EIP31 - Amonia o Frwyliaid	5.2	5.8	5	100%	0%	40%	40%	20%
EIP25 - Therapi Buchod Sych Dethol	5.5	5.6	5.6	100%	0%	20%	60%	20%
EIP29 - IDPM Ffrwythau Meddal	4.0	5.3	3.8	94%	6%	19%	56%	25%

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli wedi'i darparu gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2022

6.6 Hwyluswyd dau o'r digwyddiadau hyn ar-lein: 'EIP38 - Sudd Bedw' ac 'EIP29 - IDPM Ffrwythau Meddal'; yn wir, yr uchod oedd y ddau ddigwyddiad a sgoriodd isaf. Ar ôl cymhwyso profion ystadegol⁴⁰ i sgôr cymedrig y boblogaeth, canfuwyd bod y gwahaniaeth mewn cyfartaleddau yn ystadegol arwyddocaol, gan ddangos bod y dull o gynnal y digwyddiadau wedi effeithio ar foddhad cyfranogwyr. Yn ogystal, y digwyddiadau ar-lein oedd â'r gyfran leiaf o gyfranogwyr/mynychwyr yn dweud y byddent yn newid arferion, gan ddarparu tystiolaeth bellach bod canlyniadau gwell yn gysylltiedig â chynnal y digwyddiadau wyneb yn wyneb.

⁴⁰ Defnyddiwyd profion T ar lefel arwyddocâd o 95% i asesu'r gwahaniaethau rhwng y sgoriau ar gyfer pob digwyddiad.

- 6.7 Yn hollbwysig, mae'r data'n dangos bod y digwyddiadau wedi gwella ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y pwnc ymhlith y cyfranogwyr. Er bod rhywfaint o amrywiaeth ar draws y digwyddiadau, dywedodd bron i bob cyfranogwr ym mhob digwyddiad eu bod wedi dysgu rhywbeth newydd.
- 6.8 Yn bwysicaf oll, dywedodd 27 % o'r cyfranogwyr (14/52) eu bod yn bwriadu newid eu harferion o ganlyniad i'r hyn a ddysgwyd, a nododd 54 % arall (28 o ymatebion) ei bod yn bosibl y byddent yn gwneud hynny. Mae'r ffaith bod hyd at 81 % o'r busnesau a aeth i'r digwyddiadau hyn yn ystyried newid eu harferion yn awgrymu bod y cynllun wedi llwyddo i ysgogi defnydd ehangach o arferion da y tu hwnt i'r cyfranogwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiectau. Yn ei dro, mae hyn yn dangos bod y dull lledaenu wedi bod yn effeithiol o ran cyflawni'r hyn a fwriadwyd. Er na allwn fesur union faint yr effaith hon, gwyddom fod cannoedd o fusnesau ffermio a choedwigaeth wedi bod i'r digwyddiadau hyn.
- 6.9 Mae enghreifftiau penodol o drosglwyddo gwybodaeth a newidiadau sy'n cael eu hystyried wedi'u rhestru isod.
- Dywedodd y rhai a fynychodd 'EIP38 - Sudd Bedw' eu bod wedi dysgu am y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â chynaeafu sudd bedw a'r broses dan sylw, a nododd pedwar o'r pump ei bod yn bosibl y byddent yn newid eu harferion o ganlyniad trwy fynd ati i dapio sudd coed bedw:
“Dysgu digon i fod eisiau dechrau ar gynaeafu sudd bedw” (Data Ffurflenni Gwerthuso Digwyddiad).
“Y broses ei hun o dapio a'r offer sy'n cael eu defnyddio ynghyd â gwybodaeth ddefnyddiol am rywogaethau'r coed ac effaith yr amgylchedd ar y cynnyrch” (Data Ffurflenni Gwerthuso Digwyddiad).
 - Dysgodd y rhai a aeth i 'EIP24 - Coed ar Dir Rhedyn' am arferion gorau rheoli rhedyn a dulliau amgen, gan gynnwys effeithiolrwydd ymyriadau mecanyddol a chanlyniadau triniaethau gwahanol ar gyfer clirio rhedyn cyn plannu coed. Gwnaethant ddysgu hefyd am rinweddau gwahanol rywogaethau coed ar gyfer eu plannu. Dywedodd chwech o'r saith a oedd yn bresennol y byddent o bosibl yn newid eu harferion, e.e. trwy blannu coed dail llydan neu ddatblygu cynllun teneuo.

- Dysgodd mynychwyr 'EIP20 - Mamogiaid Llaeth' am ffyrdd i wella cynhyrchiant llaeth defaid, monitro diadell, sut i ddewis y brîd cywir, a sut i wella camau rheoli. Dywedodd pedwar o'r pump y byddent o bosibl yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio eu penderfyniadau, e.e. ynghylch dewis y brîd cywir neu gyflwyno dulliau monitro diadell.
- Efallai mai sawl a aeth i 'EIP33 – Pompiynau' oedd y rhai mwyaf cadarnhaol, gan fynegi bod y digwyddiad yn ddefnyddiol iawn i dyfwyr tro cyntaf, gyda gwybodaeth am gael mynediad i farchnad gyfanwerthu pwmpenni ac am dechnegau tyfu. Cadarnhaodd tri o'r pedwar a oedd yn bresennol y byddent yn newid eu harferion, a nododd y pedwerydd ei bod yn bosibl y byddent yn gwneud hynny.
- Dysgodd y rhai a aeth i 'EIP31 - Amonia o Frwyliaid' yn bennaf am ffyrdd i fonitro a lleihau'r defnydd o drydan a chostau trydan trwy ddefnyddio opsiynau amgen megis paneli a batris solar, a chyfeiriodd rhai hefyd at at wybodaeth newydd am leihau allyriadau amonia. Roedd wyth o'r deg o leiaf yn ystyried rhoi newidiadau ar waith, gan gynnwys gosod paneli solar, batris, neu wella sut maent yn monitro'r defnydd o drydan.
- Cyfeiriodd y rhai a aeth i 'EIP25 - Therapi Buchod Sych Dethol' at wybodaeth ddefnyddiol am fanteision sgorio symudedd, gan ymgorffori technoleg fel rhan o ddull mwy cyfannol o reoli achosion mastitis, a dywedwyd hefyd nad oes angen gwrthfotigau ym mhob achos. Dywedodd pedwar o'r pum ymatebydd eu bod yn ystyried gwneud newidiadau, a nododd un hyd yn oed y byddent yn dechrau casglu samplau mastitis.
- Dysgodd y rhai a aeth i 'EIP29 - IDPM Ffrwythau Meddal' am yr opsiynau rheoli chwyn ehangach sydd ar gael iddynt, gan gynnwys defnyddio dulliau electronig yn lle chwynladdwyr, a dysgodd eraill am yr angen i dargedu rhywogaethau chwyn ar yr amser cywir ac arferion rheoli da ehangach. Dywedodd llawer mai ychydig iawn a wyddent am reoli chwyn yn electronig cyn y digwyddiad, ac felly roedd y cyflwyniad am ganlyniadau'r treial yn ddiddorol iawn iddynt. Roedd cyfanswm o 12 o'r 16 yn ystyried newid eu harferion o ganlyniad, e.e. datblygu strategaeth reoli, chwistrellu chwynladdwr ar yr amser cywir, ac archwilio defnyddio rheolaeth porfa i leihau chwyn.

Ymweliadau arsylwi

- 6.10 Ymwelodd ymchwilwyr Wavehill â dau o'r digwyddiadau diwrnod agored ar ddiwedd 2022 – un yn canolbwyntio ar ganfyddiadau 'EIP46 – Bio-olosg' a'r llall ar 'EIP23 - Nifer yr Wyau yn Ysgarthion Gwartheg'. Isod, rydym yn darparu ein harsylwadau o'r sesiynau cyn cyflwyno'r adborth gan y cyfranogwyr.
- 6.11 Roedd y digwyddiad cyntaf (EIP46) yn cynnwys 10 ffermwr, pedwar cyflwynydd (gan gynnwys dau o'r ffermwyr a gymerodd ran yn y prosiect ynghyd â chydweithiwr o ADAS ac ymgynghorydd bio-olosg), a thri o drefnwyr y digwyddiad (gan gynnwys cynrychiolydd EIP). Cyflwynwyd y sesiwn yn yr awyr agored ar fferm gardd farchnad ddi-balu ac roedd yn cynnwys trafodaeth ar fanteision bio-olosg o ran gwella pridd ar gyfer tyfu (sef ffocws EIP46). Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod y cyfranogwyr yn ymgysylltu'n gymharol â'r digwyddiad ac yn gofyn cwestiynau perthnasol ynglŷn â marchnata, gwerthu'n uniongyrchol i brynwyr, yr offer a ddefnyddir yn yr ardd farchnad ddi-balu, a'r graddau y mae modd cyflwyno bio-olosg ar raddfa ehangach.
- 6.12 Roedd yr ail ddigwyddiad (EIP23) yn llawer mwy, gyda 35 o ffermwyr yn bresennol (roedd llawer yn ymwneud yn uniongyrchol ag ymchwil EIP), ynghyd â phum cyflwynydd. Rhannwyd y sesiwn wedi'i rhannu'n gyflwyniad gydag arddangosiadau i ddilyn. Cynhaliwyd y cyflwyniad mewn ysgubor gyda seddau a thaflunydd. Roedd y sawl oedd yn bresennol yn ymddangos yn talu sylw ar y dechrau, er bod rhai wedi colli diddordeb dros amser, yn debygol am ei bod yn anodd i bobl yn y cefn glywed a gweld y cyflwyniad⁴¹ (fodd bynnag, roedd y daflen bapur a oedd yn cynnwys canlyniadau'r arbrawf yn sicrhau eu bod wedi derbyn y wybodaeth allweddol). Roedd y cyfranogwyr yn ymddangos yn talu mwy o sylw yn yr arddangosiadau lle'r oedd ffermwyr wedi'u rhannu'n ddau grŵp ac yn cael arddangosiad ar sut i roi meddyginiaeth i loi ac ar wella ansawdd glaswellt ar gyfer chwilog y dom. Rhoddwyd taflen bapur i'r cyfranogwyr a oedd yn cynnwys prif ganlyniadau'r arbrawf Cyfrif Wyau mewn Ysgarthion (FEC). Roedd y cyfranogwyr yn rhoi sylw'n gyffredinol i'r prif negeseuon ynghylch pa feddyginiaethau llyngyr i'w defnyddio a pha mor aml y dylent fod yn cyfri'r wyau. Roedd yn ymddangos eu bod yn talu llai o sylw i rannau arbennig o dechnegol y cyflwyniad.

⁴¹ Mae'r datganiad hwn yn seiliedig ar rai o'r sylwadau a wnaed gan y cyfranogwyr mewn cyfweiliadau ag ymchwilwyr Wavehill, yn ogystal â'r arsylwadau cyffredinol a wnaed gan ein hymchwilwyr yn y digwyddiad.

6.13 Yna cafodd y cyfranogwyr eu cyfweld gan ymchwilyr Wavehill ar ddiwedd y sesiynau i gasglu data pellach ar y gweithgaredd lledaenu. Cafwyd adborth cadarnhaol gan bob un, gan nodi bod y digwyddiadau wedi'u cynnal yn dda a'u bod yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ac ymarferol ynghyd â lefel dda o fanylion:

“Roedd y sesiwn yn well nag oeddwn i wedi disgwyl; aeth i lawer mwy o ddyfnder nag oeddwn i'n ei ddisgwyl. Rwy'n meddwl ei fod wedi'i gyflwyno'n effeithiol; weithiau gall y mathau hyn o ddigwyddiadau bara'n rhy hir, ac mae pawb yn diflasu, ond rwy'n credu eu bod wedi taro'r hyd cywir. Mae wedi bod yn ddefnyddiol i fy ngwaith am fy mod i wedi gallu gweld beth mae ffermwyr eraill yn gweithio arno, felly mae gen i well dealltwriaeth o fy nghleientiaid” (Cyfweiliad â chyfranogwr y digwyddiad).

“Fe wnes i fwynhau'r sesiwn a dysgu mwy o wybodaeth ddefnyddiol am fio-ologs ac rwy' wedi dysgu mwy am EIP” (Cyfweiliad â chyfranogwr y digwyddiad).

“Roedd llawer o gyfleoedd i ofyn cwestiynau. Fe wnes i gael yr holl wybodaeth oedd ei hangen arnaf i” (Cyfweiliad â chyfranogwr y digwyddiad).

“Rwy' i eisiau archwilio defnyddio bio-ologs wrth dyfu fy nghoed helyg ac efallai edrych ar greu bio-ologs fy hun. Rwy' hefyd am archwilio'r defnydd o gardbord yn ystod y broses dyfu” (Cyfweiliad â chyfranogwr y digwyddiad).

6.14 Yn yr un modd â chanfyddiadau blaenorol yr adolygiad o ffurflenni gwerthuso, dywedodd llawer o ffermwyr, yn ystod y cyfweiliad ymgynghori, eu bod yn bwriadu dilyn trywydd a defnyddio'r wybodaeth a gawsant. Roedd saith o'r 19 o fynychwyr (37 %) yn bwriadu archwilio'r pwnc ymhellach ac roedd wedi rhoi syniadau iddynt, e.e. dywedodd un mynychwr, “y prif beth a gefais o'r sesiwn yw fy mod i am archwilio mwy i'r defnydd o fio-ologs”. Aeth saith o gyfranogwyr gam ymhellach, gan ddweud y byddent yn defnyddio neu'n ystyried defnyddio rhai o'r arferion (newydd) hynny yn eu busnesau eu hunain:

“Y prif beth a gefais yw fy mod i am fuddsoddi mewn pecyn FECPAK i wybod pryd fydd gan y buchod llyngyr” (Cyfweiliad â chyfranogwr y digwyddiad).

“Y prif beth a gefais yw pa foddion i'w rhoi i'r gwartheg; doeddwn i ddim yn ymwybodol bod llyngyr wedi dechrau datblygu ymwrthedd i Ivermectin” (Cyfweiliad â chyfranogwr y digwyddiad).

6.15 Yn olaf, mynegodd rhai mynychwyr fod y digwyddiadau wedi eu galluogi i ddysgu am y cynllun EIP yn ehangach; nid oedd 11 o'r 19 o ymatebwyr a gyfwelwyd (58 %) wedi clywed am y cynllun o'r blaen a dywedodd tri eu bod wedi dysgu mwy am y cynllun. Yn ogystal, nododd pedwar eu bod bellach â mwy o ddiddordeb yn nigwyddiadau Cyswllt Ffermio o ganlyniad i'w profiad.

Arolwg cychwynnol a dilynol o aelodau'r Grwpiau Gweithredol

6.16 Ochr yn ochr â chyfathrebiad ffurfiol Cyswllt Ffermio, mae dysgu rhwng cymheiriaid yn debygol o fod yn elfen hollbwysig o'r lledaenu, gydag ymchwil yn dangos bod ffermwyr fel arfer yn ymddiried fwyaf mewn ffermwyr eraill i ddysgu am arferion newydd.⁴² Dywedodd tua hanner aelodau'r Grwpiau Gweithredol a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi trafod eu prosiect gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys 43 %; (56/131) a oedd wedi trafod hyn â ffermwyr a choedwigwyr eraill a 18 % (24 o ymatebion) a oedd wedi ei drafod â sefydliadau eraill. Gan ymhelaethu ar hyn, roedd hanner y rhai a ddywedodd eu bod wedi trafod ag eraill wedi gwneud hynny drwy drafodaethau anffurfiol â ffermydd cyfagos a ffermwyr eraill i hyrwyddo'r buddion. Yn wir, dywedodd 23 % (15/64) eu bod wedi trafod eu prosiect mewn rhwydweithiau mwy ffurfiol, e.e. mentrau cydweithredol, Grwpiau Trafod Cyswllt Ffermio, Clybiau Ffermwyr Ifanc, ac undebau ffermio, tra bod 11 % (saith ymateb) wedi cymryd rhan mewn diwrnodau agored i rannu eu canfyddiadau. Yn yr un modd, dywedodd 53 % (18/34) o aelodau'r Grwpiau Gweithredol a oedd wedi cyflwyno ffurflen werthuso diwedd prosiect i Menter a Busnes eu bod wedi rhannu cyngor ymarferol a oedd yn deillio o'r prosiect gyda phobl eraill o'r tu allan i'r Grŵp Gweithredol, tra bod 35 % arall (12 o ymatebion) wedi nodi 'Ddim eto', sy'n awgrymu bod lle i hyn gynyddu ymhellach.

6.17 Mae rhai o'r sylwadau a wnaed drwy gydol yr arolwg yn dangos sut mae aelodau'r Grwpiau Gweithredol wedi bod yn rhannu gwybodaeth ag eraill, e.e.:

“Mae'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o'r broblem a sut i leihau heintiau drwy arferion da, ac mae hyn yn ei dro wedi'i ledaenu drwy'r gymuned ffermio i'r rhai nad oedd yn rhan o'r prosiect” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

⁴² Rust, N.A., Stankovics, P., Jarvis, R.M. et al. [‘Have farmers had enough of experts?’](#) Environmental Management 69, 31–44 (2022).

6.18 Gyda'i gilydd, mae'r data hyn yn awgrymu bod y cynllun wedi gallu cyrraedd busnesau a sectorau y tu hwnt i'r grwpiau sy'n rhan ohono. Yn wir, honnodd rhai o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod bod ffermwyr eraill wedi cyflwyno'r arferion newydd i'w ffermydd hwy yn dilyn y gweithgarwch lledaenu:

"Wedi darparu diwrnodau agored gyda ffermwyr llaeth eraill yr ardal i egluro'r prosiect a'r manteision. Mae tua 25–26 o ffermwyr llaeth eraill yn cyflwyno'r arfer ar ôl gweld y canlyniadau." (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

"Yn bennaf trwy siarad â ffermwyr eraill a dweud wrthyn nhw sut mae'r profion hyn yn lleihau heintiau a chostau meddyginiaeth ac yn arbed arian yn gyffredinol." (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

"Rydw i wedi ei drafod gyda ffermwyr eraill sydd heb fod yn rhan o'r prosiect sydd yn yr un sefyllfa ar eu ffermydd, gyda'r un broblem â fy fferm i. Maen nhw i gyd wedi bod yn eithaf awyddus i gymryd rhan." (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

6.19 Gofynnem yn uniongyrchol am hyn yn yr arolwg dilynol, lle dywedodd 18 % o'r ymatebwyr (7/38) eu bod yn ymwybodol o enghreifftiau lle mae ffermwyr/coedwigwyr eraill y tu allan i'r EIP wedi archwilio neu ddatblygu arferion newydd o ganlyniad i'w prosiect.⁴³ Rhoddwyd sawl enghraifft, yn aml lle'r oedd aelodau'r Grŵp Gweithredol yn rhan o rwydweithiau mwy (e.e. cymdeithasau, mentrau cydweithredol ac ati) y tu allan i'r EIP ac roedd y wybodaeth wedi'i lledaenu drwy'r grwpiau hynny. Mewn rhai achosion, roedd yr arferion newydd wedi'u rhoi ar waith yn ffurfiol yn hytrach nag yn cael eu hannog yn unig.

"Rydyn ni fel cymdeithas (Cymdeithas Defaid Cymru), wedi hysbysu ffermwyr eraill i gyflwyno arferion da ac wedi eu gwneud yn ymwybodol o (gamau i leihau'r clafr)" (Arolwg dilynol o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

"Rwy'n adnabod sawl person sydd wedi cael problem â sgwrio, ac rwy' wedi eu cynghori ar yr hyn rydyn ni'n ei wneud nawr i'w atal" (Arolwg dilynol o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

"Mae'r grŵp o chwe ffermwr a gymerodd ran yn y prosiect hwn yn rhan o'r gydweithfa laeth. Daeth y prynwr i wybod am y prosiect ac mae nawr am iddo

⁴³ Dywedodd 24 % arall (naw ymatebydd) 'Ddim yn siŵr', a dywedodd 58 % (22) 'Na'.


gael ei gyflwyno ar draws y gydweithfa gyfan, sef 25 o ffermwyr ledled Cymru” (Arolwg dilynol o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

“Mae'n cael ei roi ar waith nawr gan holl aelodau'r (grŵp gwenyn). Mae 25 yn y grŵp, ac rydyn ni'n gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn i ledaenu'r gair ar sut i'w wneud” (Arolwg dilynol o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

“Fe wnaethon ni rannu manylion y prosiect â llawer o ffermwyr yn ein diwrnod agored; allaf i ond dyfalu eu bod nhw'n ei fabwysiadu hefyd. Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei rhannu yn y cyfarfod glaswelltir mawr ym mis Mai 2024 i ledaenu'r gair ymhellach” (Arolwg dilynol o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

- 6.20 Gofynnem hefyd i ymatebwyr i'r arolwg dilynol am eu canfyddiadau o lefel yr ymwybyddiaeth ynghylch eu prosiectau ar draws y sector. Roedd yr ymateb yn gymysg, gyda 35 % (13/38) yn rhoi sgôr uchel o bedwar neu bump allan o bump, a rhoddodd 39 % (15 o ymatebion) sgôr isel o un neu ddau allan o bump. Yn amlwg, mae'r data hyn yn gyfyngedig i'r hyn y mae aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn ymwybodol ohono, er eu bod serch hynny'n rhoi awgrym defnyddiol o ymwybyddiaeth.

Ffigur 6.1: 'I ba raddau ydych chi'n credu bod eich prosiect yn adnabyddus yn y sectorau amaethyddol/coedwigaeth yng Nghymru?'



Ffynhonnell: Arolwg dilynol o aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=38)

Adborth rhanddeiliaid

6.21 Roedd y rhanddeiliaid allweddol, y Broceriaid Arloesi ac aelodau'r tîm cyflawni a gymerodd ran yn y gwerthusiad hwn yn fodlon ar y cyfan â'r dull lledaenu, gan nodi mai Cyswllt Ffermio oedd yn y sefyllfa orau i gyflawni oherwydd eu cyrhaeddiad (sy'n ddigyffelyb yng Nghymru). Amlygwyd bod gwybodaeth am brosiectau EIP Cymru yn cael ei lledaenu mewn ffordd dameidiog a chyson ym mhob cyhoeddiad gan Gyswllt Ffermio ac ar ddiwedd cyfarfodydd, gweithdai a digwyddiadau Cyswllt Ffermio (boed yn ymwneud â'r cynllun yn uniongyrchol ai peidio). Yn yr un modd, cyfeiriodd y rhanddeiliaid at y perygl y byddai negeseuon am EIP Cymru yn mynd ar goll neu'n cael eu gwanhau gan yr holl wybodaeth arall sy'n cael ei lledaenu drwy sianeli Cyswllt Ffermio. Felly, mae'r tîm cyflawni yn ceisio cynyddu allgymorth trwy ddefnyddio cyhoeddiadau eraill y diwydiant, fel cyhoeddi erthyglau yn Farmers Weekly neu'r Guardian.

- 6.22 Pan ofynnwyd iddynt am y ffordd orau o ledaenu canfyddiadau'r prosiect, cyfeiriodd aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn nodweddiadol at y dulliau presennol sydd ar waith, gan ddefnyddio cylchgrawn Cyswllt Ffermio, y wefan, a diwrnodau agored, ac awgrymodd naw ddsbarthu drwy wasg byd ffermio a chyhoeddiadau cysylltiedig eraill. Cyfeiriodd pedwar ymatebydd at bwysigrwydd rhoi copïau caled o adroddiadau i ffermwyr ac awgrymwyd postio adroddiadau perthnasol iddynt yn uniongyrchol. Roedd dau eisiau gweld y cynllun yn gweithio'n agos gydag undebau'r ffermwyr ac awgrymwyd y dylai'r tîm hyrwyddo'r canfyddiadau yn eu cyfarfodydd. Yn gyffredinol, mae eu hymatebion yn dangos bod aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn gyffredinol yn teimlo bod y cynllun wedi lledaenu canfyddiadau drwy'r sianeli priodol.
- 6.23 Roedd y tîm cyflawni'n teimlo bod y dull gweithredu'n gweithio mewn rhai achosion a gallent ddyfynnu enghreifftiau lle gwyddent fod busnesau eraill yn y sector wedi dangos diddordeb ym mhrosiectau'r EIP. Er enghraifft, mae'r cynllun wedi cael llawer o ymholiadau gan ffermwyr ynghylch y prosiect 'EIP15 - Porthiant Dail i Laswelltir' ers y digwyddiad arddangos lle'r oedd 95 o unigolion yn bresennol.
- 6.24 Mewn enghraifft arall, dywedwyd bod prosiect 'EIP20 - Mamogiaid Godro' wedi denu llawer o ddiddordeb. Clywodd ffermwr ifanc am y prosiect a phenderfynodd greu menter ar y cyd â chydweithiwr hŷn lle mai'r prif weithrediad oedd ffermio llaeth gan ddefnyddio mamogiaid: "gwnaeth yr holl sylw [i] odro defaid ysgogi'r person ifanc i wneud hynny" (ffynhonnell: cyfweiliad ag aelod o'r tîm cyflawni). Mewn enghraifft arall, nododd aelod o'r tîm cyflawni fod gan y prosiect 'EIP27 – Slyri Lot' y potensial i ddarparu atebion pwysig a allai helpu ffermwyr i ymateb i her Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Roedd hwn yn brosiect strategol yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i annog, o ystyried yr heriau a ddaw yn sgil y rheoliadau newydd hyn. Mae'n dangos y pwysigrwydd a all fod i'r mathau hyn o brosiectau ar lefel strategol.

Casgliadau

- 6.25 Y prif amcan oedd i'r cynllun hwn gael effaith a oedd yn ymestyn y tu hwnt i'r grŵp o ffermwyr, coedwigwyr ac aelodau eraill y Grwpiau Gweithredol a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiectau a ariannwyd. Y gobaith oedd y byddai'r cynllun, drwy ei ledaenu'n effeithiol, yn cael effaith ar draws y sector. Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yma yn awgrymu bod y cynllun wedi llwyddo i gyflawni'r nodau hynny i raddau helaeth. Bydd bob amser ffactor 'anhysbys' o ran lefel yr ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n manteisio ar y canfyddiadau ar draws y sector; yn wir, dyma un o gyfyngiadau'r ymchwil, a dim ond drwy gynnal arolwg o'r sector cyfan y gellid ei ddatrys yn llawn. Fodd bynnag, gwyddom fod canfyddiadau'r prosiectau wedi'u dosbarthu'n eang i'r sector trwy amryw gyhoeddiadau ac mae cannoedd o bobl wedi mynychu digwyddiadau diwrnod agored i ddysgu am y canfyddiadau hynny. Rydym hefyd wedi cael llu o enghreifftiau, yn uniongyrchol gan ffermwyr/coedwigwyr nad ydynt yn ymwneud ag EIP, ac yn anuniongyrchol gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol, ynghylch sut y bu niferoedd yn dewis manteisio ar y canfyddiadau yn ehangach yn y sector. Yn unol â hynny, gallwn ddatgan, gyda pheth hyder, bod y cynllun, drwy ei weithgarwch lledaenu, wedi gallu hysbysu busnesau eraill am yr arferion newydd hyn, gan arwain at ddefnydd ehangach.

7. Cyflawniad yn erbyn themâu trawsbynciol ac amcanion trawsbynciol

- 7.1 Mae Cais am Gyllid y Rhaglen⁴⁴ yn egluro sut y byddai EIP Cymru yn mynd i'r afael â'r tair thema drawsbynciol, sef 1) Cyfle Cyfartal, Prif Ffrydio Rhywedd a'r Iaith Gymraeg, 2) Datblygu Cynaliadwy, a 3) Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol trwy cyfuniad o bolisïau ac arferion mewnol ar y naill law a gweithgarwch, allbynnau a meysydd blaenoriaeth y prosiectau ar y llaw arall.
- 7.2 Mae adolygiad o'r dogfennau cais yn dangos bod 45 o'r 46 (96 %) yn honni eu bod yn mynd i'r afael â Thema Drawsbynciol 1 drwy gael cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Grwpiau Gweithredol, neu na fyddai unrhyw un yn cael eu heithrio ar sail eu rhywedd neu grŵp cymdeithasol. Siaradodd llawer hefyd am gynnwys y 'genhedlaeth nesaf' a sut roedd y prosiectau'n ceisio darparu gwell cyfleoedd i bobl ifanc, e.e. trwy weithio gyda cholegau amaethyddol. Dim ond un ymgeisydd (dau %) a drafododd y cyfraniad i'r Gymraeg, gan nodi y byddai gweithrediadau'r Grŵp Gweithredol yn cael eu cynnal yn Gymraeg ac y byddai'r adroddiad terfynol ar gael yn Gymraeg. O ystyried pwysigrwydd amaethyddiaeth fel sector economaidd i'r iaith Gymraeg, lle mae cyfran llawer uwch o ffermwyr yn siarad Gymraeg na'r cyfartaledd cenedlaethol, gallwn dybio bod cymorth i helpu'r sector i dyfu yn dod â budd anuniongyrchol, cadarnhaol i'r Gymraeg.
- 7.3 O ran Thema Drawsbynciol 2, roedd 43 o'r 46 (93 %) o'r dogfennau cais yn honni eu bod yn cyflawni yn erbyn datblygu cynaliadwy. Roeddent yn cyfeirio at yr effeithiau uniongyrchol ar yr amgylchedd pe bai'r arferion newydd yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus, gan gynnwys mewn perthynas â rheoli gwastraff, datblygu cadwyni cyflenwi byrrach, arbedion effeithlonrwydd, a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Ym Mhennod 5, gwnaethom nodi bod 16 o ymatebwyr i'n harolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol (12 %), ar draws naw prosiect gwahanol wedi cyfeirio at ganlyniadau amgylcheddol cadarnhaol. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau a gynlluniwyd i gael effaith gadarnhaol ar beillwyr, lleihau ôl troed carbon ar ffermydd, lleihau peiriannau coedwigaeth dwys, nodi ffyrdd i leihau llygredd, a

⁴⁴ Dogfen 'Ffurflen Gais – Rhan Dau' a rannwyd gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynwyd y ddogfen gan Menter a Busnes ar 22 Mehefin 2017.

llawer mwy. Mae prosiect 'EIP39 - Carbon Niwtral' yn un o'r enghreifftiau gorau o hyn, gydag aelod o'r Grŵp Gweithredol yn esbonio:

“Mae'r holl ffermwyr sy'n rhan o'r prosiect wedi cyfrifo eu hól troed carbon ac wedi nodi meysydd y gellid eu gwella a sut i wneud hyn. Mae pob ffermwr wedi derbyn cynllun ar sut i leihau eu hól troed carbon” (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

- 7.4 Yn ogystal, ac fel y gwnaethom nodi yn flaenorol yn yr adroddiad hwn (gweler Pennod 3), roedd 24 % o brosiectau (11/46) yn canolbwyntio'n benodol ar newid yn yr hinsawdd.
- 7.5 At hynny, roedd 43 o'r dogfennau cais (93 %) hefyd yn honni eu bod yn mynd i'r afael â Thema Drawsbynciol 3, gan gynnwys 29 o brosiectau (63 %) y cofnodwyd eu bod yn 'gwella sgiliau pobl ifanc a theuluoedd', 13 (28 %) a oedd yn 'mynd i'r afael â diweithdra a chynyddu incwm y cartref', a chwech (13 %) a oedd yn 'gwella canlyniadau iechyd ac addysg pobl sy'n byw yng Nghymru'. Soniodd y ceisiadau am greu cyfleoedd cyflogaeth cynyddol a gwell, cynyddu proffidioldeb ariannol, a chaniatáu i ffermwyr, a allai wynebu arwahanwydd cymdeithasol, ddatrys problemau gyda'i gilydd. Mae ein hasesiad petrus o enillion economaidd (gweler Pennod 5) yn awgrymu bod llawer o'r newidiadau a wnaed i arferion wedi arwain at enillion cadarnhaol i fusnesau ffermio a choedwigaeth a'u gwneud yn fwy proffidiol. Mae gan hyn gysylltiad clir â'r uchelgais o drechu tloidi, yn enwedig wrth ystyried yr amddifadedd gwledig y mae llawer o aelodau'r Grwpiau Gweithredol wedi'u lleoli ynddynt.
- 7.6 Yn ogystal â'r Themâu Trawsbynciol, mae'r Rheoliad Datblygu Gwledig (1303/2013) yn nodi y dylai rhaglenni ac, felly, gynlluniau o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig, gyfrannu at y tri amcan trawsbynciol sef 1) arloesi, 2) yr amgylchedd a 3) lliniaru ac addasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd.
- 7.7 Mae cysylltiad cynhenid, wrth gwrs, ag arloesi, gan fod y cynllun yn ymwneud yn sylfaenol â chynorthwyo ffermwyr a choedwigwyr i arloesi. Mae Pennod 5 yn dangos bod y mwyafrif helaeth o aelodau'r Grwpiau Gweithredol wedi dod yn fwy hyderus a gwybodus, ac yn fwy tebygol o arloesi ymhellach o ganlyniad i'w hymwneud â phrosiect EIP. Yn wir, roedd rhai eisoes wedi ymgymryd â gwaith ymchwil dilynol ar ôl cwblhau eu prosiect, gan gynnwys ffermwyr a oedd yn rhan o

un prosiect a oedd wedi sicrhau cyllid gan raglen Horizon Ewrop i ddatblygu ymhellach. Yn unol â hynny, mae'r gweithrediad yn sicr wedi cyflawni yn erbyn Amcan Trawsbynciol 1.

7.8 Mae cysylltiad clir â'r amgylchedd (Amcan Trawsbynciol 2), fel y gwelir yn y ffurflenni cais, lle y cyfeiriodd y mwyafrif helaeth (43/46, 93 %) at fuddion amgylcheddol eu prosiectau (megis gwella arferion rheoli gwastraff, datblygu cadwyni cyflenwi byrrach a phrosesau cynhyrchu mwy effeithlon). Buddion amgylcheddol oedd un o'r themâu a nodwyd amlaf yn yr arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol pan ofynnwyd i'r ymatebwyr am y prif fuddion yr oedd y newidiadau a ysbrydolwyd gan yr EIP wedi'u rhoi i'w busnes (gweler uchod). Yn ogystal, rhoddwyd cyfle i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg gyfeirio at fanteision eraill a ddeilliodd o'u prosiect tuag at ddiwedd yr arolwg. Roedd pedwar o'r 75 o ymatebion (53 %) yn ymwneud â buddion mewn perthynas â'r amgylchedd, e.e.:

“Mae milltiroedd bwyd wedi'u torri drwy brynu cyflenwadau'n lleol a hefyd drwy werthu'n fwy lleol” (Arolwg dilynol o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

“Trwy symud i ffwrdd o laswellt syml i borfa o ddolydd cymysg gwyllt, rydyn ni wedi cynyddu bioamrywiaeth” (Arolwg dilynol o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

“Codi ymwybyddiaeth o effaith amgylcheddol ac ecolegol parasitiaid a manteision amgylcheddol ac economaidd defnyddio meddyginiaethau'n fwy effeithlon a chael diagnosis o barasitiaid mewn gwartheg, a'u trin, yn gynnar” (Arolwg dilynol o aelodau'r Grwpiau Gweithredol).

7.9 Yn yr un modd, mae cysylltiad clir hefyd â mesurau sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd (Amcan Trawsbynciol 3). Mae llawer o'r enghreifftiau a ddarparwyd o'r buddion amgylcheddol, megis lleihau milltiroedd bwyd, creu prosesau mwy effeithlon a lleihau nwyon tŷ gwydr, hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at ymdrechion i liniaru'r newid yn yr hinsawdd. Felly, er y bydd y graddau y maent yn cyd-fynd â'r Amcan Trawsbynciol hwn wedi amrywio ar draws y prosiectau (e.e. o brosiect 'EIP39 - Carbon Niwtral', a oedd yn ymwneud yn bennaf ag ymdrechion i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, i brosiectau eraill a oedd yn cyfrannu'n anuniongyrchol at yr amcan neu ddim o gwbl), yn gyffredinol, mae'r gweithrediad wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at yr amcan hwn.

7.10 I grynhoi, mae'r prosiectau yn cyfrannu at y themâu trawsbynciol a'r amcanion trawsbynciol, yn enwedig o ran datblygu cynaliadwy, yr amgylchedd, a'r newid yn yr hinsawdd, gyda llawer o aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn dweud eu bod wedi llwyddo i fabwysiadu arferion mwy effeithlon a fydd yn lleihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr.

8. Casgliadau ac argymhellion

Asesiad o berfformiad

- 8.1 Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn dangos bod gweithrediad EIP Cymru wedi bod yn llwyddiannus, a'i fod wedi cyflawni ei amcanion a chynhyrchu canlyniadau pwysig trwy reolaeth effeithiol.
- 8.2 Mae'r cynllun wedi llwyddo i gyflawni nifer y prosiectau a fwriadwyd ac wedi rhagori ar y targed ar gyfer nifer y sefydliadau a fu'n rhan o Grwpiau Gweithredol. Y tu hwnt i hynny, roedd boddhad cyffredinol â'r ddarpariaeth ymhlith pob grŵp o randdeiliaid. Roedd mwyafrif helaeth o aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn credu bod eu prosiectau'n llwyddiant a'u bod wedi elwa ar y buddion a fwriadwyd.
- 8.3 Roedd yr effaith ar aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn sylweddol, gyda'r rhan fwyaf o ffermwyr/coedwigwyr yn dweud eu bod wedi gwneud newidiadau i'w harferion o ganlyniad i'r ymchwil. Gwnaeth y gwerthusiad hefyd ganfod buddion diriaethol yn gysylltiedig â'r newidiadau hynny, yn enwedig gwelliannau i iechyd anifeiliaid a gostyngiad mewn costau'n ymwneud ag iechyd; gwelliannau i gynnyrch busnesau; a chanlyniadau amgylcheddol. Canfuwyd bod y newidiadau a'r buddion hyn wedi'u cynnal i raddau helaeth flwyddyn ar ôl iddynt gael eu hadrodd gyntaf, a bod rhai yn cynrychioli gwelliannau sylweddol ym mherfformiad busnesau. Gwnaeth ein gwerthusiad ganfod hefyd bod posibilrwydd bod enillion da ar fuddsoddiad eisoes wedi'u sicrhau ar gyfer y cynllun, lle gellir priodoli llawer o'r newidiadau i gostau is a chynnydd mewn incwm (er bod yr amcangyfrifon hyn yn rhai tybiannol iawn).
- 8.4 Cafwyd nifer fach o sylwadau gan ymatebwyr â phrosiectau wedi'u cwblhau, efallai gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol nad oeddent wedi ymgysylltu cymaint, a oedd yn awgrymu nad oeddent wedi cael gwybod am y canlyniadau⁴⁵; felly, dylai'r cynllun sicrhau bod holl aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn cael eu hysbysu.
- 8.5 **Argymhelliad 1:** Dylai MaB weithio ochr yn ochr â'r Broceriaid Arloesi i sicrhau bod holl aelodau'r Grwpiau Gweithredol wedi derbyn canlyniadau eu prosiect lle bo hynny'n berthnasol.

⁴⁵ Gweler paragraff 5.1.

- 8.6 Mae'r tîm yng Nghymru yn sicr wedi cyflawni nod trosfwaol EIP-AGRI, sef meithrin cystadleurwydd a chynaliadwyedd yn y sectorau ffermio a choedwigaeth trwy droi syniadau gan ffermwyr a choedwigwyr yn gamau arloesol. Mewn gwirionedd, mae'n ymddangos bod EIP Cymru yn cymharu'n ffafriol â chynlluniau EIP eraill o ran yr effeithiau a gyflawnwyd.
- 8.7 Nod craidd EIP oedd darparu mecanwaith y gall ffermwyr a choedwigwyr ei ddefnyddio i dreialu eu syniadau, ac i hyn gael ei ddangos i'r sector ehangach, gan arwain at fwy o bobl yn manteisio arnynt ac felly newid mwy trawsnewidiol. Er na allwn nodi'n bendant faint o newid a grëwyd gan y cynllun ar draws y sector, mae digonedd o dystiolaeth yn cael ei gyflwyno yn yr adroddiad hwn sy'n dangos enghreifftiau o drosglwyddo gwybodaeth i ffermwyr a choedwigwyr nad oeddent yn ymwneud ag EIP, yn ogystal ag enghreifftiau lle mae hyn wedi arwain at arferion gwell y tu allan i'r grŵp o fuddiolwyr uniongyrchol. Felly gallwn ddweud, gyda pheth hyder, bod y cynllun wedi cyflawni ei gylch gwaith craidd.
- 8.8 Yn yr un modd, mae cyfoeth o wybodaeth wedi'i gasglu'n effeithiol mewn adroddiadau a chyhoeddiadau eraill y gellir eu defnyddio i drosglwyddo rhagor o wybodaeth. Er y bu rhywfaint o weithgarwch i ledaenu canfyddiadau, nid yw lefel yr ymwybyddiaeth ledled y sector yn hysbys. Mae'n debygol y byddai effaith bosibl yr ymchwil hon yn cael ei gwella, ac yn cynhyrchu mwy o waddol, pe bai'r gwaith o ledaenu'r canfyddiadau'n cael ei wreiddio a'i gynnal. Heb hyn, y risg yw y bydd yr hyn a ddysgwyd yn cael ei golli ar ôl yr effeithiau cychwynnol hyn.
- 8.9 **Argymhelliad 2:** Dylid ystyried sut orau i ddefnyddio'r wybodaeth a gynhyrchwyd o'r gweithgaredd ymchwil hwn wrth symud ymlaen, e.e. trwy ei wreiddio yn llenyddiaeth Cyswllt Ffermio neu mewn hyfforddiant ar gyfer swyddogion datblygu, ac ymgysylltu ag ymgynghorwyr amaethyddol, gwasanaethau, a cholegau eraill i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei gwreiddio yn eu gweithrediadau ac yna'n cael ei throsglwyddo i'r unigolion a'r busnesau y maent yn eu cynorthwyo.

Argymhellion a gwersi a ddysgwyd ar gyfer cynlluniau partneriaeth arloesi yn y dyfodol.

- 8.10 Yn gyntaf, nodwn fod y cynllun wedi dangos ei werth wrth ystyried yr effeithiau a amlinellir uchod. Mae achos cryf dros gynnal y math hwn o weithgarwch o ystyried yr effaith ar wella arferion a'r angen parhaus i'r sector arloesi a dod yn fwy proffidiol.
- 8.11 **Argymhelliad 3:** Dylid cynnal cynllun partneriaeth arloesi sy'n caniatáu i'r sectorau ffermio a choedwigaeth brofi technolegau a syniadau newydd.
- 8.12 O ran sut y dylai cynllun yn y dyfodol edrych, mae llawer o wersi y gellir eu dysgu oddi wrth EIP Cymru i helpu i lywio'r gwaith cyflawni yn y dyfodol.
- 8.13 Rydym yn nodi, er bod y gweithgarwch hyrwyddo cychwynnol wedi bod yn effeithiol o ran ymgysylltu â ffermwyr, ei fod wedi'i wyro'n fwy tuag at fusnesau fferm blaengar a oedd eisoes yn arloesi ac yn ymwneud â'r rhwydwaith cymorth. Er bod tystiolaeth i awgrymu bod y cymorth wedi cynyddu'r gwerthfawrogiad o arloesedd a hyder a'r gallu i arloesi, efallai bod hyn wedi'i gyfyngu ychydig o ystyried eu bod eisoes yn eithaf arloesol. Mae'n gwbl ddilys cynorthwyo'r busnesau hyn oherwydd, fel yr ydym wedi nodi eisoes, y prif fwriad oedd defnyddio'r prosiectau i arddangos syniadau fel eu bod yn dod yn arferion cyffredin. Wedi dweud hynny, efallai y bydd cynlluniau yn y dyfodol yn dymuno ymgysylltu â mwy o fusnesau sydd â mwy o anghenion o ran cynyddu eu proffidioldeb a'u tueddiad i arloesi. Mae'n bwysig nodi bod y cynllun wedi llwyddo i ymgysylltu â rhai busnesau ffermio nad ydynt wedi ymwneud ag ymyriadau blaenorol i'r un graddau (e.e. dywedodd 30 % nad oeddent wedi cael unrhyw gymorth ariannol yn y pum mlynedd diwethaf). Fodd bynnag, mae'n bosibl y gellid sicrhau cydbwysedd gwell rhwng cyfran y busnesau ffermio a gynorthwyr ac sydd eisoes yn ymgysylltu'n helaeth â'r seilwaith cymorth a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny i'r un graddau.
- 8.14 **Argymhelliad 4:** Dylai cynlluniau yn y dyfodol ystyried ffyrdd i ymgysylltu â'r ffermwyr 'anodd eu cyrraedd' nad ydynt yn rhan o'r seilwaith cymorth. Y brif ffordd y daeth y busnesau hynny i wybod am EIP Cymru oedd trwy gymheiriaid. Gallai cynlluniau yn y dyfodol ystyried annog aelodau i wahodd cymheiriaid, nad ydynt fel arfer yn ymwneud â darpariaethau cymorth, yn fwy penodol.
- 8.15 Roedd y prosesau ymgeisio ac arfarnu yn gadarn, a oedd yn caniatáu i brosiectau gael eu hasesu yn ôl eu teilyngdod gwyddonol. Er bod y broses yn gynhwysfawr ac yn debygol o gymryd gormod o amser ac o fod yn rhy yn anodd i'r rhan fwyaf o

ffermwyr ei gwblhau, lliniarwyd hyn gan y ffaith y rhoddwyd rhyddid i'r Broceriaid Arloesi arwain y broses. Roedd y ffermwyr a'r coedwigwyr yn fodlon ar y cyfaddawd hwn ar y cyfan. Fodd bynnag, efallai y bydd cyfle mewn ymyriadau a ddaw ar ôl y Rhaglen Datblygu Gwledig i symleiddio rhai elfennau o'r broses i'w gwneud yn fwy hygyrch ac o bosibl leihau lefel y mewnbwn sydd ei angen gan ymgynghorwyr.

- 8.16 **Argymhelliad 5:** Cyn lansio unrhyw gynllun yn y dyfodol, dylai'r broses ymgeisio gael ei hadolygu a'i symleiddio lle bo modd.
- 8.17 Roedd diffyg detholusrwydd yn y prosesau, ac roedd y grantiau'n cael eu dyfarnu bron ar sail y cyntaf i'r felin (cyhyd â'u bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd). Gallai sicrhau grŵp ehangach o brosiectau i ddewis o'u plith fod wedi arwain at ddewis gwahanol, neu efallai well, o brosiectau.
- 8.18 **Argymhelliad 6:** Dylai cynlluniau yn y dyfodol ystyried defnyddio proses ymgeisio fwy cystadleuol i sicrhau bod y prosiectau mwyaf priodol yn cael eu hariannu. Gallai hyn gynnwys mabwysiadu matrices sgorio cadarn wedi'i osod yn erbyn meini prawf allweddol, y byddai angen i bob cais gael ei sgorio yn ei erbyn waeth beth fo'r cyfnod ymgeisio.
- 8.19 Roedd yr arbenigedd a gynigiwyd gan y cynllun yn ysgogiad pwysicach er mwyn i fusnesau ymwneud ag ef na'r cymorth ariannol a roddwyd i gyflawni'r prosiectau. Mae hwn yn bwynt pwysig i'w ystyried wrth feddwl am sut y dylai cynlluniau edrych yn y dyfodol ac a ddylai fod elfen hwyluso.
- 8.20 Mae'r Broceriaid Arloesi wedi chwarae rhan hanfodol wrth gynorthwyo pob agwedd ar gyflawni, o'r gwaith cychwynnol i sefydlu Grwpiau Gweithredol a chyflwyno ceisiadau, i gyflawni'r treialon ymchwil. Mae hyn wedi bod yn bwysig i sicrhau bod y prosiectau'n cael eu rheoli'n broffesiynol gyda strwythur priodol, a thrwy hynny sicrhau digon o drylwyrredd gwyddonol i roi hygrededd i'r canlyniadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae aelodau'r Grwpiau Gweithredol wedi bod yn hynod gadarnhaol ynghylch eu cyfranogiad. Mae cydbwysedd y dystiolaeth yn awgrymu bod y Broceriaid Arloesi wedi darparu gwerth da am arian, er ei bod hefyd yn bosibl y gallai llawer o'r gweithgarwch hwyluso fod wedi'i gyflawni'n fwy cost-effeithiol ar lefel swyddogion prosiect is. Nodwn, er bod yr arbenigedd a ddarparwyd gan y Broceriaid Arloesi wedi bod yn werthfawr mewn rhai sefyllfaoedd, ar y cyfan nid oedd yn rhan berthnasol o fewnbwn y Broceriaid Arloesi, gyda mwy o angen am

sgiliau rhyngpersonol a'r gallu i ddod â phobl ynghyd. Felly, y tu hwnt i unrhyw beth arall, mae'r cynllun wedi dangos pwysigrwydd cael cymorth hwyluso i gyflawni'r prosiectau.

- 8.21 **Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu arbenigedd a chymorth hwyluso mewn cynlluniau yn y dyfodol sy'n canolbwyntio ar dreialu dulliau arloesol o weithio yn y sectorau ffermio a choedwigaeth.
- 8.22 Er bod pwysigrwydd cynnal cymorth hwyluso yn amlwg, gallai'r ffaith bod pa mor gymhleth yw'r prosiectau yn amrywio awgrymu achos dros fodel cyfunol lle gellid cefnogi prosiectau symlach ar lefel is. Efallai mai dyma fyddai'n rhoi'r cydbwysedd gorau o ran sicrhau gwerth am arian, sicrhau trylwyredd gwyddonol, cynnal proses ymgeisio drylwyr i helpu i nodi'r prosiectau gorau, a chael dull gweithredu o'r gwaelod i fyny.
- 8.23 **Argymhelliad 8:** Dylai cynlluniau'r dyfodol ystyried mabwysiadu dull model cyfunol gyda thîm mwy o staff craidd (swyddogion prosiect) yn cael eu cyflogi i ddarparu cymorth hwyluso a'r ymgynghorwyr allanol mwy costus yn cael eu comisiynu yn unig pan fydd cymhlethdod y prosiect arfaethedig yn galw am eu mewnbwn.
- 8.24 O ran ystyriaethau dylunio eraill ar gyfer cyflawni yn y dyfodol, roedd cytundeb cyffredinol bod gwerth y grantiau a ddarparwyd o dan y cynllun hwn yn gweithio'n dda a'i fod yn arbennig o effeithiol o ran cynorthwyo prosiectau yr oedd gan ffermwyr a choedwigwyr fwy o ddiddordeb ynddynt, ac o ran gwneud yn siŵr y gallai'r cyllid fynd mor eang â phosibl.
- 8.25 **Argymhelliad 9:** Dylai cynlluniau yn y dyfodol barhau i ddarparu grantiau bach sy'n blaenoriaethu syniadau ffermwyr a choedwigwyr.

8.26 Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau wedi'u cychwyn gan ffermwyr a choedwigwyr ac yn seiliedig ar eu hanghenion hwy, ond gyda chymorth helaeth gan y Broceriaid Arloesi i'w cyflawni. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried ai dyma'r dull gorau. Teimlai rhai rhanddeiliaid nad oedd ffocws strategol clir bob amser, a oedd yn debygol o fod yn gysylltiedig â bod ag ymagwedd mor agored. Serch hynny, roedd y rhan fwyaf o gynlluniau EIP eraill o amgylch Ewrop sy'n cael eu hystyried yn rhai sydd ag ymagwedd agored yn nodi anghenion a chyfleoedd penodol, neu sectorau i ganolbwyntio arnynt. Roedd rhanddeiliaid yn ffafrio bod ag ymagwedd agored ond o dan strategaeth gyffredinol gydag efallai bedair neu bum thema allweddol i ganolbwyntio arnynt. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y prosiectau'n cyflawni amcanion strategol Llywodraeth Cymru yn ogystal ag anghenion neu ddymuniadau ffermwyr a choedwigwyr. Byddai i hyn hefyd y fantais o symleiddio'r broses o fynegi a lledaenu canfyddiadau ar lefel cynllun, h.y. trwy gyfeirio at grwpiau o brosiectau tebyg yn hytrach na 46 o brosiectau cwbl wahanol.

8.27 **Argymhelliad 10:** Dylai cynlluniau yn y dyfodol ystyried addasu natur agored y dull gweithredu drwy nodi themâu a chanllawiau strategol.

8.28 Gwendid pellach a amlygwyd gan randdeiliaid oedd y diffyg arian penodol i gynyddu prosiectau EIP. Roedd rhai o'r farn bod y cynllun yn darparu 'cyllid sbarduno' i brofi nifer o syniadau am gost cymharol isel ac yna cefnogi'r rhai a ddangosodd y potensial mwyaf, er nad oedd mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymgymryd â'r camau nesaf hynny.

8.29 **Argymhelliad 11:** Dylai cynlluniau yn y dyfodol ystyried ymgorffori cronfa ddilynol ar wahân y gellid ei chlustnodi ar gyfer y prosiectau mwyaf llwyddiannus a hawsaf i'w cyflwyno ar raddfa fwy, gan ganiatáu i'r prosiectau hynny gynyddu'r gweithgarwch drwy ddenu mwy o ffermwyr.

8.30 Mae'n ymddangos bod lefel yr ymgysylltu a chydweithio ymhlith aelodau'r Grŵp Gweithredol wedi amrywio'n sylweddol, gyda pheth tystiolaeth o ddiffyg ymgysylltu, yn enwedig ymhlith y rhai nad ydynt yn ffermwyr na choedwigwyr. Oherwydd maint bach y tîm, mae'n ymddangos bod diffyg goruchwyliaeth gan Fenter a Busnes o ran ymgysylltiad unigolion ar lawr gwlad a rôl Broceriaid Arloesi wrth sicrhau'r ymgysylltiad hwnnw. Mae hyn yn awgrymu ymhellach y byddai tîm mwy o staff craidd yn ychwanegiad gwerth chweil mewn cynlluniau yn y dyfodol. Ceisiodd EIP Lloegr sicrhau ymgysylltiad trwy ei gwneud yn orfodol i holl aelodau'r Grŵp

Gweithredol gytuno i gylch gorchwyl, a thrwy hynny sicrhau eglurder i'w rolau (nad yw'n ymddangos fel pe bai wedi bod yn wir bob amser yng Nghymru).

8.31 **Argymhelliad 12:** Dylid cyfarwyddo Grwpiau Gweithredol i sefydlu cylch gorchwyl gyda rolau a chyfrifoldebau clir.

8.32 Gallai fod achos dros ddyfarnu rhyw fath o dâl digolledu i aelodau'r Grwpiau Gweithredol am yr amser a dreuliodd ar y prosiect. Awgrymwyd hyn gan rai aelodau a rhanddeiliaid a byddai'n debygol o gynyddu ymgysylltiad, er y dylid rhoi cynnig ar fesurau eraill yn gyntaf, gan nad oedd yr agwedd ariannol wedi'i hamlygu gan y mwyafrif helaeth ac y gallai fod pryderon ynghylch yr effaith y byddai cam o'r fath yn ei chael ar ethos y cynllun.

8.33 Yn gyffredinol, mae EIP Cymru wedi bod yn gynllun hynod lwyddiannus sydd wedi sicrhau canlyniadau da i'r cyfranogwyr ac i'r sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth yn ehangach. Mae wedi dangos y gwerth a gafwyd o fuddsoddi yn y math hwn o gynllun ac mae achos cryf dros barhau i wneud hynny yn y dyfodol. Os felly, mae gwersi gwerthfawr yn yr adroddiad hwn y gellir eu defnyddio i lywio darpariaeth yn y dyfodol.

Cyfeiriadau

- Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon, (2021) United Kingdom - Rural Development Programme (Regional) – Northern Ireland. Cyfnod rhaglennu 2014-2020. Fersiwn 9.0. 06/04/2021.
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. (2019) United Kingdom - Rural Development Programme (Regional) – England. Programming period 2014–2020. Fersiwn 9.0. 22/07/2019.
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. (2021). [Agriculture in the United Kingdom 2020](#).
- Agra CEAS Consulting (2019) 2018 Enhanced Annual Implementation Report on the 2014–2020 Scottish Rural Development Plan. Adroddiad Cenedlaethol ar gyfer Llywodraeth yr Alban. Rhif Gwaith 3027/BDB/ 11 Hydref 2019.
- Busnes Cymru. (dim dyddiad). Prosiectau Cymeradwy EIP Cymru. Adalwyd o [Prosiectau EIP wedi'u cymeradwyo | Farming Connect \(gov.wales\)](#)
- EIP-AGRI. (2020). [EIP-AGRI: 7 years of innovation in agriculture and forestry](#). Rhagfyr 2020.
- Lee-Woolf, C., Hughes, O., King, G., a Fell, D. (2014). Development of a segmentation model for Welsh agricultural industry. Adroddiad gan Brook Lyndhurst ar gyfer Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru. (2018). Canllawiau Gwerthuso ar gyfer Prosiectau Cynllun Datblygu Cadwyni Cydweithio a Chyflenwi (tt. 8–9). Ionawr 2018.
- Llywodraeth Cymru. (2022). Arolwg o'r Cyfrifiad Amaethyddol a Garddwrol. Adalwyd o: [Prosiectau EIP wedi'u cymeradwyo | Farming Connect \(gov.wales\)](#)
- Rust, N.A., Stankovics, P., Jarvis, R.M., et al. (2022). [Have farmers had enough of experts?](#) Environmental Management, 69, 31–44.
- Van Oost, I. (2017) Concept and importance of macro-regional & multi-actor cooperation. Budapest – 20 Medi 2017. DG Agriculture and Rural Development.
- Y Comisiwn Ewropeaidd (2014) [Guidelines on programming for innovation and the implementation of the EIP for agricultural productivity and sustainability. Programming period 2014–2020](#). Fersiwn wedi'i diweddarau Rhagfyr 2014. DG AGRI, Directorate H.

Sustainability and Quality of Agriculture and Rural Development. H.5. Research and innovation.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2015) Synthesis of ex ante evaluations of Rural Development Programmes 2014–2020. Adroddiad Terfynol ar gyfer DG AGRI. Kantor Management Consultants. Tachwedd 2015

Y Comisiwn Ewropeaidd. (2016). [Evaluation study of the implementation of the European Innovation Partnership for Agricultural Productivity and Sustainability](#). Adroddiad Terfynol ar gyfer DG AGRI. Coffey, AND SQW, Edater a SPEED. Tachwedd 2016

Atodiad 1: Cwestiynau gwerthuso

Nodwyd y cwestiynau gwerthuso canlynol yn y Fframwaith Gwerthuso i helpu i arwain ffocws yr adroddiad gwerthuso interim hwn.

1. Asesu lefel yr ymgysylltu / y gwasanaethau a ddarperir drwy Gyswllt Ffermio.
 - a. Beth yw cyfansoddiad sectoraidd y ffermydd / coedwigwyr sydd wedi ymgysylltu ag EIP Cymru?
 - b. Beth yw'r llwybrau y mae aelodau'r Grwpiau Gweithredol wedi'u defnyddio i ymgysylltu â'r cynllun?
 - c. A yw aelodau'r Grwpiau Gweithredol wedi bod yn rhan o unrhyw gynlluniau eraill y Cynllun Datblygu Gwledig?
 - d. I ba raddau mae'r gwasanaethau a ddarperir gan Gyswllt Ffermio yn galonogol i ddarparu Grwpiau Gweithredol?
2. Archwilio effeithiolrwydd proses ymgeisio prosiectau, a'r prosesau penderfynu ac arfarnu:
 - a. Pa mor effeithiol y gweithredwyd y prosesau mynegi diddordeb, ymgeisio ac arfarnu?
 - b. A wynebwyd unrhyw rwystrau/heriau yn ystod y broses ymgeisio?
 - c. I ba raddau mae'r gwasanaethau a ddarperir gan Gyswllt Ffermio o gymorth i'r Grwpiau Gweithredol i gwblhau ceisiadau?
3. Asesu rôl y Brocer Arloesi o ran ansawdd, perthnasedd, hyblygrwydd a gwerth am arian:
 - a. I ba raddau y mae rôl y Brocer Arloesi yn berthnasol ac yn hyblyg o ran anghenion y Grwpiau Gweithredol?
 - b. Beth yw gwerth ychwanegol y Brocer Arloesi, yn enwedig i'r Grŵp Gweithredol?
4. Asesu agweddau dylunio penodol cynllun EIP:
 - a. A yw maint y grantiau wedi bod yn briodol mewn perthynas â chyflawni'r prif amcanion?
 - b. A yw rôl y Brocer Arloesi yn darparu gwerth da am arian?

- c. Pa rôl oedd y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn ei chwarae o ran gwella a newid prosiectau?
 - d. Beth yw manteision menter dan arweiniad ffermwyr / sy'n gweithio fel grŵp?
5. Asesu a gwerthuso'r modd y mae canfyddiadau'r grŵp wedi'u lledaenu i'r cyhoedd sy'n defnyddio Cyswllt Ffermio:
- a. I ba raddau y mae canfyddiadau prosiect EIP Cymru wedi cael effaith ar y diwydiant amaethyddol neu goedwigaeth ehangach?
 - b. I ba raddau y caiff y gweithgareddau / yr atebion a fabwysiadwyd yn ystod prosiectau eu cynnal ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau?
 - c. Pa mor effeithiol fu'r broses ledaenu o ran rhannu canfyddiadau prosiectau EIP Cymru?
6. Asesu pa mor arloesol yw'r prosiectau:
7. Asesu a gwerthuso effaith gyffredinol prosiectau EIP Cymru ar gyfer aelodau'r Grwpiau Gweithredol sy'n cymryd rhan:
- a. Beth yw effeithiau prosiectau unigol EIP Cymru ar gyfranogwyr y Grwpiau Gweithredol?
 - b. I ba raddau y mae bod yn rhan o brosiect EIP Cymru wedi meithrin arloesedd?
 - c. I ba raddau y mae bod yn rhan o brosiect EIP Cymru wedi cael effaith wahanol ar wahanol fathau o weithredwyr?
 - d. I ba raddau y mae'r datblygiadau arloesol yn ychwanegol i'r hyn a fyddai wedi digwydd heb y cymorth?
8. I ba raddau y mae EIP Cymru wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â thair thema drawsbynciol Llywodraeth Cymru ac amcanion trawsbynciol y Cynllun Datblygu Gwledig?

Atodiad 2: Theori newid ar gyfer EIP Cymru

Y Rhesymeg / Yr Angen am gyfer EIP Cymru				
<ul style="list-style-type: none"> Mae angen amlwg i'r sectorau amaethyddol a choedwigaeth arloesi, yn enwedig yn y cyd-destun presennol o bwysau economaidd ac amgylcheddol allanol sylweddol. Fodd bynnag, mae cyfuniad o amharodrwydd i fentro, diffyg hyder a gwybodaeth, ac agweddau traddodiadol yn cyfrannu at atal arloesi o'r fath rhag digwydd. Mae angen y cymorth hwn i waredu'r risg a darparu'r wybodaeth a'r hyder i dreialu datblygiadau arloesol newydd, gan newid agweddau traddodiadol trwy ddangos budd y datblygiadau arloesol hyn trwy weithgarwch lledaenu effeithiol. Mae angen y cymorth hwn hefyd i gau'r bwlch rhwng diwydiant a'r gymuned ymchwil, gan fod llawer o'r ymchwil sy'n ymwneud â'r sectorau hyn byth yn cael ei gymhwyso. 				
Mewnbynnau ac Adnoddau				
<ul style="list-style-type: none"> £1.8m o gyllid grant Arbenigedd a ddarperir gan y Broceriaid Arloesi ac aelodau'r Panel Adolygu Seilwaith a gwasanaethau presennol o fewn y sector, gan gynnwys y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth, rhwydweithiau Cyswllt Ffermio, a chyhoeddiadau. 				
Gweithgareddau	Allbynnau	Canlyniadau Canolradd Un	Canlyniadau Canolradd Dau	Effeithiau Cyffredinol
<ul style="list-style-type: none"> Recriwtio/codi ymwybyddiaeth drwy sianeli Cyswllt Ffermio. Datblygu Grwpiau Gweithredol. Cynnal adolygiadau llenyddiaeth. Cymorth i ddatblygu amlinelliad o brosiect a chais. Cymorth parhaus i gyflawni prosiectau. Monitro cynnydd a rheoli prosiectau. Lledaenu canfyddiadau ymchwil. 	<ul style="list-style-type: none"> 45 o Grwpiau Gweithredol yn cwmpasu 210 o aelodau. Ymgymryd â 45 o brosiectau'n llwyddiannus, gan gynnwys o leiaf dri phrosiect coedwigaeth, gan ddangos yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio. 45 o ddogfennau adolygiad llenyddiaeth a 45 o adroddiadau terfynol ynghyd ag allbynnau technegol eraill. Nifer y prosiectau a arddangoswyd trwy Rwydwaith Arddangos Cyswllt Ffermio. Nifer yr erthyglau a phostiadau'r cyfryngau cymdeithasol a gyhoeddwyd. Cyrhaeddiad gweithgarwch lledaenu Nifer y digwyddiadau/cyfarfodydd a fynychwyd. 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu datblygiadau arloesol o fewn systemau'r cyfranogwyr. Datblygu cynhyrchion newydd. Cyfranogwyr yn goresgyn rhwystrau i arloesi (hyder/gwybodaeth/agweddau). Gwerthfawrogi gweithio fel grŵp. Ymwybyddiaeth o ganfyddiadau ymchwil ledled y sector a diddordeb ynddynt. Cyfranogwyr yn sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer camau ymchwil dilynol. 	<ul style="list-style-type: none"> Buddion diriaethol i gyfranogwyr yn sgil rhoi'r datblygiadau arloesol ar waith (e.e. incwm newydd/costau is). Cyfranogwyr yn gwella/addasu arferion. Y rhai nad ydynt yn cymryd rhan yn penderfynu rhoi datblygiadau arloesol ar waith. Cyfranogwyr yn datblygu perthnasoedd newydd gyda chymheiriaid/sectorau eraill. Pobl nad ydynt yn ffermwyr/coedwigwyr yn codi eu proffil / dangos eu harbenigedd. Mwy o hyder/parodrwydd i arbrofi ag arferion newydd. Ymchwil ddilynol yn cael ei chynnal lle bo'n briodol. 	<ul style="list-style-type: none"> Amaethyddiaeth/coedwigaeth yn ymgysylltu mwy â'r gymuned ymchwil. Datblygu cadernid/effeithlonrwyd d o fewn y sectorau.

Rhagdybiaethau	Rhwystrau	Galluogwyr
<ul style="list-style-type: none"> • Mae digon o alw (yn enwedig gan rai nad ydynt yn ffermwyr/coedwigwyr). • Mae gan y meysydd pwnc apêl eang i'r sectorau. • Ystod briodol o arbenigedd yn cael ei chynnig. 	<ul style="list-style-type: none"> • Prosiectau'n rhy arbenigol ar gyfer defnydd ehangach. • Cyfathrebu canfyddiadau ymchwil technegol. • Aelodau'r Grwpiau Gweithredol ddim yn cydweithredu, yn ymddieithrio, neu â diffyg capasiti. • Methu ag ymgysylltu â'r prosiectau mwyaf addas oherwydd system y cyntaf i'r felin. • Allanol: COVID-19, newidiadau polisi/masnach, cyfyngiadau EIP-AGRI. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ffermwyr/coedwigwyr yn cymryd perchnogaeth o'r gwaith, wedi'u hannog gan ddyluniad y cynllun. • Blaenoriaethu prosiectau sydd â pherthnasedd eang. • Sicrhau cyfuniad priodol o Broceriaid Arloesi. • Defnyddio rhwydweithiau Cyswllt Ffermio.

Atodiad 3: Cyflawniad EIP-AGRI yn Ewrop

Cyflwyniad

Lansiwyd EIP-AGRI yn 2012 i gyfrannu at strategaeth Ewrop 2020 yr UE ar gyfer twf craff, cynaliadwy a chynhwysol.⁴⁶ Mae pum math gwahanol o gynlluniau EIP, ac mae EIP-AGRI yn un ohonynt. Mae'r mathau eraill yn cynnwys Heneiddio'n Weithredol ac yn Iach (EIP-AHA), Dinasoedd a Chymunedau Clyfar (EIP-SCC), Dŵr (EIP Water), a Deunyddiau Crai (EIP Raw Materials).

Nod trosfwaol EIP-AGRI yw meithrin cystadleurwydd a chynaliadwyedd yn y sectorau ffermio a choedwigaeth trwy droi syniadau gan ffermwyr a choedwigwyr yn gamau arloesol. Mae'n rhoi i ffermwyr a choedwigwyr fynediad at gyllid a all gael ei ddefnyddio i gyflawni prosiectau sy'n profi technoleg neu syniad arloesol yn eu busnesau. Drwy wneud hynny, mae wedi'i gynllunio i ddatblygu arloesiadau o fewn y sector sy'n cyfrannu at (i) sicrhau cyflenwad cyson o fwyd, porthiant a bioddeunyddiau; a (ii) rheolaeth gynaliadwy o'r adnoddau naturiol hanfodol y mae ffermio a choedwigaeth yn dibynnu arnynt drwy weithio mewn cytgordd â'r amgylchedd.⁴⁷

Mae EIP-AGRI yn cael ei roi ar waith drwy Reoliad (UE) Rhif 1305/2013, sy'n rhoi cyllid ar y cyd i Aelod-wladwriaethau ar gyfer prosiectau arloesol Grwpiau Gweithredol sy'n cynnwys ffermwyr, cynghorwyr ac ymchwilwyr sy'n dod at ei gilydd mewn ffordd wedi'i thargedu i gydweithio ar brosiectau ymchwil ar y cyd. Mae Grwpiau Gweithredol aml-weithredwr yn rhoi cyfle i adeiladu pontydd rhwng ymchwil ac ymarfer a hwyluso llif syniadau i lefel fferm a choedwig. Unwaith y bydd y syniadau hyn wedi'u dangos, mae ganddynt y cyfle i ddod yn arferion cyffredin, ac felly mae datblygiad y diwydiant yn cael ei feithrin.

Mae'r ffordd y mae'n rhaid i Aelod-wladwriaethau wneud yr EIP-AGRI yn weithredol wedi'i nodi yn Erthygl 56 o'r Rheoliad. Mae'r Erthygl yn nodi'n glir bod angen i Aelod-wladwriaethau benderfynu i ba raddau y byddant yn cynorthwyo'r Grwpiau Gweithredol o fewn fframwaith eu Cynlluniau Datblygu Gwledig. Mae erthygl 57 yn nodi'r tasgau a ganiateir ar gyfer y Grwpiau Gweithredol.

Caiff cymorth ei roi i sefydlu Grwpiau Gweithredol o dan EIP-AGRI drwy'r Mesur Cydweithredu (Erthygl 35(1)(c) o'r Rheoliad), a chaiff cymorth ei ddarparu i brosiectau

⁴⁶ EIP-AGRI (2020) EIP-AGRI: [7 years of innovation in agriculture and forestry](#). Rhagfyr 2020

⁴⁷ Y Comisiwn Ewropeaidd (2015) Synthesis of ex ante evaluations of Rural Development Programmes 2014–2020. Adroddiad Terfynol ar gyfer DG AGRI. Kantor Management Consultants. Tachwedd 2015

Grwpiau Gweithredol o dan Erthyglau 35(2)(a) i (k), sy'n nodi gweithgareddau penodol y gellir eu hariannu.

Mae Erthygl 53 o'r Rheoliad yn sefydlu rhwydwaith EIP ar lefel yr UE sydd wedi'i ddylunio i gysylltu EIP-AGRI cenedlaethol trwy rwydwaith, hwyluso camau i gyfnewid arbenigedd ac arferion da, a sefydlu deialog rhwng ffermwyr a'r gymuned ymchwil gan gynnwys yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â'r broses o gyfnewid gwybodaeth.

Y defnydd o EIP-AGRI a nifer y Grwpiau Gweithredol

O dan Reoliad (UE) Rhif 1305/2013, mae gan Aelod-wladwriaethau'r opsiwn i sefydlu EIP-AGRI o dan eu Rhaglenni Datblygu Gwledig, ond nid oes unrhyw rwymedigaeth arnynt i wneud hynny. Mae Rhaglenni Datblygu Gwledig i fod i gael eu dylunio i adlewyrchu blaenoriaethau ar lefel ranbarthol, Aelod-wladwriaethau a'r UE, fel y'u mynegir drwy ddadansoddiad SWOT, a chyda chymorth rhag-werthusiadau y bwriedir iddynt ymchwilio i'r rhesymeg dros ddewis y mesurau a fabwysiadwyd.

Er bod arloesi yn flaenoriaeth lorweddol o dan Raglenni Datblygu Gwledig 2014-2020, yn 2016 adroddodd y Comisiwn Ewropeaidd⁴⁸, allan o'r cyfanswm o 118 o Raglenni Datblygu Gwledig rhanbarthol a chenedlaethol,⁴⁹ roedd EIP-AGRI wedi'i ddewis mewn 96 ohonynt (yn 2017, diweddarodd Van Oost hyn i 98).⁵⁰ Ni wnaeth dwy Aelod-wladwriaeth, sef Estonia a Lwcsembwrg, raglennu EIP-AGRI yn eu Rhaglenni Datblygu Gwledig cenedlaethol, ac ni chafodd EIP-AGRI eu dewis ychwaith mewn rhai Rhaglenni Datblygu Gwledig rhanbarthol yng Ngwlad Belg, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal a Sbaen. Lle nad yw EIP-AGRI wedi'i raglennu, rhaid i ranbarthau ac Aelod-wladwriaethau fynd ar drywydd arloesi o dan fesurau eraill.

⁴⁸ Y Comisiwn Ewropeaidd (2016) [Evaluation study of the implementation of the European Innovation Partnership for Agricultural Productivity and Sustainability](#). Adroddiad Terfynol ar gyfer DG AGRI. Coffey, AND, SQW, Edater a SPEED. Tachwedd 2016

⁴⁹ Mae wyth Rhaglen Datblygu Gwledig yn rhaglenni fframwaith cenedlaethol (gyda Rhaglenni Datblygu Gwledig rhanbarthol o dan y fframwaith hwn) ac felly nid ydynt yn rhaglennu ar gyfer EIP-AGRI.

⁵⁰ Van Oost, I. (2017) Concept and importance of macro-regional & multi-actor cooperation. Budapest – 20 Medi 2017. DG Agriculture and Rural Development.

Mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau sefydlu Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol. Mae gan y rhain nifer o dasgau gorfodol ac, o'u defnyddio i'r eithaf, fel y maent yn Ffrainc, yr Almaen a'r Eidal, gallant chwarae rhan ffurfiol wrth gefnogi EIP-AGRI. Sefydlwyd Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol/Rhanbarthol yn ystod cyfnod rhaglennu 2007–2013 ac felly maent yn rhagflaenu'r EIP-AGRI. Un o bedwar nod y Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol a fynegwyd yn Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 yw “meithrin arloesi mewn amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig”. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd (2016) yn ymhelaethu ar bedwar prif faes gweithgaredd a ddefnyddir i gyflawni hyn⁵¹:

- codi ymwybyddiaeth rhanddeiliaid perthnasol o EIP-AGRI a chynyddu eu cyfranogiad ynddo
- hwyluso camau i chwilio am bartneriaid i'r Grwpiau Gweithredol
- rhwydweithio ar gyfer cynghorwyr a gwasanaethau cymorth arloesi.
- casglu a lledaenu enghreifftiau o brosiectau'r Grwpiau Gweithredol.

Unwaith y byddant wedi'u sefydlu, caiff EIP-AGRI eu hariannu drwy gymorth i Grwpiau Gweithredol sy'n rhedeg prosiectau arloesol. Mae nifer y Grwpiau Gweithredol yn dibynnu ar ddewisiadau gweithredu Awdurdodau Rheoli'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

Mae cronfa ddata EIP-AGRI o Grwpiau Gweithredol yn cofnodi cyfanswm o 1,546 (26 Gorffennaf 2021), ychydig yn llai na'r 1,617 a adroddwyd yn EIP-AGRI yn 2020⁵² a chryn dipyn yn llai na'r 3,200 a ragwelwyd yn gynnar yng nghyfnod rhaglennu 2014–2020.⁵³ Mae chwarter (25 %) yn Sbaen, lle mae 17 Rhaglen Datblygu Gwledig, ac mae 18.4 % arall yn yr Iseldiroedd, lle nad oes ond un Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae'r Almaen a Ffrainc, sydd ill dwy â dull rhanbarthol o weithredu, yn cyfrif am 13.5 % a 10.9 % o gyfanswm y Grwpiau Gweithredol, yn y drefn honno. Gyda'i gilydd, mae'r pedair Aelod-wladwriaeth hyn yn cyfrif am 1,047 o Grwpiau Gweithredol – dwy ran o dair (67.7 %) o'r cyfanswm. Er bod llawer llai o Grwpiau Gweithredol wedi'u rhestru yn y Deyrnas Unedig (86, 6 % o'r cyfanswm), mae'n bwysig nodi bod mwy na hanner y Grwpiau Gweithredol sydd yn y Deyrnas Unedig (46) yng Nghymru. Mae Ffigur A1 ar y dudalen nesaf yn dangos sut mae pob gwlad yn y Deyrnas Unedig yn cyfrannu at ffigur cyffredinol y Deyrnas Unedig.

⁵¹ Y Comisiwn Ewropeaidd (2016) [Evaluation study of the implementation of the European Innovation Partnership for Agricultural Productivity and Sustainability](#). Adroddiad Terfynol ar gyfer DG AGRI. Coffey, AND, SQW, Edater a SPEED. Tachwedd 2016

⁵² EIP-AGRI (2020) [EIP-AGRI: 7 years of innovation in agriculture and forestry](#). Rhagfyr 2020.


⁵³ Van Oost, I. (2017) Concept and importance of macro-regional & multi-actor cooperation. Budapest – 20 Medi 2017. DG Agriculture and Rural Development.

Ffigur A1: Nifer y Grwpiau Gweithredol a oedd wedi'u rhestru yng nghronfa ddata EIP-AGRI ar 26 Gorffennaf 2021

Ffynhonnell: EIP-AGRI.

Mae yna hefyd gronfa ddata EIP-AGRI o brosiectau, sy'n cynnwys prosiectau arloesi sy'n cael eu rhedeg y tu allan i Grwpiau Gweithredol ac sydd wedi'u categorio fel "prosiectau ymchwil" a "chamau gweithredu arloesol". Cofnododd hyn 2,120 o brosiectau ar 26 Gorffennaf 2021. Er bod dosbarthiad y prosiectau yn cyfateb yn fras i ddosbarthiad y Grwpiau Gweithredol, mae Aelod-wladwriaethau lle nad oes Grwpiau Gweithredol wedi'u cofnodi, yn cofnodi cyfanswm o 70 o brosiectau arloesol eraill sy'n rhedeg y tu allan i'r fframwaith hwn. Yn ogystal, mae 149 o brosiectau wedi'u rhestru fel rhai trawsffiniol, a phump wedi'u rhestru fel rhai byd-eang.

Ffigur A2: Nifer y prosiectau a oedd wedi'u rhestru yng nghronfa ddata prosiectau EIP-AGRI ar 26 Gorffennaf 2021



Ffynhonnell: EIP-AGRI.

Mae EIP-AGRI yn darparu dadansoddiad o Grwpiau Gweithredol fesul thema (Tabl A1).⁵⁴ Ar y pryd (Tachwedd 2020) roedd ychydig dros 1,600 o Grwpiau Gweithredol yng nghronfa

⁵⁴ EIP-AGRI (2020) EIP-AGRI: [7 years of innovation in agriculture and forestry](#). Rhagfyr 2020.

ddata'r Comisiwn. Roedd bron i draean y Grwpiau Gweithredol (31 %) yn ymwneud â chynhyrchu planhigion a garddwriaeth. Ar ben arall y sbectrwm, roedd 5 % o Grwpiau Gweithredol yn ymwneud ag adnoddau genetig, 5 % â choedwigaeth, a 5 % â rheoli ynni.

Tabl A1: Dadansoddiad o Grwpiau Gweithredol yn ôl thema

Thema	Grwpiau Gweithredol sy'n ymdrin â'r thema	
	%	Nifer
Cynhyrchu planhigion a garddwriaeth	31%	477
Cystadleurwydd ac arallgyfeirio ym maes ffermio/coedwigaeth	27%	430
Hwsmonaeth a lles anifeiliaid	24%	388
Ansawdd/prosesu bwyd a maeth	22%	363
Cadwyn gyflenwi, marchnata a defnydd	21%	334
Rheoli plâu/clefydau	19%	300
Ffrwythloni a rheoli maetholion	17%	275
Rheoli/ymarferoldeb pridd	16%	252
Bioamrywiaeth a rheoli natur	14%	222
Offer a pheiriannau ffermio	13%	204
Hinsawdd a newid hinsawdd	13%	203
Rheoli dŵr	12%	198
Tirwedd/rheoli tir	10%	161
Rheoli gwastraff, sgil-gynhyrchion a gweddillion	9%	154
Adnoddau genetig	5%	88
Coedwigaeth	5%	88
Rheoli ynni	5%	79

Ffynhonnell: Y Comisiwn Ewropeaidd, Tachwedd 2020 yn EIP-AGRI (2020). Noder: Gellir cyfrif prosiectau Grwpiau Gweithredol o dan sawl thema.

Mae EIP-AGRI yn nodi bod dros 60 % o Grwpiau Gweithredol yn gweithio ar ffyrdd arloesol o oresgyn heriau amgylcheddol a newid hinsawdd, a bod yr EIP felly yn parhau i fod yn berthnasol yng nghyd-destun Bargaen Werdd yr UE ac yn benodol Strategaeth o'r Fferm i'r Fforc.⁵⁵

Gweithredu ar lefel genedlaethol a rhanbarthol

Mae lefel uchel o hyblygrwydd o ran sut mae Awdurdodau Rheoli yn gweithredu eu Rhaglenni Datblygu Gwledig ac, o ganlyniad, mae cryn wahaniaeth yn y ffordd y caiff EIP-AGRI eu gweithredu. Cynhyrchodd y Comisiwn Ewropeaidd deipoleg gweithredu yn seiliedig ar y ddau newidyn canlynol⁵⁶:

- Cyllideb gyfartalog Grŵp Gweithredol (bach (<€100,000); canolig (€100,000–€300,000); mawr (>€300,000))
- Pa mor rhagnodol yw proses ddethol Grwpiau Gweithredol (cyfyngol, h.y. mae'n rhaid i'r Grwpiau Gweithredol ddewis o blith meysydd ffocws wedi'u diffinio ymlaen llaw, o'r brig i'r gwaelod; agored, h.y. roedd y Grwpiau Gweithredol yn rhydd i ddewis eu themâu eu hunain, o'r gwaelod i fyny).

Cynhyrchodd y dull uchod chwe math o EIP-AGRI, er nad oedd yn bosibl gosod yr holl EIP o fewn y fframwaith hwn, gan nad oedd pob un yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r awduron; mae'r deipoleg yn cynnwys 84 o'r 96 EIP. Dylid nodi y gallai newidiadau i'r dull gweithredu yn ystod cyfnod rhaglennu 2014–2020 arwain at ailddosbarthu pe bai'r ymarferiad yn cael ei ailadrodd. Fodd bynnag, gan fod y data ariannol wedi'u casglu drwy arolwg o Awdurdodau Rheoli, nid yw'n ymarferol ailddosbarthu.

Mae Cymru yn ymddangos yn y grŵp bach ac agored (chwith uchaf Tabl A2), ynghyd â Fflandrys (BE) ac Asturias (ES). Mae'r grŵp hwn yn cwmpasu'r nifer lleiaf o EIP. Mae EIP eraill y Deyrnas Unedig yn ymddangos yn y grŵp canolig ac agored (Lloegr a Gogledd Iwerddon) a'r grŵp mawr ac agored (yr Alban).

⁵⁵ Ibid.

⁵⁶ Y Comisiwn Ewropeaidd (2016) [Evaluation study of the implementation of the European Innovation Partnership for Agricultural Productivity and Sustainability](#). Adroddiad Terfynol ar gyfer DG AGRI. Coffey, AND, SQW, Edater a SPEED. Tachwedd 2016

Mae cyfanswm o naw EIP bach, 36 EIP canolig, a 39 EIP mawr. Mae rhyw 41 EIP wedi'u categorio fel rhai rhydd i gynnig themâu (agored), tra bod 48 yn cael eu hystyried yn gyfyngol gan fod y themâu wedi'u diffinio ymlaen llaw.

Tabl A2: Teipoleg ymagweddau Awdurdodau Rheoli at EIP-AGRI

Cyllid cyfartalog fesul Grŵp Gweithredol				
		Bach (hyd at €100,000)	Canolig (€100,000 i €300,000)	Mawr (mwy na €300,000)
Pa mor rhagnodol oedd y dull o ddewis Grwpiau Gweithredol	Agored (Grwpiau Gweithredol yn rhydd i gynnig themâu)	Math 1: bach ac agored (3)	Math 2: canolig ac agored (16)	Math 3: mawr ac agored (17)
		Fflandrys (BE)	Ffindir	Guyane (FR)
		Asturias (ES)	Martinique (FR)	Haute-Normandie (FR)
		Cymru (DU)	Picardie (FR)	Niedersachsen a Bremen (DE)
	Dim gwybodaeth am y gyllideb ar gyfer y Rhaglenni Datblygu Gwledig canlynol, sy'n mabwysiadu agwedd agored:		Baden-Württemberg (DE)	Gogledd Rhine-Westphalia (DE)
	Bolzano (IT)		Hessen (DE)	Schleswig-Holstein (DE)
	Mecklenburg-Vorpommern (DE)		Sacsoni (DE)	Iwerddon
	Saxony Anhalt (DE)		Gwlad Groeg	Basilicata (IT)
	Malta		Hwngari	Campania (IT)
	Madrid (ES)		Abruzzo (IT)	Piedmont (IT)
			Andalucía (ES)	Sardinia (IT)
			Galicia (ES)	Sisili (IT)
			La Rioja (ES)	Veneto (IT)
			Murcia (ES)	Gwlad Pwyl
			Rhaglen Datblygu Gwledig Cenedlaethol (ES)	Portiwgal (tir mawr)
			Lloegr (DU)	Romania
			Gogledd Iwerddon (DU)	Sweden
			Yr Alban (DU)	

Cyllid cyfartalog fesul Grŵp Gweithredol				
		Bach (hyd at €100,000)	Canolig (€100,000 i €300,000)	Mawr (mwy na €300,000)
Pa mor rhagnodol oedd y dull o ddewis Grwpiau Gweithredol	Cyfyngol (Rhaid i Grwpiau Gweithredol ddewis o feysydd ffocws a ddiffiniwyd ymlaen llaw)	Math 4: bach a chyfyngol (6)	Math 5: canolig a chyfyngol (20)	Math 6: mawr a chyfyngol (22)
		Cyprus	Awstria	Bwlgaria
		Limousin (FR)	Croatia	Gweriniaeth Tsiec
		Réunion (FR)	Aquitaine (FR)	Auvergne (FR)
		Liguria (IT)	Corsica (FR)	Basse Normandie (FR)
		Gwlad y Basg (ES)	Lorraine (FR)	Bwrgwyn (FR)
		Slofacia	Midi-Pyrénées (FR)	Llydaw (FR)
			Pays de la Loire (FR)	Centre-Val de Loire (FR)
			Rhône-Alpes (FR)	Champagne-Ardenne (FR)
			Rhineland-Palatinat (DE)	Guadeloupe (FR)
			Bafaria (DE)	Ile de France (FR)
			Emilia Romagna (IT)	Languedoc Roussillon (FR)
			Lombardi (IT)	Mayotte (FR)
			Lazio (IT)	PACA (FR)
			Iseldiroedd	Poitou-Charentes (FR)
			Slofenia	Berlin a Brandenburg (DE)
			Aragon (ES)	Friuli-Venezia-Giulia (IT)
			Ynysoedd Dedwydd (ES)	Marche (IT)
			Castilla a Leon (ES)	Molise (IT)
			Catalwnia (ES)	Puglia (IT)
			Extremadura (ES)	Twsgani (IT)
			Umbria (IT)	
			Lithwania	

Ffynhonnell: Y Comisiwn Ewropeaidd (2016).

Gall Aelod-wladwriaethau ariannu gweithgareddau brocera arloesi sydd wedi'u cynllunio i helpu i gynhyrchu syniadau arloesol, hwyluso camau i sefydlu Grwpiau Gweithredol, a darparu cymorth i ddod o hyd i bartneriaid a chyllid. Gall Aelod-wladwriaethau hefyd ddefnyddio hwyluswyr sydd â'r rôl o helpu i bontio'r trafodaethau rhwng pegwn ymchwil a phegwn ymarfer y gadwyn cyfnewid gwybodaeth. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn nodi bod y gwahaniaeth rhwng y ddwy rôl yn aml yn cael ei ddrysus gan Aelod-wladwriaethau, o leiaf yn y camau cynnar o weithredu.⁵⁷ Fodd bynnag, mae'n amlwg y gall Broceriaid Arloesi fynd ymlaen i fod yn hwyluswyr unwaith y bydd Grwpiau Gweithredol wedi'u sefydlu'n llwyddiannus; y gwir yw nad yw hyn yn wir yn awtomatig.

Cymhariaeth rhwng dyluniad EIP-AGRI yng Nghymru a Rhaglenni Datblygu Gwledig eraill

Mae'r gymhariaeth sy'n cael ei darparu yma yn dilyn dadansoddiad y Comisiwn Ewropeaidd,⁵⁸ lle archwiliwyd 37 o Raglenni Datblygu Gwledig penodol yn fanwl, gan gynnwys Cymru. Dyma'r unig ffynhonnell wybodaeth gyflawn a chymaradwy.

Mesurau a ddefnyddiwyd i raglennu Grwpiau Gweithredol EIP

Mae gan Awdurdodau Cymwys lefel uchel o hyblygrwydd o ran dewis mesurau ar gyfer rhaglennu EIP, er mai'r brif ffynhonnell ariannu yw Mesur 16: Cydweithrediad, ac yn benodol is-fesur 16.1: cymorth i sefydlu gweithrediad Grwpiau Gweithredol yr EIP-AGRI. Gwnaeth cyfanswm o 18 o'r 37 o Raglenni Datblygu Gwledig a archwiliwyd yn cefnogi EIP o dan yr is-fesur hwn yn unig, gan gynnwys Cymru (a'r Alban a Lloegr).

Gwnaeth tua 17 o Raglenni Datblygu Gwledig hefyd ddarparu cymorth o dan is-fesur 16.2: cymorth i brosiectau peilot ac i ddatblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd, gan gynnwys Gogledd Iwerddon. Defnyddiodd saith Cynllun Datblygu Gwledig is-fesur 16.4: cymorth ar gyfer cydweithredu llorweddol a fertigol ymhlith gweithredwyr cadwyn gyflenwi ar gyfer sefydlu a datblygu cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol ac ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo mewn cyd-destun lleol yn ymwneud â datblygu cadwyni cyflenwi byr a marchnadoedd lleol; roedd hyn yn ychwanegol at is-fesur 16.1. At hynny, defnyddiodd tair Rhaglen Datblygu Gwledig is-fesur 16.1 ar y cyd ag is-fesur 16.5: cymorth ar gyfer gweithredu ar y cyd gyda golwg ar liniaru neu ymaddasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd ac

⁵⁷ Ibid.

⁵⁸ Y Comisiwn Ewropeaidd (2016) [Evaluation study of the implementation of the European Innovation Partnership for Agricultural Productivity and Sustainability](#). Adroddiad Terfynol ar gyfer DG AGRI. Coffey, AND, SQW, Edater a SPEED. Tachwedd 2016

ar gyfer ymagweddau ar y cyd at brosiectau amgylcheddol ac arferion amgylcheddol parhaus.

Darparodd Cymru hefyd gymorth o dan Fesur 1: Camau gweithredu trosglwyddo gwybodaeth, fel y gwnaeth pum Rhaglen Datblygu Gwledig arall, yn ogystal ag o dan Fesur 2: Gwasanaethau cynghori, rheoli fferm a gwasanaethau cymorth fferm, ynghyd â phedwar Rhaglen Datblygu Gwledig arall. At hynny, darparodd pedwar Rhaglen Datblygu Gwledig gymorth o dan Fesur 4: Buddsoddiadau mewn asedau ffisegol.

Adnoddau ariannol a gwariant a ragwelir

Mae'r grantiau EIP a ddarparwyd yng Nghymru yn llawer llai na'r rhai a welir yn nodweddiadol ar draws Ewrop (fel y nodwyd yn gynharach). Mae Cymru yn un o ddim ond naw rhanbarth neu Aelod-wladwriaeth allan o 84 sy'n darparu grantiau o lai na €100,000; yn wir, mae'r grant a ddarparwyd yng Nghymru yn llai na hanner hynny. Mae cyfanswm gwariant Cymru ar EIP yn isel o gymharu â Rhaglenni Datblygu Gwledig eraill, sef €2.1m, er yn fwy na'r €0.36m yn Fflandrys (BE) – yr unig Raglen Datblygu Gwledig arall yn y grŵp teipoleg 'Bach' yr oedd data gwariant ar gael ar ei chyfer.

Casglodd y Comisiwn Ewropeaidd (2016) ddata ar gyllideb EIP fel canran o gyfanswm Mesur 16: Cyllideb cydweithredu lle roedd gwybodaeth ar gael i wneud y cyfrifiad.⁵⁹ Wrth gwrs, mae hyn yn rhannol hefyd yn un o swyddogaethau'r gyllideb sydd ynghlwm wrth Fesur 16, a allai fod yn sylweddol, ond sy'n dal i fod yn llawer llai na gwariant mewn meysydd eraill. Y ffigur ar gyfer Cymru oedd 1.7 % (yr ail isaf ymhlith y Rhaglenni Datblygu Gwledig a archwiliwyd), tra yn Fflandrys (BE) roedd yn 5.1 %, er bod y gyllideb gyffredinol yn llawer is (gweler uchod). Roedd y gyfran o Fesur 16: Cyllideb cydweithredu a ddyrannwyd i'r EIP yn amrywio o 1.3 % yn y Ffindir i 70.9 % yn Slofenia. Mae'n bwysig nodi, er bod y gyfran sy'n cael ei gwario ar EIP-AGRI yng Nghymru yn ymddangos yn isel, ein bod yn deall bod Cymru yn gyffredinol wedi buddsoddi'n drymach ym Mesur 16 nag y mae gwledydd eraill wedi'i wneud, ac felly gallai dadansoddiad o gyfraniad cyfrannol pob gwlad fod yn gamarweiniol.

Mae angen ystyried cymariaethau rhwng yr adnoddau ariannol a neilltuwyd i'r EIP o dan wahanol Gynlluniau Datblygu Gwledig yng nghyd-destun anghenion a blaenoriaethau rhanbarthol/cenedlaethol; nid yw'n dilyn y bydd yr un gwariant mewn gwahanol feysydd yn cynhyrchu'r un canlyniadau nac yn mynd i'r afael â'r anghenion i'r un graddau. Isod ceir

⁵⁹ Ibid.

amlinelliad manylach o sut mae'r gyfran o gyllideb Mesur 16 sy'n cael ei gwario ar EIP yn amrywio o fewn pob grŵp teipoleg, er mai'r cafeaf pwysig yw bod hyn yn cuddio'r gwariant cyffredinol ar EIP:

- EIP Math 2: 1.3 % (Tir mawr, FI) i 38.9 % (Gwlad Groeg)
- EIP Math 3: 9.2 % (Basilicata, IT) i 25.9 % (Gwlad Pwyl)
- EIP Math 4: 4.9 % (Limousin, FR) i 43.3 % (Gwlad y Basg, ES)
- EIP Math 5: 5.4 % (Rhone-Alpes, FR) i 70.9 % (Slofenia)
- EIP Math 6: 2.7 % (Umbria, IT) i 36.6 % (Llydaw, FR).

Roedd y gwariant cyfartalog yn amrywio o €21,800 yn Reunion (FR) i €2,600,000 yn Andalusia (ES). Mae Cymru ar y pen isaf, gyda dyraniad cyfartalog o €48,000 i bob Grŵp Gweithredol. Wrth gwrs, bydd gwariant cyfartalog fesul Grŵp Gweithredol, i ryw raddau, yn ganlyniad i strategaeth, gyda ffocws ar ychydig o Grwpiau Gweithredol mawr yn arwain at wariant cyfartalog uchel.

Themâu a sectorau â blaenoriaeth

Mae Tabl A2 hefyd yn amlinellu pa mor rhagnodol yw proses ddewis pob Grŵp Gweithredol. Yn ei adroddiad yn 2016, canfu'r Comisiwn Ewropeaidd, yn ôl y disgwyl, bod dulliau agored o ddewis Grwpiau Gweithredol wedi arwain at ddull mwy hyblyg o ymdrin â themâu a sectorau â blaenoriaeth. Nodwyd tri phrif ddull o flaenoriaethu.

- Cymysgedd o flaenoriaethau thematig agored a gweddol eang, wedi'i adlewyrchu yn aml yn strategaeth y Rhaglen Datblygu Gwledig.
- Mae blaenoriaethau ac is-sectorau wedi'u targedu yn cael eu gadael yn agored i ganiatáu i ymgeiswyr ganolbwyntio ar yr anghenion mwyaf dybryd.
- Dull rhagnodol lle mae'n rhaid i ymgeiswyr ddilyn blaenoriaethau rhanbarthol sefydledig er mwyn cael cymorth.

Mae'r dull gweithredu yng Nghymru yn agored iawn, yn debyg i Raglenni Datblygu Gwledig yn Abruzzo (IT), Lloegr a'r Alban (DU), Galicia (ES), Hwngari a Picardie (FR). Serch hynny, mae rhanbarthau eraill sy'n cael eu dosbarthu fel rhai sydd ag ymagwedd agored yn nodi anghenion a chyfluoedd penodol, neu sectorau i ganolbwyntio arnynt. Mae'r rhanbarthau hyn yn cynnwys Andalucía ac Asturias (ES), Guyana a Hate-Normandie (FR), Hesse, Niedersachsen a Bremen, Gogledd Rhine-Westphalia, Sacsoni, Sacsoni-Anhalt, Schleswig-Holstein (DE).

Drwy ddiffiniad, mae Rhaglenni Datblygu Gwledig lle ceir dull gweithredu cyfyngol yn pennu blaenoriaethau, themâu a sectorau i raddau amrywiol.

Ymagwedd at wasanaethau broceriaeth arloesi

Mae canllawiau ar raglennu ar gyfer arloesi yng nghyd-destun EIP⁶⁰ yn esbonio'r rôl bwysig y gall swyddogaeth Broceriaid Arloesi ei chwarae wrth ddarganfod syniadau arloesol a hwyluso'r gwaith o sefydlu Grwpiau Gweithredol. Awgrymir y caiff hyn ei gyflawni'n bennaf drwy weithredu fel cyswllt rhwng ffermwyr, ymchwilyr, cynghorwyr, a chyrrff anllywodraethol, ac ati. Mae sawl opsiwn ar gyfer ariannu swyddogaeth Broceriaid Arloesi.

Mewn rhai achosion, megis y Weriniaeth Tsiec a Baden-Württemberg a Sacsoni (DE), mae'r llywodraeth genedlaethol/ranbarthol yn gweithredu fel yr Brocer Arloesi; mae'r Comisiwn Ewropeaidd (2015) yn tynnu sylw at yr uned EIP bwrpasol o fewn Awdurdod Rheoli Baden-Württemberg (DE). Mae cyrrff cyhoeddus hefyd yn ymgymryd â'r rôl hon mewn rhanbarthau eraill, gan gynnwys Murcia ac Andalucía (ES). Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol, yn hytrach na Broceriaid Arloesi, er enghraifft yn Bafaria (DE), Gwlad Groeg a Slofenia. Defnyddir cynghorwyr allanol, h.y. yr un dull â'r hyn a fabwysiadwyd yng Nghymru, mewn sawl rhanbarth arall, gan gynnwys Berlin-Brandenburg, Hessen a Schleswig-Holstein (DE). Mae rhai Awdurdodau Rheoli yn defnyddio cymysgedd o ddarpariaeth, e.e. Veneto (IT).

Mae cynghorwyr allanol sy'n gweithredu fel Broceriaid Arloesi yn nodweddion pwysig o ddarparu EIP AGRI yng Nghymru, gyda 27 o gynghorwyr fferm profiadol iawn yn gweithio yn y swyddogaeth hon; mae'r rhain hefyd yn gallu bod yn rhan o gyflawni Grwpiau Gweithredol, e.e. fel hwyluswyr, er na allant fod yn brif ymgeisydd. Nid oes unrhyw batrwm gwirioneddol i'r defnydd o Froceriaid Arloesi o ran maint cyllideb y Grŵp Gweithredol nac a oes dull agored neu gyfyngol o ddewis Grwpiau Gweithredol. Archwiliodd y Comisiwn Ewropeaidd⁶¹ y defnydd o Froceriaid Arloesi mewn 84 Rhaglen Datblygu Gwledig, a gwnaeth 80 ohonynt ddarparu gwybodaeth. Mae eu dadansoddiad yn dangos bod Broceriaid Arloesedd yn cael eu defnyddio mewn 51 o'r rhanbarthau (64 %). Er bod yr holl Awdurdodau Rheoli yn Sbaen wedi nodi eu bod yn defnyddio Broceriaid Arloesi, fel y mae

⁶⁰Y Comisiwn Ewropeaidd (2014) [Guidelines on programming for innovation and the implementation of the EIP for agricultural productivity and sustainability](#). Programming period 2014–2020. Fersiwn wedi'i diweddarau Rhagfyr 2014. DG AGRI, Directorate H. Sustainability and Quality of Agriculture and Rural Development. H.5. Research and innovation.

⁶¹ Y Comisiwn Ewropeaidd (2016) [Evaluation study of the implementation of the European Innovation Partnership for Agricultural Productivity and Sustainability](#). Adroddiad Terfynol ar gyfer DG AGRI. Coffey, AND, SQW, Edater a SPEED. Tachwedd 2016

mwyafrif helaeth y rheini yn Ffrainc a'r Almaen, ni nododd y mwyafrif helaeth o'r rhai yn yr Eidal eu bod wedi gwneud hynny.

Lle na ddefnyddiwyd Broceriaid Arloesi, y rhesymeg fel arfer yw bod y seilwaith presennol o amgylch arloesi yn ddigonol, fel, er enghraifft, yn Fflandrys (BE) yn y grŵp bach ac agored o EIP.

Cymru yw'r unig wlad yn y Deyrnas Unedig i ddefnyddio Broceriaid Arloesi allanol o ddechrau cyfnod y rhaglen. Yn Lloegr, nid oes gwasanaeth broceriaeth arloesi penodol, ac nid oes Broceriaid Arloesi cyflogedig yn cael eu hariannu.⁶² Fodd bynnag, mae'r Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol yn darparu gwybodaeth a fforymau i helpu darpar gyfranogwyr Grwpiau Gweithredol i gyfarfod a datblygu syniadau. Mae gan y Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol hefyd rôl i helpu Grwpiau Gweithredol i ffurfio, ac mae'n hwyluso'r arfer o rannu canlyniadau'r prosiectau.

Lansiodd Rhwydwaith Gwledig yr Alban y Gwasanaeth Cymorth Arloesi Gwledig ym mis Chwefror 2018.⁶³ Ariennir y gwasanaeth hwn o gyllideb Rhwydwaith Gwledig yr Alban ac mae ar gael i ffermwyr, coedwigwyr neu grofftwyr sy'n hwyluso arloesedd trwy roi mynediad i arbenigwyr pwnc a rheoli gweithgorau, sy'n datblygu opsiynau nes bod cynllun prosiect hyfyw yn cael ei lunio. Mae swyddogion Llywodraeth yr Alban yn teimlo bod y dull hwn yn unigryw yn yr UE ond mae'n debyg mai dyma'r math o wasanaeth yr oedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi'i ragweld. Fel sy'n wir yng Nghymru, mae rôl yr hwylusydd hefyd yn cael ei darparu gan y Brocer Arloesi.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Rhwydwaith Gwledig yn dod â gweithredwyr â diddordeb ynghyd.⁶⁴ Disgwylir hefyd i grwpiau rhanddeiliaid a rhwydweithiau ymchwil a datblygu presennol gael eu defnyddio. Fodd bynnag, mae Cynllun Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon hefyd yn nodi mai swyddogaethau'r Broceriaid Arloesi fydd datblygu prosiectau posibl a dod â'r gweithredwyr perthnasol ynghyd i sefydlu Grwpiau Gweithredol, ac y gellir talu am y gweithgaredd hwn.

Rôl Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol/Rhanbarthol

⁶² Defra (2019) [United Kingdom - Rural Development Programme \(Regional\) – England. Programming period 2014–2020](#). Fersiwn 15.0. 08/06/2022.

⁶³ Agra CEAS Consulting (2019) [2018 Enhanced Annual Implementation Report on the 2014–2020 Scottish Rural Development Plan](#). Adroddiad Cenedlaethol ar gyfer Llywodraeth yr Alban. Rhif Gwaith 3027/BDB/ 11 Hydref 2019.

⁶⁴ DAERA (2021) [United Kingdom - Rural Development Programme \(Regional\) – Northern Ireland. Programming period 2014–2020](#). Fersiwn 9.0. 06/04/2021.

Yn adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd yn 2016, archwiliwyd rôl Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol mewn perthynas â'r pum maes gweithgaredd a restrwyd yn flaenorol (h.y. codi ymwybyddiaeth o EIP-AGRI, hwyluso'r gwaith o chwilio am bartneriaid i'r Grwpiau Gweithredol, darparu rhwydweithio ar gyfer cynghorwyr/gwasanaethau cymorth arloesi, hwyluso ymchwil, a chasglu a lledaenu enghreifftiau o brosiectau'r Grwpiau Gweithredol) mewn 37 Rhaglen Datblygu Gwledig.⁶⁵ Yn yr adroddiad dywededig, nododd Cymru y byddai ei Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol yn weithredol mewn tri o'r rhain – codi ymwybyddiaeth, hwyluso'r gwaith o chwilio am bartneriaid Grwpiau Gweithredol, a chasglu a lledaenu enghreifftiau o brosiectau'r Grwpiau Gweithredol – ond na fyddai'n darparu rhwydweithio.

Dyweddodd tua 33 o Awdurdodau Rheoli y byddai eu Rhwydweithiau'n cymryd rhan weithredol wrth *godi ymwybyddiaeth*; dywedodd 27 y byddai eu Rhwydweithiau'n *hwyluso chwilio am bartneriaid Grwpiau Gweithredol*; dywedodd 27 y byddai eu Rhwydweithiau'n *darparu rhwydweithio*; a dywedodd 31 y byddai eu Rhwydweithiau'n *casglu ac yn lledaenu enghreifftiau o brosiectau'r Grwpiau Gweithredol*. Yn ogystal, adroddodd 16 Awdurdod Rheoli y byddai gan eu Rhwydwaith rôl ym mhob un o'r pedwar maes, a dim ond dau nad oedd yn rhagweld rôl i'r Rhwydwaith o gwbl.

Mae Cymru yn un o wyth Awdurdod Rheoli sy'n dewis peidio â darparu rhwydweithio ar gyfer yr EIP-AGRI trwy eu Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol, ynghyd ag Andalucía (ES), Llydaw (FR), Bwlgaria, Croatia, Lloegr (DU), Fflandrys (BE), Midi-Pyrénées (FR), Murcia (ES) a Slofacia. Dewisodd pedwar Awdurdod Rheoli beidio â lledaenu enghreifftiau o Grwpiau Gweithredol trwy eu Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol, dewisodd wyth beidio â chael Rhwydweithiau i hwyluso'r gwaith o chwilio am bartneriaid Grwpiau Gweithredol, a dewisodd dau beidio â defnyddio eu Rhwydweithiau i godi ymwybyddiaeth o'r EIP. Yn 2015, cyfeiriodd y Comisiwn Ewropeaidd, fel enghraifft o arfer dda, at y ffordd y mae'r Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol yn gweithredu fel pont rhwng y rhwydwaith EIP a'r Grwpiau Gweithredol yn Awstria a Sweden.⁶⁶

Cyfranogwyr a gynorthwywyd

⁶⁵ Y Comisiwn Ewropeaidd (2016) [Evaluation study of the implementation of the European Innovation Partnership for Agricultural Productivity and Sustainability](#). Adroddiad Terfynol ar gyfer DG AGRI. Coffey, AND, SQW, Edater a SPEED. Tachwedd 2016

⁶⁶ Y Comisiwn Ewropeaidd (2015) [Synthesis of ex ante evaluations of Rural Development Programmes 2014–2020](#). Adroddiad Terfynol ar gyfer DG AGRI. Kantor Management Consultants. Tachwedd 2015

Nid oes llawer o wahaniaeth yn y math o gyfranogwr a gynorthwywyd, gyda'r rhan fwyaf o Awdurdodau Rheoli yn mabwysiadu ymagwedd eang i gynnwys ffermwyr, coedwigwyr, cynghorwyr, ymchwilwyr, cymdeithasau a chyrff cyhoeddus. Mewn nifer fach o achosion, ychydig o arweiniad sydd ar gyfranogwyr; er enghraifft, dim ond personau neu bartneriaethau naturiol neu gyfreithiol y mae Andalucía (ES) a Sacsoni (DE) yn eu crybwyll. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn atal unrhyw grwpiau penodol. Ychydig iawn o Awdurdodau Rheoli sy'n ymddangos fel petaent yn gwahardd ffermwyr, e.e. Ile-de-France (FR), lle mae cyfranogwyr wedi'u rhestru fel sefydliadau cyfunol, clystyrau, grwpiau buddiant economeg a'r amgylchedd, a Sweden, lle mae cyfranogwyr wedi'u rhestru fel awdurdodau, bwrdeistrefi, siroedd, rhanbarthau, cymdeithasau, sefydliadau a chwmnïau. Fodd bynnag, mae'n debyg y gallai ffermwyr ddod o dan rai o'r grwpiau hyn.

Cydlyniad mewnol EIP-AGRI o fewn Rhaglenni Datblygu Gwledig

Yn 2016, gwnaeth y Comisiwn Ewropeaidd archwilio cydlyniad mewnol EIP-AGRI ag asesiad o anghenion y Rhaglenni Datblygu Gwledig. Roedd y cydlyniad fel arfer yn uchel, gan gynnwys yng Nghymru, lle mae'r asesiad o anghenion yn cyfeirio'n helaeth at gystadleurwydd, adnoddau naturiol ac arloesi a gaiff sylw yn yr ystod eang o flaenoriaethau strategol a nodir.

Dim ond mewn ychydig iawn o achosion y barnwyd bod cydlyniad yn ganolraddol (Lloegr (DU), Midi-Pyrénées (FR), Rhineland-Palatinate (DE) a Sweden). Yn achos Lloegr (DU), er bod yr asesiad o anghenion yn cyfeirio at gydweithio annigonol a'r ffaith mai cyfyngedig yw'r camau i ledaenu arloesedd, dim ond yn rhannol y mae'r blaenoriaethau strategol yn mynd i'r afael â'r elfennau hyn. Yn achos Sweden, mae'r asesiad o anghenion yn cyfeirio at ddiffyg capasiti arloesi, ond mae'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer Mesur 16 yn canolbwyntio ar foderneiddio ffermydd. Yn Rhineland-Palatinate (DE), mae'r asesiad o anghenion yn cyfeirio at y berthynas rhwng ymchwilwyr ac ymarferwyr, nad yw'n cael sylw ym mlaenoriaethau Mesur 16; mae datgysylltiad tebyg yn Midi-Pyrénées (FR). Ni farnwyd bod cydlyniad yn isel mewn unrhyw achos.

Atodiad 4: Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol

Cyflwyniad

If you wish to answer the questions in English, select 'English' from the box above

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill, sef ymgynghoriaeth ymchwil annibynnol sydd wedi'i lleoli yng Ngheredigion, i gynnal gwerthusiad o Bartneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru. Ei ddiben yw asesu pa mor effeithiol y cyflawnwyd y gweithrediad a nodi unrhyw fuddion i gyfranogwyr a'r sector yn ehangach. Bydd hefyd yn gyfle i nodi a oes angen unrhyw newidiadau i wella'r gweithrediad dros y cyfnod sy'n weddill neu mewn ymyriadau yn y dyfodol. Fel cyfranogwyr, mae eich adborth yn hanfodol er mwyn ein helpu i ddeall y materion hyn.

Mae'r arolwg hwn yn archwilio amrywiaeth o faterion, gan gynnwys y broses ymgeisio, eich profiad a'ch boddhad â gwahanol agweddau ar y cymorth, gwybodaeth am eich prosiect, a'r buddion a gafwyd.

Mae eich cyfranogiad yn y gwaith ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol, a bydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn cael ei thrin yn gyfrinachol. I gael gwybodaeth am sut y cawsom eich manylion a sut y byddwn yn ymdrin â'r wybodaeth a roddwch i ni, ewch i'r ddolen ganlynol: [dolen i PN](#).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y gwaith ymchwil hwn.

Diolch ymlaen llaw am eich amser.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adran 1 – Proffil

1. A allwch gadarnhau bod y wybodaeth ganlynol yn gywir?
 - a. Enw'r cyfranogwr
 - b. Enw'r busnes/sefydliad
 - c. Enw'r prosiect
2. (Ymgeiswyr arweiniol yn unig) Mae ein cofnodion yn dangos mai chi oedd yr ymgeisydd arweiniol ar gyfer y prosiect hwn. A yw hynny'n gywir?
 - a. Ydy
 - b. Nac ydy
3. A allwch gadarnhau'r math o sefydliad rydych yn ei gynrychioli?
 - a. Busnes ffermio
 - b. Busnes coedwigaeth
 - c. Corff anllywodraethol
 - d. Sefydliad ymchwil
 - e. Cynghorydd
 - f. Busnes bach neu ganolig arall
 - g. Sefydliad arall
4. A allwch chi ddisgrifio pam oeddech eisiau datblygu prosiect drwy EIP Cymru (Cwestiwn agored – y tîm ymchwil i ddarparu'r opsiynau canlynol fel ysgogiadau ac ôl-godio'r ymatebion)?
 - a. Er mwyn gwaredu risg o brofi syniad newydd
 - b. Cael mynediad at arbenigedd i brofi syniad newydd
 - c. Gweithio gyda sefydliadau eraill o fewn y sector
 - d. Gweithio gyda sefydliadau mewn sectorau eraill
 - e. Er mwyn darparu ein harbenigedd
 - f. Datblygu ein henw da
 - g. Arall

Os wedi dewis 'Busnes Ffermio' yn C3

Pam mae angen y wybodaeth hon arnom? Bydd hyn yn ein helpu i ddeall safbwyntiau a phrofiadau gwahanol ffermwyr sydd wedi cymryd rhan yn EIP Cymru.

5. Beth yw'r prif sector ar eich fferm?
- | | |
|-----------------------|--------------------------------|
| a. Grawnfwydydd | g. Da byw sy'n pori'r ucheldir |
| b. Cnydio cyffredinol | h. Da byw sy'n pori'r iseldir |
| c. Garddwriaeth | i. Cymysg |
| d. Moch arbenigol | j. Defaid |
| e. Dofednod arbenigol | k. Eidion |
| f. Llaeth | l. Arall (nodwch beth) |
6. Beth yw cyfanswm arwynebedd eich fferm? A fyddai'n well gennych roi eich ateb mewn hectarau neu erwau?
7. Beth yw statws deiliadaeth eich fferm?
- Perchen ar y cyfan
 - Perchen yn bennaf
 - Rhentu'n bennaf
 - Rhentu'r cyfan
8. Tua faint oedd cyfanswm trosiant y fferm yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2020–21)? Rhowch ffigur rhifiadol yn unig (dim arwyddion punt, comas, ac ati).
9. Os nad yw'r ffigur gwirioneddol wrth law, rhowch amcangyfrif o'r swm.
- Dim
 - <£10,000
 - £10,000 i £49,999
 - £50,000 i £99,999
 - £100,000 i £199,999
 - rhwng £200,000 a £499,999
 - rhwng £500,000 a £999,999
 - £1,000,000 i £1,999,999
 - £2,000,000 i £4,999,999
 - £5,000,000 i £9,999,999
 - £10,000,000 i £19,999,999
 - £20,000,000 i £49,999,999
 - £50,000,000 neu fwy

10. A ydych chi wedi cael unrhyw grantiau neu gymorth ariannol arall gan Lywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus eraill yn y pum mlynedd diwethaf?
- Ydw
 - Nac ydw
11. (Os 'Ydw') O ba gynlluniau rydych chi wedi cael cymorth ariannol?
- Grant Cynhyrchu Cynaliadwy
 - Grant Busnes i Ffermydd
 - Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnes Pren
 - Arall (nodwch beth)
12. Ar raddfa o 1–5 (lle mae 1 yn golygu 'ddim yn bwysig o gwbl' a 5 yn golygu 'pwysig iawn'), pa mor bwysig yw siarad â ffermwyr eraill fel ffynhonnell gwybodaeth a chyingor i chi'n bersonol?
13. Ar raddfa o 1–5 (lle mae 1 yn golygu 'dim diddordeb o gwbl' a 5 yn golygu 'diddordeb aruthrol'), faint o ddiddordeb sydd gennych chi mewn cael gwybodaeth neu gyngor am ffermio ar y Rhynggrwyd?
14. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau canlynol?

Anghytuno'n gryf	Anghytuno rywfaint	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno rywfaint	Cytuno'n gryf
------------------	--------------------	---------------------------------	-----------------	---------------

Mae sicrhau ansawdd bywyd da yn bwysicach i mi na sicrhau'r incwm mwyaf posibl o'm daliad

Dylai pob fferm ymdrechu i fod mor amgylcheddol gynaliadwy â phosibl

Mae cydweithio â ffermwyr eraill yn gwella sut mae fferm yn cael ei rhedeg

Rwyf bob amser yn gwneud amser i gymdeithasu â ffermwyr eraill

Anghytuno'n gryf	Anghytuno rywffaint	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno rywffaint	Cytuno'n gryf
------------------	---------------------	---------------------------------	------------------	---------------

Rwyf bob amser yn awyddus i ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd y gallaf eu cymhwyso i'm busnes

Rwy'n awyddus i ddefnyddio technoleg newydd ar fy fferm pan fydd ar gael

Rwy'n hapus i gael cyngor ar reoli'r amgylchedd naturiol ar fy fferm

Adran 2 – Profiad/bodddhad â'r cymorth

15.A allwch ddweud wrthym sut y daethoch yn ymwybodol o gymorth rhaglen EIP?

- Trwy Swyddogion Datblygu Lleol Cyswllt Ffermio
- Ar-lein, h.y. trwy'r wefan neu'r cyfryngau cymdeithasol
- Mewn digwyddiad Cyswllt Ffermio
- Mewn digwyddiad arall
- Cylchgrawn Cyswllt Ffermio
- Cyhoeddiadau eraill
- Ar lafar – trwy ffermwyr/coedwigwyr eraill
- Ar lafar – arall (nodwch)
- Gan Frocer Arloesi

16. Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi wedi bod â'r cymorth i gyflawni eich prosiect EIP?

- a. Anfodlon iawn
- b. Rywfaint yn anfodlon
- c. Nid yn fodlon nac yn anfodlon
- d. Rywfaint yn fodlon
- e. Bodlon iawn

17. A allwch chi egluro eich ateb os gwelwch yn dda?

(Ymgeisydd nad yw'n arwain yn unig)

18. Fel aelod o'r Grŵp Gweithredol nad yw'n aelod arweiniol, pa mor gyfarwydd ydych chi â'r cyllid a roddwyd i'ch prosiect a sut mae'r cyllid hwnnw wedi'i wario?

	Ddim yn gyfarwydd o gwbl	Rywfaint yn gyfarwydd	Cyfarwydd iawn
Lefel cyllid y prosiect			
Gwybodaeth am sut mae'r cyllid wedi'i wario			

(Pawb)

19. Cynigiwyd grantiau o hyd at £40,000. Ydych chi'n meddwl bod hyn yn rhy uchel, yn rhy isel, neu fwy neu lai'n iawn?

- a. Rhy uchel
- b. Fwy neu lai'n iawn
- c. Rhy isel

20. Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

(Ymgeisydd arweiniol yn unig) Y broses ymgeisio a datblygu'r prosiect

21. Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech chi â'r broses mynegi diddordeb a'r prosesau ymgeisio ac arfarnu?
- a. Anfodlon iawn
 - b. Rywfaint yn anfodlon
 - c. Nid yn fodlon nac yn anfodlon
 - d. Rywfaint yn fodlon
 - e. Bodlon iawn
22. A wynebwyd unrhyw rwystrau/heriau yn ystod y broses ymgeisio?
23. A gawsoch gymorth gan Frocer Arloesi (h.y. arbenigwr neu hwylusydd a gomisiynwyd i gynorthwyo cyfranogwyr trwy'r broses ymgeisio a chamau datblygu a gweithredu'r prosiect)?
- a. Do
 - b. Naddo
24. (Os 'Naddo') Eglurwch pam y dewisoch dderbyn / peidio â derbyn y cymorth hwn.

25. Pa mor ddefnyddiol oedd y gwasanaethau cymorth canlynol o ran eich helpu yn ystod y broses ymgeisio a chamau datblygu a gweithredu'r prosiect?

	Ddim yn ddefnyddiol o gwbl	Ddim yn ddefnyddiol iawn	Niwtral	Ryw faint yn ddefnyddiol	Defnyddiol iawn
Cymorth a ddarparwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth (h.y. adolygiad o lenyddiaeth / cynorthwyo ymchwil ar gyfer syniadau am brosiect) i'ch helpu i lunio'r prosiect (Os yw'n berthnasol) Cymorth gan Froceriaid Arloesi i fireinio syniadau ar gyfer prosiect a datblygu amlinelliad o'r prosiect a chais (Os yw'n berthnasol) Cymorth gan Froceriaid Arloesi i ffurfio'r Grŵp Gweithredol trwy nodi partïon a'u dwyn i mewn (Os yw'n berthnasol) Cymorth parhaus gan Froceriaid Arloesi i gyflawni'r prosiectau (Os yw'n berthnasol) Cymorth parhaus gan staff y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth neu Fenter a Busnes i gyflawni'r prosiectau Cymorth i ledaenu'r canfyddiadau					

26. Eglurwch eich atebion.

Cymorth a ddarparwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth	
(Os yw'n berthnasol) Cymorth gan Froceriaid Arloesi i fireinio syniadau ar gyfer prosiect a datblygu amlinelliad o'r prosiect a chais	
(Os yw'n berthnasol) Cymorth gan Froceriaid Arloesi i ffurfio'r Grŵp Gweithredol trwy nodi partïon a'u dwyn i mewn	
(Os yw'n berthnasol) Cymorth parhaus gan Froceriaid Arloesi i gyflawni'r prosiectau	
(Os yw'n berthnasol) Cymorth parhaus gan staff y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth neu Fenter a Busnes i gyflawni'r prosiectau	
Cymorth i ledaenu'r canfyddiadau	

(Os yw'n berthnasol) Brocer Arloesi (pob ymatebydd)

27. **(Ymgeiswyr nad ydynt yn arwain)** A gawsoch gymorth gan Brocer Arloesi (h.y. arbenigwr neu hwylusydd a gomisiynwyd i gefnogi cyfranogwyr trwy'r broses ymgeisio a chmau datblygu a gweithredu'r prosiect)?

- a. Do
- b. Naddo

28. A ydych yn credu bod gan y Brocer Arloesi yr arbenigedd perthnasol i gefnogi eich anghenion wrth gyflawni'r prosiect hwn?

- a. Ydw
- b. Nac ydw

29. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei bod yn bwysig cael Brocer Arloesi i helpu i gyflawni'ch prosiect?

- a. Anghytuno'n gryf
- b. Anghytuno rywfaint
- c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- d. Cytuno rywfaint
- e. Cytuno'n gryf

30. Eglurwch eich ateb.

Gwybodaeth am eich prosiect a'ch Grŵp Gweithredol

31. **(Ymgeisydd arweiniol yn unig)** Hyd y gwyddoch, a yw eich prosiect yn seiliedig ar:

- a. Arfer newydd i'r sector
- b. Arfer newydd i Gymru / yr ardal

32. **(Pob ffermwr/coedwigwr)** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y Brocer Arloesi / EIP Cymru wedi darparu cyngor a chymorth effeithiol i roi'r arferion newydd ar waith yn eich system?

- a. Anghytuno'n gryf
- b. Anghytuno rywfaint
- c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- d. Cytuno rywfaint
- e. Cytuno'n gryf

33. Eglurwch eich ateb.

(Pob ymatebydd)

34. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r gosodiadau canlynol am y Grŵp Gweithredol?

	Anghytuno'n gryf	Anghytuno rywfaint	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno rywfaint	Cytuno'n gryf
--	------------------	--------------------	---------------------------------	-----------------	---------------

Cydweithiodd y Grŵp

Gweithredol yn dda

Roedd y Grŵp Gweithredol yn cynrychioli cymysgedd priodol o arbenigedd

Roedd y prosiect yn seiliedig ar syniad y ffermwyr/coedwigwyr

Arweiniwyd y prosiect gan y coedwigwyr/ffermwyr

35. Beth yw manteision menter dan arweiniad ffermwyr / sy'n gweithio fel grŵp?

36. Beth fu'r prif heriau wrth gyflawni eich prosiect EIP Cymru?

37. Beth, os o gwbl, y gallai tîm EIP Cymru fod wedi'i wneud i helpu i oresgyn yr heriau hyn?

Adran 3 – Buddion i'r cyfranogwyr

38. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod bod yn rhan o EIP Cymru wedi:

Anghytuno'n gryf	Anghytuno rywfaint	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno rywfaint	Cytuno'n gryf
------------------	--------------------	---------------------------------	-----------------	---------------

(Pob ffermwr/coedwigwr)

Cynyddu eich hyder wrth brofi syniadau newydd

(Pob ffermwr/coedwigwr)

Cynyddu eich dealltwriaeth o'r broses arloesi

(Pob ffermwr/coedwigwr)

Eich gwneud yn fwy tebygol o brofi syniadau newydd yn y dyfodol

(Pob ymatebydd) Eich helpu

chi i ddatblygu perthnasoedd newydd gyda

ffermwyr/coedwigwyr (eraill).

(Pob ymatebydd) Eich helpu i

ddatblygu perthnasoedd newydd gyda sefydliadau o sectorau eraill

(Rhai nad ydynt yn

ffermwyr/coedwigwyr) Codi

eich proffil / helpu i ddangos

eich arbenigedd

39. A ydych yn bwriadu parhau i gydweithio ag aelodau eraill y Grŵp Gweithredol yn y dyfodol?

- a. Ydw
- b. Nac ydw

40. Ydych chi wedi trafod y prosiect gyda sefydliadau eraill?

- a. Ydw – ffermwyr/coedwigwyr
- b. Ydw – sefydliadau eraill

c. Nac ydw

41. (Os 'Ydw') Rhowch fanylion.

42. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno eich bod wedi gallu cyflawni'r hyn yr oeddech wedi bwriadu ei wneud (hyd yma) o ran y buddion i'ch sefydliad?

- a. Anghytuno'n gryf
- b. Anghytuno rywfaint
- c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- d. Cytuno rywfaint
- e. Cytuno'n gryf
- f. Rhy gynnar i ddweud

43. Eglurwch eich ateb.

Os wedi cwblhau'r prosiect

44. Mae ein cofnodion yn dangos bod eich prosiect EIP Cymru wedi'i gwblhau. A yw hynny'n gywir?

- a. Ydy
- b. Nac ydy

Os 'Ydy'

45. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod eich prosiect wedi bod yn llwyddiant?

- a. Anghytuno'n gryf
- b. Anghytuno rywfaint
- c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- d. Cytuno rywfaint
- e. Cytuno'n gryf
- f. Rhy gynnar i ddweud

46. Eglurwch eich ateb.

47. **(Pob ffermwr/coedwigwr)** O ganlyniad i'r prosiect hwn, a ydych chi wedi newid unrhyw arferion o fewn eich busnes?

- a. Ydw
- b. Nac ydw

- c. Ddim eto
48. (Os 'Nac ydw') A allwch chi egluro pam nad ydych wedi newid unrhyw arferion o fewn eich busnes o ganlyniad i'r prosiect hwn?
49. (Os 'Ydw') I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y byddech wedi newid yr arferion hyn beth bynnag heb y cymorth?
- a. Anghytuno'n gryf
 - b. Anghytuno rywfaint
 - c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
 - d. Cytuno rywfaint
 - e. Cytuno'n gryf
 - f. Rhy gynnar i ddweud
50. (Os 'Ydw') A allwch chi ddisgrifio unrhyw fuddion o'r newidiadau hyn?
51. (Os 'Ydw') A ydych chi wedi gallu cynhyrchu incwm newydd neu leihau costau o ganlyniad i hyn?
- a. Ydw
 - b. Nac ydw
 - c. Ddim eto
52. (Os 'Ydw') A allwch roi amcangyfrif o'r incwm / arbedion cost blynyddol a gynhyrchwyd o weithredu'r arferion hyn?
53. **(Pob ymatebydd)** A ydych chi wedi ymgymryd ag unrhyw ymchwil dilynol ers cwblhau'r prosiect?
- a. Ydw – esboniwch
 - b. Nac ydw
54. A fu unrhyw fuddion eraill o ganlyniad i'r prosiect hwn?

Adran 4 – Myfyrio

55. Pa newidiadau, os o gwbl, yr hoffech eu gweld yn cael eu gwneud i EIP Cymru dros y cyfnod sy'n weddill neu mewn ymyriadau yn y dyfodol?
56. Pa fath o gymorth fyddai'n mynd i'r afael â'ch anghenion orau wrth symud ymlaen?
57. A oes gennych syniadau ynghylch sut y dylid lledaenu canfyddiadau'r prosiect?
58. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu hychwanegu?

59. A fyddech chi'n hapus i Wavehill roi galwad arall ichi yn ystod ein gwerthusiad terfynol ar ddiwedd 2022 i ofyn ychydig o gwestiynau am unrhyw ganlyniadau o'ch prosiect?

- a. Byddwn
- b. Na fyddwn

Diolch yn fawr iawn am eich amser.

Atodiad 5: Arolwg o ymgeiswyr aflwyddiannus

Cyflwyniad

If you wish to answer the questions in English, select 'English' from the box above

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill, sef ymgynghoriaeth ymchwil annibynnol sydd wedi'i lleoli yng Ngheredigion, i gynnal gwerthusiad o Bartneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru. Ei ddiben yw asesu pa mor effeithiol y cyflawnwyd y gweithrediad a nodi unrhyw fuddion i gyfranogwyr a'r sector yn ehangach. Fel rhan o'r broses hon, rydym eisiau clywed gan unigolion a ymgeisiodd i gymryd rhan yn EIP Cymru ond a fu'n aflwyddiannus neu a dynnodd yn ôl o'r broses. Diben yr ymarferiad hwn yw ein helpu i ddeall pam na wnaeth cyfranogwyr posibl gymryd rhan a beth ddigwyddodd gyda'u syniadau ar gyfer prosiectau. Mae hefyd yn gyfle i gael eich adborth ar y broses ymgeisio a'r angen am EIP Cymru.

Bydd eich adborth yn ein helpu i ddeall gwerth EIP Cymru a'r angen amdano ac a oes angen unrhyw welliannau.

Ni ddylai'r arolwg gymryd mwy na 5–10 munud o'ch amser. Mae eich cyfranogiad yn y gwaith ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol, a bydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn cael ei thrin yn gyfrinachol. I gael gwybodaeth am sut y cawsom eich manylion a sut y byddwn yn ymdrin â'r wybodaeth a roddwch i ni, ewch i'r ddolen ganlynol: [dolen i PN](#).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y gwaith ymchwil hwn.

Diolch ymlaen llaw am eich amser.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adran 1 – Proffil

1. A allwch ddarparu'r wybodaeth ganlynol os gwelwch yn dda?
 - a. Eich enw
 - b. Enw'r busnes/sefydliad
2. A allwch gadarnhau'r math o sefydliad rydych yn ei gynrychioli?
 - a. Busnes ffermio
 - b. Busnes coedwigaeth
 - c. Corff anllywodraethol
 - d. Sefydliad ymchwil
 - e. Cynghorydd
 - f. Busnes bach neu ganolig arall
 - g. Sefydliad arall
3. A allwch ddisgrifio pam roeddech chi eisiau datblygu prosiect trwy EIP Cymru?
 - a. Cael gwared ar y risg o brofi syniad newydd trwy dderbyn arian grant
 - b. Cael mynediad at arbenigedd i brofi syniad newydd
 - c. Gweithio gyda sefydliadau eraill o fewn y sector
 - d. Gweithio gyda sefydliadau mewn sectorau eraill
 - e. Er mwyn darparu ein harbenigedd
 - f. Datblygu ein henw da
 - g. Arall

Adran 2 – Y profiad o ymwneud ag EIP Cymru

4. A allwch ddweud wrthym sut y daethoch yn ymwybodol o gymorth EIP?
 - a. Trwy Swyddogion Datblygu Lleol Cyswllt Ffermio
 - b. Ar-lein, h.y. trwy'r wefan neu'r cyfryngau cymdeithasol
 - c. Mewn digwyddiad Cyswllt Ffermio
 - d. Mewn digwyddiad arall
 - e. Cylchgrawn Cyswllt Ffermio
 - f. Cyhoeddiadau eraill
 - g. Ar lafar – trwy ffermwyr/coedwigwyr eraill
 - h. Ar lafar – arall (nodwch)
 - i. Gan Frocer Arloesi

5. Pam na wnaethoch chi fwrw ymlaen â chymorth EIP Cymru?
 - a. Roedd fy nghais/ein cais yn aflwyddiannus
 - b. Penderfynais/penderfynom nad oedd angen y cymorth i gyflawni'r prosiect
 - c. Fe wnes i / gwnaethom ni nodi ffynhonnell ariannu fwy addas
 - d. Tynnodd partneriaid/eraill yn y grŵp yn ôl neu nid oedd ganddynt ymrwymiad digonol
 - e. Aethom ymlaen â gwell syniad am brosiect
 - f. Arall (eglwurwch os gwelwch yn dda)
6. (Os 'A') Pam oedd y cais yn aflwyddiannus?
7. (Os 'B') Eglurwch pam nad oedd angen y cymorth.
8. (Os 'C') Beth oedd y cyllid hwn?
9. (Os 'D') A fyddech chi wedi bod eisiau bwrw ymlaen?
 - a. Byddwn
 - b. Na fyddwn
10. (Os 'E') A gafodd hwn ei ariannu drwy EIP Cymru?
 - a. Do
 - b. Naddo
11. (Os 'Naddo') Pam na chafodd?
12. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach am y rhesymau pam na aeth eich prosiect EIP yn ei flaen?
13. Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech chi â'r broses mynegi diddordeb a'r prosesau ymgeisio ac arfarnu?
 - a. Anfodlon iawn
 - b. Rywfaint yn anfodlon
 - c. Nid yn fodlon nac yn anfodlon
 - d. Rywfaint yn fodlon
 - e. Bodlon iawn
14. A wynebwyd unrhyw rwystrau/heriau yn ystod y broses ymgeisio?

15. Pa mor ddefnyddiol oedd y cymorth a gawsoch i:

	Ddim yn ddefnyddiol o gwbl	Ddim yn ddefnyddiol iawn	Niwtral	Rywfaint yn ddefnyddiol	Defnyddiol iawn	Amherthnasol
Eich helpu i lunio'r prosiect a mireinio syniad eich prosiect						
Datblygu amlinelliad o'r prosiect a chais						
Ffurio'r Grŵp Gweithredol trwy nodi partïon eraill a'u dwyn i mewn						

Adran 3 – Ynglŷn â'ch prosiect

16. Beth oeddech chi'n gobeithio ei gyflawni gyda'ch prosiect arfaethedig?
- Arallgyfeirio fy musnes
 - Ymateb i faes polisi newydd
 - Arall (nodwch beth)
17. Cyn belled ag y gwyddoch, a oedd eich prosiect yn seiliedig ar:
- Arfer newydd (h.y. treialu ffordd newydd o weithio, datblygu cynnyrch newydd, ac ati) i'r sector
 - Arfer newydd i Gymru / yr ardal
18. Cynigiwyd grantiau o hyd at £40,000. Ydych chi'n meddwl bod hyn yn rhy uchel, yn rhy isel, neu fwy neu lai'n iawn?
- Rhy uchel
 - Fwy neu lai'n iawn
 - Rhy isel

19. (Os 'C') A oedd y terfyn ariannu yn cyfyngu ar eich prosiect?

- a. Oedd
- b. Nac oedd

20. (Pawb) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

21. A aeth eich prosiect yn ei flaen heb gymorth EIP?

- a. Do
- b. Naddo

Os 'Do'

22. A ydych wedi cael unrhyw gymorth i gyflawni'r prosiect?

- a. Ydw
- b. Nac ydw

23. (Os 'Ydw') Disgrifiwch natur y cymorth hwn.

24. Ydych chi wedi cwblhau eich prosiect?

- a. Ydw
- b. Nac ydw

Os 'Ydw'

25. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod eich prosiect wedi bod yn llwyddiant?

- a. Anghytuno'n gryf
- b. Anghytuno rywfaint
- c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- d. Cytuno rywfaint
- e. Cytuno'n gryf
- f. Rhy gynnar i ddweud

26. Eglurwch eich ateb.

27. (**Pob ffermwr/coedwigwr**) O ganlyniad i'r prosiect hwn, a ydych chi wedi newid unrhyw arferion o fewn eich busnes?

- a. Ydw
- b. Nac ydw
- c. Ddim eto

28. (Os 'Ydw') A allwch chi ddisgrifio unrhyw fuddion o'r newidiadau hyn?

29. (Os 'Ydw') A ydych chi wedi gallu cynhyrchu incwm newydd neu leihau costau o ganlyniad i hyn?

- a. Ydw
- b. Nac ydw
- c. Ddim eto

Adran 4 – Myfyrio

30. A oes gennych unrhyw sylwadau neu a hoffech awgrymu unrhyw newidiadau y dylid eu gwneud i EIP Cymru?

31. Pa fath o gymorth fyddai'n mynd i'r afael â'ch anghenion orau wrth symud ymlaen?

32. (Os 'Do' i C21) A fydddech chi'n hapus i Wavehill roi galwad i chi yn ystod ein gwerthusiad terfynol ar ddiwedd 2022 i ofyn ychydig o gwestiynau am unrhyw ganlyniadau o'ch prosiect?

- a. Byddwn
- b. Na fyddwn

Diolch yn fawr iawn am eich amser.

Atodiad 6: Canllaw trafod y tîm cyflawni

Gwerthusiad o EIP Cymru

Cefndir

Mae Wavehill wedi'u comisiynu i asesu gweithrediad ac effaith EIP Cymru, sy'n un o ofynion y cyllid. Fel rhan o werthusiad interim a therfynol, mae'n hanfodol bod y canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu bwydo i mewn i'r cyflawni, yn llywio cynlluniau partneriaeth arloesi yn y dyfodol yng Nghymru yn dilyn Brexit, ac yn gwella eu heffaith ar y sector yng Nghymru.

Mae'r gwerthusiad yn cael ei gyflwyno dros dri cham:

1. **Cam Cwmpasu: *Cyfweliadau ac adolygiad desg a datblygu model rhesymeg:*** i sicrhau dealltwriaeth gadarn o fodel rhesymeg y rhaglen a datblygu Fframwaith Gwerthuso (gan gynnwys dangosyddion a gofynion data) i fesur gweithrediad (proses) ac effaith.
2. **Cam Interim: *Darparu gwerthusiad interim o'r rhaglen:*** Ar y cam hwn byddwn yn canolbwyntio ar werthuso'r broses weithredu a'r effaith ar brosiectau a gwblhawyd.
3. **Cam Terfynol: *Darparu gwerthusiad terfynol ar ddiwedd y rhaglen:*** Bydd y gwerthusiad terfynol yn asesu effaith prosiectau EIP a'r gweithrediad yn ei gyfanrwydd o ran y nodau cyffredinol, y dangosyddion perfformiad, a'r canlyniadau.

Cwblhawyd y cam cwmpasu yn ddiweddar ac rydym bellach yn cynnal y gwerthusiad interim. Fel rhan ohono, hoffem siarad ag aelodau'r tîm sy'n ymwneud â chyflawni EIP Cymru er mwyn cael eu safbwyntiau ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r gwahaniaeth y mae'r gweithrediad wedi'i wneud.

Byddem yn disgwyl i'r cyfweliad hwn gymryd tua 45 munud o'ch amser. Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisiau Llywodraeth Cymru. I gael gwybodaeth am sut y byddwn yn rheoli data adborth.

Cwestiynau i'w trafod

Cefndir

1. A allwch chi gyflwyno'ch hun ac esbonio eich rôl o ran cyflawni EIP Cymru?

Y broses recriwtio ac ymgeisio

2. Pa mor effeithiol y cafodd EIP Cymru ei hyrwyddo fel rhan o'r ymgyrch recriwtio?
 - a. A gafodd ei hyrwyddo'n ddigonol?
 - b. A ddefnyddiwyd sianeli priodol i gyrraedd y gynulleidfa darged?
3. A ydych yn fodlon eich bod wedi gallu recriwtio trawstoriad priodol o ffermwyr a choedwigwyr ac ymgysylltu â gwahanol sectorau amaethyddol a choedwigaeth?
 - a. I ba raddau mae EIP Cymru wedi cynorthwyo'r grŵp mwyaf addas o gyfranogwyr/prosiectau?
 - i. Pa mor eang yw'r grŵp o gyfranogwyr a gynorthwywyd (h.y. i ba raddau y mae'n mynd y tu hwnt i'r 'wynebaw cyfarwydd')?
4. A weithiodd y broses ymgeisio yn dda/yn ôl y bwriad?
 - a. A oedd digon o 'ddetholusrwydd' o fewn y broses?
 - b. A oedd y meini prawf dethol yn briodol?
 - c. A fu unrhyw broblemau o ran prosiectau'n methu â symud ymlaen o EOI i gais llawn a chyflawni'n llwyddiannus?

Dylunio a chyflawni

5. A ydych yn credu bod EIP Cymru wedi'i ddylunio'n briodol?
 - a. A yw maint y grantiau (uchafswm £40k) wedi bod yn briodol?
 - b. Beth yw gwerth ychwanegol y Brocer Arloesi, yn enwedig i'r Grŵp Gweithredol?
 - c. Beth fu manteision/anfanteision defnyddio Cyswllt Ffermio a Broceriaid Arloesi i gyflawni'r agweddau hwyluso a lledaenu dros Rwydwaith Gwledig Cymru (mae'r rhwydweithiau gwledig cenedlaethol wedi cyflawni'r rôl hon mewn rhai ardaloedd eraill)?

6. Pa mor effeithiol fu'r Broceriaid Arloesi wrth gynnal y gweithgareddau canlynol:

	Da iawn	Da	Derbyniol	Gwael	Gwael iawn	Sylwadau
Mireinio syniadau ar gyfer prosiect a helpu i ddatblygu amlinelliad o'r prosiect / cais						
Cynorthwyo i ffurfio'r Grwpiau Gweithredol						
Cynorthwyo i gyflawni'r prosiectau ar y safle						

7. A ydych yn credu y bu cymysgedd priodol o arbenigedd ymhlith y Broceriaid Arloesi?
8. Pa mor bwysig yw'r cymorth gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth (h.y. adolygiad llenyddiaeth / cynorthwyo ymchwil i syniadau ar gyfer prosiectau) i helpu i lunio prosiectau?
9. A yw lledaenu'r canfyddiadau i'r cyhoedd ehangach wedi gweithio'n dda/yn ôl y bwriad?
- a. A yw'r prosiectau yn apelio'n ddigonol ar gyfer defnydd ehangach?
 - b. Beth fu'r dulliau mwyaf effeithiol o ledaenu?
 - c. I ba raddau mae'r gweithgaredd lledaenu wedi cyrraedd y gynulleidfa darged?
 - d. A ydych yn ymwybodol o'r gweithgaredd lledaenu hwn a arweiniodd at ffermwyr/coedwigwyr eraill yn treialu syniadau ar eu safle?

Cyflawni'r prosiectau a chanlyniadau cynnar

10. Yn eich barn chi, pa mor arloesol fu'r prosiectau?

11. O'ch dealltwriaeth chi, pa mor effeithiol y gwnaeth aelodau'r Grŵp Gweithredol ymgysylltu â'r prosiect a chydweithio?
 - a. I ba raddau y cymerodd ffermwyr/coedwigwyr berchnogaeth o'r gwaith a wnaed drwy'r prosiectau?
 - b. Pa mor bwysig fu'r rhai nad ydynt yn ffermwyr/coedwigwyr o ran cynorthwyo'r cyflawni a beth maent wedi'i elwa o'u cyfranogiad?
12. Yn eich barn chi, i ba raddau mae'r prosiectau sydd wedi dod drwodd yn debygol o ddiwallu anghenion y gweithrediad?
 - a. Yn eich barn chi, beth yw'r enghreifftiau gorau o brosiectau a gyflawnwyd hyd yma?
13. Beth fu'r prif ganlyniadau i ffermwyr/coedwigwyr hyd yma?
14. I ba raddau ydych chi'n credu y byddai ffermwyr/coedwigwyr wedi profi/gwneud y newidiadau heb y cymorth?
 - a. A allent fod wedi cael cymorth gan gynllun arall i gyflawni eu prosiectau EIP Cymru?

Myfyrdodau cyffredinol

15. A oes unrhyw fylchau/meysydd y mae angen eu gwella yn y model cyflawni?
 - a. Os felly, beth ydyn nhw?
16. Beth, os o gwbl, fu'r prif heriau mewnol ac allanol i'r cyflawni (e.e. COVID-19, newidiadau polisi/masnach, cyfyngiadau gweithredol)?
17. Beth fu'r prif gryfderau o ran cyflawni hyd yma ac y dylid o bosibl eu cadw mewn darpariaethau yn y dyfodol?

Cydweddu

18. A yw'r dull y mae'r rhaglen yn ei ddefnyddio ar gyfer integreiddio'r themâu trawsbynciol yn ei gwaith o gyflawni yn briodol neu a allai fod yn gwneud mwy? (pedair thema drawsbynciol, sef Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd; Datblygu Cynaliadwy; Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol; a'r Iaith Gymraeg)

19. Pa mor effeithiol y mae EIP Cymru wedi cydweddu â chynlluniau grant gwledig eraill sydd wedi'u dylunio i feithrin cystadleurwydd a chynaliadwyedd yn y sectorau ffermio a choedwigaeth?
20. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu ar hyn o bryd?

Atodiad 7: Arolwg Dilynol o Aelodau'r Grwpiau Gweithredol

Cyflwyniad

Fel y cofiwch efallai, mae Wavehill yn cynnal gwerthusiad o'r Bartneriaeth Arloesi Ewropeaidd (EIP) ar ran Llywodraeth Cymru. Buom yn siarad â chi ddiwedd 2021 / dechrau 2022 am eich profiad o dderbyn cymorth gan y prosiect. Defnyddiwyd eich adborth, ynghyd ag adborth gan fusnesau eraill a gymerodd ran yn y prosiect, i lywio Adroddiad Gwerthuso Interim sydd i'w gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru y gaeaf hwn. Rydym nawr yn cynnal ein gwerthusiad terfynol o'r prosiect, a fydd yn dod i ben yn 2023.

Yn ystod ein trafodaeth gyntaf, fe ddywedoch, yn garedig, y byddech yn hapus i ni roi galwad arall i chi er mwyn dilyn rhai o'ch ymatebion ac edrych ar y cynnydd rydych wedi'i wneud ers ein galwad gyntaf. Ni ddylai'r drafodaeth gymryd mwy nag 20 munud o'ch amser. Ydych yn dal yn hapus i gael y sgwrs honno?

- Ydw
- Nac ydw

Os ydych chi'n cael trafferth clywed dros y ffôn neu os oes angen fformat hygyrch arnoch chi, gall fersiynau eraill gael eu darparu hefyd. Gall y cyfweiliadau gael eu cynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae croeso i chi ofyn i mi esbonio neu ailadrodd unrhyw gwestiwn os yw'n aneglur. Rwy'n hapus i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych wrth inni fynd ymlaen.

Cyfrinachedd

Mae cymryd rhan yn y cyfweiliad hwn yn wirfoddol. Gallwch benderfynu peidio â chymryd rhan cyn neu yn ystod y cyfweiliad a gallwch ddewis peidio ag ateb rhai cwestiynau os yw'n well gennych.

I gael rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn rheoli eich data, gallwch weld ein hysbysiad preifatrwydd.

Ymchwilydd i nodi:

- a. Enw'r busnes
- b. Rhif adnabod yr arolwg

2. Beth fu effaith cymryd rhan yn yr EIP ar eich busnes? (Anogwch ynghylch effeithiau economaidd/amgylcheddol a newidiadau i'w hymagwedd tuag at redeg eu busnes)
 - a. Ar raddfa o 1-5 lle mae 1 yn 'Ddim yn arwyddocaol o gwbl', a 5 yn 'Arwyddocaol iawn', pa mor arwyddocaol fu'r effeithiau hyn ar eich busnes?
 - b. Eglurwch eich ateb.
3. I ba raddau mae cymryd rhan yn EIP wedi meithrin arloesedd o fewn eich busnes h.y. cynyddu eich dealltwriaeth o'r broses arloesi a/neu eich gwneud yn fwy tebygol o arloesi wrth symud ymlaen?
 - a. 1- Dim o gwbl
 - b. 2 - Ychydig
 - c. 3 - Rhywfaint
 - d. 4 - I raddau mawr
 - e. 5 - I raddau helaeth
4. Sylwadau:
5. A allwch ddweud mwy wrthym am natur eich cydweithrediad â ffermwyr/coedwigwyr eraill a sefydliadau o sectorau eraill drwy'r EIP?
 - a. A fu'r rhain yn gydweithrediadau ffurfiol neu anffurfiol?
6. Pa effaith, os o gwbl, y mae wedi'i chael ar eich cydweithrediad â ffermwyr/coedwigwyr eraill a sefydliadau o sectorau eraill wrth symud ymlaen?
7. I ba raddau y mae... (graddfa: 1 – Dim o gwbl; 2 – Ychydig; 3 – Rhywfaint; 4 – I raddau mawr; 5 - I raddau helaeth)
 - a. Wedi gwneud i chi werthfawrogi gweithgarwch cydweithredol yn fwy?
 - b. Eich gwneud yn fwy tebygol o gydweithio yn y dyfodol?

8. (Os dewiswyd 4 neu 5 yn opsiwn b) A yw hyn yn debygol o fod gyda ffermwyr/coedwigwyr eraill neu sefydliadau o sectorau eraill?
- a. Ffermwyr/coedwigwyr eraill
 - b. Sefydliadau o sectorau eraill
 - c. Y ddau
9. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod eich prosiect wedi bod yn llwyddiant?
- g. Anghytuno'n gryf
 - h. Anghytuno rywfaint
 - i. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
 - j. Cytuno rywfaint
 - k. Cytuno'n gryf
 - l. Rhy gynnar i ddweud
10. Eglurwch eich ateb.

Os nad oedd wedi cwblhau prosiect EIP ar adeg yr arolwg cychwynnol (RT i wirio)

11. **(Pob ffermwr/coedwigwr)** O ganlyniad i'r prosiect hwn, a ydych chi wedi newid unrhyw arferion o fewn eich busnes?
- d. Ydw
 - e. Nac ydw
 - f. Ddim eto
12. (Os 'Nac ydw') A allwch chi egluro pam nad ydych chi wedi newid unrhyw arferion o fewn eich busnes o ganlyniad i'r prosiect hwn?
13. (Os 'Ydw') Disgrifiwch beth fu'r newidiadau hyn

14. (Os 'Ydw') I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y byddech wedi newid yr arferion hyn beth bynnag heb y cymorth?
- Anghytuno'n gryf
 - Anghytuno rywfaint
 - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
 - Cytuno rywfaint
 - Cytuno'n gryf
 - Rhy gynnar i ddweud
15. (Os dewiswyd 'cytuno'n gryf' neu 'cytuno rywfaint') A fyddech chi wedi gwneud y newidiadau ar yr un raddfa?
- Byddwn
 - Na fyddwn – byddai'r newidiadau wedi bod yn llai
 - Na fyddwn – byddai'r newidiadau wedi bod yn fwy
 - Ddim yn siŵr
16. (Os dewiswyd 'cytuno'n gryf' neu 'cytuno rywfaint') A fyddech chi wedi gwneud y newidiadau mor gyflym?
- Byddwn
 - Na fyddwn
 - Ddim yn siŵr
17. (Os Ydw i C11) A allwch chi ddisgrifio unrhyw fanteision o'r newidiadau hyn?
18. (Os Ydw i C11) A ydych chi wedi gallu cynhyrchu incwm newydd neu leihau costau o ganlyniad i hyn?
- Ydw
 - Nac ydw
 - Ddim eto
19. (Os Ydw i C11) A allwch roi amcangyfrif o'r arbedion incwm / cost blynyddol a gynhyrchwyd o weithredu'r arferion hyn?
- Amcangyfrif o'r incwm ychwanegol a gynhyrchwyd
 - Amcangyfrif o arbedion cost
20. Manteision eraill o ganlyniad i'r prosiect hwn?

Os oedd wedi cwblhau prosiect EIP ar adeg yr arolwg cychwynnol (RT i wirio)

21. Disgrifiwch unrhyw newidiadau rydych wedi'u gwneud i'ch arferion busnes, os o gwbl, o ganlyniad i'r prosiect hwn.
22. (os newidiwyd arferion) I ba raddau y mae'r gweithgareddau / datrysiadau a fabwysiadwyd yn ystod eich prosiect wedi'u cynnal ar ôl diwedd y prosiect?
- a. 1- Dim o gwbl
 - b. 2 - Ychydig
 - c. 3 - Rhywfaint
 - d. 4 - I raddau mawr
 - e. 5 - I raddau helaeth
23. (os newidiwyd arferion) A allwch roi rhagor o wybodaeth am y manteision economaidd neu amgylcheddol penodol i'ch busnes?
- a. Economaidd
 - b. Amgylcheddol
24. (os newidiwyd arferion) A allwch roi amcangyfrif o'r arbedion incwm / cost blynyddol a gynhyrchwyd o weithredu'r arferion hyn, os o gwbl?
- a. Amcangyfrif o'r incwm ychwanegol a gynhyrchwyd
 - b. Amcangyfrif o arbedion cost
 - c. Pa newidiadau neu weithgareddau penodol sydd wedi creu'r effaith economaidd honno i'ch busnes?

Pob ymatebydd

25. Ar raddfa o 1-5 lle mae 1 yn 'Ddim o gwbl' a 5 yn 'I raddau helaeth', i ba raddau ydych chi'n credu bod eich prosiect yn adnabyddus yn y sectorau amaethyddol/coedwigaeth yng Nghymru?
- a. 1- Dim o gwbl
 - b. 2 - Ychydig
 - c. 3 - Rhywfaint
 - d. 4 - I raddau mawr
 - e. 5 - I raddau helaeth

26. Ydych chi'n gwybod am unrhyw enghreifftiau lle mae ffermwyr / coedwigwyr eraill (h.y. y tu allan i EIP) wedi archwilio neu ddatblygu arferion newydd o ganlyniad i'ch prosiect?
- Ydw
 - Nac ydw
 - Ddim yn siŵr
27. (Os Ydw) Allwch roi rhagor o wybodaeth am hyn?
28. A fu unrhyw ganlyniadau annisgwyl yn sgil eich prosiect neu gyfranogiad yn yr EIP?
29. A yw eich prosiect wedi arwain at unrhyw ymchwil bellach (e.e. gwneud cais am gyllid newydd i adeiladu ar yr ymchwil)?
- Ydy
 - Nac ydy
30. (Os Ydy) Disgrifiwch

Model cyflawni

31. Ar raddfa o 1-5 (lle mae 1 yn 'ddim yn bwysig o gwbl' a 5 yn 'bwysig iawn'), pa mor bwysig oedd pob un o'r canlynol wrth gyflawni'r prosiect (e.e. cynnal y gwaith prawf, casglu data, rheoli amserlenni, cydlynu gweithgarwch ac ati)?
- Ymgeisydd Arweiniol
 - Aelodau Ehangach o'r Grwpiau Gweithredol
 - Brocer Arloesi
32. Pa un o'r canlynol fyddai eich hoff opsiwn o ran sut y caiff rhaglenni fel yr EIP eu cyflawni yn y dyfodol?
- Cadw strwythur tebyg h.y. proses ymgeisio gynhwysfawr ond gyda chymorth sylweddol gan Frocer Arloesi
 - Proses symlach, ysgafn gydag ychydig iawn o gymorth gan dîm canolog (ac felly mwy o gyfrifoldeb ar yr ymgeisydd arweiniol / aelodau'r Grŵp Gweithredol i gyflawni'r gwaith)
33. Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar sut yr hoffech i'r model cyflawni ar gyfer rhaglenni'r dyfodol edrych, gan gynnwys yr angen am rôl Brocer Arloesi?
34. A fydddech chi'n hapus i Wavehill ddatblygu astudiaeth achos yn seiliedig ar eich prosiect i'w chynnwys yn ein hadroddiad gwerthuso terfynol? Hoffem

gynnwys enw eich busnes ac o bosibl eich enw fel rhan o'r astudiaeth achos honno, os yw'n dderbyniol. Byddech yn cael cyfle i adolygu'r astudiaeth achos i ddiwygio a chywiro unrhyw wallau cyn iddi gael ei rhannu â Llywodraeth Cymru.

- a. Byddwn
- b. Na fyddwn

35. (Os Byddwn) A fydddech yn fodlon i ni gynnwys eich enw ac enw eich busnes fel rhan o'r astudiaeth achos honno?

- a. Byddwn - fy enw i
- b. Byddwn – enw'r busnes
- c. Na fyddwn – dienw yn unig

36. Oes gennych chi unrhyw beth arall i'w ychwanegu?

Atodiad 8: Adolygiad cymharol o gyflawniad EIP-AGRI yn Lloegr

Cyflwyniad

Gwnaethpwyd rhyw 37 o geisiadau i EIP-AGRI yn Lloegr, gyda 18 ohonynt yn llwyddiannus yn y pen draw. Cyfanswm y gwariant oedd £1.85m, sy'n golygu maint prosiect cyfartalog o £102,778.

Gwerthuswyd y cynllun yn fewnol gan Defra rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2021. Cyflawnwyd y gwerthusiad i ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwerthusiad terfyn rhaglen arfaethedig o Raglen Datblygu Gwledig Lloegr 2014-2020 yn 2024 a hefyd i lywio timau polisi arloesi yn y dyfodol o fewn cyfarwyddiaethau Rhaglen Dyfodol Ffermio a Chefn Gwlad a Bwyd-Amaeth.

Rhodddwyd sylw i'r saith cwestiwn gwerthuso canlynol:

1. I ba raddau'r oedd y broses ymgeisio yn fecanwaith llwyddiannus i annog ceisiadau o safon?
 - a. A oedd unrhyw rwystrau i ymgeisio?
 - b. Beth oedd y cwestiynau a ofynnwyd fwyaf gan ymgeiswyr?
 - c. A oedd meysydd o ansawdd uchel/gwael o fewn y ceisiadau?
2. Sut y cafodd prosiectau eu harfarnu i sicrhau eu bod yn berthnasol i anghenion y diwydiant?
 - a. A oedd y diffiniad o 'arloesol' yn briodol i anghenion y diwydiant?
 - b. Beth a wnaed i asesu anghenion y diwydiant, ac a oedd hyn yn effeithiol?
 - c. A ellid bod wedi gwella'r broses arfarnu?
3. A gyflwynwyd syniadau prosiect da (na chawsant eu hariannu) a fyddai wedi elwa o fath gwahanol o gymorth? A oedd patrymau mewn ceisiadau a wrthodwyd a oedd yn 'agos' at lwyddo?
4. A oedd yr ymgeiswyr o'r farn bod cerrig milltir y prosiect yn glir ac yn berthnasol? Beth oedd y meysydd mwyaf cyffredin ar gyfer cwestiynau/pryderon gan berchnogion prosiectau?
5. Pa gymorth/hwyluso oedd ar gael i reolwyr y prosiectau? A fanteisiodd rheolwyr y prosiectau ar y cynigion hyn, ac ym mha ffyrdd? Wnaethon nhw ofyn am unrhyw gymorth nad oedd ar gael?

6. Beth oedd y rhwystrau rhag lledaenu a sut y gorchfygwyd y rhain? Sut mae Defra yn cadw prosiectau yn agos pan fyddant yn dechrau synhwyro bod gwerth yn eu hymchwil?
7. Beth oedd y dulliau cyfnewid gwybodaeth? Yn seiliedig ar adroddiadau terfynol, a oedd unrhyw rai yn fwy llwyddiannus nag eraill? A wynebwyd unrhyw rwystrau?

Nid yw pob un o'r cwestiynau hyn yn debygol o fod yn berthnasol i Lywodraeth Cymru wrth ystyried perfformiad EIP Cymru. Mae'r crynodeb hwn felly'n canolbwyntio ar elfennau o gwestiynau gwerthuso 1, 2, 5, 6 a 7, lle teimlir y gallai'r dulliau a ddefnyddiwyd a'r gwersi a ddysgwyd fod o ddiddordeb. Mae'r crynodeb hwn yn pwysu'n bennaf ar yr adroddiad gwerthuso, ynghyd â sylwadau a wnaed gan bartneriaid cyflawni allweddol fel rhan o werthusiad o EIP Cymru.

Y mecanwaith ymgeisio

Roedd cam cyn ymgeisio yn cynnwys cyflwyno Hysbysiad o Ddiddordeb yn cynnwys amlinelliad o syniad y prosiect mewn hyd at 300 o eiriau. Hyrwyddwyd y cynllun gan dîm Rhaglen Datblygu Gwledig yn Lloegr yn bennaf trwy gyfres o weithdai o amgylch colegau amaethyddol y wlad. Roedd Defra a'r Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA) o'r farn bod y dull hwn yn llwyddiant gan ei fod yn caniatáu ar gyfer targedu gweithdai at sectorau a oedd wedi dangos diddordeb yn EIP-AGRI. Roedd hefyd yn caniatáu adborth cynnar a oedd yn atal ceisiadau anaddas rhag cael eu gwneud; mewn rhai achosion, cafodd darpar ymgeiswyr eu hailgyfeirio i gyfleoedd ariannu mwy addas. Yn y pen draw, symudodd tua 20 % o'r Hysbysiaid o Ddiddordeb ymlaen i'r cais ffurfiol.

Roedd y ffurflen gais ei hun yn cynnwys pum rhan, pob un â sawl adran a nifer o gwestiynau. Gwers a ddysgwyd gan awdurdodau Lloegr oedd bod hyn yn rhy faith, a byddai proses ymgeisio lawer llai yn fwy addas ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol.

Roedd y nifer a fanteisiodd ar EIP-AGRI yn Lloegr yn sylweddol is na'r disgwyl, gydag ymrwymiad o £1.85m yn erbyn cyllideb o £5m. Y tri phrif rwystr a nodwyd yn yr adroddiad gwerthuso sy'n egluro hyn oedd:

- Ansicrwydd gwleidyddol yn deillio o ddau etholiad cyffredinol a refferendwm y Deyrnas Unedig ar adael yr Undeb Ewropeaidd. Gwnaeth yr ansicrwydd leihau

nifer y ceisiadau ac effeithiodd y newid yn y berthynas â'r UE ar syniadau prosiectau yn gysylltiedig â rheoliadau Ewropeaidd.

- Roedd y gofyniad bod yn rhaid i bob prosiect wneud cais drwy endid cyfreithiol ac ar ran y grŵp gweithredu yn effeithio ar sut roedd cyfranogwyr y prosiect yn cael eu had-dalu'n ariannol. Gwnaeth hyn yn atal rhai syniadau cychwynnol rhag cael eu datblygu i fod yn geisiadau llawn.
- Roedd y ffaith bod yn rhaid i arian ymchwil o dan EIP-AGRI gael ei gyhoeddi a'i ddosbarthu'n eang yn annymunol i bartïon â diddordeb a oedd am gadw hawliau eiddo deallusol i'w hymchwil.

Ni ellir mynd i'r afael â'r un o'r rhwystrau a nodwyd trwy weithrediad y cynllun; yn wir, mae'r ail a'r trydydd rhwystr yn rhan hanfodol o EIP-AGRI.

Darparodd aelodau'r tîm cyflawni ragor o wybodaeth yn ystod y drafodaeth â Wavehill. Gan ddweud y bu diddordeb cychwynnol da ond gostyngiad siomedig yn y nifer a symudodd o Hysbysiad o Ddiddordeb i gais llawn, gwnaethant gyfeirio at lefel y wybodaeth oedd ei hangen, gan gynnwys gofynion archwilio, fel y prif reswm dros hyn. Gwnaethant sylw pellach nad oedd y cynllun yn Lloegr yn gyffredinol yn cael darparu cymorth broceriaeth oherwydd yr egwyddor o ddargyfeirio cymaint o'r cyllid â phosibl yn uniongyrchol i fuddiolwyr (yn hytrach na chynghorwyr).⁶⁷ Roedd gofyn i'r ymgeiswyr drefnu eu hunain o ran ymgysylltu â phartneriaid eraill a ffurfio eu Grŵp Gweithredol, yn ogystal â datblygu eu cais. Yn unol â hynny, roedd y cyfuniad o ofynion gwybodaeth manwl a diffyg cymorth i helpu ymgeiswyr drwy'r broses wedi lleihau'r diddordeb mewn datblygu cais llawn.

Prin yw'r ddealltwriaeth yn yr adroddiad gwerthuso o'r hyn a olygodd fod cais yn llwyddiannus yn Lloegr; ceisiadau llwyddiannus oedd y rhai a oedd yn bodloni gofynion y cynllun. Roedd un pwynt o wahaniaeth yn ymwneud â maint busnes yr ymgeiswyr, gyda chyfradd gymeradwy uwch ymhlith busnesau mwy o faint, o bosibl oherwydd bod ganddynt fwy o adnoddau i wneud ceisiadau. Y casgliad y daethpwyd iddo o hyn oedd y gallai gweithdrefn wedi'i symleiddio neu gymorth wedi'i deilwra i fusnesau llai wella eu cyfradd llwyddiant.

⁶⁷ Yr unig eithriad oedd nifer fach o enghreifftiau lle anogwyd rhai cynigion a oedd yn seiliedig ar syniadau tebyg i gyfuno eu hymdrechion.

Dim ond 18 o'r 37 cais oedd yn llwyddiannus, ond ni nodwyd unrhyw batrymau yn y prosiectau a wrthodwyd, a oedd yn cwmpasu ystod eang o themâu. Fodd bynnag, roedd ceisiadau a wnaed gan ffermwyr yn fwy tebygol o gael eu gwrthod na'r rhai a wnaed gan chyrrff ymchwil a chyrrff sy'n derbyn arian cyhoeddus. Mae'n bosibl bod hyn hefyd yn esbonio'r gyfradd llwyddiant is ar gyfer busnesau llai a gallai fod yn gysylltiedig â'r adnoddau sydd ar gael i wneud y cais. Gwers i'w dysgu o hyn yw y gallai ffermwyr elwa ar gymorth penodol yn y broses ymgeisio.

Y ddau brif reswm dros wrthod ceisiadau oedd (i) diffyg partner academaidd; a (ii) methiant i gynnig gwerth da am arian – mae'r ddau bwynt yn dangos yr angen am gymorth brocera. Yn ddiddorol, gwers a ddysgwyd oedd y gallai paru prosiectau â mentoriaid ysgrifennu ceisiadau i helpu i greu ceisiadau llwyddiannus fod yn ddefnyddiol ar gyfer prosiectau arloesi yn y dyfodol. Gwnaethpwyd y pwynt mai dyma'r dull a fabwysiadwyd yng Nghymru, yn ogystal â nifer o Aelod-wladwriaethau eraill.

Arfarnu prosiectau

Mae'n ymddangos bod arfarnu prosiectau yn ymarferiad ar wahân i gymeradwyo prosiectau. Cynhaliodd Defra werthusiad "ysgafn" o 40 % o'r ceisiadau a dderbyniwyd (h.y. nid prosiectau a gymeradwywyd).⁶⁸ Cafodd y prosiectau a arfarnwyd eu hasesu o ran eu hansawdd gwyddonol, yr ystyriwyd ei fod yn ymwneud â chadernid y dyluniad a'r tebygolrwydd o lwyddiant. Archwiliwyd tri maes allweddol.

- A yw'r prosiect yn cynrychioli gwir arloesedd? Ystyriwyd nad oedd bron i 30 % yn arloesol ac ychydig o dystiolaeth o arloesi oedd 20 % arall yn ei ddangos. Roedd hyn yn awgrymu y gallai fod problem o ran sut mae'r diwydiant yn deall arloesedd, neu fod angen mwy o arweiniad ar ymgeiswyr ar ddatblygu syniadau prosiect addas.
- A yw'r prosiect yn dechnegol gyraeddadwy? Er yr ystyriwyd bod pob cais yn gyraeddadwy, gofynnwyd am ragor o wybodaeth ac eglurhad mewn 30 % o achosion.
- A yw'r cynllun arbrofol yn ddigon i ddangos llwyddiant? Ystyriwyd bod bron i 90 % o geisiadau o ansawdd rhesymol neu well.

⁶⁸ Er nad yw'n gwbl glir o'r gwerthusiad, yn seiliedig ar y defnydd o rifau a chanrannau, mae'n ymddangos mai arfarnu ceisiadau llawn a wnaed, nid Hysbysiadau o Ddiddordeb.

Ni allai'r gwerthusiad archwilio a ellid bod wedi gwella'r broses gymeradwyo oherwydd yr oedi hir cyn cynnal y gwerthusiad. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r adroddiad gwerthuso pa mor ddefnyddiol y gall proses arfarnu fod os na chaiff ei chymhwyso i bob cais. Derbyniodd y ceisiadau hynny a arfarnwyd adborth nad oedd, yn ôl pob tebyg, ar gael i'r rhai nad oedd wedi'u harfarnu. Er enghraifft, mewn rhai achosion, gofynnwyd i ymgeiswyr ddarparu rhagor o wybodaeth am arloesi. Mae'n bosibl y gallai'r adborth hwn fod wedi arwain at gais llwyddiannus. Mae'n bosibl felly bod y ceisiadau hynny na chawsant eu harfarnu wedi bod dan anfantais, er y dylid nodi bod mathau eraill o gymorth ar gael i bawb (gweler isod).

Yn ogystal â gwahaniaethau yn y cymorth broceriaeth, y gwahaniaeth nodedig arall rhwng EIP Cymru ac EIP Lloegr oedd maint y grantiau a ddyrannwyd, gydag EIP Lloegr yn darparu trothwy llawer uwch o hyd at £200,000. Daeth amrywiaeth o brosiectau drwy EIP Lloegr, o brosiectau bach o £10,000 i £20,000 hyd at brosiectau eraill a gafodd £150,000. Roedd rhai o'r prosiectau'n cynnwys ymgynghorwyr mawr iawn neu gwmnïau bwyd rhyngwladol a oedd yn gallu sefydlu Grŵp Gweithredol gyda 200-300 o aelodau. Nodwn fod hon yn agwedd yr oedd tîm EIP Cymru eisiau ei hosgoi, gyda grantiau wedi'u cyfyngu i £40,000 er mwyn atal sefydliadau mwy rhag dominyddu'r cynllun. Serch hynny, nododd tîm EIP Lloegr ei bod yn anodd dod i gasgliadau ar ba ddull oedd yn gweithio'n well, gan nodi bod enghreifftiau o brosiectau bach a mawr a oedd yn gweithio'n dda, a rhai nad oeddent cystal.

Cymorth/hwyluso ar gael i reolwyr prosiect

Roedd y cymorth a'r hwyluso a gynigiwyd yn Lloegr yn cwmpasu â:

- cyfarfod wyneb-yn-wyneb unigol cychwynnol ar ôl cam yr Hysbysiad o Ddiddordeb cyn cyflwyno cais
- cyswllt uniongyrchol un-i-un dros ffôn ac e-bost ag un person allweddol drwy gydol y prosiect
- astudiaethau achos o geisiadau ac adroddiadau yn cael eu rhannu i ddangos i reolwyr prosiect sut beth oedd prosiect llwyddiannus a lefel y manylder angenrheidiol
- darparu dogfennau canllaw (Llawlyfr EIP-AGRI)
- gweithdai.

Ni fanteisiodd pob ymgeisydd ar y cymorth a gynigiwyd, er nad oedd yn ymddangos bod pob un yn ymwybodol ei fod ar gael. Er enghraifft, dim ond rhai o'r sawl a gyfwelwyd oedd wedi manteisio ar y cyfarfod wyneb yn wyneb cyn ymgeisio. Fodd bynnag, ystyriwyd mai dyma'r cymorth mwyaf effeithiol, yn enwedig o ran sicrhau bod y cais yn bodloni'r gofynion ar gyfer arloesi. Roedd y cyswllt ag un person allweddol hefyd yn cael ei werthfawrogi'n eang am fod hyn yn sicrhau dealltwriaeth lawn o'r prosiect. Ystyriwyd bod lefel y manylder a oedd yn ofynnol yn y cais yn bryder, ac esboniodd un cyfwelai y byddai cwrs hyfforddi byr ar lenwi'r ffurflen gais wedi bod yn ddefnyddiol. Yn benodol, gallai hyn fod wedi canolbwyntio ar lefel y manylder gofynnol a sut y dylid geirio'r atebion.

Mewn cyferbyniad, ni chafodd y gweithdai dderbyniad arbennig o dda, yn bennaf oherwydd yr ystyriwyd bod eu cynnwys yn rhy eang i ddarparu ar gyfer yr ystod eang o gefndiroedd oedd gan yr ymgeiswyr.

Roedd yn ofynnol i bob Grŵp Gweithredol sefydlu cylch gorchwyl i ffurfioli'r broses a sicrhau bod pob aelod yn deall ei rôl. Mae'n bosibl bod hyn wedi helpu i sicrhau ymgysylltiad gan aelodau'r Grŵp Gweithredol ac wedi helpu i sicrhau mwy o waddol, gyda rhai grwpiau'n dal i fod yn weithredol ymhell ar ôl i'r cynllun ddod i ben.

Ffactorau a oedd yn rhwystro lledaenu a sut y cafodd y rhain eu goresgyn

Mae'n ofynnol gan gyllid EIP-AGRI bod grwpiau gweithredol yn lledaenu canlyniadau eu prosiectau trwy gyflwyno adroddiad terfynol i'w lanlwytho i wefan EIP-AGRI y Comisiwn Ewropeaidd, yn ogystal â thrwy gynllun lledaenu pwrpasol sy'n rhan o'r cais. Roedd yn ofynnol i'r prosiectau gyflawni'r nodau a osodwyd yn eu cynlluniau lledaenu er mwyn iddynt dderbyn cyllid.

Trwy'r cyfweiliadau â buddiolwyr y prosiectau, nodwyd pum math o rwystr rhag lledaenu.

1. **Cyfyngiadau symud COVID-19:** Yn amlwg, nid oedd presenoldeb corfforol mewn digwyddiadau lledaenu a oedd wedi'u cynllunio megis gweithdai yn bosibl mewn rhai achosion. Er bod digwyddiadau corfforol wedi eu disodli gan rai rhithwir, ystyriwyd bod y rhain yn israddol i gyfarfod yn bersonol ac roedd y buddiolwyr yn teimlo y byddent yn arwain at lai o bobl yn mynd ati i arloesi. Mae'n anodd gweld sut y gellid bod wedi mynd i'r afael â'r rwystr hwn, heblaw am ohirio digwyddiadau corfforol a oedd wedi'u cynllunio. Fodd bynnag, ar y pryd, nid

oedd unrhyw sicrwydd ynghylch pryd y gallai'r cyfyngiadau symud ddod i ben, ac mae'n ddealladwy y ceisiwyd dewisiadau eraill ar y pryd i sicrhau y gallai o leiaf ryw fath o ledaenu ddigwydd.

2. **Enwau cynnyrch:** Ni wnaeth enwau (brand) penodol cynhyrchion a ddefnyddiwyd mewn dau brosiect gael eu defnyddio mewn deunydd lledaenu oherwydd, mewn un achos, nid oedd y cynnyrch penodol a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus ac, yn y llall, nid oedd y cynnyrch wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio yn y sector a oedd yn rhan o'r ymchwil. Goresgynnwyd y rhwystr hwn trwy ddefnyddio manylion generig y cynnyrch. Mae'n ymddangos bod y dull a nodir uchod yn rhesymol lle mae rhesymau da dros beidio â bod yn fwy penodol.
3. **Ansawdd y canlyniadau:** Mewn un achos, roedd canlyniadau'r prosiect yn ddigonol i ddatblygu meddwl gwyddonol yn y maes ond nid oeddent yn ddigon trwyadl i gael eu derbyn fel papur academaidd cyhoeddedig. Yr ateb yn yr achos hwn oedd parhau â'r ymchwil er mwyn datblygu canlyniadau mwy cadarn. Mae'n bwysig bod canlyniadau prosiectau yn gadarn ac yn cael eu hystyried yn gredadwy os ydym am i bobl fanteisio ar yr arloesi.
4. **Diffyg profiad:** Nid oedd modd i un prosiect lunio adroddiad technegol manwl (un o ofynion derbyn y cyllid) am nad oedd ganddynt fynediad at feddalwedd ystadegol. Yn yr achos hwn, fel gofyniad cyllido, efallai y dylid bod wedi cymryd camau ar ran y prosiect i sicrhau bod ganddynt fynediad i feddalwedd perthnasol. Ar ran yr asiantaeth ariannu, dylid bod wedi sylwi nad oedd elfennau a oedd yn ofynnol fel amod ariannu yn eu lle mewn gwirionedd.

5. **Gwerth masnachol eiddo deallusol:** Gwnaeth pedwar prosiect nodi problemau o ran rhannu eiddo deallusol pan oedd effaith fasnachol, er eu bod yn cydnabod, wrth dderbyn arian cyhoeddus, ei bod yn rhesymol bod budd cyhoeddus. Yn achos un prosiect, ymdriniwyd â'r mater hwn trwy ddychwelyd arian, a olygai nad oedd unrhyw rwymedigaeth i ledaenu'r canlyniadau. Fodd bynnag, byddai'r buddiolwr yn yr achos hwn yn dal i fod wedi datblygu budd preifat o arian cyhoeddus, na fyddent o bosibl wedi gallu ei wneud fel arall. Efallai mai ymagwedd briodol fyddai sicrhau bod ymgeiswyr llwyddiannus yn gwbl ymwybodol bod yn rhaid i ganlyniadau a gaiff eu datblygu gan ddefnyddio arian cyhoeddus gael eu lledaenu. Nid yw'n ymddangos yn rhesymol y gall arian cyhoeddus, a ddyfernir gyda'r bwriad penodol o ddatblygu arloesedd, arwain at fudd preifat yn unig.

Yn amlwg, mae prosiectau sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau sydd wedi arfer â lledaenu canlyniadau yn llawer llai tebygol o wynebu rhwystrau yn y maes hwn. Gwers y gellid ei dysgu yw darparu digon o gymorth ar ledaenu i brosiectau sy'n cael eu rhedeg gan ffermwyr neu unigolion eraill sy'n llai tebygol o fod â phrofiad o drefnu lledaenu. Mae'r cyfrifoldeb yma ar ysgwyddau'r corff cyllido i sicrhau bod cynlluniau lledaenu, sy'n un amodau derbyn cymorth, wedi'u hasesu'n ddigonol ac yn cael eu hystyried yn gredadwy. O ran datblygu eiddo deallusol, dylid ei gwneud yn glir i ymgeiswyr, os gwneir hyn gydag arian cyhoeddus, yna dylid lledaenu'r canlyniadau fel bod rhywfaint o fudd cyhoeddus.

Mecanweithiau cyfnewid gwybodaeth a rhwystrau a wynebwyd

Er y gofyniad i lanlwytho adroddiadau terfynol i wefan EIP-AGRI y Comisiwn Ewropeaidd, canfu'r adroddiad mai dim ond wyth o'r 18 o brosiectau EIP-AGRI oedd wedi'u cofrestru ar y wefan erbyn mis Tachwedd 2021. Goblygiad yr adroddiad gwerthuso yw nad oedd pob un o'r wyth prosiect cofrestredig hyn yn cynnwys dolenni i'r adroddiad terfynol; nodwyd dolenni anghywir hefyd. Nid yw'n glir o'r adroddiad gwerthuso a ddylai adroddiadau o bob un o'r 18 prosiect fod wedi bod ar gael ar y wefan erbyn mis Tachwedd 2021. Gan fod Defra wedi derbyn 12 adroddiad (ac yn aros am fwy), byddai'n gymharol syml i'r corff ariannu gymryd cyfrifoldeb am eu lanlwytho i wefan y Comisiwn; byddai hyn yn sicrhau bod adroddiadau'r prosiectau ar gael i'r sawl sydd â diddordeb.

O ran cynlluniau cyfnewid gwybodaeth a oedd wedi'u hysgrifennu fel rhan o'r prosiectau, y dull mwyaf poblogaidd oedd cyflwyniadau/gweithdai, a ddefnyddiwyd gan bob un o'r 12 prosiect yr oedd eu hadroddiadau terfynol ar gael i Defra adeg cynnal y gwerthusiad. Er y gallai rhai o'r rhain ddigwydd wyneb yn wyneb yn unol â'r bwriad, roedd yn rhaid i eraill gael eu cynnal yn rhithwir oherwydd cyfyngiadau COVID-19 (gweler uchod). Roedd y dulliau lledaenu eraill a ddefnyddiwyd yn cynnwys ysgrifennu erthyglau penodol i'r diwydiant; gwefannau; erthyglau ehangach eu cyrhaeddiad; fideos; cyflwyniadau poster/standinau masnach; pamffledi a thafleini; a'r cyfryngau cymdeithasol.

Effeithiau

Mae'r adroddiad gwerthuso (yn ddealladwy o ystyried y fethodoleg) yn canolbwyntio ar ddangosyddion allbwn megis nifer y digwyddiadau lledaenu ac ymweliadau â'r wefan, ac ati, yn hytrach nag ar ddangosyddion canlyniadau. O ganlyniad, nid oes modd pennu effaith (llwyddiant) digwyddiadau lledaenu. Yn amlwg, er mwyn deall lledaeniad arloesedd mae angen gwybod sut y manteisiodd eraill ar y canlyniadau. Er bod fframwaith monitro a gwerthuso yn cael ei awgrymu yn y gwerthusiad, nid yw hyn mewn gwirionedd yn mynd i'r afael â'r mater o ddeall y nifer sy'n manteisio ar yr ymchwil; yr agosaf y daw'r gwerthusiad yw awgrymu y dylid monitro nifer y bobl sy'n ymwneud â'r ymchwil yn ystod digwyddiadau diwydiant.

Darparodd y drafodaeth â'r tîm cyflawni rywfaint o ddealltwriaeth o'r cyflawniadau. Nodwyd "hyd y gwn i mae un neu ddau o'r grwpiau yn dal i fodoli", lle maent yn dal i gydweithio ac yn ymgymryd ag arloesi gyda'i gilydd. Awgrymwyd efallai mai dyma lle mae'r penderfyniad i beidio â defnyddio Broceriaid Arloesi yn fuddiol, lle mae'r galwadau mwy a roddir ar y grwpiau (h.y. sefydlu a threfnu eu hunain heb gymorth) efallai wedi arwain at fwy o ymrwymiad, gwynwch a chynaliadwyedd o fewn y grwpiau a lwyddodd yn eu prosiectau. Ymhellach, roedd y tîm yn gallu darparu rhai enghreifftiau o ddeilliannau a gynhyrchwyd gan y prosiectau. Er enghraifft, mewn un prosiect cafodd cynnyrch chwynnu trydan ei dreialu'n llwyddiannus a'i fasnacheiddio yn y pen draw; roedd un arall wedi datblygu ap i'w ddefnyddio ym maes tyfu gwinwydd i nodi'r amodau delfrydol i dyfu eu cnydau. Yn ogystal, roedd enghreifftiau eraill lle'r oedd y prosiectau wedi dangos gwersi defnyddiol ar bethau a oedd naill

ai'n gweithio neu'n cadarnhau pethau nad oeddent yn gweithio, a thrwy hynny osgoi gwastraffu egni ac adnoddau ar ymchwil bellach.

Atodiad 9: Proffil manwl aelodau'r Grwpiau Gweithredol

Yn ôl y dadansoddiad ystadegol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru,⁶⁹ roedd y busnesau fferm a gymerodd ran ym mhrosiectau EIP yn gyffredinol yn llawer mwy o ran maint na'r ffermydd cyfartalog yng Nghymru. Mae'r data'n dangos, yn 2015-16 (h.y. cyn EIP), bod gan ffermwyr arweiniol, ar gyfartaledd, allbwn safonol⁷⁰ o €322,00, a bod gan ffermwyr eraill a oedd yn aelodau o Grwpiau Gweithredol allbwn safonol o €399,00. Mewn cymhariaeth, dim ond €66,000 oedd gan weddill y sector ar gyfartaledd.⁷¹ O ran tirfas, roedd ffermwyr arweiniol yn gweithredu ffermydd a oedd yn cynnwys 219ha o dir ar gyfartaledd, ac roedd gan ffermwyr eraill y Grwpiau Gweithredol 237ha o dir; gellir cymharu hyn â chyfartaledd o ddim ond 66ha yn cael ei weithredu gan fusnesau ffermio eraill. Gyda'i gilydd, mae'r data ynghylch trosiant a thirfas yn awgrymu bod busnesau ffermio sy'n rhan o EIP Cymru sawl gwaith yn fwy na chyfartaledd y diwydiant.


Llaeth yw'r is-sector mwyaf cyffredin, gyda 25 % o brosiectau EIP yn cael eu harwain gan ffermwyr laeth, sy'n llawer uwch na'r chwech % a gynrychiolir gan yr is-sector ledled amaethyddiaeth Cymru.

⁶⁹ Roedd y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar ddata o [arolwg amaethyddiaeth a garddwriaeth mis Mehefin 2021](#), lle nodwyd 32 o ffermwyr arweiniol (o'r 46 prosiect) a 201 o ffermwyr eraill y Grwpiau Gweithredol (gan ddefnyddio Rhifau Atgyfeirio Cwsmeriaid) a'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

⁷⁰ Caiff allbwn safonol ei ddefnyddio fel procsi ar gyfer trosiant. Dyma werth ariannol cyfartalog yr allbwn amaethyddol ar bris gât y fferm, mewn ewro yr hecтар neu y pen o dda byw. Caiff yr allbwn safonol ei ddefnyddio i ddsbarthu daliadau amaethyddol yn ôl math o ffermio a maint economaidd.

⁷¹ Roedd y dadansoddiad ystadegol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn categoreiddio ffermydd mewn ewros.


Ffigur A3: Is-sector ymgeiswyr arweiniol EIP Cymru a phob fferm yng Nghymru



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Arolwg Amaethyddol Cymru

Mae dosbarthiad daearyddol y ffermydd yn weddol debyg i'r hyn y gellid ei ddisgwyl, gan eu bod wedi'u crynhoi yn ardaloedd awdurdodau mwy gwledig Cymru ac yn dilyn patrwm tebyg i ddsbarthiad yr holl ffermydd ledled y wlad (gweler Ffigur A4 isod).

Ffigur A4: Lleoliad daearyddol ymgeiswyr arweiniol EIP Cymru, holl ffermwyr/coedwigwyr y Grwpiau Gweithredol, a holl ffermydd Cymru



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro EIP Cymru ac Arolwg Amaethyddol Cymru 2017

Mae Powys yn cyfrif am y rhan fwyaf o aelodau'r Grwpiau Gweithredol ac ymgeiswyr arweiniol, gan adlewyrchu'r ffaith mai dyma'r sir sydd â'r nifer mwyaf o ffermydd yng Nghymru. Yr eithriad nodedig, fodd bynnag, yw'r gogledd-ddwyrain, lle mae mwy o weithgarwch EIP Cymru nag y gellid ei ddisgwyl (o ystyried nad yw'n ardal sy'n

adnabyddus am ffermio). Yn wir, mae tair sir, sef Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam, yn cyfrif am 18 % (42/239) o holl aelodau EIP Cymru, er eu bod yn gartref i 10 % yn unig o ffermydd Cymru. Yn yr un modd, mae Bro Morgannwg yn cynnwys mwy o weithgarwch nag y gellid ei ddisgwyl, tra bod Sir Benfro hefyd yn cael ei gwasanaethu'n dda gan y cynllun. Ar y llaw arall, mae gan rai ardaloedd yn y gorllewin, megis Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, a Gwynedd, er eu bod ymhlith prif ardaloedd y gweithgaredd, lai o aelodau na'r disgwyl (o ystyried pwysigrwydd amaethyddiaeth yn yr ardaloedd hynny). Yn ogystal, mae 10 o siroedd yng Nghymru⁷² sy'n llai adnabyddus am amaethyddiaeth heb unrhyw ran yn y cynllun o gwbl, er eu bod yn cyfrif am 13 % o holl ffermydd Cymru.

Mae data demograffig arall o fewn gwybodaeth fonitro'r cynllun yn dangos bod 88 % (210/239) o ffermwyr/coedwigwyr y Grwpiau Gweithredol yn ddynion (mae'r 12 % sy'n weddill yn fenywod), ac mae'r dosbarthiad oedran wedi'i rannu'n weddol gyfartal rhwng y garfan iau (mae 59 % (140/239) hyd at 50 oed, gan gynnwys pedwar % (9/239) hyd at 24 oed) a'r garfan hŷn (mae 41 % (99/239)) yn 50+ oed). Mae'n ymddangos bod hyn yn dangos bod y cynllun wedi ymgysylltu â mwy o ffermwyr iau na'r cyfartaledd o fewn y diwydiant. Er enghraifft, dangosodd adroddiad 'Agriculture in the United Kingdom 2020' fod 36 % o ffermwyr y Deyrnas Unedig yn 2016 yn 65 oed neu'n hŷn ac mai'r oedran canolrifol yw 60 oed.⁷³ Mewn cymhariaeth, dim ond saith % (16/239) o ffermwyr EIP Cymru oedd yn 65 oed neu'n hŷn ar adeg gwneud y cais ac roedd y rhan fwyaf o dan 50 oed.

Fe wnaethom ofyn rhai cwestiynau ychwanegol yn arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol er mwyn cael dealltwriaeth bellach o'r mathau o fusnesau a gynorthwywyd. Er na allwn fod yn siŵr bod yr ymatebion hyn yn adlewyrchu holl boblogaeth EIP Cymru, maent yn rhoi syniad defnyddiol inni.


Yn gyntaf, mae'r arolwg yn datgelu ymhellach bod EIP Cymru wedi ymgysylltu â busnesau ffermio mwy na'r arfer. Ar gyfartaledd, roedd y busnesau ffermio a oedd yn ymwneud â'r cynllun yn gweithredu ar 259ha o dir, o gymharu â'r cyfartaledd

⁷² Y siroedd hyn yw: Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Conwy, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, a Thorfaen.

⁷³ Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, [Agriculture in the United Kingdom 2020, 2021](#)

cenedlaethol o 48ha yn unig (yn ôl adroddiad Amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig 2020).⁷⁴

Ffigur A5: Maint y fferm (ha) – cymhariaeth rhwng aelodau'r Grwpiau Gweithredol a'r cyfartaledd cenedlaethol



Ffynhonnell: Arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=105) ac Amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig 2020⁷⁵

Mae'r Arolwg o Aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn cynnwys data trosiant ar gyfer 84 o'r busnesau ffermio (grŵp ehangach na'r dadansoddiad ar gyfer arweinwyr y Grwpiau Gweithredol a ddisgrifiwyd uchod, a oedd yn seiliedig ar ddim ond 32 o gofnodion). Mae hyn yn dangos bod y grŵp ehangach o fusnesau ffermio (h.y. nid y swyddogion arweiniol yn unig) yn gyffredinol yn llawer mwy na'r arfer, gyda 35 % yn cynhyrchu mwy na €500,000 o gymharu â dim ond tri % o'r stoc cyffredinol o fusnesau ffermio. Yn wir, y trosiant cyfartalog a adroddwyd gan ymatebwyr yr arolwg oedd tua £713,000, sydd fwy yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer yr holl incwm arian parod (£44,000).

⁷⁴ Ibid.

⁷⁵ Ibid.

Ffigur A6: Bandiau trosiant aelodau'r Grwpiau Gweithredol (ffermwyr yn unig).



Ffynhonnell: Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=84)

Mae data arall o arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn atgyfnerthu'r syniad hwn mai'r un wynebaw yw'r rhan fwyaf o'r ffermwyr yr ymgysylltwyd â hwy, gyda 74 % (59/80) yn dweud eu bod wedi cael grantiau neu gymorth ariannol eraill gan Lywodraeth Cymru neu gyrrff cyhoeddus eraill yn y pum mlynedd diwethaf. Nid yw hyn yn syndod, o ystyried rôl Cyswllt Ffermio wrth roi cyhoedduswydd i'r cynllun. Roedd busnesau fel arfer wedi cael Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (35 %; 28/80), Grant Busnes Fferm (31 %; 25/80), neu Glastir (11 %; 9/80), a chyfeiriwyd at amrywiaeth o grantiau eraill hefyd.


Model Segmentau Busnes Fferm Llywodraeth Cymru

Er mwyn deall ymhellach broffil busnesau fferm sy'n cymryd rhan yng nghynllun EIP Cymru, rhoddodd yr ymchwil ystyriaeth hefyd i Fodel Segmentau Busnes Fferm Llywodraeth Cymru.⁷⁶ Mae'r model yn segmentu daliadau fferm Cymru yn seiliedig ar werthoedd a chredoau'r rhai sy'n eu rheoli. Ei fwriad yw cynorthwyo i ddylunio a gweithredu polisiau a rhaglenni drwy ddeall y gwahaniaethau mewn agweddau a chanfyddiadau ar draws gwahanol grwpiau o ffermwyr. Mae'r cwestiynau'n archwilio amrywiaeth o themâu, gan gynnwys y gallu i addasu ac arloesi a'r rhwydweithiau a'r cymorth ehangach y mae ffermwyr yn eu defnyddio. Ymhellach, maent yn archwilio agweddau at gynaliadwyedd amgylcheddol, pwysigrwydd cysylltiad â ffermwyr eraill,

⁷⁶ Lee-Woolf, C., Hughes, O., King, G., a Fell, D. (2014) Development of a segmentation model for the Welsh agricultural industry. Adroddiad gan Brook Lyndhurst ar gyfer Llywodraeth Cymru.


a rôl sgiliau a gwybodaeth newydd wrth redeg fferm yn effeithiol. Mae'r model segmentu wedyn yn mapio'r nodweddion hyn yn erbyn pum segment neu glwstwr.

Ffigur A7: Model segmentu ar gyfer diwydiant amaethyddol Cymru




Ffynhonnell: Lee-Woolf, C., Hughes, O., King, G., a Fell, D. (2014) Development of a segmentation model for the Welsh agricultural industry. Adroddiad gan Brook Lyndhurst ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Ffigur A8: 'Pa mor bwysig yw siarad â ffermwyr eraill fel ffynhonnell gwybodaeth a chyngor i chi'n bersonol?'



Ffynhonnell: Arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=108) a Model Segmentau Busnes Fferm 2014 (n=1,814)


Ffigur A9: 'Faint o ddiddordeb sydd gennych mewn cael mynediad i wybodaeth neu gyngor am ffermio ar y Rhyngrwyd?'



Ffynhonnell: Arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=108) a Model Segmentau Busnes Fferm 2014 (n=1,814)

Mae Ffigur A10 ar y dudalen nesaf yn dangos y set derfynol o ddangosyddion a ddefnyddiwyd i brofi nodweddion aelodau'r Grwpiau Gweithredol. Mae'n atgyfnerthu rhai o'r sylwadau a wnaed yn flaenorol yn yr adran, sy'n datgelu bod busnesau ffermio'r Grwpiau Gweithredol yn fwy tebygol o fod â gogwydd masnachol (e.e. maent yn fwy tebygol o roi llai o flaenoriaeth i ansawdd bywyd da o blaid sicrhau'r incwm mwyaf posibl o'u fferm, fel sydd i'w weld yn y gosodiad terfynol yn Ffigur A10). Er syndod efallai, o ystyried natur y cynllun, nid yw'n ymddangos bod aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn arbennig o dueddol o gydweithio â ffermwyr eraill i wella'r modd y mae eu ffermydd yn cael eu rhedeg; dim ond 76 % (61/80) oedd yn teimlo bod cydweithio â ffermwyr eraill yn gwella'r modd y caiff ffarm ei rhedeg – llai na'r 88 % sy'n nodi hyn yn genedlaethol. Maent yn cofleidio sgiliau newydd, gwybodaeth a thechnoleg yn fwy nag sy'n arferol (99 % (79/80) yn erbyn 85 % a oedd yn adrodd hyn yn genedlaethol) ac yn fwy tebygol o fod eisiau defnyddio technolegau newydd ar eu fferm (74 % (59/80) yn erbyn 71 % a oedd yn adrodd hyn yn genedlaethol). Gyda'i gilydd, mae'r data hyn yn awgrymu bod y grŵp yn gwerthfawrogi ac yn cydnabod yr angen i uwchsgilio a gwella eu gwybodaeth, er eu bod hefyd yn meddwl yn annibynnol.

Ffigur A10: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau canlynol?'



Ffynhonnell: Arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=80) a Model Segmentau Busnes Fferm 2014 (n=1,814)

Os ydym yn ystyried patrwm y data yn ei gyfanrwydd, gallwn ddatgan yn fras bod y busnesau ffermio sy'n cymryd rhan yn EIP Cymru yn debycach i Glwstwr U (gweler Ffigur A7 uchod), sydd, mewn gwirionedd, yn cyfrif am y segment lleiaf yng Nghymru (11 % o ffermydd). Mae hwn, wrth gwrs, yn gyffredinol iad eang iawn, a bydd gan bob busnes ei werthoedd a'i gredoau gwahanol ei hun; yn wir, bydd rhai yn agosach at segmentau clystyrau eraill. Fodd bynnag, mae hyn yn rhoi darlun defnyddiol i ddeall a yw'r cynllun wedi denu grŵp penodol o fusnesau, ac mae'r data'n awgrymu bod busnesau â nodweddion penodol wedi'u denu at y cynllun, er nad yw'r nodweddion hyn yn gyffredinol yn adlewyrchu'r sector fel cyfanwaith. Maent yn fusnesau mwy na'r cyffredin, sydd fel arfer eisoes yn rhan o rwydweithiau cymorth; mae ganddynt fwy o feddylfryd busnes, yn awyddus i ddysgu sgiliau newydd a mabwysiadu technolegau newydd.

Atodiad 10: Trosolwg o'r prosiectau

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
EIP1 - Rheoli clwy tatws gan ddefnyddio cydrannau gweithfeydd gwastraff di-fwyd cynhenid	Mawrth 2019	<p>Ymchwiliodd y prosiect EIP Cymru hwn i fiobaladdwr naturiol wedi'i wneud o gyfansoddyn cemegol (saponin) o ddaw o eiddew cyffredin.</p> <p>"Gallai'r prosiect hwn arwain at gyfle newydd sbon yn y farchnad, i dyfu eiddew cyffredin yn fasnachol, a defnyddio ei saponin naturiol i helpu tyfwyr organig i leihau pla o glwy tatws".</p> <p>Arweiniwyd y prosiect gan gynrychiolwyr o Ymddiriedolaeth Ymchwil Sarvari, Emerald Crop Science a Naturiol Ltd, a lleolwyd lleiniau prawf ar ddwy fferm, Tŷ'n yr Helyg ger Llanrhystyd a fferm Henfaes ym Mhrifysgol Bangor. Gwnaethant brofi dau opsiwn newydd i reoli clwy tatws: Hederin, sy'n cael ei wneud o ddail eiddew, ac OptiYield Diamond, sy'n ysgogydd tyfiant.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none">• Roedd triniaeth Hederin yn arafu datblygiad clwy tatws ond ar y cyfan roedd yn llai effeithiol na'r ffwngleiddiad safonol.• Pan gyfunwyd Hederin ag OptiYield Diamond, roedd yn fwy effeithiol, ac roedd hyn yn dangos potensial fel dull rheoli clwy tatws. <p>Gall y cyfuniad hwn fod yn ddefnyddiol mewn rhaglen rheoli plâu integredig, yn enwedig i dyfwyr organig.</p>
EIP2 - Datblygu grŵp Eidion Mynyddoedd Cambria i reoli ac ehangu eu cadwyn gyflenwi fer	Mawrth 2020	<p>Yn y prosiect EIP Wales hwn, roedd grŵp o ffermwyr o Grŵp Eidion Mynyddoedd Cambria eisiau datblygu eu sgiliau i adeiladu ar gadwyn gyflenwi fer yr oeddent wedi'i sefydlu gyda chigydd arlwygo sy'n cyflenwi bwytai o safon uchel. Mae rheoli cadwyn gyflenwi fer yn gofyn am sgiliau niferus, gan gynnwys marchnata, prosesu cynnyrch a datblygu cynnyrch.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none">• Datblygodd y grŵp strategaeth farchnata ar gyfer eu brand cig eidion a oedd yn cynnwys deall a mabwysiadu'r cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â dulliau cyfathrebu mwy traddodiadol.• Roedd cynnwys y genhedlaeth nesaf yn hanfodol i ddiogelwch hirdymor y busnes. Cymerodd aelodau iau'r grŵp rolau fel rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â datblygu sgiliau cigyddiaeth.• Roedd deall y defnyddiwr yn hanfodol er mwyn sicrhau contractau hirdymor. <p>Datblygodd y grŵp eu gwybodaeth am ddeddfwriaeth a rheoliadau i sicrhau cydymffurfiaeth y busnes.</p>
EIP3 - Porfa i beillwyr	Rhagfyr 2020	<p>Gwnaeth chwe ffermwr llaeth sy'n aelodau o Gydweithfa Laeth Calon Wen gynnal prosiect tair blynedd i weld a allai rhai ymyriadau syml hybu niferoedd y peillwyr ar eu ffermydd. Roedd eu ffermydd organig eisoes yn darparu cynefinoedd addas ar gyfer cacwn a pheillwyr eraill, ond roeddent yn dal i fod eisiau gweld a ellid gwneud mwy.</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
		<p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cofnodwyd niferoedd uwch o gacwn a pheillwyr eraill, yn ogystal â niferoedd uwch o rywogaethau o beillwyr ar ymylon gwyndwn amaethyddol heb eu torri/pori o gymharu ag ymylon gwyndwn wedi'u torri/pori pan arolygwyd o fewn pythefnos i dorri silwair / pori. • Mae'r canlyniadau'n dangos y gallai gadael ymylon heb eu torri/pori mewn caeau gwyndwn amaethyddol helpu i gynnal poblogaethau cacwn a phoblogaethau peillwyr eraill, yn enwedig o ran 'cau bylchau' mewn porthiant (neithdar a phail) yn ystod y tymor pan fo angen cyflenwad parhaus o borthiant ar y rhywogaethau hyn o tua mis Mawrth i fis Hydref. • Efallai y bydd mwy o rywogaethau a digonedd o beillwyr unigol yn cael eu cynnal gan y gwyndwn hybu ffrwythlondeb llysiuol mwy cyfoethog o rywogaethau (neu gaeau sydd wedi'u hadu â gwyndwn amaethyddol ond sydd hefyd wedi cynnal amrywiaeth o rywogaethau o flodau gwyllt), o gymharu â gwyndwn amaethyddol sy'n llai cyfoethog o ran rhywogaethau. • Mae'r prosiect wedi dangos yn llwyddiannus y gall newidiadau syml i reolaeth glaswelltir, heb aberthu cynhyrchiant a phroffidioldeb y fferm, fynd law yn llaw â chadwraeth peillwyr.
EIP4 - Lleihau'r defnydd o wrthfotigau ar ffermydd defaid adeg wyna drwy arferion rheoli gorau, drwy wella maeth a hylendid	Gorffennaf 2019	<p>Roedd nodau'r prosiect yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu pum mlynedd Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at leihau ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn anifeiliaid ac yn yr amgylchedd.</p> <p>Drwy ganolbwyntio ar iechyd y ddiadell, maeth a glanweithdra yn y sied wyna, gwnaeth y grŵp gynnydd sylweddol o ran lleihau faint o wrthfotigau sydd eu hangen.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwnaeth dadansoddiad o silwair annog y grŵp i edrych ar sut y gellid gwella arferion gwneud silwair er mwyn gwella ei ansawdd. Yn ogystal, roedd y dadansoddiad yn caniatáu dogni cywir i deilwra'r atchwanegiad i ofynion y mamogiaid. • Drwy broffilio metabolaidd trwy samplu gwaed y mamogiaid cyn ŵyna, amlygwyd unrhyw broblemau gydag iechyd a maeth y preiddiau a bu'n fodd i gymryd camau unioni. • Mae ansawdd colostrwm yn gyflym ac yn syml i'w fesur ar ffermydd gan ddefnyddio refractometr ac mae'n ddangosydd defnyddiol i weld a yw'r ŵyn yn cael yr amddiffyniad bywyd cynnar pwysig hwnnw. • Mae glanweithdra yn y sied wyna yn hollbwysig a llwyddwyd i'w gyflawni trwy lanhau a diheintio corlannau, diheintio tiwbiau bwydo a gwisgo menig wrth gynorthwyo adeg genedigaethau. <p>Ar gyfartaledd, gwnaeth y ffermyr yn y grŵp leihau eu defnydd o wrthfotigau adeg wyna gan 60%</p>
EIP5 - Cymhariaeth o fanteision amgylcheddol cymharol peiriannau effaith	Hydref 2019	<p>Ymchwiliodd y prosiect EIP Cymru hwn i opsiynau peiriannau effaith isel ar gyfer cael mynediad i goetiroedd gyda phwyslais ar yr effeithiau ar strwythur pridd a dŵr ffo yn ystod y gwaith. Rhannwyd yr ardaloedd o goetir ar ddwy fferm yn bedair ardal: ardal reoli lle na chynhaliwyd unrhyw weithgarwch; clirio gan ddefnyddio peiriannau confensiynol (tractor County); clirio gan ddefnyddio</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
isel mewn coetiroedd graddfa fach		<p>tractor Alpaidd; a chlirio gan ddefnyddio cerbyd Bobcat ar draciau. Cafodd cyfaint y dŵr ffo yn ystod y gweithrediadau ei fonitro, yn ogystal â'r maetholion a gwaddodion a gollwyd ac felly'r effaith ar strwythur y pridd.</p> <p>Dangosodd y prosiect fod pob math o beiriannau wedi llwyddo i gael mynediad i'r ardaloedd o goetir ac nid oedd yr un ohonynt wedi creu problemau parhaol o ran cywasgu'r pridd. Tynnodd y prosiect sylw at faterion mesur dŵr ffo o bridd, gan fod amrywiaeth enfawr yn dibynnu ar dopograffeg, llystyfiant a digwyddiadau tywydd garw.</p>
EIP6 - Astudiaeth ddichonoldeb ar Gynhyrchu Sêr yng Ngogledd Cymru	Mawrth 2020	<p>Perlysiuyn lluosflwydd sy'n frodorol i ranbarth Môr y Canoldir yw'r seren wen (Drima maritima). Mae rhan oddfog y sylfaen yn cynnwys nifer o glycosidau steroid (Bufadienolide), sy'n gyfansoddion allweddol mewn llawer o suropau gwrth-beswch. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r planhigyn wedi'i ddadwreiddio a'i gasglu i raddau difrifol yn ei wlad wreiddiol, ar gyfer cwmnïau fferyllol, ac mae'r galw am bufadienolide yn cynyddu.</p> <p>Mae ymchwil ddiweddar ar raddfa fach wedi dangos y gellir tyfu'r amrywiaeth benodol hon o sêr yng Ngwynedd a phrofwyd ei bod yn cynnwys dwywaith y nifer o gyfansoddion gweithredol sydd yn y mathau a gynhyrchir dramor. Bu pum ffermwr yn cymryd rhan yn y prosiect 18 mis hwn gan ymchwilio i'r potensial i dyfu sêr mewn lleoliadau amrywiol ar draws Gogledd Cymru. Y nod oedd deall yr amodau tyfu gorau posibl yn ogystal â thechnegau cynaeafu ac echdynnu.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gall sêr dyfu mewn lleoliadau amrywiol ar draws Gogledd Cymru. • Maent yn cynnwys y cyfansoddion uchel eu gwerth sydd o ddiddordeb i'r diwydiant fferyllol. • Gall peiriannau presennol gael eu haddasu i blannu a chynaeafu sêr ar ffermydd. • Mae argaeledd bylbiau had yn broblem. <p>Mae angen mwy o wybodaeth am agronomeg sêr er mwyn gwneud y gorau o'u potensial wedi'u lleoli yng Nghymru.</p>
EIP7 - Dadansoddiad o'r defnydd o chwynnwr robotig cyfrifiadurol ar raddfa fach	Mehefin 2022	<p>Aeth y prosiect hwn ati i ddadansoddi effaith chwynwyr aml-res robotig cyfrifiadurol ar ddwy system arddwriaethol ar raddfa fach o gymharu â'r dulliau presennol o hofio â llaw.</p> <p>Roedd un o'r ffermydd yn y prosiect yn organig, ac roedd y llall yn awyddus i edrych ar ddewisiadau heblaw am raglen o bladdwr confensiynol, ac felly mae system nad yw'n dibynnu ar y defnydd o gemegau yn hanfodol i lwyddiant hirdymor y ddau weithrediad.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd chwynnu â llaw yn cymryd 16 munud ar gyfartaledd am un gwely 30m o hyd o gennin, o gymharu â dim ond 21 eiliad ar lain o'r un maint â'r chwynnwr robotig. Gall chwynnu â llaw gostio cymaint ag £16 yr awr. • Roedd chwynnu robotig gan ddefnyddio systemau wedi'u harwain gan olwg a ddefnyddir fel arfer mewn cynydu erwau eang yn hynod effeithiol.

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
		<ul style="list-style-type: none"> Byddai'r chwynwyr robotig a brofwyd yn y prosiect hwn (Steketee EC-weeder gydag atodiad rhwng rhesi) yn fuddiol i dyfwyr garddwriaethol ar raddfa fach i gynorthwyo eu gofynion rheoli chwyn, ond mae angen ystyried y gost brynu gychwynnol yn ofalus. Ar un o'r safleoedd roedd y tyfwr yn hyderus y byddai defnyddio chwynnwr mecanyddol Steketee yn lleihau'r angen am un o'r chwynladdwyr ar ôl ymddangos ac yn cynyddu effeithiolrwydd cyffredinol camau rheoli chwyn. <p>Cynhyrchwyd taenlen y gellir ei haddasu sy'n amlinellu cost flynyddol chwynwyr a arweinir gan olwg ar dri phris gwahanol.</p>
EIP8 - Asesu potensial profion genomig ar heffrod llaeth i gynyddu enillion genetig ac enillion ariannol	Hydref 2020	<p>Trwy EIP Cymru, ymchwiliodd naw ffermwr o Ogledd Cymru i'r potensial ar gyfer defnyddio profion genomig ar eu heffrod llaeth i ganfod yr anifeiliaid gorau i fridio ohonynt yn ifanc.</p> <p>Y dibynadwyedd bod nodweddion yn cael eu hetifeddu o'r mynegai pedigri traddodiadol yw 35%. Gall defnyddio profion genomig i fesur DNA ar gyfer cynhyrchu, math, ffrwythlondeb a nodweddion iechyd gynyddu'r dibynadwyedd i 70%.</p> <p>Ond mae profi genomig yn ddrutach, ac felly roedd y grŵp eisiau gweld a yw'r gost ychwanegol hon yn werth y gwelliant yn nibynadwyedd y wybodaeth a gynhyrchir.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd senario bridio damcaniaethol yn dangos sut y byddai 23% o'r heffrod wedi eu bridio'n anghywir pe bai'r wybodaeth yn seiliedig ar y ffigurau £PLI traddodiadol. Roedd hyn gyfystyr â cholli potensial £PLI o £6,914 ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Mantais profion genomig yw'r dilyniant cynyddol o enillion genetig. <p>Cyfanswm y budd economaidd a gynhyrchwyd o'r profion genomig oedd £46.89, llai cost profion genomig o £27.50, sy'n creu budd cost o £19.39 fesul heffer. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cyfrif am yr adlog ychwanegol y mae buddsoddi mewn geneteg buches yn ei greu.</p>
EIP9 - Systemau porthiant amgen	Rhagfyr 2020	<p>Bu'r prosiect hwn yn gweithio gyda thair fferm ucheldir yng Nghymoedd De Cymru a oedd i gyd â diddordeb yn yr hyn y gallai gwyndynnydd aml-rywogaeth ei gyfrannu i'w systemau ffermio ond a oedd yn ansicr ynghylch sut y byddent yn perfformio ar eu ffermydd ucheldirol ymylol. Yn 2018 sefydlodd y tair fferm leiniau o wyndynnydd aml-rywogaeth a rhygwellt confensiynol gyda gwyndynnydd o feillion gwynion. Roedd pob llain tua 3ha. Cafodd y camau sefydlu eu monitro, ac yn dilyn hynny aseswyd cynhyrchiant dros dri thymor.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> Perfformiodd y gwyndynnydd aml-rywogaeth gystal â'r rhygwellt gyda gwyndynnydd o feillion gwyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac o dan wahanol gyfundrefnau rheoli. Perfformiodd da byw cystal ar y ddau wyndwn yn y prosiect hwn. Newidiodd cyfansoddiad y gwyndynnydd aml-rywogaeth dros amser ar bob fferm oherwydd rheolaeth amrywiol a chyflwr y tir.

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
		<ul style="list-style-type: none"> Roedd y prosiect yn dangos y manteision sydd i'w cael o ailhau porfeydd a chafwyd cynnyrch parchus ar y ddau fath o wyndwn, fel y gwelir yn y graff.
EIP10 - Llaeth nos - asesu dibynadwyedd a budd economaidd	Medi 2019	<p>Roedd dau ffermwr llaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr am weld a oes gan eu buchod lefelau uwch o felatonin yn y llaeth sy'n cael ei gynhyrchu yn ystod y nos. Maent yn godro eu buchod deirgwaith y dydd ac mae un o'r rhain sesiynau godro hyn yn digwydd yn ystod y nos. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n hawdd samplu'r llaeth a gynhyrchwyd yn ystod y nos i ganfod a yw'r 'llaeth nos' yn cynnwys lefelau digon uchel o felatonin i frandio'r llaeth ar gyfer ei briodweddau hybu cwsg.</p> <p>Dangosodd y prosiect, mewn lleoliad fferm fasnachol, y gallai cynhyrchu llaeth llawn melatonin fod yn fwy cymhleth nag y mae astudiaethau eraill wedi'i awgrymu. Yn ystod y prosiect, roedd y samplau o laeth nos yn cynnwys lefelau melatonin a oedd yn uwch na'r hyn sy'n digwydd yn naturiol mewn pobl, ond nid oeddent yn cyrraedd y trothwy gofynnol o 1mg i farchnata'r llaeth fel un llawn melatonin. Canfu'r ffermwyr hefyd nad oedd y tymor na diet y gwartheg yn effeithio ar lefelau melatonin. Ond ar nodyn mwy cadarnhaol, nid oedd pasteuriddio yn effeithio ar lefelau melatonin, ac felly os caiff ffordd ei ganfod byth o drin lefelau melatonin mewn llaeth, ni fydd y broses basteureiddio yn effeithio'n negyddol arno.</p>
EIP11 - Rheoli dail tafol yn electroffisegol	Tachwedd 2021	<p>Mae dinistrio'n electroffisegol yn cynnig manteision posibl o ran rheoli dail tafol tra'n lleihau'r angen am chwynladdwyr. Roedd y prosiect hwn yn edrych ar effeithiolrwydd defnyddio peiriant chwynnu trydan i reoli dail tafol ar ddwy fferm laeth ger Rhaglan, De Cymru. Mae'r peiriant yn defnyddio electronau ynni uchel i redeg cerrynt trydan trwy'r dail tafol, gan achosi i'r holl feinweoedd farw.</p> <p>Defnyddiodd y prosiect hwn chwynnwr trydan llaw a wnaed gan gwmni Rootwave. Mae'r bicell law yn cael ei bweru gan eneradur gyda chebl hir (20m). Cafodd pob planhigyn tafol mewn llain ei gyffwrdd â'r bicell wedi'i gwefru am 5-10 eiliad cyn symud ymlaen i'r planhigyn nesaf. Mae modd cyflwyno'r dechnoleg ar raddfa ehangach ac mae peiriannau eraill ar gael hefyd, fel peiriant mwy wedi'i osod ar dractor, sy'n cael ei yrru gan PTO.</p> <p>Cafodd peiriant ei logi dros gyfnod o ddwy flynedd i dreialu rheoli dail tafol trwy ddinistrio electroffisegol.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd trin y tri amseriad o drin y planhigion tafol yn drydanol yn effeithiol iawn yn y prosiect hwn, a gellir gweld bod y canlyniadau'n cyfateb i ddefnyddio chwynladdwr yn unig. Mae potensial i ddefnyddio dull trydanol fod yn ffordd addawol o reoli dail tafol mewn glaswelltir, yn enwedig ar gyfer ffermwyr organig neu'r rhai sydd am ddefnyddio llai o chwynladdwr. <p>Profwyd hefyd y gallai rheoli dail tafol yn electroffisegol hefyd helpu i gadw meillion mewn porfa o dargedu wrth ddefnyddio'r triniaethau.</p>
EIP12 - Archwiliad o'r potensial ymarferol ac	Gorffennaf 2021	<p>Mae gan asbaragws botensial da yng Nghymru, gan ei fod yn gnwd uchel ei werth sy'n atyniad da ar gyfer gwerthu wrth gât y fferm. Daw'r cnwd yn yng nghyfnod y bwlch newynog rhwng diwedd Ebrill a diwedd Mehefin pan nad oes llawer o gnydau eraill ar gael yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cnwd yn elwa o ffresni a marchnadoedd cadwyn gyflenwi fer nad yw archfarchnadoedd yn gallu</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
ariannol ar gyfer tyfu asbaragws ar raddfa fach yn organig mewn dau leoliad yn ne Cymru		<p>cystadlu â nhw yn gyffredinol. Er bod galw mawr am asbaragws, gall y costau sefydlu uchel a'r cyfnod hir cyn y cynhaeaf cyntaf olygu nad yw tyfu'r cnwd yn atyniadol i dyfwyr bach.</p> <p>Nod y prosiect hwn oedd monitro allbynnau a meincnodi'r arfer o dyfu asbaragws organig o'i sefydlu hyd at y cynhaeaf cyntaf ar ddwy fferm yn Sir Fynwy ar raddfa cae. Y gobaith oedd cael dealltwriaeth o ofynion ymarferol ac ariannol tyfu'r cnwd, a darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r sector ehangach.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gall asbaragws gael ei dyfu'n llwyddiannus o dan reolaeth organig. • Mae asbaragws yn cael ei farchnata'n hawdd a gall hawlio premiwm da os caiff ei werthu'n uniongyrchol ac yn lleol. • Gall cael digon o lafur medrus fod yn broblem ar adegau prysur a dylid ei ystyried yn gost fawr i'r fenter. <p>Ar wahân i lafur, dibwys oedd y costau eraill ar ôl plannu, a'r costau mewnbwn isel sydd wedi arwain at yr elw sy'n ymddangos yn dda i'r ffermydd.</p>
EIP13 - Cadwyni cyflenwi grawnfwyd hynafol organig	Mawrth 2022	<p>Er bod y galw am y rhywogaethau hynafol hyn o rawnfwydydd wedi cynyddu, gall fod yn anodd eu cynhyrchu mewn modd economaidd hyfyw, o ystyried y cynnyrch isel yn gyffredinol. Nid oes fawr ddim gwybodaeth agronomegol gyfredol yn ymwneud â mathau hynafol o rawnfwyd, a bydd y gallu i wneud ymchwil i effeithiau gwahanol gyfraddau hadau a thanhau ar ffermydd yn galluogi'r grŵp o ffermwyr i gael gwell dealltwriaeth o agronomeg ac economeg tyfu'r cnydau.</p> <p>Fel rhan o'r prosiect hwn, sefydlwyd treialon yng ngwanwyn 2019 ar draws pedair fferm yn Sir Benfro i ymchwilio i agronomeg gwenith hynafol a threftadaeth o gymharu ag amrywiaeth fodern. Cynhwyswyd rhai ffactorau rheoli o ddiddordeb, sef amrywio cyfraddau hadau a thanhau, a benderfynwyd drwy'r dull ymchwil dan arweiniad y ffermwyr.</p> <p>Trwy fynd i'r afael â rhai cwestiynau agronomegol allweddol, y nodau oedd gwella effeithlonrwydd cynhyrchu, gyda'r pobi, y blas a'r prawf maeth yn cael eu defnyddio i helpu i brofi'r honiadau a wneir am gynhyrchion sy'n seiliedig ar rawnfwydydd hynafol.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae potensial i wenith hynafol a threftadaeth fod yn gyfle i arallgyfeirio systemau cnydau ar gyfer ffermydd addas. • Mae'r gwenith hynafol a threftadaeth yn dangos canlyniadau addawol o'r treial o ran cynnyrch, ansawdd y grawn a nodweddion cnwd buddiol fel atal chwyn. <p>Mae materion a rhwystrau allweddol wedi'u nodi ar gyfer tyfu a sefydlu mathau o wenith hynafol a threftadaeth, y gellir o bosibl eu hystyried at ddibenion y dyfodol.</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
EIP14 - Ymchwilio i effaith systemau cynhyrchu llaeth cyferbyniol yng ngorllewin Cymru ar broffil asidau brasterog llaeth (yn enwedig omega-3 ac omega-6)	Hydref 2022	<p>Daeth grŵp o 20 o ffermwyr llaeth yng ngorllewin Cymru at ei gilydd i fod yn rhan o brosiect arloesol i ymchwilio i ba arferion rheoli ar sail porfa sy'n cynhyrchu'r lefelau uchaf o'r asid brasterog omega-3 mewn llaeth buwch.</p> <p>Mae gan y ffermwyr sy'n ymwneud â'r prosiect systemau pori gwartheg amrywiol, gan gynnwys system gonfensiynol o gadw buchesi dan do yn y gaeaf ac yn pori yn yr haf, buchesi sy'n cael eu cadw dan do trwy gydol y flwyddyn, buchesi organig, a buchesi sy'n lloia mewn bloc yn y gwanwyn.</p> <p>Maent yn cyflenwi eu llaeth i wahanol brynwyr a phroseswyr llaeth, gan gynnwys llaeth hylif nwyddau, llaeth hylif organig premiwm, cynhyrchwyr caws, a chynhyrchwyr cynhwysion bwyd uchel eu gwerth.</p> <p>Yn ystod y prosiect dwy flynedd, cyflwynwyd samplau llaeth a phorthiant o bob un o'r 20 fferm yn fisol i Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth, ynghyd â holiadur ar arferion bwydo ar adeg y samplu.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dangosodd y canlyniadau fod omega-3 yn amrywio ar draws y tymor a rhwng gwahanol systemau ffermio. Yn fras, gwelwyd mwy o amrywiad yng nghynnwys omega-3 y llaeth yn ystod misoedd yr haf, a chyfartaledd yr unedau organig oedd uchaf yn gyffredinol. Roedd cyfartaleddau buchesi confensiynol a buchesi lloia'r gwanwyn yn gyffredinol uwch na buchesi dan do yn gynnar ac yn hwyrach yn y tymor pori, sydd, yn debygol, yn adlewyrchu cynnwys omega-3 glaswellt; fodd bynnag, roedd y cyfartaleddau hyn yn dangos llai o wahaniaeth ganol yr haf, ac yn ystod y gaeaf lle defnyddiwyd silwair yn bennaf. • Roedd lefelau Omega-6 yn uwch mewn buchesi dan do na systemau confensiynol a buchesi lloia'r gwanwyn yn ystod y cyfnod pori, sy'n debygol o adlewyrchu porthiant indrawn mewn systemau dan do. Roedd ffermydd organig ychydig yn uwch na systemau confensiynol a lloia'r gwanwyn ar draws y tymor pori, efallai'n adlewyrchu porthiant o wahanol rywogaethau, neu o bosibl y proffil olew yn y porthiant organig atodol cyffredin. • Roedd cymarebau asidau brasterog omega-6 i omega-3 yn y llaeth i gyd o fewn yr hyn a ystyrir yn ystod 'iach' ar gyfer diet pobl, ac eithrio nifer fach o fisoedd yn achos systemau dan do. Roedd y berthynas rhwng lefelau porthiant yr asidau brasterog yn dangos cydberthynas â lefelau llaeth, sy'n cadarnhau bod porthiant yn faes allweddol i ganolbwyntio wrth fynd ati i godi lefelau llaeth. • Mae ffermydd yng ngorllewin Cymru mewn sefyllfa arbennig o dda i gynhyrchu llaeth sy'n uwch mewn omega-3 o ystyried bod glaswellt ffres yn naturiol uchel yn yr asidau brasterog hyn. Mae gan ffermydd lle nad yw pori'n bosibl opsiynau o hyd i gynyddu cynnwys yr omega-3 yn eu llaeth trwy dechnegau fel dim pori, neu ddefnyddio porthiant sy'n naturiol uchel mewn omega-3, fel had llin allwthiedig. Mae cyfleoedd posibl ar gael i hyrwyddo brand ffermio llaeth Gorllewin Cymru, yn enwedig o ran ansawdd a phroffil asid brasterog glaswellt ffres.

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
EIP15 - Porthiant dail ar gyfer glaswelltir	Medi 2021	<p>Mae porthiant dail yn dechneg a ddefnyddir i fwydo planhigion trwy wasgaru gwrtaith hylifol yn uniongyrchol ar y dail ac mae'n cyferbynnu â'r dull mwy traddodiadol o'i daenu ar ffurf solet neu bril â thaenwr.</p> <p>Cymerodd pedair fferm laeth yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru ran yn y prosiect a ariannwyd gan EIP Cymru i asesu i ba raddau y gall defnyddio porthiant dail sy'n seiliedig ar wrea ac asid hwmig leihau'r defnydd o wrtaith N confensiynol ar laswellt.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n bosibl cyflawni cnwd tebyg i'r lleiniau confensiynol gan ddefnyddio systemau porthiant dail. • Ar gyfraddau is o N, roedd cynnyrch yn is yn y systemau porthiant dail. Fodd bynnag, roedd yr Effeithlonrwydd Defnydd Maetholion (NUE) rhwng 2 a 3 gwaith yn uwch mewn systemau porthiant dail. • Ar gyfartaledd, roedd cost N fesul litr o laeth a gynhyrwyd 39% yn is wrth ddefnyddio porthiant dail o gymharu â gwrtaith confensiynol. • Gwnaeth y systemau porthiant dail gyflawni cynnyrch uwch mewn amodau anffafriol, e.e. amodau oer a/neu sych. Gallai hyn fod oherwydd bod amodau pridd anffafriol yn effeithio llai ar amsugniad trwy'r dail o gymharu â derbyniad drwy'r gwreiddiau. • Roedd lefelau siwgr yn y planhigion glaswellt hefyd yn gyson uwch yn y lleiniau porthiant dail dros y ddwy flynedd. • Nid oedd y data yn gallu dangos unrhyw berthynas rhwng y dull o wasgaru N a lefelau nitrad ym meinwe'r dail. Gwelwyd y lefelau uchaf yn y lleiniau heb unrhyw wrtaith, sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r lefelau uwch o feillion yn y lleiniau hyn. • Dim ond ar un safle y mesurwyd ansawdd y glaswellt dros ddwy flynedd, ac felly mae angen trin y canlyniadau â gofal priodol. • Roedd gwerthoedd treuliadwyedd (D) ac egni metaboladwy (ME) yn debyg rhwng porthiant dail a dulliau gwrtaith confensiynol. • Roedd yn ymddangos bod protein crai yn uwch mewn lleiniau confensiynol, sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r cyfansymiau uchel o N a roddwyd.
EIP16 - Gweithredu rheolaeth faethol uwch yn niwydiant defaid Cymru	Rhagfyr 2020	<p>Mae biopsïau afu anifeiliaid byw yn darparu gwybodaeth wahanol am waed gan eu bod yn cynnig amcangyfrif hanesyddol tymor llawer hwy o statws elfennau hybrin. Profwyd bod y dechneg yn gyflym, yn ddiogel ac yn ddibynadwy.</p> <p>Mae dadansoddi gwaed yn dal i fod yn ddefnyddiol ar y cyd â biopsïau o'r fath, gan y gall ddarparu gwybodaeth tymor byr sy'n dangos cyflenwad ac ymateb cyfredol, yn ogystal â gwybodaeth am gystadleuaeth elfennau. Y samplau gwaed ac afu wedi'u cymryd ochr yn ochr â'i gilydd sy'n rhoi'r arwydd mwyaf cynhwysfawr o statws elfennau hybrin hanesyddol a chyfredol a'r wybodaeth orau er mwyn llunio cyngor rheoli ar gyfer gwneud addasiadau dietegol yn y dyfodol.</p> <p>Yn y prosiect hwn, defnyddiodd 12 fferm o bob rhan o ogledd Cymru y dull samplu deuol a nodwyd uchod yng nghyd-destun defaid Cymru, ynghyd â dadansoddiad o'r porthiant a oedd ar gael. Nod y prosiect oedd defnyddio dull deallus a blaengar o gynllunio maeth ar gyfer mamogiaid magu.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
EIP17 - Mynd i'r afael â'r clafr - dull dan arweiniad ffermwyr	Mehefin 2022	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gwelliannau mawr i'w gwneud o ran rheoli maeth ar ffermydd defaid ac un ymyriad allweddol fyddai i ffermwyr fabwysiadu dull sgorio cyflwr corff rheolaidd, gan addasu'r pori er mwyn galluogi'r defaid i gyrraedd targedau a sefydlwyd ymlaen llaw ar adegau allweddol o'r flwyddyn. • Mae parasitiaeth yn dal i fod yn nodwedd bwysig o reoli diadelloedd ac mae angen monitro rhaglenni rheoli yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y rhaglenni hyn yn parhau i fod yn effeithiol. • Mae clefydau heintus yn achosion cyffredin o broblemau cynhyrchu; gall ymchwilio'n rhagweithiol sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd yn y dyfodol. • Elfennau hybrin <ul style="list-style-type: none"> a. Mae elfennau hybrin yn elfen bwysig o gynllunio maethol rhagweithiol ac optimaidd ond maent yn llawer llai pwysig o gymharu â'r porthiant sydd ar gael yn gyffredinol a chyflwr corff y mamogiaid. b. Roedd y technegau a ddefnyddiwyd yn y prosiect hwn yn hynod ddefnyddiol wrth bennu anghenion elfennau hybrin y mamogiaid ac wrth fonitro'r ymateb i atchwanegion. <p>Roedd yr hen ddywediadau, 'os na allwch ei fesur, ni allwch ei reoli' ac 'nid yw pethau bob amser fel y maent yn ymddangos' yn cael eu cadarnhau'n aml trwy gydol y prosiect hwn. Wrth i ffermydd fynd yn fwy ac wrth symud i ganolbwyntio ar optimeiddio cynhyrchiant, bydd angen parhau i ddatblygu perthynas waith agos rhwng ffermwyr a gwasanaethau milfeddygol ac ymgynghori er mwyn galluogi ffermwyr i gyflawni'r nodau hyn.</p> <p>Mae'r clafr yn achosi colledion economaidd a lles difrifol ac yn costio tua £5.86m y flwyddyn i ddiwydiant defaid Cymru rhwng costau trin a cholli cynhyrchiant. Mater allweddol o ran mynd i'r afael â'r clafr o fewn ac ar draws diadelloedd defaid yw pa mor rhydd yw i'r haint symud o ddiadell i ddiadell, oherwydd heriau bioddiogelwch, sy'n peri pryder arbennig mewn systemau pori helaeth/ucheldir, ac ardaloedd pori cymunedol. Yr ateb hirdymor gorau i'r clafr yw dileu'r clefyd o Gymru a gweddiill Prydain. Y cyfle gorau sydd gennym o gyflawni hyn yw bod ffermwyr yn mabwysiadu dull cydweithredol o fynd i'r afael â'r clefyd.</p> <p>Yn y prosiect tair blynedd hwn, bu grŵp o ffermwyr o ym mhlwyf Ceulanmaesmawr, Talybont, gogledd Ceredigion, yn ymchwilio i sut y gall cydweithio, yn hytrach nag ymdrech fel fferm unigol, wella llwyddiant triniaeth y clafr.</p> <p>Cyflawnodd y prosiect y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu lefel rheolaeth a gwybodaeth am y clafr yn ardal Ceulanmaesmawr. • Gwella'r cyfathrebu a'r cyswllt rhwng ffermwyr, yn ogystal â rhwng ffermwyr a'u milfeddygon ar bwnc canfod a rheoli'r clafr. • Dangos manteision defnyddio profion gwaed ELISA i ganfod achosion cynnar o'r clafr cyn bod arwyddion clinigol yn bresennol, gan alluogi'r ffermwyr i gydlynu â chymdogion o ran y broses o drin diadelloedd er mwyn sicrhau bod y clafr yn cael ei reoli ar y ffermydd hynny. • Cynyddu dealltwriaeth ffermwyr o lwybrau heintiad penodol i ddiadell, dulliau diagnosis, opsiynau triniaeth, a phwysigrwydd monitro haint, hyd yn oed pan na fu unrhyw arwyddion clinigol.

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
EIP18 - I bleee wyt ti wedi mynd? Treialu defnyddio technoleg olrhain mewn systemau pori eang	Mehefin 2022	<p>Gall pori da byw ar laswelltiroedd mawr eang achosi llawer o broblemau, megis anawsterau wrth gasglu a rheoli'r pori, a mwy o siawns o ddwyn. Gyda'r nod o ffermio'n ddoethach ac nid yn galetach, ymchwiliodd grŵp o chwe ffermwr ledled Cymru i sut y gallai defnyddio technoleg olrhain helpu i atal y problemau hyn. Mae pedwar o'r ffermwyr yn gynhyrchwyr defaid ar Fannau Brycheiniog ac yn rhannu tir pori cyffredin ar y mynydd yn yr haf. Mae un ffermwr yn rhoi gwartheg i bori ar warchodfa arfordirol Cynffig ger Margam, Port Talbot. Mae ffermwr arall yn cynnal pori cadwraethol ar dir yng ngogledd Cymru. Mae technoleg olrhain da byw yn gysyniad newydd i systemau pori anifeiliaid eang yn y Deyrnas Unedig, a'r prosiect hwn oedd y cyntaf o'i fath yma yng Nghymru.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y dechnoleg yn caniatáu i'r ffermwyr wybod ble roedd eu hanifeiliaid mewn 'amser real', beth roedden nhw'n ei wneud, a ble roedd eu hanifeiliaid yn pori dros gyfnod o amser. Gall hyn leihau amser a chostau casglu, lleihau'r risg o ddwyn, helpu i wybod pan fo anifeiliaid yn sâl, a chael gwell dealltwriaeth o arferion pori. • Roedd y dechnoleg yn dangos potensial i dracio da byw helpu cyrff amgylcheddol a rheolwyr tir / porwyr i reoli tir er budd amgylcheddol. <p>Cost yr offer yw'r rhwystr mwyaf i fabwysiadu o hyd. Ar adeg cynnal y prosiect hwn, roedd coleri tracio Digitanimal yn costio £120 yr un.</p>
EIP19 - Gwella cynaliadwyedd cynhyrchu cig gafr yng Nghymru drwy ymchwilio i effeithiolrwydd cyfraddau dos o foddion llyngyr a argymhellir ar gyfer geifr cig	Ionawr 2022	<p>Mae ymwrthedd i feddyginiaeth gwrthlyngyr wedi bod yn broblem gynyddol ers sawl blwyddyn ac mae'n cael effaith sylweddol ar gynaliadwyedd cynhyrchu cig gafr a chig defaid. Mae defaid a geifr yn cynnal yr un parasitiaid gastroberfeddol (GI). Ar hyn o bryd, nid oes cyfraddau dos wedi'u cyhoeddi ar gyfer trin â meddyginiaeth gwrthlyngyr, a chaiff ei dybio yn hytrach eu bod yn debyg i'r hyn a ddefnyddir ar gyfer gwartheg a defaid. Fodd bynnag, gallai gallu'r rhywogaeth gafr i fetaboleiddio tocsinau yn gyflymach na defaid, ac o bosibl gwartheg, hybu ymwrthedd i feddyginiaeth gwrthlyngyr o fewn geifreoedd, gan olygu bod moddion llyngyr yn llai effeithiol ar draws y rhywogaeth.</p> <p>Daeth pedwar ffermwr geifr o sawl rhan o ganolbarth a de Cymru ynghyd yn y prosiect dwy flynedd hwn i sefydlu ateb technegol i'r diffyg eglurder ynghylch y gyfradd gywir o ddos sy'n addas i eifr. Mesurwyd hyn gan ddefnyddio profion FEC (cyfrif wyau mewn ysgarthion) cyn rhoi'r moddion llyngyr ar wahanol adegau o'r flwyddyn, a phe bai angen y moddion llyngyr, cynnal profion FEC ar ôl trochi wedi'r cyfnod sy'n cael ei argymhell.</p> <p>Diben yr astudiaeth hon oedd rhoi syniad o 'arfer orau' ar gyfer rhoi moddion llyngyr a sefydlu cyfraddau dosau a threfn fwy effeithiol ar gyfer rhoi moddion llyngyr i eifr cig y gallir eu rhannu â'r diwydiant. Gallai trefn ddosio fwy effeithiol wella cynnydd pwysau byw dyddiol yr anifail ac felly leihau'r amser cyn ei ladd. Os daw bwyta cig gafr yn fwy o duedd prif ffrwd, mae'n bosibl y bydd cynlluniau gofal iechyd da byw pellach yn datblygu.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwelwyd bod sgorio cyflwr y corff yn arf hynod effeithiol fel system rhybudd cynnar i ymchwilio i FEC mewn geifr.

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
EIP20 - Rheoli mamogiaid llaeth i sicrhau canlyniad gwell ar gyfer cynhyrchu caws	Chwefror 2022	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd hyd y borfa yn cael effaith ddramatig ar faich llyngyr o fewn y grŵp/geifre, am fod geifr yn dod i lai o gysylltiad â'r larfa pan fo'r borfa'n hirach. • Profwyd bod angen monitro triniaeth gwrthlyngyr trwy ddefnyddio FEC i sicrhau bod y driniaeth yn effeithiol. <p>Mae cynnwys solet uchel llaeth dafad (5.4% o brotein a 7% o fraster, fel arfer) yn ei wneud yn gynhwysyn delfrydol ar gyfer cynhyrchion fel caws, iogwrt, a hufen iâ. Oherwydd hyn, mae galw hynod gynyddol am laeth defaid, nid yn unig yng Nghymru ond ledled y Deyrnas Unedig.</p> <p>O'i gymharu â'r sector gwartheg godro confensiynol yng Nghymru, nid oes llawer o ddealltwriaeth o ran pa ffactorau sy'n rheoli proffil bacteriolegol llaeth dafad. Nod y prosiect hwn oedd ymchwilio i sut mae'r tri ffactor rheoladwy canlynol yn dylanwadu ar broffil bacteriolegol y llaeth.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Brid y defaid <p>Cymerwyd samplau llaeth o grŵp o famogiaid Friesland, Llŷn a Friesland x Llŷn i ymchwilio i weld a yw gwahaniaethau genetig rhwng bridiau yn cael unrhyw effaith ar broffil bacteriolegol y llaeth.</p> <ol style="list-style-type: none"> 2. Cyfnod llaetha <p>Roedd y mamogiaid yn cael eu godro rhwng Chwefror a Mehefin dros dri bloc wyna. Roedd profion llaeth rheolaidd yn asesu a oedd patrwm ym mhroffil bacteriolegol llaeth y mamogiaid yn ystod eu cylch llaetha.</p> <ol style="list-style-type: none"> 3. Atchwanegiadau seleniwm yn y diet <p>Defnyddiwyd un grŵp o famogiaid godro i ymchwilio i weld a all atchwanegiadau seleniwm arwain at lai o achosion o fastitis clinigol ac is-glinigol.</p> <p>Cyn y twf posibl hwn yn nifer y mamogiaid godro i lefel masgynhyrchu, roedd yn bwysig bod cymaint o wybodaeth â phosibl am laeth y mamogiaid ei hun yn cael ei chasglu cyn masgynhyrchu. Gweledigaeth y grŵp oedd bod ar flaen y gad yn y sector hwn sy'n datblygu yng Nghymru a rhoi sylfaen gref yn ei lle lle mae'r system gynhyrchu yn seiliedig ar laeth o ansawdd uchel i'r defnyddiwr.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae potensial mawr i frid defaid Llŷn fod yn addas iawn i fod yn frîd brodorol cynhyrchiol i gynhyrchwyr yng Nghymru o ran cynhyrchu cig a llaeth o ansawdd uchel i'w fwyta gan bobl. • Mae system "mewnbwn isel-allbwn isel", fel sydd ar waith ar fferm y prosiect, yn addas iawn ar gyfer brîd Llŷn ac ar gyfer ffermio defaid llaeth yng Nghymru.

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
		Gallai monitro cyfrif celloedd somatig a chyfrif plât bacteriol yn agos helpu i lunio meini prawf dethol ar gyfer bridio mewn diadell yn y dyfodol trwy ddileu, o'r ddiadell, famogiaid sydd wedi'u heintio'n gronig â mastitis is-glinigol er mwyn helpu i wella a hybu lefel cynhyrchiant ac ansawdd y llaeth.
EIP21 - Dwysáu cynaliadwy mewn systemau cynhyrchu pori ucheldir	Ebrill 2022	<p>Rhonwellt yw'r prif rywogaeth o laswellt a dyfir yn y Ffindir, lle mae'n arferol bod yna rew ac eira ym mis Ebrill, ychydig wythnosau cyn y toriad cyntaf ym mis Mehefin. Gall dyfu pan fo tymheredd y pridd yn 0°C a thymheredd yr aer yn +5°C.</p> <p>Roedd y prosiect yn treialu'r defnydd o ronwellt ar bridd mawn dwfn, gwlyb i ganfod faint o ronwellt y dylid ei ymgorffori yn y cymysgedd hadau i ganiatáu iddo sefydlu, perfformi a pharhau'n dda.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oedd unrhyw wahaniaeth yng ngwerthoedd protein ac ynni rhonwellt a rhygwellt, er y disgwyliad y byddai ansawdd y rhygwellt yn uwch. • Roedd y treial wedi awgrymu mai'r ganran uchaf o ronwellt y gellid ei chyflawni yn unrhyw un o'r lleiniau oedd 25%, beth bynnag oedd cyfradd hau'r had. • Nid oedd yn ymddangos bod cyfansoddiad y cymysgedd hadau yn chwarae rhan enfawr yn y canlyniad hwn; hyd yn oed â niferoedd enfawr o hadau rhonwellt yn mynd i mewn i'r cymysgedd, roedd y porfeydd yn dal i fod yn cael eu dominyddu gan laswellt mwy ymosodol (e.e. rhygwellt a Ffestwloliwm). • Heb unrhyw ysbeidiau oer iawn yn ystod oes y prosiect, ni chafwyd prawf gwirioneddol o wytnwch gaeafol rhonwellt o gymharu â rhygwellt. Gwnaeth y lleiniau rhonwellt gynhyrchu cnwd sylwedd sych tebyg iawn i'r rhygwellt rheoli, er i ddadansoddiad ddangos bod gan ronwellt lefelau ynni is o gymharu â rhygwellt. • Mae dadl gref y bydd angen lefel uwch o ronwellt yn y cymysgedd hadau i gael effaith gyson ar ansawdd y porthiant, ac yn wir ar berfformiad anifeiliaid. <p>Mae'r prosiect wedi amlygu manteision ailhau i gynyddu cynhyrchiant ac ymestyn y tymor pori, gyda chynhyrchiant 300% yn uwch o gymharu â'r porfeydd hŷn.</p>
EIP22 - Cyflwyno defaid cynffondew i Gymru i fodloni galw'r farchnad yn y Deyrnas Unedig	Ebrill 2022	<p>Mae defaid cynffondew yn frid domestig sy'n adnabyddus am eu cynffonnau a ffolennau mawr a 'brasterog'. Mae'r bridiau hyn o ddefaid i'w cael yn gyffredin mewn ardaloedd cras, tebyg i anialwch, fel y Dwyrain Canol, Gogledd Affrica, Gogledd India a Chanolbarth Asia. Maent yn adnabyddus am allu ffynnu mewn amgylcheddau garw oherwydd eu gallu i fagu pwysau er gwaethaf diet sy'n wael o ran maeth. Caiff cig a braster y defaid hyn, sydd â blas unigryw, eu defnyddio mewn bwydydd Arabaidd traddodiadol ac mae galw mawr amdanynt ymhlith grwpiau ethnig yma yn y Deyrnas Unedig. Dywedir bod cig defaid cynffondew yn fwy tyner, coch a suddlon na chig gan eu cefndryd cynffon denau. Mae hefyd wedi'i ganfod bod gan eu cig gymhareb uwch o asidau brasterog omega-3 i omega-6 ac mae'n is mewn braster dirlawn, sy'n rhinweddau ffafriol i iechyd pobl.</p> <p>Y prosiect hwn oedd y cyntaf o'i fath i gyflwyno'r Damara, sef brid o ddefaid cynffondew, i farchnad y Deyrnas Unedig, a'r nod oedd i Gymru fod yn arloesi yn natblygiad y brîd hwn o ddefaid. Bu'r prosiect tair blynedd hwn, a oedd yn cynnwys dau ffermwr o</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
		<p>ogledd Cymru, yn ymchwilio i ba mor ymarferol yw magu Damara pur a'u croesfridio â mamogiaid Romney, croes- Texel, a chroes- Llŷn a monitro pa mor dda y maent yn addasu i hinsawdd fwynach a gwlypach Cymru.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <p>Llwyddwyd i fewnforio embryonau a semen Damara pur wedi'u rhewi o Awstralia.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn 2020, ganed chwe oen iach o frid pur ynghyd â 75 o wŷn croesfrid, ar ôl ffrwythloni mamogiaid croes Texel Llŷn a Romney yn artiffisial. • Yn 2021, ganed naw oen pur arall, ynghyd â 74 o wŷn croesfrid, a phob un wedi'u geni heb gymorth. • Addasodd y Damara pur yn dda i hinsawdd fwynach a gwlypach Cymru, er eu bod wedi tyfu'n arafach o gymharu ag wŷn croes- Texel wedi'u rheoli'n debyg, a oedd yn pori'n un borfa. • Ar ôl y rhaglen fridio lwyddiannus, gofynnodd y ddau ffermwr am adborth ar y cig oen gan sawl cogydd amlwg o Gymru – un ohonynt oedd Gareth Ward o Ynyshir, bwyty dwy seren Michelin ym Mhowys – a roddodd ganmoliaeth i ansawdd a blas y cig. <p>Arweiniodd hyn at lansio brand 'Damara Môn', a werthodd ei focs cig cyntaf ym mis Medi 2022 ar-lein.</p>
EIP23 - Gwella diagnosis a thriniaeth llyngyr gastroberfeddol mewn gwartheg	Mehefin 2022	<p>Roedd y prosiect hwn yn cynnwys tri ffermwr llaeth yng Ngheredigion a sylwodd fod beichiau llyngyr yn eu stoc ifanc yn effeithio ar gyfraddau twf a pherfformiad. Mynegwyd pryderon ynghylch effeithiolrwydd y moddion llyngyr a ddefnyddir ac a oedd rhai rhywogaethau o barasitiaid yn datblygu ymwrthedd i driniaethau. Drwy'r prosiect EIP Cymru hwn, roedd modd i'r tri ffermwr weithio'n agos ag arbenigwyr i fabwysiadu dull wedi'i dargedu'n fwy yn eu rhaglenni rheoli llyngyr.</p> <p>Mae defnyddio samplau Cyfrif Wyau mewn Ysgarthion (FEC) yn llawer llai cyffredin mewn systemau sy'n seiliedig ar wartheg o gymharu â defaid ac mae'n hanfodol ar gyfer rheoli problem llyngyr yn effeithiol. Nod y prosiect hwn oedd asesu sut y gall defnyddio cyfuniad o brofion FEC, technoleg FECPAKG2, profion ymwrthedd, profion ffurfiant rhywogaethau, a modelau rhagfynegi, wella rheolaeth llyngyr mewn stoc llaeth ifanc.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Drwy fonitro FEC a chyfraddau twf yn rheolaidd, llwyddwyd i dargedu triniaethau moddion llyngyr yn well ar bob fferm, gan olygu bod moddion llyngyr yn cael eu rhoi yn ôl yr angen yn hytrach nag yn ôl trefn driniaeth reolaidd. • Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y triniaethau llyngyr ar gyfer Gwartheg R2 (porwyr 2il dymor / anifeiliaid blwydd) ar bob fferm. • Fe wnaeth un o'r tri ffermwr hefyd leihau triniaethau ar gyfer gwartheg R1 (porwyr tymor 1af / lloi), a gwelwyd newidiadau i amseriad triniaethau ar y ddwy fferm arall. • Canfuwyd methiannau yn y driniaeth ar sawl achlysur pan ddefnyddiwyd moddion llyngyr Grŵp 3ML (clir). Roedd Grŵp 1BZ (benzimidazole/Gwyn) a 2LV (levamisole/Melyn) yn gwbl effeithiol. • Dangosodd canlyniadau profion effeithiolrwydd fod pob ffermwr wedi newid o ddibynnu ar foddion llyngyr 3ML yn unig i newid rhwng y tri dosbarth o foddion llyngyr. • Ni chafodd y newidiadau i'r strategaeth driniaeth effaith negyddol ar berfformiad (twf a chyflwr).

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
		<ul style="list-style-type: none"> Mae newid ymddygiad ffermwyr yn heriol, ond mae'r prosiect hwn wedi dangos, gyda'r cymorth cywir, y gellir cyflawni newidiadau sylweddol.
EIP24 - Sefydlu coed ar dir rhedyn trwchus	Hydref 2022	<p>Gall rhedyn gael ei reoli trwy fraenaru (a/neu aredig). Anaml y caiff y dull hwn ei ddefnyddio ar ffermydd oherwydd yr anawsterau o weithio ar dir serth a'r costau cysylltiedig. Fodd bynnag, mae peiriannau arbenigol y gellir eu defnyddio at y diben hwn. Oherwydd bod coed yn cael eu plannu 2m i 3m oddi wrth ei gilydd, dylai fod yn bosibl paratoi mewn sribedi yn hytrach nag aredig y llethr cyfan.</p> <p>Roedd y prosiect hwn yn treialu technegau i fraenaru sribedi o wahanol led gan ddefnyddio gwahanol fathau o beiriannau sy'n addas i weithio ar dir serth. Yna plannwyd coed yn y lleiniau wedi'u trin a chafodd eu twf dilynol ei fonitro.</p> <p>Roedd y prosiect, a fu'n rhedeg ar ddau safle dros ddwy flynedd a hanner, yn cynnwys paratoi'r tir gan ddefnyddio cloddiwr bach i dorri meinciau bas, cloddiwr bach gydag atodiad braenaru, tractor ymlusgo gyda braenarwr, ac ysgraffiniwr coedwigaeth a pheiriant robocut gyda braenarwr. Profwyd technegau gwahanol ar gyfer chwynnu ar ôl plannu hefyd er mwyn eu cymharu, megis strimio a phwnio â llaw.</p> <p>Canlyniadau'r prosiectau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Er y cafwyd llai o ddata arbrofol oherwydd COVID-19, mae'r astudiaeth hon yn awgrymu nad yw braenaru tir rhedyn yn debygol o fod yn opsiwn addawol. Mae'n debyg mai llethr dros 50% yw'r terfyn diogel ar gyfer gweithio. Mae'r rhan fwyaf o dir sydd wedi'i orchuddio â rhedyn yn debygol o fod yn rhy serth i'r rhan fwyaf o offer. Byddai'n rhaid i'r lleiniau braenaru fod yn llydan er mwyn osgoi effaith tyfiant egniol y rhedyn cyfochrog. Aredig neu gylchdroi'r safle yn gyfan gwbl fyddai'r opsiwn mwyaf ymarferol a gallai hyn arwain at erydiad a phroblemau amgylcheddol eraill. Mae cyfradd sefydlu wael o blannu ar dir rhedyn trwchus (gan ddefnyddio ffyn a throellau) yn absenoldeb gwifrau torri neu sathru. Mae colledion cronol sylweddol yn parhau am o leiaf dair blynedd ar ôl plannu. Y criafol oedd y mwyaf gwydn o'r pedair rhywogaeth a ddewiswyd, tra bod bedw hefyd yn weddol wydn. Dylid ffafrio'r rhywogaethau hyn wrth blannu ar dir rhedyn anodd. Mae'r effaith gwthio a mygu a gaiff y rhedyn yn ymddangos yn fwy o broblem na'r cysgodi uniongyrchol. Nid yw coed a gaiff eu plannu ar dir rhedyn heb unrhyw gynhalydd yn debygol o oroesi. Dylai unrhyw gynhalydd sy'n helpu i atal y goeden rhag cael ei gwthio drosodd helpu i leihau marwolaethau. Dylai unrhyw ffyn a ddefnyddir fod yn gadarn iawn. <p>Mae effaith amseru strimio a/neu sathru ar orosiad coed yn bwnc ymchwil y byddai'n werth edrych arno yn y dyfodol.</p>
EIP25 - Dull wedi'i dargedu ar gyfer gwneud penderfyniadau	Ionawr 2022	<p>Yn y prosiect hwn, ymchwiliodd tri ffermwr yng ngogledd ddwyrain Cymru, a oedd yn godro cyfanswm o 1,700 o wartheg Holstein Friesian, i'r defnydd o brofion gwahaniaethol leukocyte llaeth (MLD) gan ddefnyddio Labordy Fferm Q Scout. Peiriant diagnostig cludadwy newydd wedi'i brofi'n wyddonol yw Q Scout, sy'n sganio samplau llaeth yn ficrosgopig. Mae'n rhoi cyfle i samplu a phrofi pob chwarter godro cyn sychu i bennu a oes ar chwarteri unigol angen therapi gwrthfotig i frwydro yn erbyn heintiad yn y deth, neu a allant gael eu sychu gan ddefnyddio seliwr teth mewnol yn unig. Mae canlyniadau'r profion ar gael yn gyflym iawn, sy'n</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
wrth reoli buchod sych dethol		<p>golygu bod gan reolwyr llaeth fynediad at ddata iechyd cyfredol y gadair, gan ganiatáu iddynt fod yn hyderus yn eu penderfyniadau ar gyfer pob buwch a phob chwarter godro unigol.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y dechnoleg newydd hon, gyda'i chanlyniadau cyflym iawn, yn rhoi hyder i'r ffermydd eu bod yn sychu eu buchod yn gywir. • Ni fyddai rhai o'r buchod a brofwyd wedi cael eu trin â gwrthfotigau pe bai ffermwyr yn dibynnu ar ddata cyfrif celloedd cofnod llaeth yn unig, gan olygu y byddent wedi lloia â mastitis. • Mae gan brofion MLD y potensial i helpu i leihau therapi gwrthfotigau sbectrum trwy dargedu'n unig y buchod hynny sydd â haint o fewn y deth â gwrthfotigau a'r rhai â chadair iach â seliwr yn unig. • O ganlyniad i leihau'r defnydd o wrthfotigau, llwyddodd y tair fferm i arbed cyfanswm o £7,133.80 yn ystod oes y prosiect ar sail cost gwrthfotigau cyfartalog o £2.49 y tiwb. <p>Nid yw MLA heb ei risgiau ac mae angen hyfforddiant cywir o ran gweinyddu'n lân, cadw cofnodion, a defnyddio technoleg newydd i sicrhau y gellir lleihau'r risgiau hyn.</p>
EIP26 - Datblygu ffordd newydd o fesur yn gyflym effeithiau triniaeth agronomegol ar dyfiant glaswellt	Mehefin 2022	<p>Mae mesur cnwd glaswellt yn cymryd llawer o amser ac yn llafurus am ei fod naill ai'n cynnwys mesuriadau lluosog gyda mesurydd plât codi neu gyfrif a phwyso trelars silwair.</p> <p>Mae astudiaethau diweddar wedi dangos y gellid defnyddio adlewyrchiad sbectrol cnydau glaswellt wedi'i fesur gan loeren i fesur cnwd glaswellt yn gywir. Mae'r dechneg hon yn cynnig dull llawer symlach a chyflymach o fesur cnwd glaswellt a fyddai'n galluogi ffermwyr i brofi effaith gwahanol driniaethau agronomegol er mwyn gwneud y gorau o'u hwsmonaeth glaswellt. Bellach mae hefyd modd defnyddio delweddau adlewyrchiad sbectrol wedi'u dal gan dronau i fesur twf glaswellt, a all gynhyrchu delweddau manylach, er bod hyn yn dibynnu ar weithredu â llaw.</p> <p>Daeth tri ffermwr llaeth yn Sir Fynwy at ei gilydd i ymchwilio i weld a oedd y dulliau newydd hyn o fesur glaswellt yn eu galluogi i fesur cnwd glaswellt yn ddibynadwy ac yn gyflym.</p> <p>Eu gobaith oedd y byddai'r dechnoleg yn caniatáu iddynt fesur effeithiau gwahanol driniaethau agronomegol (triniaethau gwrtaith, mathau o laswellt a'r defnydd o chwynladdwr ac ati) o bell ar eu caeau eu hunain.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dangosodd dadansoddiad o'r wybodaeth o'r drôn a thechnoleg lloeren y gallai ganfod gwahaniaethau sylweddol yn y triniaethau agronomegol a ddefnyddir ar y ffermydd yn ogystal â data na ellid ei gasglu gan fesuryddion plât. • Dangosodd y prosiect hefyd fod y drôn yn gallu canfod y gwahaniaethau lleiaf mewn triniaeth ar lefel dwy neu dair gwaith yn llai na'r lloeren a ddefnyddiwyd.

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
EIP27 - Defnyddio technoleg 'Rhyngwrwyd Pethau' i wella rheolaeth slyri ar ffermydd	Mawrth 2022	<ul style="list-style-type: none"> • Drwy'r prosiect hwn, nodwyd manteision ac anfanteision pob techneg mesur glaswellt, gan alluogi ffermwyr sy'n dymuno defnyddio'r dechnoleg newydd hon i benderfynu pa dechneg fyddai'n gweddu orau i'w system. <p>Gallai'r dulliau newydd hyn o bosibl ddarparu dull nad yw'n ddwys o ran llafur o fesur glaswellt yn gywir a all wella pa mor hyfyw a chystadleuol yw'r fferm.</p> <p>Nod y prosiect hwn oedd deall yn well pa rôl y mae technoleg Rhyngwrwyd Pethau yn ei chwarae wrth geisio helpu ffermwyr i reoli slyri. Mae cyflwr y pridd, lefel trwythiad, lefelau glawiad a thymheredd yr aer i gyd yn dylanwadu ar y tebygolrwydd o ddŵr ffo o gaeau. Pan fydd dŵr ffo o'r fath yn digwydd ar ôl gwasgaru slyri, gall wastraffu ffynhonnell werthfawr o faetholion a pheryglu llygru cyrsiau dŵr naturiol.</p> <p>Roedd y prosiect hwn yn profi ystod o synwryddion yng Ngholeg Glynllifon a dwy fferm laeth arall yng ngogledd orllewin Cymru, sef Hen Dŷ ger Caernarfon ac Erw Fawr ger Caergybi. Roedd y ffermwyr yn gobeithio y byddai cael gwybodaeth amser real am gyflwr y tir yn caniatáu iddynt wneud penderfyniadau cyflym a diogel am reoli slyri.</p> <p>Gosodwyd gwahanol synwryddion Rhyngwrwyd Pethau ar bob un o'r tair fferm:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Synwryddion trwythiad – i brofi a fyddai monitro lefel y trwythiad yn gywir yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ffermwyr ynghylch pryd mae'n addas i wasgaru slyri ar gae. 2. Synwryddion lleithder pridd – i brofi ansawdd y data a gynhyrchir yn erbyn nifer y synwryddion fesul cae a phatrwm eu gosod. 3. Mesurydd glaw – i alluogi ffermwyr i fonitro faint o law sy'n disgyn yn yr ardal. Byddai hyn yn cyfrannu at y penderfyniad cyffredinol ynghylch a yw'r amodau'n gywir ai peidio i wasgaru slyri. 4. Synwrydd lefel pwll slyri – Mae rheoli slyri yn dda yn cynnwys sicrhau bod digon o le storio diogel i'r slyri ar y fferm. Byddai'r data hwn yn rhoi gwybodaeth gywir i'r ffermwr am gapasiti storio. <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dyma'r prosiect cyntaf o'i fath yng Nghymru i werthuso'r defnydd o dechnoleg Rhyngwrwyd Pethau wrth reoli slyri. • Mae'r dechnoleg a dreialwyd yn gweithio ar gyfer casglu data ar amodau fferm, ac mae'r prosiect hwn wedi gosod y sylfeini ar gyfer technoleg Rhyngwrwyd Pethau i ddarparu gwell gwybodaeth wrth reoli ffynhonnell sy'n llawn maetholion er mwyn gwella ffermio a lleihau llygredd dŵr. • Roedd y data a ddarparwyd gan y synwryddion yn bwydo i mewn i ddangosfwrdd 'Pethau' (a ddatblygwyd ar wahân i'r prosiect), sydd wedi dangos potensial i helpu ffermwyr yn eu penderfyniadau ynghylch pa gaeau sy'n addas i wasgaru slyri arnynt. • Roedd y prosiect hefyd yn gwerthuso'r cyfle i Rhyngwrwyd Pethau gael ei ddefnyddio at ddibenion hunan-archwilio trwy gofnodi amodau amgylcheddol a rhagolygon tywydd ar gyfer ffermydd.

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
		Mae'r prosiect hwn o gymorth i wneud gwell penderfyniadau y tu hwnt i'r defnydd o slyri. Er enghraifft, gallai synhwyrdd tymheredd pridd gynorthwyo ffermwr i benderfynu ar yr adeg orau i wasgaru gwrtaith nitrogen ar ddechrau tymor newydd wrth ddefnyddio model T-SUM 200.
EIP28 - Targedu'r defnydd o foddion llyngyr mewn defaid	Mehefin 2022	<p>Mae ffermwyr yn gynyddol well am dargedu triniaethau moddion llyngyr i ŵyn er mwyn cyflawni cyfraddau twf da heb gyfaddawdu ar effeithiolrwydd y moddion. Fodd bynnag, mae triniaethau ar gyfer mamogiaid yn aml yn cael eu rhoi fel mater o drefn o amgylch wyna oherwydd y risg a achosir gan famogiaid o ran halogi porfeydd pori â beichiau llyngyr y gallent fod yn eu cario. Bu'r prosiect hwn yn ymchwilio i batrymau heintiadau ymhlith mamogiaid o gwmpas amser wyna, sy'n cael ei alw'n gynnydd ychydig cyn esgor (peri-parturient rise - PPR), er mwyn sicrhau bod triniaethau'n cael eu targedu ar yr amser gorau posibl a chyda'r cynnyrch mwyaf priodol.</p> <p>Bu chwe ffermwr defaid o ganolbarth a de-orllewin Cymru yn gweithio gyda'i gilydd ar y prosiect i ddatblygu cynlluniau trin llyngyr ar gyfer eu mamogiaid yn y cyfnod cyn ŵyna, ac yn fuan wedyn. Eu hamcanion ar gyfer y prosiect hwn oedd lleihau'r risg o heintiadau parasitig ymhlith mamogiaid ac ŵyn, gwella cyfraddau twf ŵyn, a lleihau eu dibyniaeth ar foddion llyngyr.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y PPR yn amrywio rhwng ffermydd o ran maint, amseriad a hyd. Felly mae angen i ffermwyr defaid fonitro eu diadell i weld beth yw'r patrwm ar eu fferm hwy er mwyn dewis yr amser mwyaf effeithiol i roi unrhyw driniaethau i famogiaid. • Roedd canlyniadau FEC mob a sentinel yn cydfynd yn dda ar y cyfan, sy'n cefnogi'r defnydd o FEC mob fel offeryn monitro (cyhyd â bod y samplau'n cael eu cymryd yn unol ag arferion gorau). • Yn y prosiect hwn, roedd y newid (gostyngiad) mewn BCS yn arwydd o gynnydd mewn FEC. • Mae dewis y mamogiaid sydd fwyaf tebygol o fod yn gyfrifol am gyfran uchel o'r halogiad ar y borfa (y rhai sydd ag allbwn wyau uchel) yn dibynnu ar allu dod o hyd i'r rhai sy'n colli BCS ar yr adeg pan fo'r ddiadell o dan bwysau maethol. <p>Nid yw dim ond defnyddio maint torllwyth ac amser penodol (e.e. adeg wyna) fel canllaw i ba famogiaid i'w trin a phryd yn ddigon cywir; dylid cynghori ffermwyr i fonitro lefelau FEC mewn mamogiaid yn y cyfnod cyn wyna, ac wedi hynny, yn ogystal â dilyn newidiadau BCS fel eu bod yn gallu penderfynu pryd yw'r amser iawn i drin.</p>
EIP29 - Gwella gwybodaeth a phrofiad o reoli plâu yn integredig ar ffrwythau meddal yng Nghymru i leihau'r defnydd o	Rhagfyr 2021	<p>Mae rheolaeth fiolegol yn golygu defnyddio ysglyfaethwyr naturiol, parasitiaid, bacteria, ac weithiau planhigion i reoli plâu a chwyn fel rhan o raglen integredig i reoli plâu, yn bennaf mewn tai gwydr a thwneli polythen. Mae wedi dod yn arfer safonol ar gyfer llawer o ffermydd garddwriaeth mawr sy'n cyflenwi archfarchnadoedd, ond nid yw'n arfer cyffredin eto i lawer o dyfwyr ffrwythau llai yng Nghymru.</p> <p>Mae gan nifer o dyfwyr ffrwythau ar raddfa fach ddi-ddordeb mewn defnyddio'r dull hwn i leihau eu defnydd o bladdwyr confensiynol a lleihau'r tebygolrwydd y bydd plâu yn datblygu ymwrthedd i'r pladdwyr hyn.</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
blaladdwyr a gwastraff		<p>Y prif rwystr i dyfwyr ar raddfa fach yw'r diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i adnabod plâu, pa reolaethau biolegol sydd ar gael, y ffordd orau i'w defnyddio, a sut i'w hintegreiddio i raglen bresennol o reoli plâu a chlefydau.</p> <p>Roedd y prosiect hwn yn treialu sefydlu gwahanol strategaethau i reoli plâu yn fiolegol o fewn twneli polythen ar ddwy fferm ffrwythau fasnachol yn ne orllewin Cymru.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gan weithio'n agos gyda'r arbenigwyr, datblygodd y tyfwyr raglen a oedd yn gweddu i'w systemau tyfu eu hunain a chawsant hyfforddiant ar adnabod plâu, dulliau monitro, ac opsiynau rheoli biolegol yn barhaus. • Mae gan reolaethau biolegol y fantais ychwanegol o gael eu rhoi ar waith yn gyflymach, sy'n golygu y gall triniaeth ddechrau'n gynt. • Gwnaeth y rheolaethau biolegol argraff ar y ddau dyfwr a byddant yn parhau i'w defnyddio yn y dyfodol i leihau eu defnydd o blaladdwyr. <p>Fel rhan o'r prosiect, cynhyrchwyd taflenni ffeithiau a chanllawiau i helpu tyfwyr eraill i ddefnyddio dull integredig i reoli plâu (IPM).</p>
EIP30 - Oes rhywbeth yn y dŵr? Adnabod a mynd i'r afael â Chryptosporidiwm mewn defaid	Mehefin 2022	<p>Mae Cryptosporidiwm yn cyfeirio at grŵp o barasitiaid sy'n heintio llwybrau gastroberfeddol nifer o rywogaethau, gan gynnwys gwartheg, defaid, geifr, moch, ieir, ceffylau a cheirw, ond gallant hefyd gael effaith ar iechyd pobl. Felly gall lleihau'r achosion o Cryptosporidiwm mewn da byw fod â mantais ddeublyg: gwella iechyd a chynhyrchiant anifeiliaid a halogi llai ar yr amgylchedd, gan arwain at leihad mewn risgiau iechyd dynol.</p> <p>Mae lefel isel o ddealltwriaeth ynghylch dyfalbarhad, llwybrau trosglwyddo, a dewisiadau rheoli Cryptosporidiwm mewn defaid.</p> <p>Roedd grŵp o saith o ffermwyr ym Mhowys wedi canfod Cryptosporidiwm mewn lloi ac ŵyn ar eu ffermydd a daethant at ei gilydd i weithio gyda'u milfeddygon, Moredun a Dŵr Cymru yn y prosiect hwn i gynyddu eu dealltwriaeth o lwybrau trosglwyddo Cryptosporidiwm ymhlith defaid a hefyd i nodi mesurau y gallent eu mabwysiadu i reoli'r clefyd yn eu diadelloedd.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canfuwyd Cryptosporidium yn y rhan fwyaf o gyrff dŵr sy'n mynd i mewn ac allan o bob un o'r saith fferm; fe'i canfuwyd hefyd mewn dŵr o ddau o'r tri twll turio a brofwyd. • Canfuwyd Cryptosporidiwm mewn ŵyn ar bob fferm ac eithrio un. Mae ŵyn yn mynd yn llai agored i afiechyd po hynaf y maent, ond nid yw anifeiliaid sydd wedi dod i gysylltiad â'r clefyd yn y gorffennol wedi'u hamddiffyn rhag cael eu heintio eto. • Gwnaeth y prosiect gynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth y ffermwyr am faterion Cryptosporidiwm ar ffermydd, ffynonellau heintio posibl, a mesurau ataliol y gellir eu defnyddio i leihau lledaeniad pathogenau, achosion ac effeithiau ar gynhyrchu. Roedd y mesurau hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> a. Glanhau adeiladau ag ager i ladd öosystau.

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
		<ul style="list-style-type: none"> b. Glanhau a diheintio siediau da byw yn aml; mae ymchwil wedi canfod mai diheintyddion 3% hydrogen perocsid a seiliedig ar hydrogen perocsid sydd fwyaf effeithiol o ran lleihau hyfywedd öosystau Cryptosporidiwm. Mae diheintyddion yn llai effeithiol wrth fynd i'r afael ag öosystau sydd mewn ysgarthion, ac felly cynghorir glanhau siediau'n drylwyr cyn diheintio. c. Gosod gwasarn o wellt yn aml. d. Rhoi anifeiliaid sy'n sgwrio mewn cwarantîn. e. Sicrhau bod ŵyn a lloi yn cael digon o glostrwm o ansawdd da yn gyflym.
EIP31 - Lleihau allyriadau amonia o gynhyrchu cywion ieir brwyliad	Rhagfyr 2021	<p>Roedd dau gynhyrchydd brwyliad masnachol sefydledig, gydag adeiladau modern a phrofiadau blynyddoedd lawer o gynhyrchu dofednod ar gyfer marchnad y Deyrnas Unedig, yn rhan o'r prosiect blwyddyn hwn a ymchwiliodd i weld a allai'r ychwanegion hyn leihau eu hallyriadau amonia.</p> <p>Profwyd tri ychwanegyn gwahanol oedd ar gael yn fasnachol i leihau amonia ar bob fferm. Ar y ddwy fferm, defnyddiwyd un cwt ar gyfer y treial a'r llall fel elfen reoli. Profwyd pob cynnyrch am un cylch cyflawn haid o frwyliad (2 fis), a chofnodwyd y newidynnau canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. lefelau amonia yn y cytiau 2. tymheredd yn y cytiau 3. cyflwr gwadn y droed, gar a sgôr cerddediad 4. cyflwr y plu 5. cyflwr y gwasarn 6. pwysau byw cymedrig yr adar 7. cyfradd marwolaethau'r haid 8. cymeriant porthiant. <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd allyriadau amonia mewn gwirionedd ychydig yn is yn y cytiau rheoli nag yn y rhai â chynhyrchion wedi'u hychwanegu. Unwaith eto, roedd y gwahaniaethau'n fach iawn, sef tua 3% yn unig. Oherwydd maint bach y sampl, mae'n amhosibl gwybod yn sicr a oedd y gwahaniaethau a welwyd o ganlyniad i siawns neu'n cynrychioli effeithiau go iawn yr ychwanegion. • Roedd pwysau byw cyfartalog y cytiau â chynnyrch ychydig yn is nag yn y cytiau rheoli, er bod yr oedran cyfartalog wrth brosesu ychydig yn uwch. Fodd bynnag, ymylol yw'r gwahaniaethau eto. • Mae gan y defnydd o ychwanegion y potensial i arwain at fwy o ddeunydd gwasarn sych mewn cytiau dofednod o gymharu â'r rhai nad ydynt yn derbyn unrhyw ychwanegion. Os yw'r gwahaniaeth hwn yn wir, yna byddai'r defnydd o gynhyrchion yn gyson â'r nod o gadw'r gwasarn mor sych â phosibl. <p>Amlygodd y prosiect rai anawsterau posibl wrth gyfrifo ffactorau allyriadau amonia mewn lleoliadau masnachol, ac efallai y bydd angen astudiaethau pellach i ddatrys materion methodoleg ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
EIP32 - Datblygu glasbrint ar gyfer rheoli twymyn gataraidd falaen (MCF) mewn buail, byfflo, a gwartheg yng Nghymru	Chwefror 2023	<p>Yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn ehangach, mae rhai cynhyrchwyr wedi canfod marchnad sy'n barod ar gyfer cig buail, gan ei fod yn gig coch iachach na chynhyrchion cig eidion traddodiadol, gan ei fod yn cynnwys llai o fraster, colesterol a sodiwm. Mae prisiau pwysau marw ar gyfer buail hefyd tua dwywaith yn uwch na'r rhai ar gyfer gwartheg eidion.</p> <p>Fodd bynnag, mae buail yn heriol, nid yn unig oherwydd eu natur a'u sensitifrwydd i straen, ond hefyd oherwydd eu bod yn fwy agored i'r dwymyn gataraidd falaen (MCF), a ystyrir yn glefyd sy'n cyfyngu ar y siawns o gynhyrchu'n llwyddiannus.</p> <p>Yn y Deyrnas Unedig, mae MCF yn cael ei achosi gan y firws OvHV-2, a gall effeithio ar lawer o rywogaethau gan gynnwys gwartheg, buail, byfflos dŵr, ceirw ac iacod. Ystyrir mai defaid yw'r brif gronfa letyol, ond mewn buail gall yr haint arwain at farwolaeth sydyn am fod yr haint yn datblygu'n gyflym.</p> <p>Roedd y prosiect hwn yn cynnwys dwy fferm, sef Ystâd Rhug yng Nghorwen, sydd â buches o fugail, a Buffalo Dairy yn Llanon, a ymchwiliodd i gamau posibl y gall ffermwyr eu cymryd i reoli MCF – rhywbeth sy'n ddiffygiol ar hyn o bryd yn y sector arbenigol hwn.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymerwyd samplau gwaed y buail/byfflos/gwartheg/defaid ar bob fferm i brofi a oeddent, ar y pryd, wedi bod yn agored i OvHV-2; y nod yn hyn o beth oedd cynyddu'r ddealltwriaeth o'r risg yr oedd OvHV-2 yn ei beri i fuail, byfflos, a gwartheg mewn cysylltiad. • Dadansoddwyd proffil clefyd pob buches yn seiliedig ar yr holl ddata oedd ar gael, a datblygwyd strategaeth reoli - wedi'i theilwra i bob fferm - yn sgil hynny. • Ar gyfer Ystâd Rhug, yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod iechyd cyffredinol y buail wedi gwella, fel y dangoswyd gan y gwelliannau gweledol a'r gwelliannau mesuradwy yng nghyflwr y corff. • Yn achos Buffalo Dairy, ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau iechyd arwyddocaol yn ystod y cyfnod monitro, a dywedwyd hefyd bod y cynhyrchiant yn dda. • Mae straen ar yr anifeiliaid oherwydd eu trafod yn parhau i fod yn ffactor anodd ei reoli o ran eu tueddiad i gael glefydau fel MCF. Mae cyfuno digwyddiadau angenrheidiol, e.e. rheoli parasitiaid, ychwanegion elfennau hybrin a phroffion statudol i leihau eu trafod ymhellach, yn hanfodol o ran lleihau nifer y digwyddiadau straen y mae'r buail yn eu profi. <p>Roedd y brechlyn MCF a ddefnyddiwyd yn Ystâd Rhug yn yr astudiaeth hon yn arbrofol ac nid yw ar gael i'w ddefnyddio ar ffermydd eraill ar hyn o bryd. Ni chanfuwyd unrhyw ddigwyddiadau niweidiol yn gysylltiedig â brechlyn ac roedd yn ymddangos bod y buail yn glinigol dda o ganlyniad i'r brechlyn. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl dweud o ganlyniadau'r prosiect hwn a wnaeth y brechlyn atal haint neu afiechyd yn y buail.</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
EIP33 - Gwella gwybodaeth a phrofiad o reoli microfaetholion wrth gynhyrchu pompiynau yng Nghymru	Ionawr 2022	<p>Mae pompiynau yn cynnwys nifer o gnydau pwysig, fel corbwmpen, maro, pwmpen a sgwosh. Mae'r cnydau hyn yn wydn a gellir eu tyfu mewn amryw amodau ar y maes, yn ogystal â gallu cynnig mwy o amrywiaeth i fusnesau siop fferm. Fel cnydau maes, gellir integreiddio pompiynau hefyd i system gnydu cymysg neu gallant gynnig ffordd hygyrch i ffermydd â'r arallgyfeirio cnydau. Mae'n bosibl y gall pwmpenni gynnig enillion gwerth uchel ar gyfer marchnadoedd lleol casglu-eich-hun adeg Calan Gaeaf, er bod pwmpenni wedi tyfu'n barhaus fel cnwd bwytdwy gyda nifer o fathau bwyta amlwg bellach ar gael i dyfwyr.</p> <p>Problem gyffredin o fewn y grŵp hwn o gnydau yw datblygiad pydredd, e.e. pydredd ar ben y blodyn (BER), a all olygu nad yw'r ffrwythau'n addas i'r farchnad. Gall BER arwain at golledion cnydau sylweddol ac mae'n un o'r prif ffynonellau gwastraff yn y sector hwn. Mae ystod gyfyngedig o gynhyrchion diogelu planhigion ffwngaidd ar gael, ond gan mai ffwngleiddiadau generig yw'r rhain, gall eu defnyddio mewn maes agored fod yn anaddas.</p> <p>Bu dwy uned arddwriaethol ar raddfa gymharol fach yn Aberhonddu, sy'n aelodau o rwydwaith Tyfu Cymru, yn cydweithio yn ystod y prosiect dwy flynedd hwn i gael mwy o wybodaeth ynghylch a all bwydo calsiwm a boron i'r dail leihau nifer yr achosion o BER yn eu cnydau pwmpenni.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae dyfodiad amrywiol symptomau BER, ac anawsterau wrth gyflawni brechiad effeithiol yn y labordy, wedi effeithio ar allu'r prosiect hwn i ddod i gasgliadau clir. • Mae'r canlyniadau'n awgrymu y gall defnyddio bwydo calsiwm i'r dail fod yn fuddiol i leihau nifer yr achosion o bydredd ar y maes, yn ogystal â datblygiad pydredd unwaith y byddant wedi sefydlu. • Ni ddylai tyfwyr dybio bod yr holl gynhyrchion i fwydo calsiwm i'r dail yn cyfateb i'w gilydd, a dylent seilio eu dewis o gynnyrch ar yr holl wybodaeth sydd ar gael yn hytrach nag ar gynnwys calsiwm pur yn unig. <p>Mae chwistrellau i roi maetholion i'r dail yn effeithiol o ran mynd i'r afael yn uniongyrchol â diffygion penodol yn y cnwd ond maent yn parhau i fod yn eilradd, i bob pwrpas, o ran rheoli maetholion y pridd.</p>
EIP34 - Effaith gwyndynnydd llysiuol ar iechyd a pherfformiad ŵyn sy'n pori	Mawrth 2023	<p>Mae gwyndynnydd llysiuol, a elwir hefyd yn borfeydd aml-rywogaeth, yn cael eu nodweddu gan gyfuniad o weiriau, codlysiu a pherlysiu. Mewn systemau pori, mae cynyddu bioamrywiaeth y borfa yn un strategaeth bosibl a allai leihau'r ddibyniaeth ar foddion llyngyr cemegol, am fod codlysiu a pherlysiu'n gyfoethog o ran cyfansoddion a allai gynnwys priodweddau gwrth-lyngyr. Credir y gallai gwyndynnydd llysiuol helpu i:</p> <ol style="list-style-type: none"> Lleihau beichiau llyngyr mewn ŵyn sy'n pori Cynnal/gwella cynnydd pwysau byw Lleihau'r angen am fewnbwn gwrtaith.

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
		<p>Nod y prosiect hwn, a oedd yn cynnwys tri ffermwr o Geredigion a Sir Gaerfyrddin, oedd asesu effaith defnyddio gwyndwn llysieuol o gymharu â gwyndwn rhygwellt a meillion mwy confensiynol; yn wir, archwiliwyd ei effaith ar gynydd pwysau byw dyddiol a beichiau llyngyr ŵyn sy'n tyfu.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ar gyfartaledd, bu gostyngiad o 35% yn y baich llyngyr yn yr ŵyn ar y borfa lysieuol o gymharu â'r lleiniau confensiynol. • Roedd y borfa a dyfwyd gan y gwyndynnydd llysieuol yn gymharol â'r borfa gonfensiynol o ran cnwd deunydd sych cyffredinol, ac roedd y gwyndynnydd llysieuol yn ymateb yn well mewn amodau sych. • Roedd enillion pwysau byw dyddiol yr ŵyn ar y plotiau llysieuol a chonfensiynol yn debyg. Roedd gan yr ŵyn ar y borfa lysieuol gyfraddau twf uwch yn 2022, mae'n debyg am i'r gwyndynnydd llysieuol ymdopi'n well â'r sychder na'r gwyndynnydd confensiynol. • Ar gyfartaledd, roedd gan y borfa lysieuol gynnwys siwgr uwch na'r borfa gonfensiynol. • Ni wnaeth y borfa lysieuol ddihysbyddu'r pridd o galsiwm gymaint ag y gwnaeth y borfa gonfensiynol. <p>Wrth ddefnyddio porfa lysieuol, byddai'n fuddiol cael cylchdro pori 30+ diwrnod, gan fod y cylchdro 27/28 diwrnod yr oedd y prosiect yn gweithio arno i'w weld yn effeithio ar boblogaeth y planhigion erbyn blwyddyn 3, o ran gostyngiad yn y boblogaeth lysieuol.</p>
EIP35 - Gwella iechyd y gadair i wella perfformiad y fuches trwy brofion deinamig	Ionawr 2022	<p>Mae profi'r gwaith godro'n ddeinamig yn fath o astudiaeth amser a symudiad, lle mae holl elfennau'r broses odro (o'r peiriant godro i'r drefn odro ac unrhyw effaith ar dethau'r fuwch) yn cael eu hystyried. Y gwahaniaeth rhwng profion deinamig a chynnal a chadw arferol a wneir gan weithgynhyrchwyr/ffermwyr yw bod y cyntaf yn profi'r parlwr pan fydd dan bwysau o gael ei ddefnyddio. Gall profion deinamig hefyd ymgorffori materion mecanyddol a materion hwsmonaeth, sydd oll yn cyfrannu at wella iechyd y pwrs.</p> <p>Gwnaeth pedwar ffermwr llaeth yn Sir Gaerfyrddin, gyda maint buches cyfartalog o 260, gymryd rhan yn y prosiect hwn i ganfod a allai profion deinamig wella iechyd y gadair o ran lleihau nifer y celloedd somatig, mastitis clinigol a lefelau bactosgan.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canfuwyd mai gor-odro oedd un o'r prif fecanweithiau o ddifrod i ben y deth, sydd yn ei dro yn un o'r nifer o rwystrau sy'n amddiffyn y gadair rhag haint tethol. • Ar ôl i'r mater gael ei nodi, bu modd gwneud newidiadau ar y ffermydd i unioni hyn, a chafwyd gostyngiad o 21% mewn gor-odro ar gyfartaledd ar draws y pedair fferm. • Yn dilyn profion deinamig, gostyngodd cyfrif celloedd somatig tanciau swmp (BTSCC) cyfartalog gan 3.86 x1,000/ml. <p>Gall profion deinamig yn y parlwr godro arwain at newidiadau yn y peiriant godro ac yn y drefn odro, sydd yn ei dro yn arwain at newid cadarnhaol o ran perfformiad iechyd y gadair.</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
EIP36 - Defnyddio ffilmau ffotodetholus i wella proffidioldeb cynhyrchu salad deiliog yng Nghymru	Mehedin 2022	<p>Prin yw'r nifer sy'n dewis defnyddio ffilmau ffotodetholus yn gymuned o dyfwyr graddfa fach, a gellir esbonio hyn gan y diffyg gwybodaeth am y ffilmau a nodwyd. Fodd bynnag, gallai fod iddynt botensial mawr. Yn y prosiect hwn, rhoddodd dwy uned arddwriaeth ar raddfa fach yn Ynys Môn a Sir y Fflint gynnig ar wahanol fathau o blastigau sy'n addasu golau o dan amodau tyfu arferol.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dangosodd y prosiect fod yna fantais i dyfu gwarchoddedig o'i gymharu â thyfu ar dir moel. Ar ddechrau treial 2022, roedd triniaethau plastig wedi cynyddu cynnyrch cnydau o gymharu â thyfu ar dir moel, a gynhyrchodd lai o gynnyrch. • Drwy ddefnyddio plastigau sy'n addasu golau, dangoswyd yn y treial hwn bod trin amlygiad i olau, yn benodol wrth ddefnyddio plastig sy'n rhwystro UV, yn cynyddu pwysau pen y Lollo Rosso yn ogystal â chynyddu'r cynnyrch cyffredinol. • Gallai'r gallu i wella amodau tyfu'r cnydau, ac o bosibl lleihau lledaeniad plâu a chlefydau, gynnig ffordd ynni isel, heb gemegau, i dyfwyr wella perfformiad y cnwd. Gallai hefyd wella rheolaeth dŵr a lleihau'r angen i ddyfrhau trwy reoli faint o ddŵr sy'n cael ei golli o blanhigion a phridd yn ystod cyfnodau poeth, sych. <p>Gall plastigau fod yn arbennig o fuddiol ar gyfer lluosogi a chodi planhigion yn gynnar, yn benodol ar gyfer cnydau maes fel pwmpenni, y gellir eu hau yn gynnar o dan blastig cyn eu plannu allan.</p>
EIP37 - Gwella ffrwythlondeb a hefyd cyfraddau lloia buchesi godro yn ne-orllewin Cymru trwy ddull o ddiagnosis beichiogrwydd cynnar gan ddefnyddio protein B beichiogrwydd-benodol (PSPB)	Tachwedd 2021	<p>Yn y prosiect hwn, ymchwiliodd pedwar ffermwr llaeth yn Sir Gaerfyrddin, gyda chyfanswm o tua 1,700 o wartheg, i weld a ellir defnyddio PSPB fel dangosydd cynnar o feichiogrwydd mewn buchod godro, o fewn 30 a 120 diwrnod ar ôl eu gwasanaethu.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae manteision ac anfanteision i'r ddau dull o ddiagnosis beichiogrwydd. Mae PSPB yn caniatáu i ffermwr hyfforddedig gasglu'r samplau ar unrhyw adeg sy'n addas i'w hamserlen nhw, ac amserlen eu buchod. Gellir ei roi ar waith fel rhan o'r dasg reoli wythnosol, yn debyg i docio traed, gan felly leihau'r tarfu ar drefn yr anifeiliaid. Ar ôl i ganlyniadau PSPB ddychwelyd o'r labordy, gellir cyflwyno'r rhai a brofodd yn negatiff i'r milfeddyg. Yna gall y milfeddyg ganfod pam nad yw'n gallu beichiogi a rhoi triniaethau priodol. <p>O ran yr anfanteision, mae casglu sampl gwaed yn dod o dan gylch gorchwyl y Ddeddf Milfeddygon. Felly, rhaid i'r person sy'n cymryd y samplau hynny gael ei hyfforddi yn y weithdrefn gan ei filfeddyg ei hun. Yn ail, er bod PSPB yn rhagweld canlyniad beichiogrwydd yn gymharol gywir, ni all ganfod hyd y beichiogrwydd (ac felly mae'n gweithio orau pan fo'r dyddiad gwasanaethu yn hysbys) na'r gyfradd gefeillio, ac ni ellir ei ddefnyddio i bennu'r rhyw.</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
EIP38 - Sudd bedw	Mehefin 2022	<p>Mae Ystadegau Coedwigaeth ar gyfer 2019 yn nodi mai bedw yw'r drydedd rhywogaeth o goed llydanddail mwyaf cyffredin yng Nghymru, gan gwmpasu amcangyfrif o 2,000ha o Ystad Goedwigaeth Llywodraeth Cymru (CNC) ac 11,000ha o dir preifat.</p> <p>Gan nad yw llawer o goed bedw a geir ar ffermydd wedi'u bwriadu ar gyfer pren, mae'n bosibl eu bod ar gael fel ffynhonnell o gynhyrchion eraill nad ydynt yn bren, megis sudd bedw. Mae surop bedw yn cael ei gynhyrchu'n bennaf yng Ngogledd America a gall werthu hyd at bum gwaith pris surop masarn.</p> <p>Un rhwystr allweddol ar gyfer cynaeafu sudd bedw masnachol yw ei oes silff fer: dim ond 24 awr ar 5°C. Mae angen cadw'r sudd sydd wedi'i gasglu'n ffres ar unwaith a'i storio ar y fferm cyn ei gludo i gegin fasnachol lle caiff ei wneud yn surop.</p> <p>Cynhaliwyd y prosiect dwy flynedd hwn ar bedwar safle yng Nghymru. Roedd yn canolbwyntio ar dri dull cadw gwahanol, gan ddadansoddi pa un sydd fwyaf effeithiol o ran troi sudd bedw yn ddwysfwyd ar wahanol raddfeydd cynhyrchu. At ei gilydd, tapiwyd 70 o goed bedw dros ddau dymor, gan gynhyrchu cyfanswm o 2,000 litr o sudd.</p> <p>Y dulliau cadw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Stof bren awyr agored - Mae'r sudd yn cael ei ferwi i lawr mewn sosbenni anweddu dros stôf gartref wedi'i hadeiladu o frisblociau a phibell. • Osmosis gwrthdro - Mae'r sudd yn cael ei wthio trwy bympiau gwactod a hidlwyr osmosis micro-fandylllog, sy'n dod â'r sudd i lawr i grynodiad siwgr o tua 6 Brix. • Wrn - Gellir defnyddio wrn trydan wedi'i reoli gan thermostat i ferwi neu fudferwi'r sudd. <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r tair system yn gweithio, ac mae i bob un ei chostau a'i manteision. Roedd y system optimaidd yn cynnwys trosglwyddo sudd ffres trwy osmosis gwrthdro ac yna ei anweddu naill ai mewn stôf goed neu wrn i grynodiad siwgr o ddim mwy na 38 Brix. Yna dylid trosglwyddo'r dwysfwyd i gegin fasnachol i'w orffen a'i botelu. <p>Yn ogystal â threialon cadw'r sudd, ymchwiliodd y prosiect hefyd i ddulliau tapio priodol i sicrhau bod camau i gynaeafu sudd bedw yn gynaliadwy. Roedd y clwyfau ar ôl tapio yn gwella'n dda, wrth i'r clwyf allanol gau ar ôl 18 mis. Nid yw'n syndod mai coed mwy, iach, sy'n tyfu'n gyflym, a roddodd y cnwd gorau ac a oedd â'u clwyfau'n gwella gyflymaf ar ôl eu tapio.</p>
EIP39 - Ffermio Carbon Niwtral: Asesu cyfleoedd a heriau	Rhagfyr 2022	<p>Ffocws y prosiect hwn oedd asesu'r cyfleoedd a'r heriau i'r sector amaethyddol o ran cyrraedd y targed carbon sero net.</p> <p>Bydd sero net yn cael ei gyflawni ar ffermydd pan fydd allyriadau nwyon tŷ gwydr ar y fferm yn gyfwerth â'r carbon sy'n cael ei atafaelu ar y fferm.</p> <p>Gan weithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor a Forest Research, nod chwe fferm o ardal Aberhonddu, yn cynrychioli amrywiaeth o systemau, gan gynnwys llaeth, cig eidion a chig oen, oedd mynd i'r afael â'r canlynol:</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
		<p>1. deall beth mae sero net yn ei olygu i ffermwyr yng Nghymru.</p> <p>2. asesu'r allyriadau carbon sylfaenol ar gyfer y ffermydd sy'n cymryd rhan, yn unol â pha gamau y gellir eu cymryd a'u mesur.</p> <p>3. gwella tystiolaeth i ddangos sut y gall camau a gymerir ar ffermydd helpu'r diwydiant i symud tuag at sero net.</p> <p>4. allbynnau'r fferm: llaeth, cig eidion, cig oen, cnydau ac ati.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r prosiect hwn yn amlygu pwysigrwydd mesur ôl troed carbon i helpu i nodi beth sy'n cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gydbwysedd carbon fferm gan hefyd alluogi ffermwyr i fonitro newidiadau i'w hól troed carbon dros amser. • Daeth y rhan fwyaf o allyriadau nwyon tŷ gwydr y ffermydd o dda byw (methan) ac ocsid nitraidd o briddoedd, tra bod allyriadau o fewnbynnau (e.e. tanwydd, porthiant a gwrtait) yn gymharol isel. Mae'r allyriadau hyn yn anodd eu lleihau, ac felly ni fydd yn bosibl cyflawni sero net drwy enillion effeithlonrwydd yn unig. • Yn gyffredinol, gwnaeth atafaelu gyfraniad ystyrion at leihau'r sefyllfa allyriadau net, sy'n cyfateb, ar gyfartaledd, i 28% o gyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr. Bydd cynyddu gorchudd coed ar ffermydd yn chwarae rhan bwysig wrth gynyddu atafaeliad a symud tuag at sero net. <p>Mae yna gyfle unigryw mewn amaethyddiaeth oherwydd gall tir fel adnodd gael gwared ar garbon deuocsid atmosfferig trwy atafaelu i fiomas coediog ac i briddoedd o dan gnydau a glaswellt. Mae'n bwysig bod yn realistig ynghylch beth yw'r potensial hwnnw a deall sut y gellir mabwysiadu a chynnal arferion atafaelu mewn systemau fferm.</p>
EIP40 - Mabwysiadu rhwydweithiau synwryddion 'Rhyngwyd Pethau' ar y fferm yn gynnar i rybuddio a hysbysu ffermwyr i wella diogelwch y fferm	Mehefin 2022	<p>Cymerodd pum fferm ran yn y prosiect hwn i werthuso galluoedd ystod o synwryddion LoRaWAN (<i>long range area wide network</i>) i rybuddio a hysbysu ffermwyr gyda'r nod o wella diogelwch y fferm.</p> <p>Yn ystod y prosiect, defnyddiwyd amrywiaeth o synwryddion LoRaWAN i fonitro lleoliad asedau fferm gwerthfawr, sy'n darged cyffredin i ladron. Yn y dyfodol, gallai technoleg 5G ddisodli LoRaWAN.</p> <p>Roedd modd i'r wybodaeth amser real a gasglwyd gan y synwryddion rybuddio'r ffermwyr am ddigwyddiad yn ymwneud ag asedau allweddol, gan ganiatáu iddynt hysbysu'r heddlu yn gynt gan roi gwybodaeth o ansawdd uwch.</p> <p>Roedd systemau monitro yn darparu dystiolaeth wedi'i logio i ddangos pryd y sbardunwyd y synwrydd, gyda'r bwriad o helpu'r heddlu i ganolbwyntio eu hadnoddau ar gyfnod penodol o amser a helpu i olrhain asedau sydd wedi'u dwyn yn gyflym.</p> <p>Y meysydd blaenoriaeth a nodwyd gan bartneriaid y prosiect, Heddlu Gogledd Cymru, oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dwyn beiciau cwad • Monitro statws agor/cau amryw fathau o seilwaith ar y fferm • Olrhain offer fferm gwerthfawr.

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
EIP41 - Cloffni mewn Gwartheg Godro: Archwilio effeithiau gwahanol ddulliau o drosglwyddo gwybodaeth ar newid ymddygiad cynhyrchwyr llaeth a'r effaith ddilynol ar nifer yr achosion o gloffni yn eu buchesi	Chwefror 2023	<p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwnaeth y prosiect annog cydweithrediad pellach rhwng y gymuned ffermio, Heddlu Gogledd Cymru, ac arbenigwyr technoleg i ddod o hyd i atebion i broblemau cyffredin a chreu ffyrdd doethach o weithio. Bydd y wybodaeth a gasglwyd yn ystod y prosiect hwn yn helpu i ddatblygu diwydiant ffermio yng Nghymru sy'n addas at y diben ar gyfer byd y dyfodol. <p>Gallai hyn hefyd gynyddu nifer y swyddi sydd ar gael o fewn y sectorau technoleg amaethyddol ac annog y rhai sydd â dawn entrepreneuriaidd i fentro i'r farchnad hon i greu atebion pellach ar gyfer problemau amaethyddol presennol.</p> <p>Cloffni yw un o'r clefydau mwyaf cyffredin yn y diwydiant gwartheg godro, ac mae'n effeithio'n aruthrol ar gynhyrchiant, lles ac economeg anifeiliaid.</p> <p>Nod y prosiect dwy flynedd hwn, a ariannwyd gan EIP Cymru, oedd archwilio gwahanol ddulliau o ymgysylltu â ffermwyr i reoli cloffni.</p> <p>Gwnaeth cyfanswm o 24 o ffermwyr llaeth o bob rhan o dde ddwyrain Cymru gymryd rhan yn y prosiect dwy flynedd hwn, a oedd â'r nod o ddarganfod y dull gorau o ymgysylltu â ffermwyr i reoli cloffni.</p> <p>Rhannwyd y ffermwyr yn bedwar grŵp:</p> <ol style="list-style-type: none"> Rheoli. Dim ymyriad wedi'i gynllunio oni bai bod angen oherwydd pryder am les o ganlyniad i lefelau cloffni. Cyngor un-i-un gan y milfeddyg. Derbyniodd y ffermwyr gyngor uniongyrchol wedi'i dargedu trwy weithredu rhaglen Healthy Feet Lite (HFLite) AHDB gyda'u milfeddyg hyfforddedig eu hunain (Mentor Symudedd). Dysgu gan gymheiriaid. Ni dderbyniodd ffermwyr unrhyw gyngor arbenigol ond buont yn rhannu gwybodaeth a syniadau drwy Grŵp Gweithredu dan Arweiniad Ffermwyr (FLAG) wedi'i hwyluso, gyda phob fferm yn cynnal dau gyfarfod yn ystod y prosiect. Cyfuniad o gyngor un-i-un a dysgu gan gymheiriaid. Derbyniodd ffermwyr yr HFLite gyda'u milfeddyg eu hunain a chymorth cymheiriaid trwy FLAG. <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn gyffredinol, gwelodd ffermwyr yn y Grwpiau Ymyriad (2, 3 a 4) leihad mewn cloffni o 9% ar gyfartaledd, o gymharu ag 1% ar gyfer y Grŵp Rheoli. Ar gyfartaledd, gwnaeth ffermydd yn y Grwpiau Ymyriad wneud mwy o newidiadau mewn perthynas â chloffni, a gwelsant hefyd ostyngiad mwy mewn cloffni a gostyngiad mwy mewn costau sy'n gysylltiedig â chloffni o gymharu â ffermydd yn y Grŵp Rheoli.

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
		<ul style="list-style-type: none"> O ran faint o werth yr oedd ffermwyr yn ei roi ar y cyngor a dderbyniwyd, rhoddodd ffermwyr werth uwch ar y FLAG o gymharu â'r HFLite. Roedd y rhesymau am hyn yn cynnwys gwerth dysgu atebion ymarferol gan ffermwyr eraill, gallu ymweld â ffermydd eraill i ddysgu o'u llwyddiant, ac amllder y cyfarfodydd, a oedd yn golygu bod ffocws parhaus ar gloffni. <p>Er bod ystod eang o newidiadau wedi'u rhoi ar waith ar draws y ffermydd, dywedodd y mwyafrif o ffermwyr mai'r dylanwad cadarnhaol unigol mwyaf ar eu gallu i wella cloffni oedd newid i beiriant tocio traed mwy medrus.</p>
EIP42 - Cyfleoedd i arallgyfeirio i farchnadoedd newydd a gwella gwytnwch ffermydd drwy gynhyrchu llysiâu egsotig a blodau bwydadwy yng Nghymru	Mehefin 2022	<p>Bu micro saladau, llysiâu anghyffredin a blodau bwydadwy yn boblogaidd iawn mewn bwytai crand ers blynyddoedd lawer. Mae'r galw am fwydydd newydd ac egsotig o bob rhan o'r byd bellach yn fwy cyffredin nag erioed o'r blaen. Mae hwn yn gyfle cryf i dyfwyr yng Nghymru sy'n ceisio amrywio'r hyn a gynigir ganddynt a chynyddu cynhyrchiant. Er bod y cnydau arbenigol hyn wedi'u tyfu'n llwyddiannus mewn gwahanol wledydd, nid oes cyngor agronomegol ar gael sy'n benodol i hinsawdd Cymru.</p> <p>Roedd y prosiect dwy flynedd hwn yn rhedeg ar ddwy uned garddwriaeth fasnachol yng ngogledd Cymru gyda'r nod o:</p> <ol style="list-style-type: none"> Ennill profiad ymarferol o dyfu blodau bwydadwy a llysiâu egsotig, wedi'i ategu gan dystiolaeth dechnegol ar gyfer arferion gorau amaethu yng Nghymru i wneud y mwyaf o botensial cynhyrchu. Datblygu sylfaen dystiolaeth i gefnogi tyfwyr sy'n ceisio tyfu mathau newydd o gnydau ar eu daliadau, gan gynnwys pecynnau cymorth ar gyfer cynhyrchion newydd gyda chylchwrdd agronomegol a marchnata. <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dangosodd canfyddiadau allweddol y prosiect y gellid addasu'r cnydau hyn i'w cynhyrchu yng Nghymru, gyda natur arbenigol y cnydau o bosibl yn cael ei gwrthbwyso gan y gwerth ychwanegol y gall y cnydau arloesol ei ddarparu. Dangosodd y prosiect hwn y gellir addasu'r cnydau egsotig newydd hyn i'w cynhyrchu yng Nghymru, gan alluogi'r tyfwyr i ddarparu cnydau egsotig newydd i'w cwsmeriaid, tra'n arallgyfeirio eu harlwy. <p>Roedd casgliadau ychwanegol yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu gofod marchnata i'r planhigion egsotig, oherwydd efallai y bydd angen i rai tyfwyr gynorthwyo eu cwsmeriaid i sicrhau'r defnydd gorau o'r cynhyrchion oherwydd newydd-deb presennol y cnydau. Gallai hyn gynnwys cardiau ryseitiau, postiadau yn y cyfryngau cymdeithasol, neu hyrwyddo trwy sianeli marchnata.</p>
EIP43 - Menter Adar ar Dir Fferm Cymru: Bwydo adar tir fferm dros y gaeaf er mwyn gwyrddio dirywiad ar diroedd fferm	Mawrth 2023	<p>Cynhaliwyd y prosiect ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt ar ddwy fferm, gyda'r nod o ymchwilio i weld a all darparu cynefin dros y gaeaf a bwyd atodol dros y gaeaf helpu i hybu niferoedd adar ar dir fferm.</p> <p>Dewiswyd y ddwy fferm sy'n rhan o'r prosiect – Fferm Tŷ Newydd, fferm laeth organig yn Nhrefnant, Sir Ddinbych, a Fferm Gilar, fferm fynydd ddefaid ac eidion ger Pentrefoelas – i gynrychioli'r mathau o ffermydd sydd i'w cael ledled Cymru.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
cynhyrchiol sy'n seiliedig ar y borfa		<ul style="list-style-type: none"> Tyfwyd cyfanswm cyfunol o 5.5ha o gnydau gorchudd cymysgedd sy'n addas i adar gwyllt ar draws y ddau ddaliad a llenwyd bwcedi bwydo atodol â hadau wedi'u gosod ger y cnydau i ddarparu digon o fwyd yn ystod y 'bwllch newynog' fel y'i gelwir rhwng mis Rhagfyr a mis Ebrill, pan fo'r hadau yn y cnwd gorchudd wedi eu bwyta. Heidiodd y ji-binc, bras y gors, y llinos werdd, a'r llinos – rhywogaeth sydd ar y rhestr goch o Adar o Bryder Cadwraethol – i'r ffermydd ar ôl i gnydau gorchudd sy'n dwyn hadau gael eu tyfu, ynghyd â gorsafoedd bwydo a oedd yn darparu hadau atodol. Gwnaeth y cyfuniad o fesurau cadwraeth gynyddu dwysedd yr adar ar y ddwy fferm; 4.4 gwaith ar fferm yr iseldir a 6.3 gwaith ar fferm yr ucheldir yn y gaeaf, a 1.4 gwaith ar fferm yr iseldir ac 1.7 gwaith ar fferm yr ucheldir yn ystod y tymor magu. <p>Yn ogystal, drwy'r prosiect gwelwyd cynnydd, o dair gwaith, yn nifer y glöynnod byw fel dangosyddion ar gyfer peillwyr yn yr ardaloedd o gnydau gorchudd, a chynnydd o 1.3 gwaith yn amrywiaeth infertebratau ynghyd â chynnydd o 1.4 gwaith yn nifer yr infertebratau, sy'n helpu i ddarparu porthiant i'r adar a'u cywion yn y gwanwyn a'r haf.</p>
EIP44 - Mapio llyngyr yr afu gan ddefnyddio eDNA i lywio datblygiad mesurau rheoli cynaliadwy	Mehefin 2022	<p>Nod y prosiect oedd ymchwilio i'r defnydd o fapiau risg heintiad i helpu i reoli llyngyr yr afu – parasit sy'n effeithio'n ddifrifol ar iechyd a lles anifeiliaid ac sy'n costio tua £23m y flwyddyn i ddiwydiant gwartheg y Deyrnas Unedig a thua £3 i £5 fesul dafad heintiedig.</p> <p>Bu grŵp o chwe ffermwr eidion a/neu ddefaid o gyrion Aberystwyth, sydd i gyd wedi cael problemau tebyg yn ymwneud â llyngyr yr afu, yn cymryd rhan yn y prosiect dwy flynedd hwn. Buont yn gweithio gydag IBERS a Phractis Milfeddygon Ystwyth i ymchwilio i weld a all mapio llyngyr yr afu gan ddefnyddio DNA amgylcheddol (eDNA) eu cynorthwyo i leihau lefelau llyngyr yr afu ar eu ffermydd. Gall y dechnoleg hon nodi presenoldeb malwod y llaid sydd wedi'u heintio â llyngyr yr afu drwy ganfod eu DNA mewn dŵr, sydd â'r potensial mwyaf i heintio da byw â pharasitiaid. Gan nad yw pob man gwlyb yn cynnwys malwod y llaid heintiedig, drwy wybod pa ardaloedd o gaeau sy'n peri risg, bydd modd lleihau cyswllt rhwng da byw a'r ardaloedd hynny drwy eu ffensio, neu drwy wella'r draeniad.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwnaeth y prosiect gadarnhau natur gymhleth heintiadau llyngyr yr afu a'r rwmn mewn da byw. Yn ogystal, cadarnhaodd y prosiect y gellid defnyddio samplu eDNA fel arf i nodi ardaloedd ar eu ffermydd sydd â risg uchel o llyngyr yr afu. Dylid defnyddio hyn ochr yn ochr â strategaethau eraill, megis cyfrif wyau mewn ysgarthion (FEC) a phrofion gwaed, dilyn cyngor milfeddygol, a thrin da byw yn fuan ar ôl eu cadw dan do, cyn eu troi allan ac ar ddechrau'r hydref, er mwyn helpu i reoli llyngyr yr afu yn gynaliadwy. Caiff ffermwyr eu cynghori i ddatblygu cynllun wedi'i deilwra i reoli llyngyr yr afu mewn ymgynghoriad â milfeddyg. Mae hyn yn sicrhau bod heintiadau llyngyr yr afu yn cael eu canfod a'u trin pan fo angen, gan ddefnyddio moddion llyngyr priodol. <p>Bydd y risg o llyngyr yr afu yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ac o fferm i fferm, ac efallai y bydd angen addasu amserlenni triniaeth yn rheolaidd. Gall dilyn cynllun rheoli llyngyr yr afu dan arweiniad milfeddyg gyfyngu ar ddatblygiad ymwrthedd trwy sicrhau nad yw tricloabendazole yn cael ei orddefnyddio mewn diadell trwy deilwra'r defnydd o foddion llyngyr eraill ar adegau priodol, a thrwy arwain triniaeth gwarantîn briodol ar gyfer anifeiliaid a brynir i mewn.</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
EIP45 - Gwella arferion rheoli'r fuches sugno drwy ganolbwyntio ar faeth a hylendid yn ystod y cyfnod lloia er mwyn gwella cynhyrchiant a lleihau'r defnydd o wrthfotigau	Mehefin 2022	<p>Bu ffermwyr eidion o Geredigion a Sir Gaerfyrddin yn rhan o'r prosiect dwy flynedd hwn, gan eu bod yn awyddus i wella maeth ac arferion rheoli eu buchesi sugno yn ystod o cyfnod lloia er mwyn gwella iechyd anifeiliaid a lleihau'r defnydd o wrthfotigau.</p> <p>Roedd y prosiect yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> fformiwleiddio dognau yn seiliedig ar broffiliau metabolaidd yn ogystal â dadansoddiad o fwyd a phorthiant gweithredu strategaethau i gynyddu ansawdd colostrwm ac amsugno creu strategaethau ar gyfer rheoli clefydau'n ataliol, gan gynnwys protocolau glanhau a hylendid, a oedd yn seiliedig ar ganlyniadau dadansoddi gwasarn, samplu ysgarthion, ac adroddiadau post-mortem dylunio fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch triniaethau gwrthfotig. <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> Amlygodd y prosiect pa mor allweddol yw'r ychydig oriau cyntaf yn syth ar ôl lloia i iechyd a goroesiad y fuwch a'r llo, gyda strategaethau rheoli adeg lloia yn canolbwyntio ar leihau effeithiau dystocia, sicrhau defnydd digonol o golostrwm, a rheoli amodau llety a'r amgylchedd. Mae arsylwi'r fuwch yn rheolaidd ac arsylwi'r llo yn rheolaidd yn ystod wythnos gyntaf bywyd y llo yr un mor bwysig o ran sicrhau bod y fuwch wedi gwella o'r esgoriad ac yn dangos ymddygiad mamol da, gan sicrhau hefyd bod y llo yn cael digon o laeth, ei fod yn egniol, ac nad yw'n agored i gael ei effeithio gan dywydd gwael. <p>Yn ogystal, mae monitro rheolaidd hefyd yn galluogi canfod symptomau clinigol cynnil clefyd yn gynnar, ac mae perthynas waith agos â milfeddyg y fferm hefyd yn hanfodol i sicrhau y gall y mesurau atal a thrin gorau gael eu rhoi ar waith.</p>

Prosiect	Dyddiad cwblhau	Crynodeb o'r prosiect
EIP46 - Gwella cynnyrch cnwd garddwriaethol â bio-ologsg gwellt y gweunydd a phridd yn seiliedig ar dail/gwlân defaid	Medi 2022	<p>Yn y prosiect dwy flynedd hwn a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2020 a mis Mehefin 2022, bu pedwar ffermwr/tyfwr garddwriaethol profiadol o sawl rhan o'r canolbarth a'r de yn treialu gwahanol newidiadau i bridd er mwyn canfod eu heffeithiau ar gynnyrch ac ansawdd sawl cnwd llysiâu.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Bio-ologsg gwellt y gweunydd 2. Gwasarn anifeiliaid wedi'i gyd-gompostio â gwlân dafad 3. Compost gwasarn anifeiliaid gyda bio-ologsg gwellt y gweunydd (20% gwlân, 80% tail) <p>Roedd y treialon yn cynnwys cynydu o radis, basil, corbwmpenni, indrawn a bresych, a chynhaliwyd 14 o arbrofion i bob un o'r ffurfiau ar dair cyfradd wahanol, i'w cymharu â lleiniau rheoli.</p> <p>Canlyniadau'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwnaeth bio-ologsg yn unig, wedi'i osod ar 10t/ha, gynyddu perfformiad y cnwd o 8.2%. • Gwnaeth compost bio-ologsg a gwlân, wedi'i osod ar 30t/ha, gynyddu perfformiad y cnwd o 14.8%. • Gwnaeth compost gwlân, wedi'i osod ar 30t/ha, leihau perfformiad y cnwd o 7%. <p>Dangosodd y canlyniadau yn y ddwy flynedd fod ychwanegu naill ai bio-ologsg neu gompost yn gwella'r cynnyrch yn sylweddol o gymharu â'r lleiniau rheoli. Yn yr ail flwyddyn, gwnaeth y defnydd uchaf o fio-ologsg, sef 40t/ha, achosi gwahaniaeth o 91% i'r cynnyrch.</p> <p>Roedd y gwahanol newidiadau i'r pridd yn dangos potensial mawr ac mae'n bosibl y gallent fod yn ffynhonnell wych o fewnbwn os a phan fyddant ar gael yn rhwydd ac yn fforddiadwy.</p>